# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 9 Ionawr 2013**
**Wednesday, 9 January 2013**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

26 Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

49 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Maes Awyr Caerdydd
Welsh Conservatives Debate: Cardiff Airport

82 Dadl Plaid Cymru: Yr Iaith Gymraeg
Plaid Cymru Debate: The Welsh Language

107 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Trydaneiddio Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru
Welsh Liberal Democrats Debate: The Electrification of the North Wales Coast Line

127 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

136 Dadl Fer: Sut y Mae Mynd â Busnes Cymru yn Rhyngwladol
Short Debate: How to take Welsh Business International


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
## Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

### Diwygiadau Lles a Chydraddoldeb

### Welfare Reforms and Equalities

***1. Vaughan Gething:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i effaith bosibl gweithredu diwygiadau lles arfaethedig Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yng Nghymru. OAQ(4)0200(FIN)*

***1. Vaughan Gething:*** *What consideration has the Minister given to the potential impact of the UK Government's proposed welfare reforms on equalities issues in Wales. OAQ(4)0200(FIN)*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** We have deep concerns about the adverse impacts of welfare reform on equalities in Wales. We are concerned that welfare reform, as a whole, will drive people into greater poverty, particularly those with protected characteristics.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennym bryderon mawr ynglŷn ag effeithiau andwyol y diwygiadau lles ar gydraddoldebau yng Nghymru. Rydym yn pryderu y bydd diwygiadau lles, at ei gilydd, yn peri i bobl fod mewn mwy o dlodi, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response, Minister. You will be aware from my question yesterday to the First Minister that approximately 48,000 people in Wales have been affected by the removal of the five-bedroom rate. Larger families will be disproportionately affected. Many of those families are from black, Asian and minority ethnic communities, many of them Somali and Yemeni families in my constituency. Has the Government undertaken any specific assessment of the impact of welfare reform on black and Asian families in Wales?

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'm cwestiwn ddoe i'r Prif Weinidog fod dileu'r gyfradd ar gyfer pum ystafell wely wedi effeithio ar tua 48,000 o bobl yng Nghymru. Bydd hyn yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd mwy o faint. Daw llawer o'r teuluoedd hynny o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac mae llawer ohonynt yn deuluoedd Somalïaidd a Yemenïaidd yn fy etholaeth. A yw'r Llywodraeth wedi cynnal unrhyw asesiad penodol o effaith diwygiadau lles ar deuluoedd du ac Asiaidd yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cardiff South and Penarth for that question. The Welsh Government is undertaking a comprehensive assessment of the impact of UK Government welfare reforms on Wales. Stage 1 of the research has identified, for example, a disproportionate negative impact of the welfare reforms on large families, as has stage 2. That will be published shortly. For example, the research suggests that families with two or more children could lose

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar Gymru. Mae cam 1 o'r gwaith ymchwil wedi nodi, er enghraifft, effaith negyddol anghymesur y diwygiadau lles ar deuluoedd mawr, fel y gwnaeth cam 2. Bwriedir cyhoeddi hwnnw'n fuan. Er enghraifft, awgryma'r gwaith ymchwil y gallai teuluoedd gyda dau neu fwy o blant

6% to 10% of their income. Stage 3, which is starting next month, will include an assessment of the impact on ethnic minority people.

golli 6% i 10% o'u hincwm. Bydd Cam 3, sy'n dechrau fis nesaf, yn cynnwys asesiad o'r effaith ar bobl o leiafrifoedd ethnig.

**Mohammad Asghar:** Under Labour, the cost of our welfare system spiralled out of control, with the welfare bill rising by 60%, costing every household in Britain an extra £3,000 a year. Does the Minister agree that support needs to be targeted at people in real need and that the welfare system needs to be fair to the working people who pay for it?

**Mohammad Asghar:** O dan Lafur, aeth cost ein system les allan o reolaeth, gyda'r bil lles yn codi 60%, gan gostio £3,000 ychwanegol y flwyddyn i bob cartref ym Mhrydain. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen i gymorth gael ei dargedu at bobl sydd mewn gwir angen a bod angen i'r system les fod yn deg i'r bobl sy'n gweithio ac sy'n talu amdani?

**Jane Hutt:** I am sure that the Member will be very concerned about yesterday's vote in Westminster, which will result in more than 8,200 families losing their child benefit, for example, in south Wales. This will be a year of considerable benefit cuts, affecting millions of people on a wide range of incomes. Two thirds of those affected are people who are working; in fact, the majority of those who are going to lose—60%—are in work. There is particular concern about the disproportionate effect that this will have on children and families. That was expressed in a letter from the Children's Society, Citizens Advice and Barnardo's this weekend, stating that the benefits cap is plain wrong.

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn bryderus iawn am bleidlais ddoe yn San Steffan, a fydd yn peri i fwy na 8,200 o deuluoedd golli eu budd-dal plant, er enghraifft, yn ne Cymru. Bydd hon yn flwyddyn o doriadau sylweddol mewn budd-daliadau, a fydd yn effeithio ar filiynau o bobl ar ystod eang o incymau. Mae dwy ran o dair o'r rhai yr effeithir arnynt yn bobl sy'n gweithio; yn wir, mae'r rhan fwyaf o'r rhai a fydd ar eu colled—60%—yn gweithio. Mae pryder arbennig am yr effaith anghymesur a gaiff hyn ar blant a theuluoedd. Mynegwyd hynny mewn llythyr gan Gymdeithas y Plant, Cyngor ar Bopeth a Barnardo's y penwythnos yma, yn datgan bod y cap ar fudd-daliadau yn hollol anghywir.

**Jocelyn Davies:** I am sure that you will be aware of recent concerns that benefit cuts may result in an increase in the number of children taken into care. What preparations are you making should that materialise—in the name of fairness, apparently, according to the Members opposite? Will you put together a social protection action plan to outline the steps that you will take to protect the vulnerable from this consistent attack on the welfare system?

**Jocelyn Davies:** Byddwch yn ymwybodol, mae'n siŵr gennyf, o bryderon yn ddiweddar y gallai toriadau mewn budd-daliadau arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal. Pa baratoadau yr ydych yn eu gwneud os digwydd hynny—er tegwch, mae'n debyg, yn ôl yr Aelodau gyferbyn? A fyddwch yn llunio cynllun gweithredu ar ddiogelwch cymdeithasol i amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag yr ymosodiad cyson hwn ar y system les?

**Jane Hutt:** Clearly, looked-after children and care leavers have to be, and are, a key priority for this Government and for local government. Indeed, looked-after children are at the heart of our sustainable social services programme, which I am sure would very much reflect that action plan that you seek. It is quite clear that the pressures on families mean that the work that we are doing to

**Jane Hutt:** Yn amlwg, rhaid i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon ac i lywodraeth leol, ac maent yn flaenoriaeth allweddol iddynt. Yn wir, mae plant sy'n derbyn gofal wrth wraidd ein rhaglen gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, ac rwy'n siŵr y byddai'n adlewyrchu i raddau helaeth y cynllun gweithredu yr ydych yn

support families to prevent children from being taken into care is key and that includes the increase in spending that we are making, which was announced yesterday. I am very pleased that the local government revenue settlement, which amounts to an extra £35 million for social services, was supported by Plaid Cymru.

gofyn amdano. Mae'n amlwg iawn bod y pwysau ar deuluoedd yn golygu bod y gwaith a wnawn i gefnogi teuluoedd i atal plant rhag mynd yn blant sy'n derbyn gofal yn allweddol ac mae hynny'n cynnwys y cynnydd yn yr hyn a wariwn, a gyhoeddwyd ddoe. Rwy'n falch iawn i Blaid Cymru gefnogi setliad refeniw llywodraeth leol, sy'n cyfateb i £35 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

**Joyce Watson:** Let us get real. These reforms are a huge step backwards for gender equality, and are an attack on women. Women will be disproportionately affected, as they get 86% of child tax credit and 75% of working tax credit. Minister, do we know how many working women in Wales will be poorer because of these changes, and do we know how hard single mums will be hit by the triple squeeze on tax credits, child benefit and maternity pay? Regarding the introduction of the universal credit, do you share my concerns that wrapping up everything into a single household payment will be a major step backwards for equality in the home?

**Joyce Watson:** Gadewch inni fod o ddifrif. Mae'r diwygiadau hyn yn gam mawr yn ôl o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac yn ymosodiad ar fenywod. Byddant yn cael effaith anghymesur ar fenywod, gan mai menywod sy'n cael 86% o gredyd treth plant a 75% o gredyd treth gwaith. Weinidog, a wyddom faint o fenywod sy'n gweithio yng Nghymru a fydd yn dlotach oherwydd y newidiadau hyn, ac a wyddom i ba raddau y bydd y wasgfa driphlyg ar gredydau treth, budd-dal plant a thâl mamolaeth yn effeithio ar famau sengl? O ran cyflwyno'r credyd cynhwysol, a ydych yn rhannu fy mhryderon y bydd cynnwys popeth o fewn taliad sengl fesul cartref yn gam mawr yn ôl o ran cydraddoldeb yn y cartref?

**Jane Hutt:** As I have said, women are bearing a disproportionate burden of the cuts: 81% of the cuts to tax credits and benefits will affect women. It is quite clear that the assessment that we are doing as a Government will steer us, and will ensure that we deliver on our strategic equality plan, as well as on our tackling poverty action plan, in this regard.

**Jane Hutt:** Fel y dywedais, mae menywod yn dwyn baich anghymesur o'r toriadau: bydd 81% o'r toriadau i gredydau treth a budd-daliadau yn effeithio ar fenywod. Mae'n eithaf clir y bydd yr asesiad yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth yn ein llywio, ac y bydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni o ran ein cynllun cydraddoldeb strategol, yn ogystal â'n cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi, yn hyn o beth.

## Diwygiadau Lles a'r Gyllideb

## Welfare Reforms and the Budget

***2. Mick Antoniw:*** *Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i effaith diwygiadau lles arfaethedig Llywodraeth y DU wrth osod cyllideb Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0199(FIN)*

***2. Mick Antoniw:*** *What consideration did the Minister give to the impact of the UK Government's proposed welfare reforms when setting the Welsh Government's budget. OAQ(4)0199(FIN)*

**Jane Hutt:** The budget for growth and jobs aims to mitigate some of the worst effects of the UK Government's welfare benefit cuts and austerity budget by ensuring that we prioritise the needs of the most vulnerable, investing in early years, skills and apprenticeships.

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb ar gyfer twf a swyddi yn anelu at liniaru rhai o effeithiau gwaethaf toriadau Llywodraeth y DU o ran budd-daliadau lles a'i chyllideb galedi drwy sicrhau ein bod yn blaenoriaethu anghenion y bobl fwyaf agored i niwed, buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, sgiliau a

phrentisiaethau.

**Mick Antoniw:** The Bevan Foundation today indicated that about £100 million a year will be lost to our communities as a result of some of the cuts that are already under way. It is clear that the demand in respect of support with regard to health, family break-up and debt will be even worse than our worst fears six months ago. Does the Minister consider that there may be a need for a review of the financial support of those elements of services that we support, to take account of those particular impacts?

**Mick Antoniw:** Nododd Sefydliad Bevan heddiw y caiff tua £100 miliwn y flwyddyn ei golli i'n cymunedau o ganlyniad i rai o'r toriadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Mae'n amlwg y bydd y galw am gymorth o ran iechyd, teuluoedd yn chwalu a dyledion hyd yn oed yn waeth nag a ofnwyd chwe mis yn ôl. A yw'r Gweinidog yn ystyried y gall fod angen adolygu cymorth ariannol yr elfennau hynny o wasanaethau yr ydym yn eu cefnogi, er mwyn ystyried yr effeithiau penodol hynny?

**Jane Hutt:** We have taken this into account in terms of our budget for growth and jobs. I have already mentioned our support for local government, with a 1.5% uplift for next year and protection for social services. Doubling the number of children who will benefit from Flying Start will make a major contribution, as will our decision to increase frontline spending in schools. Also, our £160 million a year of investment in Supporting People, which helps support people in housing-related support, is critical in terms of our contribution, supporting over 50,000 people a year.

**Jane Hutt:** Rydym wedi ystyried hyn o ran ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi. Rwyf eisoes wedi sôn am ein cefnogaeth i lywodraeth leol, gyda chynnydd o 1.5% ar gyfer y flwyddyn nesaf a diogelwch ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd dyblu nifer y plant a fydd yn elwa ar Dechrau'n Deg yn gwneud cyfraniad mawr, felly hefyd ein penderfyniad i gynyddu gwariant rheng flaen mewn ysgolion. Hefyd, mae ein buddsoddiad o £160 miliwn y flwyddyn mewn Cefnogi Pobl, sy'n helpu i gefnogi pobl sy'n cael cymorth sy'n gysylltiedig â thai, yn hanfodol o ran ein cyfraniad, gan gefnogi dros 50,000 o bobl y flwyddyn.

**Mark Isherwood:** In November, I met the Royal National Institute of Blind People Cymru's welfare rights team to discuss its specialist welfare rights and signposting service in north Wales for disabled and sensory-impaired people. It told me that every £1 that is spent on welfare advice brings £10 in benefits. I know that your colleague, Carl Sargeant, has been carrying out a review of welfare advice services in Wales. What action are you taking, as the Minister with responsibility for equalities, to ensure that specialist welfare advice services, such as those that are provided by RNIB Cymru, will continue to ensure that people are able to access the financial support that they need to live a healthy, independent life?

**Mark Isherwood:** Ym mis Tachwedd, cyfarfûm â thîm hawliau lles Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru i drafod ei hawliau lles arbenigol a'i wasanaeth cyfeirio yn y gogledd ar gyfer pobl anabl a phobl â nam ar eu synhwyrau. Dywedodd wrthyf fod pob £1 sy'n cael ei gwario ar gyngor lles yn dwyn £10 o fudd-daliadau. Gwn fod eich cyd-Weinidog, Carl Sargeant, wedi bod yn cynnal adolygiad o wasanaethau cyngor lles yng Nghymru. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, i sicrhau bod gwasanaethau cyngor lles arbenigol, fel y rhai a ddarperir gan RNIB Cymru, yn parhau i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt i fyw bywyd iach ac annibynnol?

**Jane Hutt:** Clearly, we are not only undertaking a review of our advice services. I have ensured that funding is available for that review, to ensure that those important specialist services that are provided, in

**Jane Hutt:** Yn amlwg, rydym nid yn unig yn cynnal adolygiad o'n gwasanaethau cynghori. Rwyf wedi sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer yr adolygiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod modd cefnogi'r gwasanaethau arbenigol

particular, such as the ones that are provided by the RNIB, can be supported. However, the message needs to go back to your Government—as the Bevan Foundation made clear—that the impact of the welfare benefits cuts, not only on vulnerable families, but also on those people with protected characteristics, will be devastating.

pwysig hynny a ddarperir, yn arbennig, fel y rhai a ddarperir gan RNIB. Fodd bynnag, mae angen cyfleu'r neges i'ch Llywodraeth—fel yr eglurodd Sefydliad Bevan—y bydd effaith y toriadau mewn budd-daliadau lles, nid yn unig ar deuluoedd sy'n agored i niwed, ond hefyd ar y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig, yn andwyol iawn.

**Alun Ffred Jones:** Oherwydd newidiadau i'r drefn fudd-daliadau yn San Steffan, bydd 8,500 o drigolion Gwynedd yn talu rhywfaint at eu treth cyngor am y tro cyntaf, a bydd 1,400 o bobl yn colli cyfran o'u budd-dal tai. Pam na wnaeth y Llywodraeth Lafur yng Nghymru geisio helpu'r bobl hyn yn uniongyrchol?

**Alun Ffred Jones:** As a result of changes to the benefits system in Westminster, 8,500 residents of Gwynedd will contribute something towards their council tax for the first time, and 1,400 will lose a percentage of their housing benefit. Why did this Labour Government here in Wales not try to assist those people directly?

**Jane Hutt:** We made a decision based on the fact that we were being cut by 10% by the UK Government in the transfer of council tax benefit. We have serious concerns about the impact that these changes will have in Wales, particularly on those with the lowest incomes. Clearly, the important help and assistance that I am giving to the Minister for Local Government and Communities to help local authorities prepare for this will, of course, include preparing for those who are most vulnerable who will be affected by council tax benefit reductions. We must also recognise that it is the UK Government that is making these cuts and we are doing what we can to protect people, particularly following through the pension support, which is a Welsh Government commitment and, indeed, was a One Wales Government commitment.

**Jane Hutt:** Gwnaethom benderfyniad yn seiliedig ar y ffaith bod Llywodraeth y DU wrth drosglwyddo budd-dal y dreth gyngor yn ei dorri 10%. Mae gennym bryderon mawr am effaith y newidiadau hyn yng Nghymru, yn enwedig ar y rhai sydd â'r incwm isaf. Yn amlwg, bydd y cymorth pwysig yr wyf yn ei roi i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i helpu awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer hyn, wrth gwrs, yn cynnwys paratoi ar gyfer y rhai sydd fwyaf agored i niwed y bydd gostyngiadau ym mudd-daliad y dreth gyngor yn effeithio arnynt. Rhaid inni hefyd gydnabod mai Llywodraeth y DU sy'n gwneud y toriadau hyn ac rydym yn gwneud yr hyn a allwn i ddiogelu pobl, yn enwedig o ran y cymorth pensiwn, sy'n un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ac, yn wir, a oedd yn un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru'n Un.

**Rebecca Evans:** The UK Government released the equality impact assessment of its Welfare Benefits Up-rating Bill shortly before MPs started debating the legislation yesterday. The assessment shows that, contrary to the UK Government's reassurances, households with a disabled person are more likely than non-disabled households to lose out financially. How will the Welsh Government allocate resources to ensure that the effects of the UK Government's disgraceful attack on disabled people are mitigated?

**Rebecca Evans:** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr asesiad o effaith ei Fil Uwchraddio Budd-daliadau Lles ar gydraddoldeb ychydig cyn i ASau ddechrau trafod y ddeddfwriaeth ddoe. Mae'r asesiad yn dangos, yn groes i sicrwydd Llywodraeth y DU, fod cartrefi gyda pherson anabl yn fwy tebygol na chartrefi heb berson anabl o fod ar eu colled. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu adnoddau i sicrhau bod effeithiau ymosodiad gwarthus Llywodraeth y DU ar bobl anabl yn cael eu lliniaru?

**Jane Hutt:** Clearly, the support that we are

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae'r cymorth yr

giving through the uplift for social services through the local government revenue settlement is key as far as this is concerned. Also, our frontline spend in terms of local government support will have a huge impact with regard to the support that local authorities can give to the most vulnerable. We also see that integrated family support services are also a key intervention in terms of teams who will work with those who are most at risk. Again, this is an example that clearly shows how the most vulnerable in Wales will be affected adversely by the welfare benefit cuts and the cap on the inflation uplift that went through yesterday.

ydym yn ei roi drwy'r cynnydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol drwy setliad refeniw llywodraeth leol yn allweddol yn hyn o beth. Hefyd, bydd ein gwariant rheng flaen o ran cymorth llywodraeth leol yn cael effaith enfawr o ran y cymorth y gall awdurdodau lleol ei roi i'r rhai mwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn gweld bod gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd hefyd yn ymyrraeth allweddol o ran timau a fydd yn gweithio gyda'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. Unwaith eto, mae hon yn enghraifft sy'n dangos yn glir sut y bydd y toriadau mewn budd-daliadau lles a'r cap ar y cynnydd mewn chwyddiant a basiwyd ddoe yn effeithio'n andwyol ar y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***3. Paul Davies***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer 2013. OAQ(4)0187(FIN)*

***3. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for 2013. OAQ(4)0187(FIN)*

***11. Elin Jones:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y flwyddyn nesaf. OAQ(4)0190(FIN)*

***11. Elin Jones:*** *What are the Minister's priorities for the forthcoming year. OAQ(4)0190(FIN)*

**Jane Hutt:** Our budget for growth and jobs is supporting the economy, creating jobs and providing vital infrastructure investment.

**Jane Hutt:** Mae ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi yn cefnogi'r economi, yn creu swyddi ac yn darparu buddsoddiad hanfodol mewn seilwaith.

**Paul Davies:** Thank you for that answer, Minister. I am sure that setting out a positive vision for disabled people in Wales and promoting an inclusive society is a priority for the Welsh Government. I recently met representatives of Pembrokeshire People First—I declare an interest as I am its president—which does a tremendous job in supporting people with learning disabilities. Unfortunately, its current statutory funding from the Welsh Government advocacy scheme grant is reducing by 25% per year and will end altogether at the end of this year. Given this cut, can the Minister tell us, in her role as Minister for equalities, and as Finance Minister, what support the Welsh Government has put in place for organisations such as Pembrokeshire People First to ensure that groups that support vulnerable people can continue to carry on such valuable work?

**Paul Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n siŵr bod amlinellu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer pobl anabl yng Nghymru a hyrwyddo cymdeithas gynhwysol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chynrychiolwyr Pembrokeshire People First—a datganaf fuddiant gan mai fi yw'r llywydd—sy'n gwneud gwaith aruthrol yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu. Yn anffodus, mae ei chyllid statudol presennol o grant cynllun eiriolaeth llywodraeth Cymru yn gostwng 25% y flwyddyn ac yn dod i ben yn gyfan gwbl ar ddiwedd y flwyddyn hon. O ystyried y toriad hwn, a all y Gweinidog ddweud wrthym, yn ei rôl fel y Gweinidog Cydraddoldeb, ac fel y Gweinidog Cyllid, pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo ar gyfer sefydliadau fel Pembrokeshire People First i sicrhau bod grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i

niwed yn gallu parhau i gyflawni gwaith mor werthfawr?

**Jane Hutt:** I think we can see forthcoming support for our budget on this side of the Chamber from the finance spokesperson for the Welsh Conservatives because it is quite clear that this Welsh Government is standing up for vulnerable people and standing up for people like those in Pembrokeshire People First. I happen to be the president of Vale People First, so we share that role. What is important is that the local government settlement, which, of course, went through yesterday without your support, included a 1.5% uplift for next year, including £35 million for social services. You voted against that uplift.

**Jane Hutt:** Credaf y gallwn weld cefnogaeth barod i'n cyllideb ar yr ochr hon i'r Siambr gan llefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig am ei bod yn hollol amlwg bod Llywodraeth Cymru yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac yn amddiffyn pobl fel y rhai yn Pembrokeshire People First. Fel mae'n digwydd, fi yw llywydd Vale People First, felly rydym yn rhannu'r rôl honno. Yr hyn sy'n bwysig yw bod setliad llywodraeth leol, a basiwyd ddoe, wrth gwrs, heb eich cefnogaeth, yn cynnwys codiad o 1.5% ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys £35 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaethoch bleidleisio yn erbyn y codiad hwnnw.

**Elin Jones:** Minister, in 2013, if an NHS hospital service is terminated in Wales and your budget is used to commission that service from a hospital in England, would you expect that decision to be subject to a full cost-benefit analysis and would you expect that decision to be taken by a Welsh Minister not a local health board?

**Elin Jones:** Weinidog, yn 2013, os yw gwasanaeth ysbyty'r GIG yn cael ei derfynu yng Nghymru a bod eich cyllideb yn cael ei defnyddio i gomisiynu'r gwasanaeth hwnnw gan ysbyty yn Lloegr, a fyddech yn disgwyl i'r penderfyniad hwnnw fod yn destun dadansoddiad llawn o gost a budd ac a fyddech yn disgwyl i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud gan un o Weinidogion Cymru ac nid gan fwrdd iechyd lleol?

**Jane Hutt:** Clearly, this is something that we need to look at very carefully. The Minister for Health and Social Services is aware of the impacts of these changes and we would hope and expect that it would be in Wales that the decisions would be made in terms of the provision of those services.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni ei ystyried yn ofalus iawn. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o effeithiau'r newidiadau hyn a byddem yn gobeithio ac yn disgwyl mai yng Nghymru y byddai'r penderfyniadau yn cael eu gwneud o ran darparu'r gwasanaethau hynny.

**Christine Chapman:** Minister, I know that one of the priorities for this Government is investment in schools, and I was very pleased that you visited Cwm Bach Church in Wales Primary School in my constituency, which is benefiting from £6.7 million of investment.

**Christine Chapman:** Weinidog, gwn mai un o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon yw buddsoddi mewn ysgolion, ac roeddwn yn falch eich bod wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Cwm Bach yr Eglwys yng Nghymru yn fy etholaeth i, sy'n cael £6.7 miliwn o fuddsoddiad.

1.45 p.m.

1.45 p.m.

The project has helped to create jobs and apprenticeship opportunities for local people and businesses, as a result of 75% of sub-contracts being awarded locally. This is very

Mae'r prosiect wedi helpu i greu swyddi a chyfleoedd prentisiaeth i bobl a busnesau lleol, o ganlyniad i 75% o'r is-gontractau yn cael eu dyfarnu yn lleol. Mae hyn i'w

welcome, but I understand that some small businesses are not always aware of the public sector contracts that are available. What is the Welsh Government doing to support small businesses in accessing local procurement opportunities?

groesawu'n fawr, ond caf ar ddeall nad yw rhai busnesau bach bob amser yn ymwybodol o gontractau'r sector cyhoeddus sydd ar gael. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu busnesau bach i fanteisio ar gyfleoedd caffael lleol?

**Jane Hutt:** I was pleased to visit your constituency, the Cynon valley, and to see the work that has been done at Cwmbach Junior School, which benefitted from £6.7 million investment. All major public sector organisations must advertise their contract opportunities via Sell2Wales. Nearly £19 billion of contract opportunities have been advertised via this route, since the website was launched in 2004. The website is also being accessed by small businesses that are looking for procurement opportunities.

**Jane Hutt:** Roeddwn yn falch o ymweld â'ch etholaeth, Cwm Cynon, a gweld y gwaith sydd wedi'i wneud yn Ysgol Iau Cwmbach, a gafodd fuddsoddiad o £6.7 miliwn. Rhaid i bob sefydliad mawr yn y sector cyhoeddus hysbysebu eu cyfleoedd i ennill contract drwy GwerthwchiGymru. Mae contractau gwerth bron £19 biliwn wedi cael eu hysbysebu drwy'r llwybr hwn, ers lansio'r wefan yn 2004. Mae'r wefan hefyd yn cael ei defnyddio gan fusnesau bach sy'n chwilio am gyfleoedd caffael.

**Antoinette Sandbach:** Minister, last year I raised with you the issue of the way in which north Wales was being overlooked in your Government's capital spending, in that it is receiving just 13% of the spending from the biggest 25 projects, despite having 20% of the population. Can you confirm that your Government will address this shortfall during the coming year? Are you prepared to consider regularly publishing capital spend by region figures, so that all of Wales can benefit from a fairer share of capital spending?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, soniais y llynedd am y modd y mae'r gogledd yn cael ei hanwybyddu yng ngwariant cyfalaf eich Llywodraeth, yn yr ystyr nad yw ond yn cael 13% o'r gwariant o'r 25 prosiect mwyaf, er bod 20% o'r boblogaeth yn byw yno. A allwch gadarnhau y bydd eich Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ystod y flwyddyn i ddod? A ydych yn barod i ystyried cyhoeddi gwariant cyfalaf yn rheolaidd yn ôl ffigurau rhanbarthau, fel y gall Cymru gyfan gael cyfran decach o wariant cyfalaf?

**Jane Hutt:** The Wales infrastructure investment plan clearly demonstrates the Welsh Government's commitment to supporting growth and jobs with sectoral priorities. In fact, on 4 December, the Government announced initiatives on schools and roads across Wales, including north Wales, and in terms of the local government borrowing initiative, this includes the highways improvement initiative. If you look at the £231.7 million infrastructure investment plan allocated from capital reserves, you will see that it includes a contribution for north Wales. Therefore, north Wales is benefitting, and I know that the Minister with responsibility for transport will be glad to hear me mention again the Conwy tunnel and the A55 in that respect.

**Jane Hutt:** Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi twf a swyddi gyda blaenoriaethau sectoraidd. Yn wir, ar 4 Rhagfyr, cyhoeddodd y Llywodraeth fentrau ar ysgolion a ffyrdd ledled Cymru, gan gynnwys y gogledd, ac o ran y fenter benthyca llywodraeth leol, mae hyn yn cynnwys y fenter gwella priffyrdd. Os ystyriwch y cynllun buddsoddi mewn seilwaith gwerth £231.7 miliwn a ddyrennir o gronfeydd cyfalaf wrth gefn, fe welwch ei fod yn cynnwys cyfraniad i'r gogledd. Felly, mae'r gogledd yn elwa, a gwn y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth yn falch o'm clywed yn sôn eto am dwnnel Conwy a'r A55 yn hynny o beth.

**Simon Thomas:** Weinidog, rwy'n gobeithio ei fod yn flaenoriaeth i chi dros y flwyddyn

**Simon Thomas:** Minister, I hope that it is a priority of yours over the next year to do

nesaf i wneud beth y medrwch, fel y Gweinidog Cyllid, i hybu'r economi yng Nghymru. I'r perwyl hwnnw, a fedrwch chi gadarnhau faint yn union o gyllid cyfalaf yr ydych yn disgwyl ei dderbyn yn y flwyddyn nesaf, o ganlyniad i ddatganiad yr hydref gan y Canghellor yn Llundain? Sut fyddwch chi'n gwario'r cyllid cyfalaf ychwanegol hwnnw ac, yn arbennig, sut fyddwch yn hybu caffael lleol drwy arferion y Llywodraeth?

what you can, as the Minister for Finance, to promote the Welsh economy. To that end, could you confirm exactly how much capital funding you expect to receive in the next year, as a result of the autumn statement by the Chancellor in London? How will you spend that additional capital funding and, specifically, how will you promote local procurement through Government practice?

**Jane Hutt:** The consequentials are important in terms of the autumn statement announcement in December. Other consequentials will go into our capital reserves and will be allocated in accordance with our Wales infrastructure investment plan to boost the economy and jobs and growth.

**Jane Hutt:** Mae'r symiau canlyniadol yn bwysig o ran cyhoeddiad datganiad yr hydref ym mis Rhagfyr. Daw symiau canlyniadol eraill i'n cronfeydd cyfalaf wrth gefn a byddant yn cael eu dyrannu yn unol â'n cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i roi hwb i'r economi a swyddi a thwf.

**Aled Roberts:** Weinidog, eleni, trosglwyddwyd rhyw £32 miliwn o gyllid cyfalaf er mwyn ymdopi â diffygion yn y byrddau iechyd lleol. Rwy'n cydnabod mai cyfrifoldeb y Gweinidogion unigol yw hyn, ond a gredwch fod trosglwyddo cyllid cyfalaf yn y modd hwn yn gynaliadwy wrth inni symud ymlaen?

**Aled Roberts:** Minister, this year, some £32 million of capital funding was transferred to cope with the deficits within the local health boards. I acknowledge that this is the responsibility of individual Ministers, but do you believe that it is sustainable for capital funding to be transferred in this way as we move forward?

**Jane Hutt:** This was an important additional £82 million that was announced by the Minister for Health and Social Services, which she allocated from her resources, within her own budget, to meet the needs of the health service. That was important news in terms of delivering healthcare in Wales.

**Jane Hutt:** Roedd y swm o £82 miliwn yn swm ychwanegol pwysig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddyrannodd o'i hadnoddau, o fewn ei chyllideb ei hun, i ddiwallu anghenion y gwasanaeth iechyd. Roedd hynny'n newyddion pwysig o ran darparu gofal iechyd yng Nghymru.

### Cyfle Cyfartal i Fenywod Ifanc

### Equality of Opportunity for Young Women

***4. Lindsay Whittle:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfle cyfartal i fenywod ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0198(FIN)*

***4. Lindsay Whittle:*** *What is the Welsh Government doing to improve equality of opportunity for young women in Wales. OAQ(4)0198(FIN)*

**Jane Hutt:** Our strategic equality plan details the actions that we are taking to remove barriers and improve equality for all protected groups. For example, over 40% of successful applications for Jobs Growth Wales are from young women.

**Jane Hutt:** Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi manylion y camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i ddileu rhwystrau a gwella cydraddoldeb ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig. Er enghraifft, daw dros 40% o'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer Twf Swyddi Cymru gan fenywod ifanc.

**Lindsay Whittle:** I hope you will allow me to preface my follow-up question with a

**Lindsay Whittle:** Gobeithiaf y byddwch yn caniatáu imi ddechrau fy nghwestiwn dilynol

welcome to Keith Davies, who has returned to this Chamber following his illness.

drwy groesawu Keith Davies, sydd wedi dychwelyd i'r Siambr hon ar ôl salwch.

My concern with this issue is on a point that was made by my colleague Simon Thomas during the debate on youth unemployment and apprenticeships just before the recess. With your remit on equality issues, how can you ensure that young women are not discriminated against by training agencies, which steer them away from traditionally male apprenticeships in such fields as engineering, science and technology into lower-paid apprenticeships, such as those in social care and hairdressing—with the greatest respect to social care and hairdressing. The organisation Chwarae Teg—and I know, Minister, that you are a long-standing, stalwart supporter of that organisation—has produced an interesting briefing paper on this issue, and it is a must-read document.

Yr hyn sy'n fy mhryderu o ran y mater hwn yw pwynt a wnaed gan fy nghyd-aelod Simon Thomas yn ystod y ddadl ar ddiweithdra ymhlith ieuenctid a phrentisiaethau yn union cyn y toriad. Gyda'ch cylch gwaith ar faterion cydraddoldeb, sut y gallwch sicrhau nad yw asiantaethau hyfforddi yn gwahaniaethu yn erbyn menywog ifanc, drwy eu tywys oddi wrth brentisiaethau traddodiadol dynion mewn meysydd fel peirianneg, gwyddoniaeth a thechnoleg i brentisiaethau sydd â chyflogau is, fel y rhai mewn gofal cymdeithasol a thrin gwallt—gyda'r parch mwyaf at ofal cymdeithasol a thrin gwallt. Mae'r sefydliad Chwarae Teg—a gwn, Weinidog, eich bod wedi bod yn gefnogwr brwd o'r sefydliad hwnnw ers amser—wedi paratoi papur briffio diddorol ar y mater hwn, ac mae'n ddogfen y mae'n rhaid ei darllen.

**Jane Hutt:** I am grateful to Lindsay Whittle for his commitment to tackling gender stereotyping and inequality. I think that he will be pleased with the statistic that I just gave, namely that over 40% of successful applications for Jobs Growth Wales have been from women. I would certainly be keen to look at the gender breakdown, in terms of job sectors and allocation. I congratulate Chwarae Teg for the work that it is doing, which is funded by the Welsh Government.

**Jane Hutt:** Rwy'n ddiolchgar i Lindsay Whittle am ei ymrwymiad i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Credaf y bydd yn falch gyda'r ystadegyn a roddais, sef bod dros 40% o'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer Twf Swyddi Cymru wedi'u cyflwyno gan fenywod. Byddwn yn sicr yn awyddus i edrych ar y dadansoddiad yn ôl rhyw, o ran sectorau swyddi a dyrannu swyddi. Rwy'n llongyfarch Chwarae Teg am y gwaith y mae'n ei wneud, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**Rebecca Evans:** Minister, the Welsh Government's figures show that over 85% of young mothers under 21 in Wales are not in education, employment or training, and charities working with young women tell us that a lack of affordable childcare is a key barrier to them. How is the Welsh Government working to remove that barrier to give young mothers equal access to education, employment and training?

**Rebecca Evans:** Weinidog, mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos nad yw dros 85% o famau ifanc o dan 21 yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae elusennau sy'n gweithio gyda menywod ifanc yn dweud wrthym fod diffyg gofal plant fforddiadwy yn rhwystr allweddol iddynt. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddileu'r rhwystr hwnnw i roi cyfle cyfartal i famau ifanc fanteisio ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant?

**Jane Hutt:** Lack of childcare has been identified as a major barrier to young women, mothers and lone parents returning to work. That is why the pioneering Flying Start

**Jane Hutt:** Mae diffyg gofal plant wedi ei nodi fel rhwystr mawr i fenywod ifanc, mamau ac unig rieni sy'n dychwelyd i'r gwaith. Dyna pam bod menter arloesol

initiative is key, in terms of providing free childcare; of course, we are doubling that provision. I would also draw the Member's attention to the out-of-school childcare grant provided by the Welsh Government, which is supporting local authorities, working with partners, to deliver out-of-school childcare. It is a key objective of our strategic equality plan to improve access to childcare.

Dechrau'n Deg yn allweddol, o ran darparu gofal plant am ddim; wrth gwrs, rydym yn dyblu'r ddarpariaeth honno. Hoffwn hefyd dynnu sylw'r Aelodau at y grant gofal plant y tu allan i'r ysgol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi awdurdodau lleol, gan weithio gyda phartneriaid, i ddarparu gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae'n un o amcanion allweddol ein cynllun cydraddoldeb strategol i wella mynediad i ofal plant.

**Mohammad Asghar:** Minister, the Equality and Human Rights Commission has highlighted the lack of women in positions of power and influence in Wales. Following the local election last May, only 27% of all councillors in Wales are women. Since the Welsh Government has made diversity in public appointments an equality objective, will the Minister provide an update on her plans to appoint more women—particularly young women—to public bodies in Wales, and to encourage more women to stand for election for local authorities in future?

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi tynnu sylw at y prinder menywod mewn swyddi pwerus a dylanwadol yng Nghymru. Yn dilyn yr etholiad lleol fis Mai diwethaf, dim ond 27% o'r holl gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yn un o'i hamcanion cydraddoldeb, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau i benodi mwy o fenywod—yn arbennig menywod ifanc—i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i annog mwy o fenywod i sefyll etholiad ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** I am always pleased with the support given by the Member for the Equality and Human Rights Commission, although, unfortunately, the UK Government has sought to cut its services, staff and powers. The Welsh Government is working to ensure that we get improved representation of women in public bodies. Indeed, this is a subject that was greatly promoted by the Presiding Officer at a recent seminar in Tŷ Hywel. I also welcome the Electoral Reform Society's work on local government, which shows that political parties have a long way to go in ensuring that women have an equal voice in local government.

**Jane Hutt:** Rwyf bob amser yn falch o gefnogaeth yr Aelod i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er, yn anffodus, mae Llywodraeth y DU wedi ceisio torri ei wasanaethau, ei staff a'i bwerau. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau ein bod yn cael gwell cynrychiolaeth o fenywod mewn cyrff cyhoeddus. Yn wir, mae hwn yn bwnc a hyrwyddwyd yn fawr gan y Llywydd mewn seminar diweddar yn Nhŷ Hywel. Croesawaf hefyd waith y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ar lywodraeth leol, sy'n dangos bod gan bleidiau gwleidyddol dipyn o ffordd i fynd cyn sicrhau bod menywod yn cael llais cyfartal mewn llywodraeth leol.

### Cynllun Gwarantau'r DU

### UK Guarantees Scheme

***5. Julie Morgan:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod prosiectau seilwaith yng Nghymru yn gallu elwa o Gynllun Gwarantau'r DU. OAQ(4)0195(FIN)*

***5. Julie Morgan:*** *What steps has the Welsh Government taken to ensure that Welsh infrastructure projects can benefit from the UK Guarantees Scheme. OAQ(4)0195(FIN)*

**Jane Hutt:** The Welsh Government is working with the UK Government

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r adrannau o Lywodraeth y

departments responsible for the infrastructure and housing guarantees, identifying potential projects within Wales that could benefit from these UK schemes.

DU sy'n gyfrifol am y gwarantau seilwaith a thai, gan nodi prosiectau posibl yng Nghymru a allai elwa o'r cynlluniau hyn i'r DU.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that response. Could the Minister estimate how much of the £50 billion in funding is likely to come to Wales, and are there any major infrastructure projects that might benefit from this money?

**Julie Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A allai'r Gweinidog amcangyfrif faint o'r £50 biliwn mewn cyllid sy'n debygol o ddod i Gymru, ac a oes unrhyw brosiectau seilwaith mawr a allai elwa o'r arian hwn?

**Jane Hutt:** I thank Julie Morgan for that question. This is a UK Government scheme and the distribution of funding will be decided by the UK Government, based on the applications that come before it that meet the criteria. I understand that, as of 6 December, the Treasury had received over 75 enquiries, and that there was £10 billion for projects from across the whole of the UK. However, I believe that there is a project in Wales that has been presented to the Treasury—the Circuit of Wales project in Ebbw Vale—for the use of the infrastructure guarantee on a tranche of bank debt.

**Jane Hutt:** Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Cynllun Llywodraeth y DU yw hwn a Llywodraeth y DU fydd yn penderfynu sut y dosberthir yr arian, yn seiliedig ar y ceisiadau a ddaw ger ei bron sy'n bodloni'r meini prawf. Caf ar ddeall, o 6 Rhagfyr ymlaen, fod y Trysorlys wedi cael dros 75 o ymholiadau, a bod £10 biliwn wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau drwy'r DU gyfan. Fodd bynnag, credaf fod prosiect yng Nghymru sydd wedi cael ei gyflwyno i'r Trysorlys—prosiect Cylchdaith Cymru yng Nglynebwy—at ddefnydd y warant seilwaith ar gyfran o ddyled banc.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Minister, infrastructure funding comes from a range of Government revenue sources. The guarantees scheme that the Westminster Government has offered is welcome, along with the additional £225 million announced in the autumn statement for capital spending, much of which would help with infrastructure projects. Are you in a position to say how the Government will respond to this additional money that is being made available to it?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Weinidog, daw cyllid seilwaith o amrywiaeth o ffynonellau refeniw y Llywodraeth. Mae'r cynllun gwarantau y mae Llywodraeth San Steffan wedi'i gynnig i'w groesawu, ynghyd â'r £225 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref am wariant cyfalaf, y byddai llawer ohono yn helpu gyda phrosiectau seilwaith. A ydych mewn sefyllfa i ddweud sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r arian ychwanegol hwn sy'n cael ei roi iddi?

**Jane Hutt:** The money will be allocated in line with our priorities, which are set out in the Wales infrastructure investment plan.

**Jane Hutt:** Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu yn unol â'n blaenoriaethau, a nodir yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn ychwanegol at y gronfa sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth San Steffan, a ydych chi wedi edrych ar y posibiliadau yng nghyd-destun Banc Buddsoddi Ewrop a'r modd y gallai Llywodraeth Cymru, o bosibl trwy sefydliadau eraill, dderbyn arian er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn isadeiledd Cymru yn digwydd?

**Rhodri Glyn Thomas:** In addition to the fund that is available from the Westminster Government, have you looked at the possibilities in the context of the European Investment Bank and the way in which the Welsh Government, possibly through other organisations, could receive funding in order to ensure that this investment in the Welsh infrastructure takes place?

**Jane Hutt:** The innovative finance routes that we have been taking, which I announced in the final budget debate in December, indicate our clear commitment to accessing finance from whatever possible sources, for example through the local government borrowing initiative, and through the development of the Welsh housing bond and the Welsh housing partnership, but the European Investment Bank is contributing to that, particularly in working with registered social landlords in this respect.

**Jane Hutt:** Mae'r dulliau cyllid arloesol yr ydym wedi bod yn eu gweithredu, a gyhoeddais yn y ddadl ar y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr, yn dangos ein hymrwymiad clir i gael cyllid o ba ffynhonnell bynnag y bo, er enghraifft drwy fenter benthyca llywodraeth leol, a thrwy ddatblygu bond tai Cymru a phartneriaeth tai Cymru, ond mae Banc Buddsoddi Ewrop yn cyfrannu at hynny, yn enwedig o ran gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hyn o beth.

**William Powell:** Minister, given that the UK guarantees scheme is limited to projects of national significance outlined in the UK Government's national infrastructure plan, it may not be appropriate to many of the smaller-scale infrastructure projects that we need to see rolled out across Wales. To that end, what progress has been made in developing a scheme that is more appropriate to such smaller-scale investments? I am thinking particularly of such priorities as underwriting improvement in the Cambrian and the Heart of Wales railway lines.

**William Powell:** Weinidog, o gofio bod cynllun gwarantau'r DU wedi ei gyfyngu i brosiectau o bwys cenedlaethol a amlinellir yng nghynllun seilwaith cenedlaethol Llywodraeth y DU, efallai na fydd yn briodol i lawer o'r prosiectau seilwaith ar raddfa lai y mae angen inni eu gweld yn cael eu cyflwyno ledled Cymru. I'r perwyl hwnnw, pa gynnydd a wnaed i ddatblygu cynllun sy'n fwy priodol i fuddsoddiadau o'r fath sydd ar raddfa lai? Rwy'n meddwl yn benodol am flaenoriaethau fel gwarantu gwelliannau i llinellau rheilffordd y Cambrian a Rheilffordd Calon Cymru.

**Jane Hutt:** As you say, they have to meet the criteria that are laid down by the UK Government, and projects and joint ventures are forthcoming. It is also important that we recognise that this £50 billion is a limited sum of money for the whole of the UK. It will be competitive, but we have our own support, which we are steering through the Wales infrastructure plan for transport initiatives.

**Jane Hutt:** Fel y dywedwch, rhaid iddynt fodloni'r meini prawf a bennir gan Lywodraeth y DU, ac mae prosiectau a mentrau ar y cyd ar y gweill. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cydnabod bod y £50 biliwn yn swm cyfyngedig o arian i'r DU gyfan. Bydd yn gystadleuol, ond rydym yn cynnig ein cymorth ein hunain, yr ydym yn ei lywio drwy gynllun seilwaith Cymru ar gyfer mentrau trafnidiaeth.

### Gwariant Cyfalaf

### Capital Spending

***6. Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyllido gwariant cyfalaf mewn ffordd arloesol. OAQ(4)0196(FIN)*

***6. Peter Black:** Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to the innovative funding of capital spending. OAQ(4)0196(FIN)*

**Jane Hutt:** The Welsh Government has implemented a number of innovative finance initiatives for infrastructure projects, which limit the negative impact of budget cuts on the Welsh economy. These initiatives will generate over £1 billion of capital investment in Wales between now and 2020.

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu nifer o fentrau cyllid arloesol ar gyfer prosiectau seilwaith, sy'n cyfyngu ar effaith negyddol toriadau yn y gyllideb ar economi Cymru. Bydd y mentrau hyn yn cynhyrchu dros £1 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru rhwng nawr a 2020.

**Peter Black:** Thank you for that response, Minister. I welcome the announcement that you made in the budget statement regarding the use of private sector money to generate capital, which is capped in terms of profits. However, as you know, many cities of England are already benefiting from a tax increment financing initiative from the UK Government and yet we still await your evaluation of that scheme. When will we have a report from you as to whether you believe that that is suitable for use in Wales?

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf y cyhoeddiad a wnaethoch yn y datganiad am y gyllideb ynghylch y defnydd o arian y sector preifat i gynhyrchu cyfalaf, sy'n cael ei gapio o ran elw. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae llawer o ddinasoedd Lloegr eisoes yn elwa ar fenter ariannu cynyddran treth gan Lywodraeth y DU, ac eto rydym yn dal i aros am eich gwerthusiad o'r cynllun hwnnw. Pryd y cawn adroddiad gennych ynghylch yw hynny'n addas i'w ddefnydio yng Nghymru, yn eich barn chi?

**Jane Hutt:** Tax increment financing has not been discounted. There are critical questions of whether these schemes provide robust value for money, and whether they offer better economic outcomes than some of our home-grown solutions for Wales, such as the local government borrowing initiative.

**Jane Hutt:** Nid yw ariannu cynyddran treth wedi cael ei ddiystyru. Mae cwestiynau allweddol o ran a yw'r cynlluniau hyn yn rhoi gwerth cadarn am arian, ac a ydynt yn cynnig gwell canlyniadau economaidd na rhai o'n hatebion lleol i Gymru, fel menter benthyca llywodraeth leol.

**Peter Black:** I accept that you have questions, Minister, but we are looking for answers as to when you will actually carry out that evaluation and make a decision as to whether you can use this scheme. Do you not agree that the longer that you delay the more that Wales is losing out in terms of the use of this funding? While cities in England are benefiting from money that they can generate locally for local initiatives, do you not think that that should also be happening in Wales?

**Peter Black:** Derbyniaf fod gennych gwestiynau, Weinidog, ond rydym yn chwilio am atebion o ran pryd y byddwch mewn gwirionedd yn cynnal y gwerthusiad hwnnw a gwneud penderfyniad ynghylch a allwch ddefnyddio'r cynllun hwn. Ond chytunwch po hiraf y byddwch yn oedi y mwyaf y bydd Cymru ar ei cholled o ran y defnydd o'r arian hwn? Tra bo dinasoedd yn Lloegr yn elwa o arian y gallant ei gynhyrchu yn lleol ar gyfer mentrau lleol, oni chredwch y dylai hynny fod yn digwydd yng Nghymru hefyd?

**Jane Hutt:** There are different approaches that the UK Government is taking to tax increment financing. One option has been limited to only three cities in England which, as far as I can understand, are Newcastle, Nottingham and Sheffield. We are looking carefully at the TIF as an option, but I am sure that you would agree that I have focused proactively and successfully on our home-grown solutions at this stage, not just the local government borrowing initiative but also on the new not-for-profit, non-dividend vehicle to fund the A465.

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth y DU yn ymdrin ag ariannu cynyddran treth mewn gwahanol ffyrdd. Mae un opsiwn wedi cael ei gyfyngu i dair dinas yn Lloegr yn unig sef, fe ddeallaf, Newcastle, Nottingham a Sheffield. Rydym yn edrych yn ofalus ar y ariannu cynyddran treth fel opsiwn, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno fy mod wedi canolbwyntio'n rhagweithiol ac yn llwyddiannus ar ein hatebion lleol ar hyn o bryd, nid dim ond ar fenter benthyca llywodraeth leol ond hefyd ar y cyfrwng nid er elw, diddifidend newydd i ariannu'r A465.

**William Graham:** Minister, may I interest you once again in the M4 relief road? What better example of capital expenditure could be made, given that we all know the benefits that are likely to occur? This week a tile fell onto the carriageway, which resulted in more

**William Graham:** Weinidog, a allaf eich diddori unwaith eto yn ffordd liniaru'r M4? Pa enghraifft well o wariant cyfalaf sydd, o ystyried ein bod ni i gyd yn gwybod y manteision sy'n debygol o ddeillio ohoni? Yr wythnos hon cwympodd teilsen ar y ffordd, a

delays. I look particularly at the Minister for transport and hope that he will come with his decision on the route. The Minister must know that this is a vital element, not just for south-east Wales but for the whole of Wales.

arweiniodd at fwy o oedi. edrychaf yn arbennig ar y Gweinidog trafnidiaeth gan obeithio y bydd yn gwneud ei benderfyniad ar y llwybr. Rhaid bod y Gweinidog yn gwybod bod hon yn elfen hanfodol, nid yn unig i dde-ddwyrain Cymru ond i Gymru gyfan.

2.00 p.m.

2.00 p.m.

**Jane Hutt:** There is no disagreement whatsoever with that viewpoint. Of course, we are working not only on funding options within Welsh Government, but very closely with the UK Government on M4 infrastructure needs.

**Jane Hutt:** Nid oes unrhyw anghytuno o gwbl â'r safbwynt hwnnw. Wrth gwrs, rydym yn gweithio nid yn unig ar ariannu opsiynau o fewn Llywodraeth Cymru, ond yn agos iawn gyda Llywodraeth y DU ar anghenion seilwaith yr M4.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** Minister, your special-purpose vehicle to create innovative capital funding following similar principles to those in Plaid Cymru's Build for Wales policy is very welcome. As has been said already, this is something that we need soon. You did not answer the previous question with regard to a timetable. Can you tell us: what is the timetable for delivery on this Build for Wales scheme, and when can the people of Wales expect to see some results from it?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Weinidog, mae eich cyfrwng at ddibenion arbennig i greu arian cyfalaf arloesol sy'n dilyn egwyddorion tebyg i'r rhai ym mholisi Adeiladu i Gymru Plaid Cymru i'w groesawu'n fawr. Fel y dywedwyd eisoes, mae hyn yn rhywbeth y mae ei angen arnom yn fuan. Ni wnaethoch ateb y cwestiwn blaenorol o ran amserlen. A allwch ddweud wrthym: beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun Adeiladu i Gymru, a phryd y gall pobl Cymru ddisgwyl gweld rhai canlyniadau ohono?

**Jane Hutt:** I announced capital investment of around £300 million in the final budget debate to proceed with sections 5 and 6 of the A465 with a non-dividend investment vehicle. That funding will commence in April 2013, and it will complete the last two sections of the A465. That is a clear demonstration that we are now moving forward with this innovative route to funding in more ways than one. I will of course come back on the innovative finance that we are taking forward.

**Jane Hutt:** Cyhoeddais fuddsoddiad cyfalaf gwerth tua £ 300 miliwn yn y ddadl ar y gyllideb derfynol i fwrw ymlaen ag adrannau 5 a 6 o'r A465 drwy gyfrwng buddsoddi diddifidend. Bydd y cyllid yn dechrau ym mis Ebrill 2013, a bydd yn cwblhau'r ddwy ran olaf o'r A465. Mae hynny'n dangos yn glir ein bod yn awr yn symud ymlaen â'r dull arloesol hwn o ariannu mewn mwy nag un ffordd. Wrth gwrs, byddaf yn trafod y cyllid arloesol yr ydym yn ei ddatblygu maes o law.

I would just say that, with that, there is also the extra £200 million for the twenty-first century schools programme, which will bring its completion forward by two years. Investment on this scale far exceeds the £500 million Build for Wales plan that you formerly proposed.

Hoffwn ddweud, gyda hynny, fod £200 miliwn ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a fydd yn cael ei chwblhau ddwy flynedd yn gynharach na'r disgwyl. Mae buddsoddi ar y raddfa hon yn llawer mwy na'r cynllun Adeiladu i Gymru gwerth £500 miliwn a gynigiwyd gennych yn flaenorol.

### Cyllid Cyfalaf Ychwanegol

### Extra Capital Funding

***7. Mark Isherwood:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r £227 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref y Canghellor. OAQ(4)0192(FIN)*

***7. Mark Isherwood:*** *What consideration has the Minister given to the extra £227 Million capital funding announced in the Chancellor's Autumn Statement. OAQ(4)0192(FIN)*

**Jane Hutt:** This additional funding consequential will be added to capital reserves in the normal way and allocated in line with priorities set out in the Wales infrastructure investment plan.

**Jane Hutt:** Bydd yr arian canlyniadol ychwanegol yn cael ei ychwanegu at gronfeydd cyfalaf wrth gefn yn y ffordd arferol a'u dyrannu yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

**Mark Isherwood:** Following the autumn statement, as the Minister is no doubt aware, Community Housing Cymru, a membership body for housing associations in Wales, called for the Welsh Government to take bold action and invest this money in social and affordable housing, noting that your budget cut the social housing grant by 40% this year and 20% in the year following. Studies by the Welsh economic research unit suggest that without this further funding, the sector will find it difficult to hit the Welsh Government's housing target. How do you respond to this, noting that, following the recession in the early 1990s, the UK Government of the time stimulated housing in Wales in one year by almost £100 million, not only to help with meeting housing need, but to stimulate the economy and to drive regeneration?

**Mark Isherwood:** Yn dilyn datganiad yr hydref, fel y gŵyr y Gweinidog, mae'n siŵr gennyf, galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru, sef corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau beiddgar a buddsoddi'r arian hwn mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy, gan nodi i'ch cyllideb dorri'r grant tai cymdeithasol 40% eleni ac 20% y flwyddyn flaenorol. Awgryma uned ymchwil economaidd Cymru y bydd y sector yn ei chael yn anodd cyflawni targed tai Llywodraeth Cymru heb yr arian pellach hwn. Sut yr ydych yn ymateb i hyn, gan nodi, yn dilyn y dirwasgiad ddechrau'r 1990au, i Lywodraeth y DU ar y pryd ysgogi'r sector tai yng Nghymru mewn un flwyddyn drwy bron £100 miliwn, nid yn unig i helpu i ddiwallu anghenion tai, ond i ysgogi'r economi a hybu adfywio?

**Jane Hutt:** You will have recognised and, I am sure, welcomed the £12 million that I announced as investment in housing to expand the Welsh housing partnership, which works with organisations such as Cymdeithas Tai Clwyd, a community housing association operating across north and mid Wales. That delivers units for intermediate rent at a low subsidy rate, through which we are creating a significant number of job opportunities.

**Jane Hutt:** Byddwch wedi cydnabod, ac mae'n siŵr gennyf, wedi croesawu'r £12 miliwn a gyhoeddais fel buddsoddiad mewn tai i ehangu partneriaeth tai Cymru, sy'n gweithio gyda sefydliadau fel Cymdeithas Tai Clwyd, cymdeithas tai cymunedol sy'n gweithredu yn y gogledd a'r canolbarth, sy'n darparu unedau ar gyfer rhent canolradd ar gyfradd cymhorthdal isel, yr ydym yn creu nifer sylweddol o gyfleoedd swyddi drwyddynt.

**Alun Ffred Jones:** Mae'n bwysig bod yr arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio yn gyflym ac yn effeithiol. A wnewch chi ystyried un maes yn arbennig, sef arbed ynni yn y cartref? Mae rhyw £6 miliwn yn caniatáu i tua 1,000 o dai gael eu diddosi a bod yn fwy effeithlon. Hefyd, mae tua 80% o'r math hwn o waith yn mynd i gwmnïau lleol, gan ychwanegu felly at sicrwydd

**Alun Ffred Jones:** It is important that this additional funding is used swiftly and effectively. Will you give consideration to one area in particular, namely home energy efficiency? Some £6 million would allow 1,000 homes to be insulated and made more efficient. Also, about 80% of this type of work goes to local companies, thereby adding to the employment security of small

cyflogaeth i gwmnïau bach ledled Cymru. Felly, a wnewch chi ystyried rhoi cyfran o'r arian hwnnw ar gyfer y gwaith hwn ac i'r gwaith gael ei wneud cyn gynted â phosibl?

companies throughout Wales. Therefore, will you consider giving a proportion of this funding towards this work and for the work to be carried out as soon as possible?

**Jane Hutt:** Of course, there are seven key priorities in our investment framework, including supporting the development of the energy industry in Wales. Clearly, that will be taken on board.

**Jane Hutt:** Wrth gwrs, mae saith blaenoriaeth allweddol yn ein fframwaith buddsoddi, gan gynnwys cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru. Yn amlwg, caiff hynny ei ystyried.

**Eluned Parrott:** Minister, I have no desire to add to the wish list. I just wonder how much of this £227 million you have spent on buying an airport and whether there is any of it left for priorities that were in the national transport plan, such as extending the Ebbw Vale railway line, which was due in 2011, to take it into the town centre?

**Eluned Parrott:** Weinidog, nid oes gennyf unrhyw awydd i ychwanegu at y rhestr o ddymuniadau. Tybed faint o'r £227 miliwn yr ydych wedi ei wario ar brynu maes awyr, ac a oes unrhyw ran ohono yn weddill ar gyfer blaenoriaethau a oedd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, fel ymestyn llinell reilffordd Glynebwy, gwaith a oedd i'w gyflawni yn 2011, i fynd â hi i ganol y dref?

**Jane Hutt:** We are very clear about our priorities for infrastructure, of which, improving the transport network is one. There is the £300 million that I announced for an innovative and pioneering finance initiative, which I am sure you would welcome in terms of east-west links.

**Jane Hutt:** Rydym yn glir iawn ynglŷn â'n blaenoriaethau ar gyfer seilwaith, ac mae gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn un ohonynt. Mae'r £300 miliwn a gyhoeddais ar gyfer menter cyllid arloesol a blaengar, mae'n siŵr gennyf, y byddech yn ei chroesawu o ran cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

### Blaenoriaethau Gwariant

### Spending Priorities

***8. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0189(FIN)*

***8. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on Welsh Government spending priorities. OAQ(4)0189(FIN)*

**Jane Hutt:** In our budget, we are delivering growth and jobs at the toughest of times. We have demonstrated this commitment with additional capital investment totalling more than £200 million over the next two years in our budget for growth and jobs.

**Jane Hutt:** Yn ein cyllideb, rydym yn sicrhau twf a swyddi ar yr adegau mwyaf anodd. Rydym wedi dangos yr ymrwymiad hwn gyda buddsoddiad cyfalaf ychwanegol gwerth mwy na £200 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf yn ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi.

**Darren Millar:** Also in your budget, Minister, you are imposing crippling cuts on the NHS, which are the largest in the organisation's history. You will be aware that the Minister for Health and Social Services allocated an additional £82 million to LHBs in December. Has there been any discussion with you as Finance Minister about giving additional brokerage to local health boards this year, particularly given that the £82 million is unlikely to allow some health

**Darren Millar:** Hefyd yn eich cyllideb, Weinidog, rydych yn gosod toriadau sylweddol ar y GIG, sef y mwyaf yn hanes y sefydliad. Byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dyrannu £82 miliwn yn ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol ym mis Rhagfyr. A fu unrhyw drafodaeth gyda chi fel Gweinidog Cyllid am roi broceriaeth ychwanegol i fyrddau iechyd lleol eleni, yn enwedig o ystyried bod yr £82 miliwn yn

boards to break even by the end of the year, including Betsi Cadwaladr University Local Health Board and Cardiff and Vale University Local Health Board?

annhebygol o alluogi rhai byrddau iechyd i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

**Jane Hutt:** The Minister for health has made quite clear the importance of the allocation of £82 million, funded within her own budget to meet the needs as a result—and you will be quite aware of this, Darren Millar—of the mid-year review. It is that mid-year review that led to this important decision. The mid-year review focuses on pressures, and the Minister for health responded to those pressures in partnership with local health boards, which she will also expect to deliver in terms of their budgets.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog iechyd wedi egluro pwysigrwydd dyrannu'r £82 miliwn, a ariennir o fewn ei chyllideb ei hun i ddiwallu anghenion o ganlyniad—a byddwch yn gwbl ymwybodol o hyn, Darren Millar—i'r adolygiad canol blwyddyn. Yr adolygiad canol blwyddyn hwnnw a arweiniodd at y penderfyniad pwysig hwn. Mae'r adolygiad canol blwyddyn yn canolbwyntio ar bwysau, ac ymatebodd y Gweinidog iechyd i'r pwysau hynny mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol, a bydd yn disgwyl i'r rheini hefyd gyflawni o ran eu cyllidebau.

**Paul Davies:** Minister, I am sure that one of your spending priorities is to provide a twenty-first century transport system across Wales. As a Government, you have made a commitment to purchase Cardiff Airport, and it has been estimated that the cost could well be around £50 million. What financial assessments you have carried out as Minister for Finance? If the purchase goes ahead, where exactly will you find the money, given that budgets are already under pressure?

**Paul Davies:** Weinidog, rwy'n siŵr mai un o'ch blaenoriaethau gwario yw darparu system drafnidiaeth ar gyfer unfed ganrif ar hugain ledled Cymru. Fel Llywodraeth, rydych wedi gwneud ymrwymiad i brynu Maes Awyr Caerdydd, ac amcangyfrifwyd y gallai gostio tua £50 miliwn yn hawdd. Pa asesiadau ariannol yr ydych wedi'u cynnal fel y Gweinidog Cyllid? Os yw'r pryniant yn mynd rhagddo, o ble yn union y daw'r arian, o gofio bod cyllidebau eisoes o dan bwysau?

**Jane Hutt:** The Minister clearly answered an urgent question on this point, and I am sure she will be responding to an opposition debate this afternoon in full.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog yn amlwg wedi ateb cwestiwn brys ar y pwynt hwn, ac rwy'n siŵr y bydd yn ymateb i ddadl yr wrthblaid y prynhawn yma yn llawn.

**Paul Davies:** From your answer, Minister, it is clear that you cannot tell us where you are going to find the money. Of course, these are not small amounts of money that we are talking about, and indeed this sort of money could be spread across the whole of Wales to support a number of other transport projects that have been in need of funding for some time. It is absolutely essential that you as Minister for Finance ensure value for money for the Welsh taxpayer. Given that the airport made a loss last year, what processes and measures you have put in place to test and evaluate whether this purchase will actually achieve value for money?

**Paul Davies:** O'ch ateb, Weinidog, mae'n amlwg na allwch ddweud wrthym o ble y daw'r arian. Wrth gwrs, nid symiau bach o arian mo'r rhain, ac yn wir gallai'r math hwn o arian gael ei ddosbarthu ledled Cymru gyfan i gefnogi nifer o brosiectau trafnidiaeth eraill y mae angen iddynt gael arian arnynt ers peth amser. Mae'n hanfodol eich bod chi fel y Gweinidog Cyllid yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. O gofio bod y maes awyr wedi gwneud colled y llynedd, pa brosesau a mesurau yr ydych wedi eu rhoi ar waith i brofi a gwerthuso a fydd y pryniant hwn yn rhoi gwerth am arian mewn gwirionedd?

**Jane Hutt:** I encourage the finance

**Jane Hutt:** Hoffwn annog llefarydd cyllid y

spokesperson for the Welsh Conservatives to await—[*Interruption*.]

Ceidwadwyr Cymreig i aros—*[Torri ar draws.]*

**The Presiding Officer:** Order. Can we have some order across the board so that we can hear what the Minister is saying?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwn gael rhywfaint o drefn yn gyffredinol fel y gallwn glywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud?

**Jane Hutt:** I hope the Welsh Conservative finance spokesperson will respect and await the due diligence consideration of this very important announcement by the First Minister, which was warmly welcomed across Wales, including by the business community

**Jane Hutt:** Gobeithiaf y bydd llefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig yn parchu ac yn aros am yr ystyriaeth o ddiwydrwydd dyladwy'r cyhoeddiad pwysig hwn gan y Prif Weinidog, a gafodd groeso cynnes ledled Cymru, gan gynnwys ymhlith y gymuned fusnes.

**Datganoli Pwerau Benthyca**

**Borrowing Powers**

***9. Kirsty Williams:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli pwerau benthyca ers cyhoeddi adroddiad cyntaf Comisiwn Silk. OAQ(4)0193(FIN)*

***9. Kirsty Williams:*** *What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the devolution of borrowing powers since the publication of the first report of the Silk Commission. OAQ(4)0193(FIN)*

**Jane Hutt:** Discussions between the Welsh Government and the UK Government covering all aspects of the Silk commission's report, including devolution of borrowing powers, are already under way.

**Jane Hutt:** Mae trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n cwmpasu pob agwedd ar adroddiad comisiwn Silk, gan gynnwys datganoli pwerau benthyca, eisoes yn mynd rhagddynt.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** You will be aware that the Silk report stated that managing any new borrowing powers would require new expertise within the Welsh Government. What steps are you taking to ensure that, when borrowing powers are given to the Assembly, we have the expertise within the Welsh Government to handle them properly?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Byddwch yn ymwybodol i adroddiad Silk nodi y byddai rheoli unrhyw bwerau benthyca newydd yn gofyn am arbenigedd newydd o fewn Llywodraeth Cymru. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau, pan fydd pwerau benthyca yn cael eu rhoi i'r Cynulliad, fod gennym yr arbenigedd o fewn Llywodraeth Cymru i ymdrin â hwy'n gywir?

**Jane Hutt:** That is one of the key discussions that I had with the Chief Secretary to the Treasury before Christmas, when we met. We have also established a joint UK-Wales inter-governmental working group to review the Silk commission's recommendations. I must say at this point, as Minister for Finance, that the chief secretary was very pleased to hear that this Assembly unanimously endorsed the motion welcoming the Silk commission's first report, and that has given impetus to the inter-governmental talks that are under way, ensuring that we are fit for purpose in terms of the powers and competency that we need

**Jane Hutt:** Dyna un o'r trafodaethau allweddol a gefais gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys cyn y Nadolig, pan gyfarfuom. Rydym hefyd wedi sefydlu gweithgor rhynglywodraethol ar y cyd rhwng Cymru a'r DU i adolygu argymhellion comisiwn Silk. Rhaid imi ddweud ar y pwynt hwn, fel y Gweinidog Cyllid, bod y prif ysgrifennydd yn falch iawn o glywed bod y Cynulliad yn unfrydol yn cymeradwyo'r cynnig i groesawu adroddiad cyntaf comisiwn Silk, ac mae hynny wedi rhoi hwb i'r trafodaethau rhynglywodraethol sy'n mynd rhagddynt, gan sicrhau ein bod yn addas at y diben o ran y

to deliver on those borrowing powers.

pwerau a'r cymhwysedd sydd eu hangen arnom i gyflawni o ran y pwerau benthyca hynny.

**Jocelyn Davies:** Minister, you argue that how you repay Government borrowing is a matter for you, and the UK Treasury appears to disagree. It expects to see an independent stream of revenue to support that repayment first. What is your position now?

**Jocelyn Davies:** Weinidog, rydych yn dadlau mai mater i chi yw sut y byddwch yn ad-dalu benthyciadau'r Llywodraeth, ac mae Trysorlys y DU yn anghytuno yn ôl pob golwg. Mae'n disgwyl gweld ffrwd annibynnol o refeniw i gefnogi'r ad-daliad cyntaf. Beth yw eich safbwynt yn awr?

**Jane Hutt:** A valuable question was put to Baroness Randerson before Christmas about how we would support borrowing. She responded by saying that it would be particularly welcome in terms of pre-borrowing powers for infrastructure projects—the M4 is one of those—if we could look to sources of finance that could include minor taxes. I will share the quote from Jenny Randerson with you. She said that

**Jane Hutt:** Gofynnwyd cwestiwn gwerthfawr i'r Farwnes Randerson cyn y Nadolig ynghylch sut y byddem yn cefnogi benthyca. Ymatebodd drwy ddweud y byddai'n cael croeso arbennig o ran pwerau cyn benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith—y mae'r M4 yn un ohonynt—pe gallem edrych ar ffynonellau cyllid a allai gynnwys trethi bach. Byddaf yn rhannu yr hyn a ddywedodd Jenny Randerson gyda chi. Dywedodd

'the UK Government have indicated that they will be prepared to anticipate the establishment and devolution of those taxes in order to enable more rapid progress to be made on infrastructure development in Wales'

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn barod i ragweld sefydlu a datganoli o ran y trethi hynny er mwyn galluogi cynnydd cyflymach ar ddatblygu seilwaith yng Nghymru

and that

a

'minor taxes…would be considered to be a sufficient income stream to support borrowing'.

byddai trethi bach ... yn cael eu hystyried yn ffrwd incwm ddigonol i gefnogi benthyca.

**Jocelyn Davies:** Thank you for telling us Baroness Randerson's position.

**Jocelyn Davies:** Diolch ichi am ddweud wrthym beth yw barn y Farwnes Randerson.

Minister, when you eventually get the borrowing powers, where are you looking to borrow from? Do you have plans to ensure that Wales benefits from Government borrowing as well as from Government spending?

Weinidog, pan fyddwch yn y pen draw yn cael y pwerau benthyca, o ble y byddwch yn gobeithio benthyca? A oes gennych gynlluniau i sicrhau bod Cymru yn elwa o fenthyca'r Llywodraeth yn ogystal ag o wariant y Llywodraeth?

**Jane Hutt:** When we enter into these discussions with the UK Government we are following the route taken by Scotland with the progression of the Scotland Act. We are looking to discussions in terms of meaningful new powers, borrowing limits and support for the borrowing that now we want to progress in order to improve our economy and

**Jane Hutt:** Pan fyddwn yn dechrau trafod gyda Llywodraeth y DU rydym yn dilyn trywydd yr Alban gyda hynt Deddf yr Alban. Rydym yn gobeithio trafod pwerau newydd ystyrlon, terfynau benthyca a chymorth i fenthyca yr ydym yn awyddus i fwrw ymlawn ag ef er mwyn gwella ein heconomi a'n seilwaith.

infrastructure.

**Portffolio'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

**The Environment and Sustainable Development Portfolio**

***10. Jenny Rathbone:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad cyffredinol y gyllideb i'r portffolio Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. OAQ(4)0191(FIN)*

***10. Jenny Rathbone:*** *Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Environment and Sustainable Development portfolio. OAQ(4)0191(FIN)*

**Jane Hutt:** The budget of nearly £320 million in 2013-14 for the environment and sustainable development portfolio is set out in the budget for growth and jobs approved by the Assembly last month.

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb o bron £320 miliwn yn 2013-14 ar gyfer portffolio'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy wedi'i nodi yn y gyllideb ar gyfer twf a swyddi a gymeradwywyd gan y Cynulliad fis diwethaf.

**Jenny Rathbone:** I was delighted to see the Brynfedw flats in Llanedeyrn in my constituency benefitting from overcladding as part of the Arbed scheme in the last month, which has made a huge contribution to the energy efficiency of those flats. Does the Minister agree that, in these financially difficult times and with rising energy bills, partnership between local authorities, the Welsh Government and the private and voluntary sectors is an effective way of tackling climate change and the needs of householders? What assurances can the Minister give that, in setting future budgets, there will continue to be money available for these sorts of partnership schemes to improve energy efficiency in all our homes?

**Jenny Rathbone:** Roeddwn wrth fy modd o weld fflatiau Brynfedw yn Llanedeyrn yn fy etholaeth yn cal eu trosorchuddio fel rhan o gynllun Arbed yn ystod y mis diwethaf, sydd wedi gwneud cyfraniad enfawr i effeithlonrwydd ynni'r fflatiau hynny. A yw'r Gweinidog yn cytuno, yn y cyfnod ariannol anodd sydd ohoni a chyda biliau ynni uwch, fod partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac anghenion deiliaid tai? Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi, wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol, y bydd arian ar gael o hyd ar gyfer y mathau hyn o gynlluniau partneriaeth i wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi pob un ohonom?

**Jane Hutt:** I have seen the benefit of that investment in your constituency of Cardiff Central. We remain committed to tackling fuel poverty and supporting energy efficiency. Investing in fuel poverty and housing is one of our investment priorities in the Welsh infrastructure investment plan.

**Jane Hutt:** Rwyf wedi gweld budd y buddsoddiad hwnnw yn eich etholaeth sef Canol Caerdydd. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi effeithlonrwydd ynni. Buddsoddi mewn tlodi tanwydd a thai yw un o'n blaenoriaethau buddsoddi yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

**Russell George:** The Minister will be aware of the public inquiry triggered by Powys County Council, of which I am a member, by refusing to grant planning permission for five windfarm developments in mid Wales. While it is the Welsh Government's policy that has, through technical advice note 8, drawn these developments to mid Wales, it is Powys that will be adversely affected by having three of the seven strategic search areas within its boundaries as it is now expected to foot the

**Russell George:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r ymchwiliad cyhoeddus a ysgogwyd gan Gyngor Sir Powys, yr wyf yn aelod ohono, drwy wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer pum datblygiad ffermydd gwynt yn y canolbarth. Er mai polisi Llywodraeth Cymru sydd, drwy nodyn cyngor technegol 8, wedi denu'r datblygiadau hyn i'r canolbarth, bydd cael tair o'i saith ardal chwilio strategol o fewn ei ffiniau yn effeithio'n andwyol ar Bowys gan fod

considerable bill for the legal costs just so that it can continue with what is part of the democratic planning process. Can the Minister tell me if the Minister for the environment has discussed this issue with her and has he requested any additional resources for his portfolio to potentially assist Powys County Council to help meet the cost of this public inquiry later this year?

disgwyl yn awr i'r Cyngor dalu'r costau cyfreithiol sylweddol er mwyn gallu parhau â'r hyn sy'n rhan o'r broses gynllunio ddemocrataidd. A all y Gweinidog ddweud wrthyf a yw Gweinidog yr amgylchedd wedi trafod y mater hwn gyda hi ac a yw wedi gofyn am unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer ei bortffolio o bosibl i gynorthwyo Cyngor Sir Powys o bosibl i helpu i dalu cost yr ymchwiliad cyhoeddus hwn yn ddiweddarach eleni?

**Jane Hutt:** If Powys County Council believes that it requires additional funds it should request them from the UK Government's Department of Energy and Climate Change. Applications for windfarms over 50 MW are matters to be determined by the UK Government's Secretary of State for Energy and Climate Change.

**Jane Hutt:** Os cred Cyngor Sir Powys fod angen arian ychwanegol arno dylai ofyn amdano gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU. Mae ceisiadau ar gyfer ffermydd gwynt dros 50 MW yn faterion i Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU benderfynu arnynt.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Yn hytrach na gwneud cais am arian ychwanegol i awdurdod lleol yng Nghymru i gario allan ei ddyletswyddau statudol, hoffwn ofyn i'r Gweinidog a yw hi'n credu bod digon o gyllid yn nyraniadau'r gyllideb ar gyfer yr amgylchedd a datblygiad cynaliadwy i sicrhau y bydd y corff newydd—cyfoeth naturiol Cymru—yn gweithredu'n effeithlon o'r dechrau, pan sefydlir ef ym mis Ebrill, mater yr ydym i gyd yn ei groesawu yn fawr iawn.

**Lord Elis-Thomas:** Rather than requesting additional funding for a local authority in Wales to carry out its own statutory duties, I would like to ask the Minister whether she believes that there is adequate funding in the budget allocations for the environment and sustainable development in order to ensure that the new body—natural resources Wales—will operate efficiently from the outset, following its establishment in April, which we all welcome very much.

2.15 p.m.

2.15 p.m.

**Jane Hutt:** I have worked closely with the Minister to ensure that there is adequate funding. I was pleased to support an investment of £1.5 million of invest-to-save funding to ensure that the new body could get off to a good start in terms of its capabilities. That should improve delivery of collaboration and partnership at local government and UK Government level.

**Jane Hutt:** Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Gweinidog i sicrhau bod cyllid digonol. Roeddwn yn falch o gefnogi'r buddsoddiad o £1.5 miliwn o arian buddsoddi i arbed er mwyn sicrhau y gallai'r corff newydd gael cychwyn da o ran ei alluoedd. Dylai hynny wella'r broses o gydweithio a phartneriaeth ar lefel llywodraeth leol a lefel Llywodraeth y DU.

### Y Rhaglen Gyllido Buddsoddi i Arbed

### Invest-to-save Funding Programme

***12. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddatblygu'r rhaglen gyllido Buddsoddi i Arbed. OAQ(4)0188(FIN)*

***12. Kenneth Skates:*** *Will the Minister provide an update on plans to develop the Invest to Save funding programme. OAQ(4)0188(FIN)*

**Jane Hutt:** Last year, I announced that with the success of invest-to-save to date, I would increase the size of the fund and supplement

**Jane Hutt:** Y llynedd, yn sgil llwyddiant buddsoddi i arbed hyd yma, cyhoeddais y byddwn yn cynyddu maint y gronfa ac yn

the monies arising from repayments made by existing projects. Overall, I am making available an additional £20 million over this and the next two financial years.

ychwanegu at yr arian sy'n deillio o ad-daliadau a wnaed gan brosiectau presennol. Ar y cyfan, rwy'n sicrhau bod £20 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer y flwyddyn hon a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

**Kenneth Skates:** That is obviously excellent news. Many fine projects are taking place across Wales that are funded by invest-to-save. In my area, the Wrexham energy efficiency and carbon reduction scheme has benefited from over £900,000 from the invest-to-save scheme to deliver a range of projects to reduce energy consumption and improve fuel efficiency in council housing stock. Minister, will you take every step to extend the excellent invest-to-save scheme to a wider area of Welsh Government policy?

**Kenneth Skates:** Mae hynny'n amlwg yn newyddion gwych. Mae llawer o brosiectau da yn mynd rhagddynt ledled Cymru a ariennir gan gynllun buddsoddi i arbed. Yn fy ardal i, mae cynllun effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon Wrecsam wedi cael dros £900,000 o'r cynllun buddsoddi i arbed i ddarparu amrywiaeth o brosiectau i leihau'r defnydd o ynni a gwella effeithlonrwydd tanwydd yn y stoc tai cyngor. Weinidog, a wnewch chi gymryd pob cam i ymestyn y cynllun buddsoddi i arbed ardderchog i faes ehangach o bolisi Llywodraeth Cymru?

**Jane Hutt:** I thank Ken Skates for that question. I was pleased to visit Wrexham to see its energy efficiency and carbon reduction programme. I am also pleased that the Finance Committee is undertaking a review of invest-to-save. The scheme has been successfully trialled, with short-term funding helping to bridge the gap between project implementation and the delivery of financial and longer term benefits.

**Jane Hutt:** Diolch i Ken Skates am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn falch o ymweld â Wrecsam i weld ei rhaglen effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon. Rwyf hefyd yn falch bod y Pwyllgor Cyllid yn cynnal adolygiad o'r cynllun buddsoddi i arbed. Mae'r cynllun wedi cael ei dreialu yn llwyddiannus, gydag arian byrdymor yn helpu i bontio'r bwlch rhwng gweithredu'r prosiect a chyflawni manteision ariannol a thymor hwy.

**Paul Davies:** As you are aware, Minister, the Welsh Government's interim evaluation of the scheme stated that 60% of awards have been less than £0.5 million in value. However, the investment threshold has since been increased from £100,000 to £200,000, which means that some projects would not have met the new threshold. In the circumstances, do you agree that this could be considered as a barrier to the invest-to-save fund? Will you agree to keep the threshold figure under review to ensure that the fund is accessible to as many public bodies as possible?

**Paul Davies:** Fel y gwyddoch, Weinidog, mae gwerthusiad interim Llywodraeth Cymru o'r cynllun wedi nodi bod 60% o'r dyfarniadau wedi bod yn llai na £0.5 miliwn mewn gwerth. Fodd bynnag, mae'r trothwy buddsoddi ers hynny wedi cynyddu o £100,000 i £200,000, sy'n golygu na fyddai rhai prosiectau wedi cyrraedd y trothwy newydd. O dan yr amgylchiadau, a gytunwch y gallai hyn gael ei ystyried yn rhwystr i'r gronfa buddsoddi i arbed? A wnewch chi gytuno i adolygu'r ffigwr trothwy yn barhaus i sicrhau bod y gronfa ar gael i gynifer o gyrff cyhoeddus â phosibl?

**Jane Hutt:** We would want to keep the threshold under review, and the evaluation is ongoing, as is the inquiry by the Finance Committee. This is something that I would want to look at carefully as a result of the review and evaluation.

**Jane Hutt:** Byddem yn awyddus i adolygu'r trothwy yn barhaus, ac mae'r gwerthusiad yn mynd rhagddo, felly hefyd yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyllid. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn am edrych yn ofalus arno o ganlyniad i'r adolygiad a'r gwerthusiad.

# Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
# Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

## Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Datblygiad Economaidd gyda'i gilydd

*1. Simon Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygiad economaidd gyda'i gilydd. OAQ(4)0210(BET)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I refer you to my written statement of 6 December.

**Simon Thomas:** Rwyf wedi edrych ar y datganiad ysgrifenedig, ac rwy'n croesawu sefydlu'r grŵp yn fawr iawn. Nid oedd llawer o fanylion yn y datganiad ynglŷn â'r gwaith y bydd y grŵp yn mynd i'r afael ag ef. Un o'r pethau sy'n fy mhryderu yw ein bod, o bosibl, wedi colli ffocws dros y blynyddoedd ar sut y gallwn ennyn mentergarwch ymhlith siaradwyr Cymraeg. Os edrychwn yn arbennig ar ganlyniadau'r cyfrifiad, mae llinyn yn mynd o Lanelli i Gaergybi o gymunedau sy'n wynebu problemau tebyg i'w gilydd yn economaidd a lle mae'r iaith Gymraeg yn dal i fod yn iaith gymunedol bwysig. A oes modd i'r grŵp edrych yn arbennig ar sut fedrwn wella'r economi a gwella'r defnydd o'r iaith yn y gorllewin?

**Edwina Hart:** Thank you for your supplementary question. I was grateful for the opportunity, prior to the issuing of my statement, for a discussion with you and Alun Ffred Jones in light of the concerning census results in Wales. I have asked the group to recommend ways of using the Welsh language and bilingualism to support business growth and economic development, which is a key issue. It will also look at ways in which the public sector can support increased use of the Welsh language, as well as at local economic impacts of the language, particularly in procurement and employment policies. There will be some initial discussions this week, and the group will hopefully have met by the end of the month.

## Jointly Promoting the Welsh Language and Economic Development

*1. Simon Thomas: Will the Minister make a statement on the remit of the Task and Finish Group that is looking at how the Welsh Government can develop a strategy to jointly promote the Welsh language and economic development. OAQ(4)0210(BET)*

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ysgrifenedig ar 6 Rhagfyr.

**Simon Thomas:** I have read the written statement and I welcome the establishment of the task and finish group warmly. There were not many details in the statement on the work that the group will get to grips with. One of the things that concern me is that perhaps we have lost focus over the years on how we can encourage entrepreneurship among Welsh speakers. If we look particularly at the census results, there is a line from Llanelli to Holyhead of communities that face similar problems economically and where the Welsh language is still an important community language. Could the group look particularly at how we can improve the economy and the use of the language in west Wales?

**Edwina Hart:** Diolch ichi am eich cwestiwn atodol. Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle, cyn cyhoeddi fy natganiad, i drafod gyda chi ac Alun Ffred Jones yng ngoleuni canlyniadau'r cyfrifiad yng Nghymru a oedd yn peri pryder. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp argymell ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd i gefnogi twf busnes a datblygu economaidd, sy'n fater allweddol. Bydd hefyd yn edrych ar ffyrdd y gall y sector cyhoeddus gefnogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal ag edrych ar effeithiau economaidd lleol yr iaith, yn enwedig mewn polisïau caffael a chyflogaeth. Cynhelir rhai trafodaethau cychwynnol yr wythnos hon, a bydd y grŵp wedi cwrdd gobeithio erbyn diwedd y mis. Os bydd

If Members agree, before we go into our Easter recess, I will give an update in Plenary.

Aelodau'n cytuno, cyn inni ddechrau ar wyliau'r Pasg, byddaf yn rhoi diweddariad yn y Cyfarfod Llawn.

**Paul Davies:** Weinidog, ddoe, awgrymais i'r Prif Weinidog mai un ffordd o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes yw drwy sefydlu siarter y Gymraeg a fyddai o fudd i fusnesau a chwsmeriaid. Yn yr amgylchiadau, a ydych yn cytuno y byddai siarter fel hyn o fudd? A allwch hefyd gadarnhau mai dyma un o'r pethau y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ei ystyried?

**Paul Davies:** Minister, I suggested to the First Minister yesterday that one way of promoting the use of the Welsh language in the world of business is by establishing a Welsh language charter that would be of benefit to businesses and customers. Under the circumstances, do you believe that such a charter would be of benefit? Could you also confirm that this is one of the things that the task and finish group will consider?

**Edwina Hart:** It is not currently within its role and responsibilities. However, as you have raised the point with me, it is something that I am prepared to refer to it after the initial stage of its work. You will appreciate that this will be something that I would also have to discuss in detail with the business community. It is important to take the entire business community of Wales and the people of Wales with us, so that we can get the best results in terms of the use of the Welsh language.

**Edwina Hart:** Nid yw o fewn ei rôl na'i gyfrifoldebau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan eich bod wedi codi'r pwynt hwn gyda mi, mae'n fater yr wyf yn barod i gyfeirio ato ar ôl y cam cyntaf o'i waith. Byddwch yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn rhywbeth y byddwn hefyd yn gorfod ei drafod yn fanwl â'r gymuned fusnes. Mae'n bwysig cymryd cymuned fusnes gyfan Cymru a phobl Cymru gyda ni, fel y gallwn gael y canlyniadau gorau o ran y defnydd o'r Gymraeg.

**Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru**

**Welsh Tourism Industry**

***2. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. OAQ(4)0200(BET)*

***2. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on support for the Welsh tourism industry. OAQ(4)0200(BET)*

***3. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer tyfu'r economi twristiaeth yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0199(BET)*

***3. Kenneth Skates:*** *Will the Minister outline the Welsh Government's plans to grow the tourist economy in north Wales. OAQ(4)0199(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out the actions being undertaken to support the tourism industry in Wales. I am afraid that you do not have an agreement on these issues with me like Jocelyn Davies has with the First Minister [*Laughter.*]

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae arnaf ofn nad oes gennych gytundeb ar y materion hyn gyda mi yn yr un modd ag sydd gan Jocelyn Davies gyda'r Prif Weinidog *[Chwerthin.]*

**Darren Millar:** I am grateful for that response, Minister. I know about your commitment to the Welsh tourism industry. Will you join me in congratulating the Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay in my constituency? It is the national zoo of Wales and a very important tourist attraction in the region, and, as you know, it has an excellent

**Darren Millar:** Rwy'n ddiolchgar am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Gwn am eich ymrwymiad i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. A ymunwch â mi i longyfarch Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn yn fy etholaeth? Sw genedlaethol Cymru ydyw ac mae'n atyniad pwysig iawn i dwristiaid yn y rhanbarth, ac, fel y gwyddoch, mae ganddi

educational programme. Given its importance to the region, and given that it is competing with other visitor attractions that have free entry such as the national museums that are located in north Wales, will you have discussions with your Cabinet colleagues about the possibility of providing for a free-entry scheme for that zoological garden?

raglen addysgol ardderchog. O ystyried ei phwysigrwydd i'r rhanbarth, a'i bod yn cystadlu ag atyniadau eraill i ymwelwyr sydd â mynediad am ddim fel yr amgueddfeydd cenedlaethol yn y gogledd, a wnewch chi gynnal trafodaethau â'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet am y posibilrwydd o ddarparu cynllun mynediad am ddim ar gyfer yr ardd swolegol honno?

**Edwina Hart:** I listened with interest to your praise for the facility. That is mirrored in the comments of individuals who have visited. My Cabinet colleagues will have heard your plea on the other matter.

**Edwina Hart:** Gwrandewais gyda diddordeb arnoch yn canmol y cyfleuster. Adlewyrchir hynny yn sylwadau'r unigolion sydd wedi ymweld â'r lle. Bydd fy nghyd-Weinidogion wedi clywed eich ple ar y mater arall.

**Kenneth Skates:** Minister, activity tourism in north Wales is a fast-growing sector. An example of this is the recent developments of the new Tour de Môn cycle race around Anglesey and the Big Welsh Trail half-marathon and 10 km races in Llandegla forest. Indeed, the second Etape Cymru sportive took place in September last year. Minister, will you examine how the growth of activity tourism can increase visitor numbers to north Wales and can you assure me that the Welsh Government will support and assist this growing sector of the economy?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae twristiaeth gweithgareddau yn y gogledd yn sector sy'n tyfu'n gyflym. Un enghraifft o hyn yw datblygiadau diweddar y ras feiciau Tour de Môn o amgylch Ynys Môn a hanner marathon Llwybr Mawr Cymru a rasys 10 km yng nghoedwig Llandegla. Yn wir, cynhaliwyd ail ras Etape Cymru ym mis Medi y llynedd. Weinidog, a wnewch chi edrych ar sut y gall twf twristiaeth gweithgareddau gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r gogledd ac a allwch roi sicrwydd imi y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn cynorthwyo'r sector hwn o'r economi sy'n tyfu?

**Edwina Hart:** Outdoor activities and adventure sports are key elements of the Welsh tourism offer. Our coastline and countryside provide both natural challenges and excitement for all those wishing to take part in such activities. However, just enjoying and watching others participate is probably the majority activity here. Such activities are promoted through the Visit Wales website, which gives ideas and details of potential weekend activity breaks. The tourism partnership, certainly in north Wales, fully recognises the importance of that sector to the regional economy of north Wales. I have had interesting discussions on branding Wales and about what we should be looking for that is wonderful. Cycling and issues like that are the key elements that we could market more internationally as what Wales is about as a tourism destination. That is coming through strongly in the discussions that I have had.

**Edwina Hart:** Mae gweithgareddau awyr agored a chwaraeon antur yn elfennau allweddol o arlwy twristiaeth Cymru. Mae ein harfordir a'n cefn gwlad yn darparu her a chyffro naturiol i bawb sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Fodd bynnag, mwynhau a gwylio eraill yn cymryd rhan yw'r gweithgaredd pennaf fan hyn, mae'n debyg. Caiff gweithgareddau o'r fath eu hyrwyddo drwy wefan Croeso Cymru, sy'n rhoi syniadau a manylion gwyliau gweithgaredd penwythnos posibl. Mae'r bartneriaeth twristiaeth, yn sicr yn y gogledd, yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd y sector hwnnw i economi ranbarthol y gogledd. Rwyf wedi cael trafodaethau diddorol ar frandio Cymru ac am yr hyn y dylem fod yn chwilio amdano sy'n wych. Beicio a materion o'r fath yw'r elfennau allweddol y gallem eu marchnata yn fwy rhyngwladol i egluro beth sydd gan Gymru i'w gynnig fel cyrchfan twristiaeth. Mae hynny'n dod drwodd yn gryf yn y trafodaethau yr wyf

wedi'u cael.

**Alun Ffred Jones:** Mae perchnogion atyniadau twristiaeth yn y gogledd yn wynebu pob math o heriau: un ohonynt yw'r cynnydd anhygoel yn eu hardrethi busnes. Mae pob perchennog yn gofyn i'r Llywodraeth gael polisi newydd er mwyn sicrhau arwyddion priodol ar ein cefnffyrdd ac oddi ar yr A55. Pryd y byddwch yn cyhoeddi canlyniad yr arolwg sy'n digwydd ar hyn o bryd gan y gwahanol adrannau perthnasol?

**Alun Ffred Jones:** The owners of tourism attractions in north Wales face all sorts of challenges: one is the incredible increase in their business rates. Each and every owner is asking the Government for a new policy to ensure appropriate signage on our trunk roads and off the A55. When will you announce the results of the survey that is currently being undertaken by the various relevant departments?

**Edwina Hart:** Obviously, I have discussions with my officials about this matter. I will write a letter to Assembly Members, as I do not want to give incorrect information at this stage.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, caf drafodaethau â'm swyddogion ar y mater hwn. Byddaf yn ysgrifennu llythyr at yr Aelodau Cynulliad, gan nad wyf yn dymuno rhoi gwybodaeth anghywir ar hyn o bryd.

**Eluned Parrot:** Business tourism is a particularly exciting opportunity for Welsh tourism in general and for the economy. Last year, you committed the Welsh Government to exploring the options for the development of a convention centre in the centre of Cardiff. Can you give us an update on how those explorations have progressed?

**Eluned Parrot:** Mae twristiaeth busnes yn gyfle arbennig o gyffrous i dwristiaeth Cymru yn gyffredinol ac i'r economi. Y llynedd, gwnaethoch addo y byddai Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu canolfan gonfensiwn yng nghanol Caerdydd. A allwch chi roi diweddariad inni ar ddatblygiad yr archwiliadau hynny?

**Edwina Hart:** I have no update to give to the Assembly at this present time.

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw ddiweddariad i'w roi i'r Cynulliad ar hyn o bryd.

**Eluned Parrot:** That is disappointing because hoteliers in Cardiff are desperate for news of that development. Last week, we heard that the Celtic Manor resort is looking at the option of developing a convention centre on its site in Newport. South-east Wales is unlikely to be able to support two major convention centres successfully. Which site would you say would have the precedence?

**Eluned Parrot:** Mae hynny'n siomedig gan fod perchnogion gwestai yng Nghaerdydd yn daer am newyddion am y datblygiad hwnnw. Yr wythnos diwethaf, clywsom fod y Celtic Manor Resort yn ystyried yr opsiwn o ddatblygu canolfan gonfensiwn ar ei safle yng Nghasnewydd. Mae'r de-ddwyrain yn annhebygol o allu cynnal dwy ganolfan gonfensiwn fawr yn llwyddiannus. Pa safle fyddai'n cael y flaenoriaeth yn eich barn chi?

**Edwina Hart:** Matters for the Celtic Manor are commercial matters for that company with regard to the property that it owns in Newport. Matters for the Cardiff convention centre are primarily matters for the local authority, and there will be interest from the Cardiff enterprise zone.

**Edwina Hart:** Materion masnachol ar gyfer y cwmni hwnnw o ran yr eiddo y mae'n berchen arno yng Nghasnewydd yw materion y Celtic Manor. Materion ar gyfer yr awdurdod lleol yn bennaf yw materion ar gyfer canolfan gonfensiwn Caerdydd, a bydd diddordeb gan ardal fenter Caerdydd.

**Antoinette Sandbach:** Minister, the landscape of rural north Wales is a particular

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae tirwedd wledig y gogledd yn atyniad

draw for millions of visitors and Snowdonia National Park is a jewel in the crown of the tourist economy up there. Minister, given that updates to the electricity grid could see additional pylons being built across north Wales and Snowdonia National Park, what plans do you have to assess the cumulative impact of grid upgrades and renewable energy projects on the tourism economy? Are you concerned that your colleague the First Minister has met with National Grid for just two hours in the last three years to discuss these plans?

arbennig i filiynau o ymwelwyr a Pharc Cenedlaethol Eryri yw'r trysor pennaf o ran yr economi twristiaeth yn yr ardal honno. Weinidog, o gofio y gallai diweddariadau i'r grid trydan weld peilonau ychwanegol yn cael eu hadeiladu ar draws y gogledd a Pharc Cenedlaethol Eryri, pa gynlluniau sydd gennych i asesu effaith gronnol uwchraddio grid a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar yr economi dwristiaeth? A ydych yn pryderu mai dim ond am ddwy awr yn unig dros y tair blynedd ddiwethaf y mae eich cyd-Weinidog, y Prif Weinidog, wedi cyfarfod â swyddogion o'r Grid Cenedlaethol i drafod y cynlluniau hyn?

**Edwina Hart:** I am not concerned at all about whom the First Minister meets. The First Minister has responsibilities for all aspects of Government. I have heard the argument before about windfarms, the grid and everything and I always like to put this in perspective: do people want power and do businesses want power in certain locations? Obviously, if I have a lot of correspondence on this matter or if it is referred to me by the tourism sector directly, it may be something that I may wish to consider with my panel, but, at this stage, I have no plans to look at this particular matter. I am content that matters involving the national park are in the very capable hands of another Minister.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn poeni o gwbl ynglŷn â phwy y mae'r Prif Weinidog yn ei gyfarfod. Mae gan y Prif Weinidog gyfrifoldebau am bob agwedd ar y Llywodraeth. Rwyf wedi clywed y ddadl o'r blaen ynghylch ffermydd gwynt, y grid a phopeth, ac rwyf bob amser yn hoffi rhoi hyn mewn persbectif: a yw pobl am gael ynni ac a yw busnesau am gael ynni mewn lleoliadau penodol? Yn amlwg, os caf lawer o ohebiaeth ar y mater hwn, neu os caiff ei chyfeirio ataf gan y sector twristiaeth yn uniongyrchol, gall fod yn rhywbeth y byddaf am ei ystyried o bosibl gyda'm panel, ond, ar hyn o bryd, nid oes gennyf gynlluniau i edrych ar y mater penodol hwn. Rwy'n fodlon bod materion yn ymwneud â'r parc cenedlaethol yn nwylo medrus iawn Gweinidog arall.

### Parc Gwyddonol ym Mhrifysgol Bangor

### Science Park at Bangor University

***4. Aled Roberts:*** *Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r achos busnes a'r cynllun datblygu ar gyfer y parc gwyddonol arfaethedig ym Mhrifysgol Bangor. OAQ(4)0213(BET)*

***4. Aled Roberts:*** *When will the Minister publish the business case and development plan for the proposed science park at Bangor Univeristy. OAQ(4)0213(BET)*

**Edwina Hart:** A small working group held its first meeting at the end of December to discuss the concept of a science and research facility. An outline business plan will follow in due course. It has been quick off the mark since we agreed the budget here in taking forward the proposals that emanated from our discussions with Plaid Cymru—The Party of Wales.

**Edwina Hart:** Cynhaliodd gweithgor bach ei gyfarfod cyntaf ddiwedd mis Rhagfyr i drafod y cysyniad o gyfleuster gwyddoniaeth ac ymchwil. Bydd cynllun busnes amlinellol yn dilyn maes o law. Mae wedi gweithredu'n gyflym ers inni gytuno ar y gyllideb yma o ran bwrw ymlaen â'r cynigion a ddeilliodd o'n trafodaethau â Plaid Cymru.

**Aled Roberts:** Wrth ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, dywedodd eich adran nad oes unrhyw

**Aled Roberts:** In response to a request made under the Freedom of Information Act 2000, your department said that no correspondence

ohebiaeth wedi bod rhyngddi a'r brifysgol rhwng Ionawr a Thachwedd 2012. Faint o amser yr ydych chi'n credu y bydd hi'n cymryd i'r tasglu hwn weithredu ar y cynllun a gafwyd yn y cytundeb rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Lafur?

had been exchanged between the department and the university between January and November 2012. How long do you think it will take for this taskforce to act on the plan that was made in the agreement between Plaid Cymru and the Labour Party?

**Edwina Hart:** As I indicated, there is a working group in progress, which will be working in the new year. We have already looked at potential sites within the area prior to Christmas and this work is progressing well. I will, of course, update Members on the progress of the working group in due course. We have had enormous co-operation from all parties concerned and across Government departments here.

**Edwina Hart:** Fel y dywedais, mae gweithgor wedi ei sefydlu, a fydd yn gweithio yn y flwyddyn newydd. Rydym eisoes wedi edrych ar safleoedd posibl o fewn yr ardal cyn y Nadolig ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd y gweithgor maes o law. Mae'r holl bartïon dan sylw a phob adran o'r Llywodraeth yma wedi cydweithredu'n dda iawn.

**Mark Isherwood:** I always welcome investment in north Wales and I note that this project is a collaboration between Bangor University and Aberystwyth University, both of which are establishments from which some of my children have graduated and where another one has been offered places next year. I support the principle. However, I note your comment that you have not yet received the outline business plan. Recognising that the Welsh Government normally states quite rightly that it will not confirm any investment until the business plan has been submitted and due diligence investigations have been conducted, what position applies to this case where none of those aspects, thus far, appear to have been carried through?

**Mark Isherwood:** Rwyf bob amser yn croesawu buddsoddiad yn y gogledd a nodaf fod y prosiect hwn yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth, sef sefydliadau y graddiodd rhai o'm plant ohonynt a lle y mae un arall wedi cael cynnig lleoedd y flwyddyn nesaf. Cefnogaf yr egwyddor. Fodd bynnag, nodaf eich sylw nad ydych eto wedi derbyn y cynllun busnes amlinellol. Gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru fel arfer yn datgan yn gwbl briodol na fydd yn cadarnhau unrhyw fuddsoddiad nes bod y cynllun busnes wedi ei gyflwyno ac ymchwiliadau diwydrwydd dyladwy wedi cael eu cynnal, beth yw'r sefyllfa o ran yr achos hwn lle nad oes yr un o'r agweddau hynny, hyd yma, wedi cael eu cyflawni yn ôl pob tebyg?

**Edwina Hart:** The case is that politically, as the Welsh Government, we got our budget through and that is the end of the matter on this discussion.

**Edwina Hart:** Y sefyllfa yn wleidyddol, fel Llywodraeth Cymru, yw fod ein cyllideb wedi'i chymeradwyo a dyna ddiwedd y mater ar y drafodaeth hon.

**Alun Ffred Jones:** Bydd llwyddiant y parc gwyddoniaeth hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar y gallu i ddenu aelodau o'r sector preifat i weithredu ynddo fel partneriaid. A fyddwch yn ystyried maes ynni adnewyddol fel un o'r meysydd hynny y byddech yn gobeithio gweld datblygiadau ynddynt oherwydd y potensial sydd oddi ar arfordir Môn mewn mwy nag un cyfeiriad?

**Alun Ffred Jones:** The success of this science park will depend to a great extent on the ability to attract the private sector to work within it as partners. Will you consider the area of renewable energy as one of those areas where you want to see developments because of the potential that exists off the Anglesey coast in more than one direction?

**Edwina Hart:** These are all issues that are under discussion in relation to how we can best utilise any facility there in terms of the collaboration between Bangor and Aberystwyth. Of course, you will be aware of the interest there is in what we can do, particularly in Aberystwyth, on certain sites. This is something that is of particular interest to the chief scientific officer. Therefore, you can be assured that all these matters will be taken forward in discussion.

**Edwina Hart:** Mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n cael eu trafod mewn perthynas â sut y gallwn wneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleuster yno o ran y cydweithio rhwng Bangor ac Aberystwyth. Wrth gwrs, byddwch yn ymwybodol o'r diddordeb sydd yn yr hyn y gallwn ei wneud, yn enwedig yn Aberystwyth, ar safleoedd penodol. Mae hyn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb arbennig i'r prif swyddog gwyddonol. Felly, gallwch fod yn sicr y caiff yr holl faterion hyn eu datblygu mewn trafodaeth.

**Alun Ffred Jones:** Er bod y lleoliad yn fater, wrth gwrs, i'r brifysgol a'i phartneriaid a byddaf yn gefnogol i ba bynnag safle a ddewisir, hoffwn i chi sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i Barc Bryn Cegin sydd wedi cael ei ddatblygu gydag arian cyhoeddus ers rhai degau o flynyddoedd ac sydd ar safle priodol iawn ger yr A55 ar gyrion Bangor.

**Alun Ffred Jones:** Although the location, of course, is a matter for the university and its partners and I will be supportive of whichever site is chose, I would like you to ensure that full consideration is given to Bryn Cegin Park that was developed with public funding some decades ago and that is on a very appropriate site near the A55 on the outskirts of Bangor.

**Edwina Hart:** I know that my colleague the Minister for Finance will be keen for us to look at all sites that have benefited from Welsh Government support over the years in terms of their renewal to ensure maximum value and value for money for the Government in this regard.

**Edwina Hart:** Gwn y bydd fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyllid yn awyddus inni edrych ar yr holl safleoedd sydd wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd o ran eu hadnewyddu er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl a'r gwerth gorau am arian ar gyfer y Llywodraeth yn hyn o beth.

2.30 p.m.

2.30 p.m.

**Busnesau yng Ngogledd-ddwyrain Cymru**

**Businesses in North-east Wales**

***5. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog roi manylion pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau yng ngogledd ddwyrain Cymru. OAQ(4)0204(BET)*

***5. Mark Isherwood:*** *Will the Minister detail what support the Welsh Government is providing for businesses in north east Wales. OAQ(4)0204(BET)*

**Edwina Hart:** We are providing a broad range of support for both new and existing businesses across Wales, in line with the Welsh Government's priority of supporting jobs and growth within the economy.

**Edwina Hart:** Darparwn ystod eang o gefnogaeth ar gyfer busnesau newydd a rhai presennol ledled Cymru, yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gefnogi swyddi a thwf yn yr economi.

**Mark Isherwood:** We have had more encouraging news this week from the South Wales Chamber of Commerce about the return of business confidence in general, although it is clearly not an easy time. However, we also had figures in December that showed that Flintshire and Wrexham had seen the biggest decline in sales and

**Mark Isherwood:** Cawsom fwy o newyddion calonogol yr wythnos hon gan Siambr Fasnach De Cymru ynglŷn â hyder busnesau yn dychwelyd yn gyffredinol, er nad yw'n adeg hawdd yn amlwg. Fodd bynnag, cawsom ffigurau hefyd ym mis Rhagfyr a ddangosodd mai Sir y Fflint a Wrecsam sydd wedi gweld y gostyngiad

production in the whole of England and Wales. The Federation of Small Businesses is reporting that, although there is growing confidence in its own quarterly confidence index across the UK, small business confidence in Wales is lagging behind. How do you respond to those worrying figures for Flintshire and Wrexham? Given that they are not within the primary structural fund areas, what action do you feel should be taken to address that?

mwyaf mewn gwerthiant a chynhyrchiant yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn nodi, er bod hyder cynyddol yn ei fynegai hyder chwarterol ei hun ar draws y DU, nad yw hyder busnesau bach yng Nghymru gystal. Sut ydych yn ymateb i'r ffigurau hynny am Sir y Fflint a Wrecsam sy'n peri gofid? Gan nad ydynt o fewn yr ardaloedd cronfeydd strwythurol sylfaenol, pa gamau y credwch y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â hynny?

**Edwina Hart:** You made a relevant point about confidence in the economy. Confidence in the economy comes from macroeconomic policy, which is under the control of the UK Government. It might be interesting for you to look at some of the International Monetary Fund's economic forecasts that came out last week with regard to concerns that we might be going into a triple-dip recession. That does not help business confidence in any way, whether in Flintshire, Wrexham, south Wales, Scotland, Northern Ireland or, dare I say, London.

**Edwina Hart:** Gwnaethoch bwynt perthnasol am hyder yn yr economi. Daw hyder yn yr economi yn sgil polisi macro-economaidd, sydd o dan reolaeth Llywodraeth y DU. Gallai fod yn ddiddorol i chi edrych ar rai o ragolygon economaidd y Gronfa Ariannol Ryngwladol a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf o ran pryderon y gallem fod yn wynebu dirwasgiad triphlyg. Nid yw hynny'n helpu hyder busnesau mewn unrhyw ffordd, boed yn Sir y Fflint, Wrecsam, de Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu, os meiddiaf ddweud hynny, Llundain.

**Ann Jones:** I thank the Minister for her work in establishing the Wales-wide network of 11 one-stop shops, one of which is in St Asaph, in my constituency. I hope that you agree that the support being offered to small and medium-sized businesses by this Welsh Labour Government is vital and that the recent announcement on these one-stop shops is in addition to the support that is already available through business information helplines, the Business Wales website and the £6 million loan fund to support the growth of microbusinesses here in Wales.

**Ann Jones:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei gwaith yn sefydlu rhwydwaith Cymru gyfan o 11 o siopau un stop, y mae un ohonynt yn Llanelwy, yn fy etholaeth. Gobeithio eich bod yn cytuno bod y cymorth a gynigir i fusnesau bach a chanolig eu maint gan Lywodraeth Lafur Cymru yn hanfodol a bod y cyhoeddiad diweddar ar y siopau un-stop hyn yn ychwanegol at y cymorth sydd eisoes ar gael drwy linellau cymorth gwybodaeth fusnes, gwefan Busnes Cymru a'r gronfa benthyciadau o £6 miliwn i gefnogi twf microfusnesau yma yng Nghymru.

**Edwina Hart:** I thank Ann Jones very much for her question, because she has taken an enormous interest in this issue over the years, when I have visited, particularly as Minister for business, the opportunities for microbusinesses in her own constituency. In 2011, microenterprises accounted for 94.5% of all businesses in Wales and were responsible for 33.2% of private sector employment. Therefore, support offered to SMEs in Wales is important and key to Wales's future economic growth. The business one-stop-shop service will, I hope, ensure that businesses have easy access to support to help them grow and thrive.

**Edwina Hart:** Diolchaf yn fawr i Ann Jones am ei chwestiwn, gan ei bod wedi cymryd diddordeb enfawr yn y mater hwn dros y blynyddoedd, pan wyf wedi ymweld, yn enwedig fel y Gweinidog busnes, â'r cyfleoedd ar gyfer microfusnesau yn ei hetholaeth ei hun. Yn 2011, roedd microfentrau yn cyfrif am 94.5% o'r holl fusnesau yng Nghymru ac yn gyfrifol am 33.2% o gyflogaeth y sector preifat. Felly, mae'r gefnogaeth a gynigir i BBaCh yng Nghymru yn bwysig ac yn allweddol i dwf economaidd Cymru yn y dyfodol. Bydd y gwasanaeth siop un stop i fusnesau, gobeithio, yn sicrhau bod busnesau yn gallu

cael gafael yn hawdd ar gymorth i'w helpu i dyfu a ffynnu.

## Band Eang Cyflym Iawn

***6. Julie Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru. OAQ(4)0208(BET)*

**Edwina Hart:** I was hoping that I would not have to answer this question in this way today, but we are currently awaiting the final approvals for the Broadband for Wales programme, and will publish more information on the roll-out once this has been received. I understand from officials, and am very hopeful, that I will have the final letter confirming the position this week.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that response. I have been contacted by businesses in the Tŷ Glas business park in my constituency in Cardiff North about the poor availability of an infinity broadband service. I understand that Cardiff Council may be able to provide this service following its successful bid to the super-connected cities project. However, that could still be several years away. Is there anything that the Welsh Government can do to encourage an earlier roll-out of this service in this area, because the businesses are suffering?

**Edwina Hart:** I think that we all recognise the importance of access to high-speed broadband services for businesses in our constituencies. It is particularly sad that there are problems for businesses in Cardiff, where the market should be leading the way, unlike in rural areas, where we understand that the market has more difficulty, hence the need for Government support. I understand that there is a high-speed Virgin media business solution available at Tŷ Glas business park, and those businesses might want to avail themselves of the opportunity to discuss with that company.

**Russell George:** I thank the Minister for her earlier answer to Julie Morgan. Will the

## Superfast Broadband

***6. Julie Morgan:** Will the Minister provide an update on the roll out of superfast broadband across Wales. OAQ(4)0208(BET)*

**Edwina Hart:** Roeddwn yn gobeithio na fyddai'n rhaid imi ateb y cwestiwn hwn yn y modd hwn heddiw, ond rydym ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaethau terfynol y rhaglen Band Eang i Gymru, a byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth ar gyflwyno hyn unwaith y bydd y rhaglen wedi ei derbyn. Caf ar ddeall gan swyddogion, ac rwy'n obeithiol iawn, y byddaf yn cael y llythyr terfynol yn cadarnhau'r sefyllfa yr wythnos hon.

**Julie Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae busnesau ym mharc busnes Tŷ Glas yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd wedi cysylltu â mi ynghylch argaeledd gwael gwasanaeth band eang diddiwedd. Rwy'n deall y gall Cyngor Caerdydd ddarparu'r gwasanaeth hwn o bosibl yn dilyn ei gais llwyddiannus am y prosiect dinasoedd uwch-gysylltiedig. Fodd bynnag, gallai gymryd sawl blwyddyn o hyd cyn i hynny ddigwydd. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau y caiff y gwasanaeth hwn ei gyflwyno'n gynt yn yr ardal hon, gan fod busnesau yn dioddef?

**Edwina Hart:** Credaf ein bod i gyd yn cydnabod pwysigrwydd mynediad i wasanaethau band eang cyflym iawn ar gyfer busnesau yn ein hetholaethau. Mae'n arbennig o drist bod problemau i fusnesau yng Nghaerdydd, lle y dylai'r farchnad fod yn arwain y ffordd, yn wahanol i ardaloedd gwledig, lle mae'r farchnad yn wynebu mwy o anhawster yn ôl yr hyn a ddeallwn, a dyna pam mae angen cymorth y Llywodraeth. Deallaf fod datrysiad busnes Virgin media cyflymder uchel ar gael ym mharc busnes Tŷ Glas, ac efallai y byddai'r busnesau hynny am fanteisio ar y cyfle i drafod gyda'r cwmni hwnnw.

**Russell George:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei hateb cynharach i Julie Morgan. A wnaiff

Minister confirm who will ultimately make the decision on the roll-out of the next generation broadband project? Will it be the Welsh Government or BT, as part of its contract?

y Gweinidog gadarnhau pwy yn y pen draw fydd yn gwneud y penderfyniad o ran cyflwyno'r prosiect band eang cenhedlaeth nesaf? Ai Llywodraeth Cymru neu BT, fel rhan o'i gontract, fydd hynny?

**Edwina Hart:** We will put contractual arrangements in place and, hopefully, I will be in a position next week to indicate what is happening with this contract, as long as there is not a failure in the postal system between us and London. We have decided that we will look at how we will develop it and where the priority areas are. I have already indicated that enterprise zones will be a priority area.

**Edwina Hart:** Byddwn yn rhoi trefniadau cytundebol ar waith a byddaf mewn sefyllfa yr wythnos nesaf, gobeithio, i ddangos beth sy'n digwydd gyda'r contract hwn, ar yr amod nad oes methiant yn y system bost rhyngom ni a Llundain. Rydym wedi penderfynu y byddwn yn edrych ar sut y byddwn yn ei ddatblygu a beth yw'r meysydd â blaenoriaeth. Nodais eisoes y bydd ardaloedd menter yn faes â blaenoriaeth.

**The Presiding Officer:** I call—I have forgotten your name. Rhodri Glyn Thomas. [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Galwaf ar—rwyf wedi anghofio eich enw. Rhodri Glyn Thomas. [*Chwerthin.*]

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you very much—. It will come to me.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch yn fawr iawn—. Fe ddaw i mi.

Diolch yn fawr iawn, Llywydd, am y cyfle i ofyn cwestiwn. Derbyniaf fod problemau yn bodoli yng Ngogledd Caerdydd o ran band eang cyflym, ond, yn fy etholaeth i ac mewn etholaethau gwledig eraill, y broblem sylfaenol yw cael unrhyw wasanaeth band eang o gwbl. Gwn fod y Gweinidog wedi sefydlu bwrdd i edrych ar fenter a'r iaith Gymraeg. A wnaiff hi dderbyn bod sicrhau bod band eang ar gael mewn mannau gwledig yn sylfaenol i sicrhau bod pobl ifanc sydd eisiau sefydlu busnesau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd eisiau sicrhau eu bod yn gallu marchnata eu busnesau ar y band eang yn gallu gwneud hynny? Mae'n hanfodol wrth greu sefyllfa lle y gallant aros yn yr ardaloedd hynny, yn hytrach na symud i ardaloedd megis Gogledd Caerdydd, lle mae cymaint mwy o gyfleoedd iddynt o ran band eang.

Thank you very much, Presiding Officer, for the opportunity to ask a question. I accept that problems exist in northern Cardiff with superfast broadband, but, in my constituency and other rural constituencies, the fundamental problem is getting any broadband service whatsoever. I know that the Minister has established a board to look at enterprise and the Welsh language. Will she acknowledge that ensuring that broadband is available is fundamental to ensuring that young people who want to establish businesses through the medium of Welsh, and who want to ensure that they can market their businesses using broadband, can do so? It is essential to creating a situation where they can remain in those areas rather than moving to areas such as northern Cardiff, where there are so many more opportunities for them in terms of broadband.

**Edwina Hart:** It is not just about Welsh speakers; it is about everyone in rural Wales having the ability, if they so wish, to run a business from rural Wales, and having the necessary broadband links. I can assure you that this is a priority within the Government. BT has committed considerable resources to deliver the project as we are currently looking at it, and the project well exceeds the ambition of the UK Government to achieve

**Edwina Hart:** Nid oes a wnelo hyn â siaradwyr Cymraeg yn unig; mae a wnelo â rhoi'r gallu i bawb yng nghefn gwlad Cymru, os dymunant, redeg busnes yng Nghymru wledig, a chael y cysylltiadau band eang angenrheidiol. Gallaf eich sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth o fewn y Llywodraeth. Mae BT wedi neilltuo adnoddau sylweddol i gyflawni'r prosiect fel y mae ar hyn o bryd, ac mae'r prosiect yn rhagori o bell ffordd ar

90% coverage, which it has for other areas of the UK. Therefore, I am confident that we will move ahead with this project, and, hopefully, that we will have the results that we all want across Wales, in both rural and urban areas.

uchelgais Llywodraeth y DU i sicrhau gwasanaeth ar gyfer 90% o'r ardal, y mae wedi llwyddo i'w wneud mewn ardaloedd eraill o'r DU. Felly, rwy'n hyderus y byddwn yn bwrw ymlaen â'r prosiect hwn, a gobeithio, y cawn y canlyniadau yr ydym yn eu dymuno ledled Cymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol.

**Peter Black:** I look forward to seeing the details of the roll-out, particularly for areas in my region, such as around Skewen, and, particularly, around the Amazon factory. There is also an important provision in terms of 4G, which is being piloted in Cardiff. What details do you have about how that will be rolled out across Wales?

**Peter Black:** Edrychaf ymlaen at weld manylion y cyflwyno, yn enwedig ar gyfer ardaloedd yn fy rhanbarth, megis o amgylch Sgiwen, ac, yn arbennig, o amgylch y ffatri Amazon. Mae darpariaeth bwysig hefyd o ran 4G, sy'n cael ei dreialu yng Nghaerdydd. Pa fanylion sydd gennych am sut y caiff hynny ei gyflwyno ledled Cymru?

**Edwina Hart:** I was having discussions about 4G just before Christmas, and I intend to have further discussions about 4G. I would be delighted to update Members. If it would be helpful, Presiding Officer, when we make the announcement on broadband and on issues around 4G, if Members would like me to arrange a technical briefing about some of the issues in terms of communications that arise, I would be more than happy to do so.

**Edwina Hart:** Cefais drafodaethau am 4G ychydig cyn y Nadolig, a bwriadaf gael trafodaethau pellach am 4G. Byddwn yn falch o roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau. Pe bai o gymorth, Lywydd, pan wnawn y cyhoeddiad ar fand eang ac ar faterion yn ymwneud â 4G, pe bai Aelodau am imi drefnu cyfarfod briffio technegol yn ymwneud â rhai o'r materion o ran cysylltiadau sy'n codi, byddwn yn fwy na pharod i wneud hynny.

**Cyllid Cymru**

**Finance Wales**

***7. William Powell:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau i Cyllid Cymru ar gyfer y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0205(BET)*

***7. William Powell:*** *Will the Minister outline her priorities for Finance Wales for the next twelve months. OAQ(4)0205(BET)*

**Edwina Hart:** Finance Wales administers a number of funds. My priorities for my funds continue to be to ensure that businesses in Wales have easy access to support to help them to grow and thrive.

**Edwina Hart:** Mae Cyllid Cymru yn gweinyddu nifer o gronfeydd. Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer fy arian yn parhau i ymwneud â sicrhau y gall busnesau yng Nghymru gael gafael ar gymorth yn hawdd er mwyn eu helpu i dyfu a ffynnu.

**William Powell:** Thank you very much for that answer, Minister. What plans do you have to broaden the activities of Finance Wales so that it can offer more effective support to small and medium-sized enterprises across rural Wales?

**William Powell:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Pa gynlluniau sydd gennych i ehangu gweithgareddau Cyllid Cymru fel y gall gynnig cymorth mwy effeithiol i fentrau bach a chanolig eu maint ar draws Cymru wledig?

**Edwina Hart:** It is managing the Wales SME fund, which is aimed at businesses that traditionally have not been serviced by Finance Wales or JEREMIE, including

**Edwina Hart:** Mae'n rheoli cronfa BBaCh Cymru, sydd wedi'i hanelu at fusnesau nad ydynt yn draddodiadol wedi cael eu gwasanaethu gan Cyllid Cymru na

business consumer companies. It also serves to cover any shortfalls in funds towards the end of JEREMIE, so I think that we are branching out in terms of our relationship with regard to Finance Wales and the groups that it will cover.

JEREMIE, gan gynnwys cwmnïau defnyddwyr busnes. Mae hefyd yn gwasanaethu i dalu am unrhyw ddiffygion mewn arian tuag at ddiwedd JEREMIE, felly credaf ein bod yn estyn allan o ran ein cydberthynas â Cyllid Cymru a'r grwpiau y bydd yn ymdrin â hwy.

**Nick Ramsay:** You must have read my mind, Minister. I was about to ask you about the much-vaunted SME investment fund, which I believe is now nearing its first anniversary. As you know, that falls within the Finance Wales umbrella. Can you provide details of how many companies have applied for, and how many have received, grants under the scheme?

**Nick Ramsay:** Mae'n rhaid eich bod wedi darllen fy meddwl, Weinidog. Roeddwn ar fin gofyn i chi am gronfa fuddsoddi BBaCh y bu cymaint o sôn amdani, y credaf sy'n agosáu at ei phen-blwydd cyntaf. Fel y gwyddoch, daw hynny o dan ymbarél Cyllid Cymru. A allwch ddarparu manylion am faint o gwmnïau sydd wedi gwneud cais am grant o dan y cynllun, a faint sydd wedi derbyn un?

**Edwina Hart:** I will discuss with Finance Wales the availability of information. If there is nothing that is particularly commercially confidential, I will be more than happy to write to the Member with any pertinent details.

**Edwina Hart:** Byddaf yn trafod â Cyllid Cymru y wybodaeth sydd ar gael. Os nad oes unrhyw beth sy'n arbennig o gyfrinachol yn fasnachol, byddaf yn fwy na pharod i ysgrifennu at yr Aelod gydag unrhyw fanylion perthnasol.

**Nick Ramsay:** It would be great if you could do that, Minister. I am keen, as are you, I am sure, to see Finance Wales realise its full potential in terms of funding and encouraging the growth of Welsh businesses. However, I remain concerned about the lack of impact that the Finance Wales brand has had, or has been accused of having in certain quarters. I am thinking specifically about last year's Federation of Small Businesses survey, which found—I am sure that you are aware of these figures—that 64% of those in business questioned were not aware of the role of Finance Wales, or of how it could help them. What are you doing to improve the image and the brand of Finance Wales, so that business really does benefit from the impact that it can have?

**Nick Ramsay:** Byddai'n wych pe gallech wneud hynny, Weinidog. Rwy'n awyddus, fel chithau, rwy'n siŵr, i weld Cyllid Cymru yn gwireddu ei botensial llawn o ran ariannu ac annog twf busnesau Cymru. Fodd bynnag, rwy'n bryderus o hyd am y diffyg effaith y mae brand Cyllid Cymru wedi ei chael, neu wedi cael ei gyhuddo o'i chael mewn rhai mannau. Rwy'n meddwl yn benodol am arolwg y Ffederasiwn Busnesau Bach y llynedd a ganfu—rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ffigurau hyn—nad oedd 64% o'r rheini mewn busnes a holwyd yn ymwybodol o rôl Cyllid Cymru, nac yn gwybod sut y gallai eu helpu. Beth ydych yn ei wneud i wella delwedd a brand Cyllid Cymru, fel y gall busnesau elwa o ddifrif ar yr effaith y gall ei chael?

**Edwina Hart:** Finance Wales has a duty to improve its image itself, in the first instance. However, if we are running funds to it, we also have a duty to see what type of publicity we can give to those funds. I have looked at some of the ways in which these funds have been marketed, and we are doing further work on that, which will, hopefully, up the profile, so that everyone knows where they are.

**Edwina Hart:** Mae gan Cyllid Cymru ddyletswydd i wella ei delwedd ei hun, yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os rhoddwn arian iddi, mae gennym hefyd ddyletswydd i weld pa fath o gyhoeddusrwydd y gallwn ei roi i'r arian hwnnw. Rwyf wedi edrych ar rai o'r ffyrdd y gall yr arian hwn gael ei farchnata, ac rydym yn gwneud rhagor o waith ar hynny a fydd, gobeithio, yn ehangu'r proffil, fel bod pawb yn gwybod beth yw'r sefyllfa.

**Jocelyn Davies:** I was very pleased to see in the news before Christmas that B&C Foundry, which is a family-run business in Caerphilly, received a £75,000 investment to help it expand. Does Finance Wales target private sector growth in our poorest areas, and does the Minister see merit in promoting Finance Wales in those areas?

**Jocelyn Davies:** Roeddwn yn falch iawn o weld yn y newyddion cyn y Nadolig fod B&C Foundry, sydd yn fusnes teuluol yng Nghaerffili, wedi cael buddsoddiad gwerth £75,000 er mwyn ei helpu i ehangu. A yw Cyllid Cymru yn targedu twf y sector preifat yn ein hardaloedd tlotaf, ac a yw'r Gweinidog yn gweld gwerth mewn hyrwyddo Cyllid Cymru yn yr ardaloedd hynny?

**Edwina Hart:** Like you, I was very pleased that we had an application and that it was successful via Finance Wales. I am not certain that it specifically looks at some of the socially deprived areas—I think it runs it as a business. I would have to have a word with it, but you make a very good point. Only today, I visited an area that is a subject of deprivation in terms of the money we give it, and there was a very successful business there that was unaware of certain facilities that the Welsh Government had put in place, so it is something I will pick up in one of my meetings with Finance Wales for it to be more proactive about.

**Edwina Hart:** Fel chi, roeddwn yn falch iawn bod gennym gais ac iddo lwyddo drwy Cyllid Cymru. Nid wyf yn sicr ei fod yn edrych yn benodol ar rai o'r ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol—credaf ei fod yn rhedeg fel busnes. Byddai'n rhaid imi gael gair gydag ef, ond rydych yn gwneud pwynt da iawn. Dim ond heddiw, ymwelais ag ardal sy'n destun amddifadedd o ran yr arian a roddwn iddi, ac roedd busnes llwyddiannus iawn yno nad oedd yn gwybod am y cyfleusterau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith, felly mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod yn un o'm cyfarfodydd â Cyllid Cymru er mwyn iddo fod yn fwy rhagweithiol yn ei gylch.

**Strategaeth Dinas-ranbarthau**

**City Regions Strategy**

***8. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ar gyfer gogledd ddwyrain Cymru sy'n ymwneud â'r strategaeth Dinas-ranbarthau. OAQ(4)0207(BET)*

***8. Sandy Mewies:*** *Will the Minister provide an update on proposals for north east Wales relating to the City Regions strategy. OAQ(4)0207(BET)*

**Edwina Hart:** I announced in October that Dr Haywood was undertaking further work in north-east Wales. This, I understand, is progressing well. She has met with a range of stakeholders across the region and plans to hold further meetings with partners, and, I understand, north Wales Assembly Members, in the coming weeks.

**Edwina Hart:** Cyhoeddais ym mis Hydref fod Dr Haywood yn ymgymryd â gwaith pellach yn y gogledd-ddwyrain. Deallaf fod hyn yn mynd rhagddo'n dda. Mae hi wedi cyfarfod ag amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y rhanbarth, ac yn bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach â phartneriaid, ac, fel y deallaf, ag Aelodau Cynulliad y gogledd, yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Sandy Mewies:** Thank you for that. I welcome the work being done by Dr Elizabeth Haywood and that she also goes on to examine the possible effects on north-east Wales of the city regions strategy. It is essential that the north-east Wales region is promoted, and continues to be promoted, as a vital and strategic economic location. You have half answered this question already in

**Sandy Mewies:** Diolch ichi am hynny. Rwy'n croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dr Elizabeth Haywood a'i bod hefyd yn mynd ymlaen i archwilio effeithiau posibl y strategaeth dinas-ranbarthau ar y gogledd-ddwyrain. Mae'n hanfodol bod rhanbarth y gogledd-ddwyrain yn cael ei hyrwyddo, ac yn parhau i gael ei hyrwyddo, fel lleoliad economaidd hollbwysig a strategol. Rydych

anticipation, but can you ensure that any impacts, both positive and negative, are clearly identified and discussed with all the relevant stakeholders?

wedi ateb hanner y cwestiwn hwn eisoes ymlaen llaw, ond a allwch sicrhau bod unrhyw effeithiau, cadarnhaol a negyddol, yn cael eu nodi'n glir a'u trafod â phob rhanddeiliad perthnasol?

**Edwina Hart:** I will certainly ensure that it is discussed with all the relevant stakeholders, and it is my intention, when I receive Dr Haywood's report, to table the report for a discussion in Plenary to gather any useful suggestions from Members about how they might wish to take her report forward and to see whether we can develop a consensus across the Chamber.

**Edwina Hart:** Yn sicr, byddaf yn sicrhau y caiff ei drafod â phob rhanddeiliad perthnasol, a'm bwriad, pan gaf adroddiad Dr Haywood, yw cyflwyno'r adroddiad ar gyfer trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn i gasglu unrhyw awgrymiadau defnyddiol gan Aelodau ynglŷn â sut yr hoffent weithredu ar yr adroddiad ac i weld a allwn feithrin consensws yn y Siambr.

**Antoinette Sandbach:** Previously, you have concluded that the Mersey Dee Alliance, rather than city region status, is the way forward for north-east Wales. Clearly, the concern is that steps will need to be taken to ensure that the region secures the full benefits of economic growth and capitalises on the Deeside enterprise zone. Can you confirm what steps you will be taking to ensure that the Mersey Dee Alliance will bring jobs and businesses, and not simply additional housing capacity, to north-east Wales?

**Antoinette Sandbach:** O'r blaen, rydych wedi dod i'r casgliad mai Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, yn hytrach na statws dinas-ranbarth, yw'r ffordd ymlaen ar gyfer y gogledd-ddwyrain. Yn amlwg, y pryder yw y bydd angen cymryd camau i sicrhau bod y rhanbarth yn sicrhau manteision llawn twf economaidd ac yn manteisio ar ardal fenter Glannau Dyfrdwy. A allwch gadarnhau pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau y bydd Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn creu swyddi a busnesau, ac nid mwy o le ar gyfer tai yn unig, i'r gogledd-ddwyrain?

**Edwina Hart:** The primary focus of city regions is economic development, and, at the end of the day, we need to get people into employment, jobs into the area that are sustainable, long-term and will provide people with the necessary income so that they can enjoy life. So, I think you have my assurance on what I see as the role and function of city regions and any arrangements. However, Deeside is quite key and many people are very keen on the Deeside alliance, but we have to make it work in the context of what we are doing, which is why Elizabeth's work is important, and why it is important that we have a proper debate in this Chamber on it.

**Edwina Hart:** Prif ffocws y dinas-ranbarthau yw datblygu economaidd, ac, yn y pen draw, mae angen inni sicrhau cyflogaeth i bobl, creu swyddi yn yr ardal sy'n gynaliadwy ac yn hir-dymor ac a fydd yn rhoi'r incwm angenrheidiol i bobl fel y gallant fwynhau bywyd. Felly, credaf fod gennych fy sicrwydd o ran yr hyn a welaf fel rôl a swyddogaeth dinas-ranbarthau ac unrhyw drefniadau. Fodd bynnag, mae Glannau Dyfrdwy yn eithaf allweddol ac mae llawer o bobl yn frwd iawn dros gynghrair Glannau Dyfrdwy, ond mae'n rhaid inni wneud iddi weithio yng nghyd-destun yr hyn rydym yn ei wneud, a dyna pam mae gwaith Elizabeth mor bwysig, a pham mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaeth briodol arno yn y Siambr hon.

## Mentrau Gwledig

## Rural Enterprise

***9. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i fentrau gwledig. OAQ(4)0201(BET)*

***9. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on support for rural enterprise. OAQ(4)0201(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government contains a wide range of actions for supporting enterprise, including enterprise in rural areas.

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu ar gyfer cefnogi mentrau, gan gynnwys mentrau mewn ardaloedd gwledig.

**Darren Millar:** Thank you for that response, Minister. I was very pleased to be able to take the Deputy Minister for agriculture to visit Llanarmon-yn-Iâl not long before Christmas to visit the Raven Inn, a community-run public house in my constituency. It has been an extremely successful enterprise, which is going from strength to strength and is really beginning to thrive. What support is your Government giving to establish similar schemes in those parts of Wales where a community pub really is the hub and is at risk of closing?

**Darren Millar:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Roeddwn yn falch iawn o allu mynd â'r Dirprwy Weinidog amaethyddiaeth i ymweld â Llanarmon-yn-Iâl ychydig cyn y Nadolig i weld y Raven Inn, sef tafarn sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned yn fy etholaeth. Mae wedi bod yn fenter hynod lwyddiannus, sydd yn mynd o nerth i nerth ac mae'n wirioneddol yn dechrau ffynnu. Pa gefnogaeth y mae eich Llywodraeth yn ei rhoi i sefydlu cynlluniau tebyg yn y rhannau hynny o Gymru lle mae'r dafarn gymunedol wrth wraidd y gymuned ac mewn perygl o gau?

**Edwina Hart:** I know that the Deputy Minister enjoyed his little trip to the pub is the hub. These are issues that are covered within his portfolio, and I am sure he will be happy to update you on any further work he might be doing in that particular area.

**Edwina Hart:** Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi mwynhau ei daith fach i'r dafarn. Mae'r rhain yn faterion a gwmpesir gan ei bortffolio, ac rwy'n siŵr y bydd yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw waith pellach y gallai fod yn ei wneud yn yr ardal benodol honno.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** O ystyried y gefnogaeth angenrheidiol i fentrau a datblygu gwledig, beth yw gobeithion y Gweinidog erbyn hyn ynglŷn â pharth menter Eryri, ac oes cyhoeddiad pellach y gall hi ei wneud yn fuan ynglŷn â'r cyfraniad y gall y parth hwn wneud i wir ddatblygiad gwledig yn Eryri a gorllewin Cymru?

**Lord Elis-Thomas:** Given the necessary support for rural development initiatives, what are the Minister's hopes now for the Snowdonia enterprise zone, and will she be able to make a further announcement soon on the contribution that this zone could make to real rural development in Snowdonia and west Wales?

**Edwina Hart:** I very much hope that I will be able to make an announcement shortly regarding the enterprise zone in Snowdonia. It is important that we look at rural enterprise in terms of what the enterprise zone can provide and the wider issues around rural enterprise. This week, I met the chair of the Petrol Retailers Association, who came to see me about his concerns about the impact of certain developments in rural areas, and how they affect not only petrol but also the shops that are linked to it, what more we can do as a Government and also how we should be lobbying the UK Government about certain issues regarding duty.

**Edwina Hart:** Rwy'n gobeithio'n fawr y byddaf yn gallu gwneud cyhoeddiad yn fuan ynghylch yr ardal fenter yn Eryri. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar fentrau gwledig o ran yr hyn y gall yr ardal fenter ei ddarparu a'r materion ehangach sy'n ymwneud â mentrau wledig. Yr wythnos hon, cwrddais â chadeirydd y Gymdeithas Manwerthwyr Petrol, a ddaeth i'm gweld ynglŷn â'i bryderon am effaith datblygiadau penodol mewn ardaloedd gwledig, a sut y maent nid yn unig yn effeithio ar betrol ond hefyd ar y siopau sy'n gysylltiedig ag ef, beth yn rhagor y gallwn ei wneud fel Llywodraeth a hefyd sut y dylem fod yn lobïo Llywodraeth y DU ynglŷn â rhai materion yn ymwneud â thollau.

2.45 p.m.

I find it absolutely astounding that they have to pay their duty on a tank of petrol within two days. When you have a small outlet you do not have that type of cash flow, so it is important that we look at other arrangements. We are continuing those discussions, because shops in rural areas, particularly the independent shops, face a lot of issues and there are also issues in relation to people having the opportunity to purchase locally and for businesses to develop. Therefore, a wide range of issues are emerging as we develop our terms for looking at the rural economy.

2.45 p.m.

Rwy’n ei chael hi’n gwbl syfrdanol bod yn rhaid iddynt dalu eu toll ar danc o betrol mewn dau ddiwrnod. Pan fydd gennych fusnes bach, nid oes gennych y math hwnnw o lif arian parod, felly mae’n bwysig ein bod yn edrych ar drefniadau eraill. Rydym yn parhau â’r trafodaethau hynny, gan fod siopau mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y siopau annibynnol, yn wynebu llawer o broblemau ac mae problemau hefyd mewn perthynas â phobl yn cael y cyfle i brynu yn lleol ac i fusnesau ddatblygu. Felly, mae ystod eang o faterion yn dod i’r amlwg wrth i ni ddatblygu ein telerau ar gyfer edrych ar yr economi wledig.

**Kirsty Williams:** Minister, while many would associate rural enterprise with farming, tourism and even community pubs, manufacturing has a vital role to play and a potential to provide jobs in rural areas, given the right level of support from the Welsh Government. Will you and your officials visit two such firms in my constituency, the Burger Manufacturing Co Ltd in Llanelwedd and Springdew Ltd in Ystradgynlais, so that you could see at first hand their plans to expand their workforces and learn what you could to help them to achieve that aspiration and goal?

**Kirsty Williams:** Weinidog, er y byddai llawer yn cysylltu menter wledig â ffermio, twristiaeth a hyd yn oed dafarndai cymunedol, mae gan weithgynhyrchu rôl hollbwysig i’w chwarae ac mae potensial i ddarparu swyddi mewn ardaloedd gwledig, os ceir y lefel gywir o gymorth gan Lywodraeth Cymru. A wnewch chi a’ch swyddogion ymweld â dau gwmni o’r fath yn fy etholaeth, y Burger Manufacturing Co Ltd yn Llanelwedd, a Springdew Ltd yn Ystradgynlais, er mwyn i chi weld drosoch chi eich hun eu cynlluniau i ehangu eu gweithluoedd a dysgu’r hyn y gallech er mwyn eu helpu i gyflawni’r dyhead a’r nod hwnnw?

**Edwina Hart:** I will certainly check on that, because our account managers should be dealing with those companies. I will check on that when I go back upstairs, and we will make the necessary contact if that has not been done. If the Member wishes to write to me with any specific details on this, I would be delighted to assist.

**Edwina Hart:** Byddaf yn sicr yn edrych ar hynny, oherwydd dylai ein rheolwyr cyfrif fod yn delio â’r cwmnïau hynny. Byddaf yn edrych ar hynny pan af yn ôl i fyny’r grisiau, a gwnawn y cyswllt angenrheidiol os nad yw hynny wedi cael ei wneud. Os yw’r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf ynghylch unrhyw fanylion penodol ar hyn, byddwn yn falch iawn o gynorthwyo.

**Dull Gweithredu Dinas-Ranbarth**

**A City Region Approach**

***10. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu dull gweithredu Dinas-ranbarth yn ne ddwyrain Cymru. OAQ(4)0206(BET)*

***10. Mark Drakeford:*** *Will the Minister make a statement on what actions the Welsh Government is taking to develop a City Region approach in south east Wales. OAQ(4)0206(BET)*

**Edwina Hart:** We have taken a number of steps to develop the city region approach in

**Edwina Hart:** Rydym wedi cymryd nifer o gamau i ddatblygu’r dull gweithredu dinas-

south-east Wales. I have established a task and finish group to encourage an integrated approach and to promote joint working. The group will be co-chaired by a local authority lead and a private sector stakeholder.

ranbarth yn y de-ddwyrain. Rwyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i annog dull integredig ac i hyrwyddo gweithio ar y cyd. Caiff y grŵp ei gyd-gadeirio gan arweinydd awdurdod lleol a rhanddeiliad y sector preifat.

**Mark Drakeford:** I welcome all of those developments, including the new appointments that you have made. Do you agree that in the wider European context, Cardiff matches or surpasses the size of some other cities that form the hub of successful city regions, but that their success depends crucially on effective working relationships between those cities and their hinterland?

**Mark Drakeford:** Croesawaf yr holl ddatblygiadau hynny, gan gynnwys y penodiadau newydd yr ydych wedi'u gwneud. A ydych yn cytuno, yn y cyd-destun Ewropeaidd ehangach, fod Caerdydd yn cyfateb i faint rhai o'r dinasoedd eraill sy'n ffurfio canolbwynt y dinas-ranbarthau llwyddiannus, neu'n rhagori arnynt, ond bod eu llwyddiant yn dibynnu'n hollbwysig ar gydberthnasau gwaith effeithiol rhwng y dinasoedd hynny a'u cefnwlad?

**Edwina Hart:** I totally concur, because one of the key areas that we will have to look at is the areas outside of the city region and how the city region concept impacts on those. It is important that the city regions do not just benefit Cardiff, Swansea or whatever might emerge in north Wales, but also their hinterland and the areas outside. This is why the debate surrounding city regions has been very difficult. We have had the report from Dr Elizabeth Haywood, and she has now finished her work except for the work that she is undertaking in north Wales. The work is being taken forward by David Rosser, who heads up the city regions project with a group of officials, because we have to be careful to ensure that we are on the task about looking at the city region and how it develops. It has been a 20-year task in some areas of Europe and the UK to get that type of co-ordination, and we must not run before we can walk. We must concentrate on the key area of co-operation, and that is why Alun Davies, as the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, will be heavily involved in the first year to concentrate hearts and minds on the importance of structural funds and their impact on city regions.

**Edwina Hart:** Cytunaf yn llwyr, oherwydd un o'r meysydd allweddol y bydd yn rhaid inni edrych arno yw'r ardaloedd y tu allan i'r dinas-ranbarth a sut y mae cysyniad dinas-ranbarthau yn effeithio arnynt. Mae'n bwysig nad yw'r dinas-ranbarthau ond o fudd i Gaerdydd, Abertawe neu beth bynnag a allai ddatblygu yn y gogledd, ond eu bod hefyd o fudd i'w cefnwlad a'r ardaloedd y tu allan. Dyna pam y mae'r ddadl ynghylch dinas-ranbarthau wedi bod yn anodd iawn. Cawsom yr adroddiad gan Dr Elizabeth Haywood, ac mae hi bellach wedi gorffen ei gwaith ar wahân i'r hyn y mae'n ei wneud yn y gogledd. Mae'r gwaith yn cael ei ddatblygu gan David Rosser, sy'n arwain y prosiect dinas-ranbarthau gyda grŵp o swyddogion, oherwydd mae'n rhaid inni fod yn ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y dinas-ranbarth a sut mae'n datblygu. Mae wedi bod yn dasg 20 mlynedd mewn rhai ardaloedd o Ewrop a'r DU i gael y math hwnnw o gydweithredu, a rhaid inni gropian cyn cerdded. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar faes allweddol cyd-weithredu, a dyna pam y bydd Alun Davies, fel y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, yn chwarae rhan fawr yn y flwyddyn gyntaf i ganolbwyntio calonnau a meddyliau ar bwysigrwydd cronfeydd strwythurol a'u heffaith ar ddinas-ranbarthau.

**William Graham:** I warmly welcome what the Minister has said, particularly now that the name of the city region has been changed

**William Graham:** Croesawaf yn gynnes yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, yn enwedig gan fod enw'r dinas-ranbarth wedi ei newid i

to 'south Wales' rather than simply 'Cardiff'. It has every chance of being a great success, but I am a little concerned, and I would be grateful for the Minister's confirmation, that there will be no conflict with the enterprise zone.

'de Cymru' yn hytrach na 'Caerdydd' yn unig. Mae ganddo bob siawns o fod yn llwyddiant mawr, ond rwyf ychydig yn bryderus, a byddwn yn ddiolchgar am gadarnhad y Gweinidog, na fydd unrhyw wrthdaro â'r ardal fenter.

**Edwina Hart:** I do not think that there will be any conflict with the enterprise zone. I have been very pleased by the way in which the enterprise zones have understood the role and function of other organisations, and I have also been very pleased by the way in which local authorities have taken the enterprise zones to heart in working collaboratively with them. The reason why I have chosen a task and finish group mechanism for city regions is because I want to ensure that there is no conflict, and the fact that I have appointed independent chairs and that the Deputy Minister will be attending those meetings will ensure that people will be on the task, rather than looking for areas of conflict and matters that divide them. Instead, they will have to look for matters that join them for economic wellbeing.

**Edwina Hart:** Ni chredaaf y bydd unrhyw wrthdaro â'r ardal fenter. Rwyf wedi bod yn falch iawn o'r ffordd y mae'r ardaloedd menter wedi deall rôl a swyddogaeth sefydliadau eraill, ac rwyf hefyd wedi bod yn falch iawn o'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi ymddiddori mewn ardaloedd menter gan gydweithredu â hwy. Y rheswm pam yr wyf wedi dewis dull grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer dinas-ranbarthau yw am fy mod eisiau sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro, ac mae'r ffaith fy mod wedi penodi cadeiryddion annibynnol ac y bydd y Dirprwy Weinidog yn mynychu'r cyfarfodydd hynny yn sicrhau y bydd pobl yn canolbwyntio ar yr hyn sydd i'w wneud, yn hytrach nag edrych am feysydd gwrthdaro a materion sy'n eu gwahanu. Yn hytrach, bydd yn rhaid iddynt chwilio am faterion sy'n eu huno er budd economaidd.

**Lindsay Whittle:** Minister, it is good to hear you and Mark Drakeford mention the hinterland. Cardiff's bid to be the European Capital of Culture in 2008 failed because of the failure of council leaders, although not all of them, to back that bid. My concern about the task and finish group that you have established is that it is possibly too small. Will you commit to ensuring that every area is represented as we move forward with the city regions, especially to ensure that Cardiff as the core city, Newport as the main second city and the Heads of the Valleys are represented properly, too, but, in particular, represented at local government level? These are big players.

**Lindsay Whittle:** Weinidog, mae'n dda gennyf eich clywed chi a Mark Drakeford yn sôn am y gefnwlad. Methodd cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 oherwydd methiant arweinwyr cynghorau, er nid pob un ohonynt, i gefnogi'r cais hwnnw. Fy mhryder ynglŷn â'r grŵp gorchwyl a gorffen yr ydych wedi ei sefydlu yw ei fod o bosibl yn rhy fach. A wnewch chi ymrwymo i sicrhau bod pob ardal yn cael ei chynrychioli wrth inni weithredu ar y dinas-ranbarthau, yn enwedig er mwyn sicrhau bod Caerdydd fel y ddinas graidd, Casnewydd fel yr ail brif ddinas a Blaenau'r Cymoedd yn cael eu cynrychioli'n briodol, hefyd, ond, yn benodol, yn cael eu cynrychioli ar lefel llywodraeth leol? Mae'r rhain yn chwaraewyr mawr.

**Edwina Hart:** I have asked the initial groups that I have established to look at this at the core to make some proposals to me by the end of January about how they think that it will work. I will then look specifically at their terms of reference, take advice from the Deputy Minister, who will lead on behalf of the Government on this, and then I will take

**Edwina Hart:** Rwyf wedi gofyn i'r grwpiau cychwynnol yr wyf wedi eu sefydlu i edrych ar hyn yn ganolog er mwyn gwneud rhai cynigion imi erbyn diwedd mis Ionawr ynglŷn â sut y maent yn credu y bydd yn gweithio. Yna, byddaf yn edrych yn benodol ar eu cylch gorchwyl, yn cymryd cyngor gan y Dirprwy Weinidog, a fydd yn arwain ar ran

that into account. There is a lot of preparatory work to be undertaken in the first instance. Some successful city regions have divided up bits of what the city region issues are for different local authorities to run. I want some of these groups to start to see what might have happened in Manchester or elsewhere and how it has always there before they put things in place definitively. However, I will bear that point in mind.

y Llywodraeth ar hyn, ac yna cymeraf hynny i ystyriaeth. Mae llawer o waith paratoi i'w wneud yn y lle cyntaf. Mae rhai dinas-ranbarthau llwyddiannus wedi rhannu'r materion sy'n ymwneud â dinas-ranbarthau er mwyn i awdurdodau lleol gwahanol eu rhedeg. Rwyf am i rai o'r grwpiau hyn ddechrau gweld beth allai fod wedi digwydd ym Manceinion neu yn rhywle arall cyn iddynt roi pethau ar waith yn derfynol. Fodd bynnag, cadwaf y pwynt hwnnw mewn cof.

**Gweithgareddau Adran yng Nghanol De Cymru**

**Department's Activities in South Wales Central**

***11. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ei hadran yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0212(BET)*

***11. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister provide an update on her department's activities in South Wales Central. OAQ(4)0212(BET)*

**Edwina Hart:** My department is working to support the whole of Wales through the programme for government, which sets out our priorities for growth and sustainable jobs throughout Wales and, of course, South Wales Central.

**Edwina Hart:** Mae fy adran yn gweithio i gefnogi Cymru gyfan drwy gyfrwng y rhaglen lywodraethu, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy ledled Cymru ac, wrth gwrs, Canol De Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. One of the significant investments that the Government has historically made in the Vale of Glamorgan is in the Red Dragon hangar at RAF St Athan. It has been the subject of many inquiries and reports, but the fact of the matter is that the hangar is there and that it received significant Welsh Government investment. Is the Minister in a position to update us on progress to make use of this asset to create greater employment activities, but, above all, to get some activity in that hangar, which cost the Welsh Government some £113 million?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un o'r buddsoddiadau mwyaf y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud yn hanesyddol ym Mro Morgannwg yw'r buddsoddiad yn awyrendy'r Ddraig Goch yn RAF Sain Tathan. Bu'n destun llawer o ymholiadau ac adroddiadau, ond y ffaith amdani yw bod yr awyrendy yno a'i fod wedi cael buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd a wnaed i wneud defnydd o'r ased hwn i greu mwy o weithgareddau ym maes cyflogaeth, ond, yn anad dim, i sicrhau rhywfaint o weithgarwch yn yr awyrendy, a gostiodd tua £113 miliwn i Lywodraeth Cymru?

**Edwina Hart:** I thank the Member very much for raising the point not only today but privately with me, and for his interest in ensuring that we get the maximum advantage possible from the use of that hangar. We have had extremely useful discussions with the Ministry of Defence and with the new Minister in the MOD, and we will further those discussions during January and hopefully achieve a successful outcome. I am

**Edwina Hart:** Diolchaf yn fawr iawn i'r Aelod am godi'r pwynt nid yn unig heddiw, ond yn breifat gyda mi, ac am ei ddiddordeb mewn sicrhau ein bod yn cael y fantais fwyaf posibl o ddefnyddio'r awyrendy. Rydym wedi cael trafodaethau defnyddiol iawn â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a chyda'r Gweinidog newydd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, a byddwn yn ymestyn y trafodaethau hynny yn ystod mis Ionawr ac

concerned about the use of the Red Dragon hangar, but I am also committed to the MOD's involvement in St Athan. I recognise all the difficulties that the MOD has in terms of other issues across the globe and that it will have to think carefully about how it wants to manage its assets there. We have pushed it as far as we can and we are hopeful that we will come to some sort of agreement. The Assembly will know about that straight away.

**Leanne Wood:** Building the capital's capacity for holding major events is an issue not only for the South Wales Central region, but for the whole of the country. It is important, however, that any public money that is spent on these facilities is spent intelligently. What research and evidence gathering will you undertake to ensure that any investment in convention centres across the capital will ensure value for money, please?

**Edwina Hart:** One of the key issues will be value for money, and you will have to look at the marketplace in the context not just of Wales but of what is on our borders in terms of large convention and conference centres. There has been discussion in the media about what may or may not be happening elsewhere, but if there is to be a genuine discussion about issues, particularly in Cardiff, I will want the enterprise board also to look at it, because, given that it involves business, its members will have an interest. However, there will have to be a lot of due diligence before any public money is invested in any project. You only have to look at the land value issue, and on what can be put where; this has to be quite strategic. That does not rule anything in or out, but I can assure you that we will be on the case in terms of due diligence and value for money.

**Blaenoriaethau**

***12. Byron Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer*

yn cael canlyniad llwyddiannus gobeithio. Rwy'n pryderu ynglŷn â'r defnydd o awyrendy'r Ddraig Goch, ond rwyf hefyd wedi ymrwymo i gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan. Cydnabyddaf yr holl anawsterau sydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o ran problemau eraill ledled y byd ac y bydd yn rhaid iddi feddwl yn ofalus am sut y mae am reoli ei hasedau yno. Rydym wedi ei gwthio mor bell ag y gallwn ac rydym yn obeithiol y deuwn i ryw fath o gytundeb. Caiff y Cynulliad wybod am hynny ar unwaith.

**Leanne Wood:** Mae meithrin gallu'r brifddinas i gynnal digwyddiadau mawr yn fater nid yn unig i ranbarth Canol De Cymru, ond i'r wlad gyfan. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod unrhyw arian cyhoeddus a gaiff ei wario ar y cyfleusterau hyn yn cael ei wario mewn modd deallus. Pa ymchwil a gwaith casglu tystiolaeth a wnewch i sicrhau y bydd unrhyw fuddsoddiad mewn canolfannau confensiwn yn y brifddinas yn sicrhau gwerth am arian, os gwelwch yn dda?

**Edwina Hart:** Un o'r materion allweddol fydd gwerth am arian, a bydd yn rhaid ichi edrych ar y farchnad nid yn unig yng nghyd-destun Cymru ond yng nghyd-destun yr hyn sydd ar ein ffiniau o ran canolfannau confensiwn a chynadledda mawr. Bu trafodaeth yn y cyfryngau am yr hyn a allai neu na allai fod yn digwydd mewn mannau eraill, ond er mwyn cael trafodaeth ddilys am faterion, yn enwedig yng Nghaerdydd, byddaf am i'r bwrdd mentrau hefyd edrych arno, oherwydd, o ystyried ei fod yn cynnwys busnes, bydd gan ei aelodau ddiddordeb. Fodd bynnag, bydd yn rhaid cael llawer o ddiwydrwydd dyladwy cyn i unrhyw arian cyhoeddus gael ei fuddsoddi mewn unrhyw brosiect. Nid oes ond rhaid edrych ar fater gwerth y tir, ac ar yr hyn y gellir ei roi ymhle; mae'n rhaid i hyn fod yn eithaf strategol. Nid yw hynny'n golygu eich bod yn derbyn nac yn gwrthod unrhyw beth, ond gallaf eich sicrhau y byddwn yn gwneud yr hyn sydd angen ei wneud o ran diwydrwydd dyladwy a gwerth am arian.

**Priorities**

***12. Byron Davies:** Will the Minister make a statement on her priorities for 2013.*

*2013. OAQ(4)0214(BET)*

*OAQ(4)0214(BET)*

**Edwina Hart:** They are outlined in the programme for government.

**Edwina Hart:** Fe'u hamlinellir yn y rhaglen lywodraethu.

**Byron Davies:** Given that purchasing Cardiff Airport has become a priority for this Government and given your assertion, in answer to yesterday's urgent question, that you have received significant support for your plans during your Christmas shopping expedition, will you publish the evidence that supports your plans to purchase the airport and also all correspondence that you have received to date welcoming this announcement? Put simply, we do not recognise on this side of the Chamber the apparent significant outcry of support.

**Byron Davies:** Gan fod prynu Maes Awyr Caerdydd wedi dod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon ac o gofio eich honiad, mewn ateb i gwestiwn brys ddoe, eich bod wedi cael cefnogaeth sylweddol i'ch cynlluniau yn ystod eich taith siopa Nadolig, a wnewch chi gyhoeddi'r dystiolaeth sy'n cefnogi eich cynlluniau i brynu'r maes awyr a hefyd yr holl ohebiaeth yr ydych wedi'i chael hyd yn hyn yn croesawu'r cyhoeddiad hwn? Yn syml, ar yr ochr hon o'r Siambr nid ydym yn deall y mynegiant cryf o gefnogaeth yn ôl pob tebyg i hyn.

**Edwina Hart:** I will consider my position in relation to that question, but I can tell you now, as could other Members, that when I am out and about, people are pleased that we are looking at this particular matter. I am sure that we can deal with these matters in the debate later and see whether I can add anything further to what I said in answer to the urgent question.

**Edwina Hart:** Byddaf yn ystyried fy sefyllfa mewn perthynas â'r cwestiwn hwnnw, ond gallaf ddweud wrthych yn awr, fel y gallai Aelodau eraill, fod pobl yn dweud wrthyf, pan fyddant yn fy ngweld i allan yn gyhoeddus, eu bod yn falch ein bod yn ystyried y mater penodol hwn. Rwy'n siŵr y gallwn ymdrin â'r materion hyn yn y ddadl yn nes ymlaen a gweld a allaf ychwanegu unrhyw beth pellach i'r hyn a ddywedais wrth ateb y cwestiwn brys.

**Vaughan Gething:** Minister, I am sure that you share my view of the odious attempt of the Government to divide people into strivers and shirkers, with yesterday's vote in Parliament producing a real-terms cut for over 225,000 families in Wales who receive the working families tax credit. The Bevan Foundation has estimated that the cost to the Welsh economy, including south Wales where my own constituency is situated, will be £100 million per year. Has the Welsh Government undertaken an assessment of the economic impact of this latest attack on the least well-off families?

**Vaughan Gething:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y rhannwch fy marn ynglŷn ag ymgais atgas y Llywodraeth i rannu pobl yn ysgogwyr a chynhyrfwyr, gyda phleidlais ddoe yn y Senedd yn cynhyrchu gostyngiad mewn termau real i dros 225,000 o deuluoedd yng Nghymru sy'n cael y credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio. Mae Sefydliad Bevan wedi amcangyfrif y bydd y gost i economi Cymru, gan gynnwys y de, lle y mae fy etholaeth i, yn £100 miliwn y flwyddyn. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith economaidd yr ymosodiad diweddaraf hwn ar y teuluoedd lleiaf cefnog?

**Edwina Hart:** Collectively, we have looked at all of the issues surrounding this, particularly benefit cuts.

**Edwina Hart:** Gyda'n gilydd, rydym wedi edrych ar yr holl faterion yn ymwneud â hyn, yn enwedig toriadau budd-daliadau.

### Ardaloedd Menter

### Enterprise Zones

***13. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0202(BET)*

***13. Mike Hedges:*** *Will the Minister provide an update on Enterprise Zones in Wales. OAQ(4)0202(BET)*

**Edwina Hart:** I am due to make an oral statement on enterprise zones on 22 January.

**Edwina Hart:** Mae disgwyl imi wneud datganiad ar ardaloedd menter ar 22 Ionawr.

**Mike Hedges:** As the Minister is aware, in Swansea the term ‘enterprise zone’ is shorthand for an out-of-town shopping centre. What will the Welsh Government do to ensure that the new set of Welsh enterprise zones do not follow the same pattern of those introduced by the Tories in the 1980s, which became little more than out-of-town shopping centres?

**Mike Hedges:** Fel y gŵyr y Gweinidog, yn Abertawe mae ‘ardal fenter’ yn golygu canolfan siopa y tu allan i’r dref. Beth a wnaiff Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw’r set newydd o ardaloedd menter yng Nghymru yn dilyn yr un patrwm â’r rhai a gyflwynwyd gan y Torïaid yn y 1980au, a ddaeth yn fawr mwy na chanolfannau siopa y tu allan i’r dref?

**Edwina Hart:** We have always acknowledged some of the issues around the establishment of enterprise zones in the 1980s. You will be aware that the current enterprise zones are not based around the retail sector or local service providers where displacement effects seem to be higher; they are actually directly around certain key sectors relating to industrial manufacturing and financial services.

**Edwina Hart:** Rydym bob amser wedi cydnabod rhai o’r problemau a oedd yn gysylltiedig â sefydlu ardaloedd menter yn y 1980au. Gwyddoch nad yw’r ardaloedd menter presennol wedi’u sefydlu o gwmpas y sector manwerthu na darparwyr gwasanaethau lleol lle yr ymddengys fod yr effeithiau dadleoli yn uwch; maent mewn gwirionedd wedi’u sefydlu yn uniongyrchol o gwmpas sectorau allweddol penodol sy’n ymwneud â gweithgynhyrchu diwydiannol a gwasanaethau ariannol.

**Mohammad Asghar:** In your statement to the Assembly in July 2012 you referred to the proposal from Torfaen and Monmouthshire for a virtual enterprise zone based on the development of a new digital economy. Will the Minister advise us when she may be in a position to consider any further bids for enterprise zones in Wales? Will she commit to looking once again at the proposal from Torfaen and Monmouthshire?

**Mohammad Asghar:** Yn eich datganiad i’r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2012 cyfeiriasoch at y cynnig gan Dor-faen a Sir Fynwy am ardal fenter rithwir yn seiliedig ar ddatblygu economi ddigidol newydd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pryd y bydd hi’n gallu ystyried unrhyw geisiadau pellach am ardaloedd menter yng Nghymru? A wnaiff hi ymrwymo i edrych unwaith eto ar y cynnig gan Dor-faen a Sir Fynwy?

**Edwina Hart:** I am happy to look at any further proposals that are given to me, but I am not likely to announce an enterprise zone as such, in very real terms, because I have not had sufficient information. However, I am revisiting some of the local authorities that made representations to me. I am hoping to have discussions very soon with Newport about certain innovations. If the Member wishes, I will start correspondence with Torfaen and Monmouthshire to pick up any points on which we may be able to assist.

**Edwina Hart:** Rwy’n fodlon edrych ar unrhyw gynigion pellach sy’n cael eu rhoi i mi, ond nid wyf yn debygol o gyhoeddi ardal fenter fel y cyfryw, mewn termau real iawn, oherwydd nid wyf wedi cael digon o wybodaeth. Fodd bynnag, rwy’n ailymweld â rhai o’r awdurdodau lleol a wnaeth sylwadau i mi. Rwy’n gobeithio cael trafodaethau’n fuan iawn â Chasnewydd ynghylch dulliau arloesi penodol. Os yw’r Aelod yn dymuno, dechreuaf ohebu gyda Thor-faen a Sir Fynwy er mwyn nodi unrhyw bwyntiau lle y gallwn o bosibl fod o gymorth.

## Hybu Entrepreneuriaeth

## Encouraging Entrepreneurship

***14. Christine Chapman:*** *Beth y mae’r*

***14. Christine Chapman:*** *What is the Minister*

*Gweinidog yn ei wneud i hybu entrepreneuriaeth yng Nghymru. OAQ(4)0209(BET)*

*doing to encourage entrepreneurship in Wales. OAQ(4)0209(BET)*

**Edwina Hart:** We make clear commitments, and our plans are set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Gwnawn ymrwymiadau clir, ac mae ein cynlluniau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Christine Chapman:** During my discussions with Welsh businesses, academics and entrepreneurs I am often told that access to proof of concept funding is one of the greatest barriers inhibiting innovation. What more can the Welsh Government do to tear down these barriers and provide Welsh entrepreneurs with access to the transitional funding that is so crucial for moving the Welsh economy forward and for making Wales a benchmark for excellence?

**Christine Chapman:** Yn ystod fy nhrafodaethau â busnesau Cymru, academyddion ac entrepreneuriaid, dywedir yn aml wrthyf mai'r gallu i gael prawf o gyllid tybiannol yw un o'r rhwystrau mwyaf sy'n atal dulliau arloesi. Beth yn rhagor y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i chwalu'r rhwystrau hyn a'i gwneud yn bosibl i entrepreneuriaid Cymru fanteisio ar y cyllid trosiannol sydd mor hanfodol i symud economi Cymru yn ei blaen ac i wneud Cymru yn feincnod ar gyfer rhagoriaeth?

**Edwina Hart:** We are currently providing funding opportunities for some Welsh businesses, academics and entrepreneurs through business innovation with SMART Cymru, support for research and development, innovation vouchers towards technical consultancy expertise, and specialist equipment. Funding is only part of the offer because we have a new project development that involves intellectual property, manufacturing and design. Business innovation can provide support in all of these areas. After some business that I have been undertaking I am aware that there is also concern that there are other areas to be considered in this agenda. Therefore, in the light of some of my recent visits to businesses, I will be asking officials to look at this.

**Edwina Hart:** Rydym ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd ariannu ar gyfer rhai o fusnesau, academyddion ac entrepreneuriaid Cymru drwy arloesi ar gyfer busnes gyda SMART Cymru, cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu, talebau arloesi tuag at arbenigedd ymgynghori technegol, ac offer arbenigol. Dim ond rhan o'r cynnig yw cyllid oherwydd mae gennym ddatblygiad prosiect newydd sy'n cynnwys eiddo deallusol, gweithgynhyrchu a dylunio. Gall arloesi ar gyfer busnes ddarparu cymorth ym mhob un o'r meysydd hyn. Ar ôl rhywfaint o fusnes yr wyf wedi bod yn ei gynnal, rwy'n ymwybodol bod pryder hefyd bod meysydd eraill i'w hystyried yn yr agenda hon. Felly, yng ngoleuni rhai o'm hymweliadau diweddar â busnesau, byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar hyn.

**Andrew R.T. Davies:** With business start-ups being some 2% below the UK figure for start-ups, and business deaths, unfortunately, after 12 months in Wales being higher, what is your department doing to make sure that new businesses have the opportunity to bed their projects down and to ultimately succeed in the medium to long term, creating greater employment opportunities and greater financial vibrancy in the Welsh economy?

**Andrew R.T. Davies:** Gyda busnesau newydd tua 2% yn is na ffigur y DU ar gyfer cychwyn busnes, a marwolaethau busnes, yn anffodus, ar ôl 12 mis yng Nghymru yn uwch, beth mae'ch adran yn ei wneud i sicrhau bod busnesau newydd yn cael y cyfle i ymsefydlu eu prosiectau a llwyddo yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan greu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a mwy o fywiogrwydd ariannol yn economi Cymru?

**Edwina Hart:** Our start-up service aims to increase the number and survivability of start-ups—and it is an issue of survivability.

**Edwina Hart:** Mae ein gwasanaeth cychwyn busnes yn anelu at gynyddu nifer y busnesau newydd a gwella'u gallu i oroesi. Mae'r

Support includes taster sessions, workshops and business advice, and we also Provide tailored start-up support, including a financial bursary, which is available particularly to graduates who are seeking to start up a business with the potential to access the business start-up service. We have supported approximately 4,500 individuals with over 14 hours of support during 2011-12, from which around 1,800 to 2,000 jobs were created by self-employed businesses. It is therefore a matter of doing more of the same, while also looking, perhaps, at some of the work that we do with other organisations. For example, we work with the Prince's Trust entrepreneurship programme. This is very much on my mind because I see a lot of people now looking to start a business.

cymorth yn cynnwys sesiynau rhagflas, gweithdai a chyngor busnes, ac rydym hefyd yn darparu cymorth cychwyn busnes wedi ei deilwra, gan gynnwys bwrsari ariannol, sydd ar gael yn arbennig i raddedigion sy'n ceisio cychwyn busnes sydd â'r potensial i fanteisio ar y gwasanaeth cychwyn busnes. Rydym wedi cefnogi tua 4,500 o unigolion gan roi mwy na 14 awr o gymorth iddynt yn ystod 2011-12, ac yn sgil hyn cafodd rhwng 1,800 a 2,000 o swyddi eu creu gan fusnesau hunangyflogedig. Felly, mae'n fater o wneud mwy o'r un peth, ond gan edrych, efallai, ar rywfaint o'r gwaith a wnawn gyda sefydliadau eraill. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda rhaglen entrepreneuriaeth y Prince's Trust. Mae hyn yn sicr ar fy meddwl oherwydd gwelaf lawer o bobl sy'n ystyried cychwyn busnes.

3.00 p.m.

3.00 p.m.

They do not necessarily have family to help them to start up, and there is reluctance on the part of the banks to lend. When they get to a certain point and want to employ somebody, where do they turn for advice? What do they do? What help and assistance is there for them? This is something that we are looking at, and if it would be helpful to Members, I might consider tabling a debate on this issue before we have the Easter recess.

Nid oes ganddynt deulu o reidrwydd i'w helpu i gychwyn busnes, ac felly mae banciau yn amharod i roi benthyg arian. Pan fyddant wedi cyrraedd man penodol ac am gyflogi rhywun, at bwy y maent yn troi am gyngor? Beth a wnânt? Pa help a chymorth sydd ar gael ar eu cyfer? Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried, ac os byddai o gymorth i Aelodau, gallwn ystyried cyflwyno trafodaeth ar y mater hwn cyn toriad y Pasg.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Maes Awyr Caerdydd
### Cardiff Airport

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

*Cynnig NDM5131 William Graham*

*Motion NDM5131 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i wladoli Maes Awyr Caerdydd; a*

*1. Regrets the decision by the Welsh Government to nationalise Cardiff Airport; and*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth y bydd prynu Maes Awyr Caerdydd yn werth am arian ac o fudd i drethdalwyr Cymru.*

*2. Calls on the Welsh Government to provide evidence that the purchase of Cardiff Airport will be value for money and beneficial for Welsh taxpayers.*

**Byron Davies:** I move the motion on behalf of the Welsh Conservative Party. I believe it is only right and proper that this Chamber debates the nationalisation of our only domestic international airport.

**Byron Davies:** Cynigiaf y cynnig ar ran Plaid Geidwadol Cymru. Mae'n gwbl briodol, yn fy marn i, fod y Siambr hon yn trafod gwladoli ein hunig faes awyr rhyngwladol.

Make no mistake, we all share the view that something must be done about Cardiff Airport. The Welsh Conservatives have ideas and an ambition to restore Cardiff Airport as a major international hub. We want to work in a positive fashion with your Government to create business and secure employment. However, nationalising for the sake of it, without giving this Chamber the courtesy of a proper debate or evidence is not a mature way forward.

Peidied neb â chamsynied, rydym i gyd yn cytuno bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud ynglŷn â Maes Awyr Caerdydd. Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig y syniadau a'r uchelgais i adfer Maes Awyr Caerdydd yn ganolbwynt rhyngwladol o bwys. Rydym am weithio mewn modd cadarnhaol gyda'ch Llywodraeth i greu busnes a chyflogaeth sicr. Fodd bynnag, nid yw gwladoli er mwyn gwladoli, heb roi cyfle i'r Siambr hon gael dadl briodol na thystiolaeth yn ffordd aeddfed o ymddwyn.

I was disappointed, along with Members on this side of Chamber, when the Government announced just before the Christmas recess that is was seeking to nationalise the airport. I was, and still remain, extremely sceptical about the timing and, finally, I welcome, thanks to the Welsh Conservative Party, the opportunity to scrutinise how the decision was made by this Government to buy a failing airport. More importantly, how is nationalising this debt-ridden airport value for money for Welsh taxpayers, and how will the public sector reverse the decline in the very competitive aviation market?

Roeddwn yn siomedig, ynghyd â'r Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr, pan gyhoeddodd y Llywodraeth yn union cyn toriad y Nadolig ei bod yn ystyried gwladoli'r maes awyr. Roeddwn yn hynod amheus ynghylch yr amseriad, ac rwy'n dal i'w amau ac, yn olaf, croesawaf y cyfle, diolch i Blaid Geidwadol Cymru, i graffu ar y ffordd y gwnaed y penderfyniad gan y Llywodraeth hon i brynu maes awyr sy'n methu. Yn bwysicach fyth, ym mha ffordd y bydd gwladoli'r maes awyr hwn sydd mewn dyledion yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr Cymru, a sut y bydd y sector cyhoeddus yn gwrthdroi'r dirywiad yn y farchnad hedfan gystadleuol iawn?

It is evident from our motion that we do not support the nationalisation of Cardiff international airport by this Labour Government. I will, however, happily stand corrected if the First Minister provides clear evidence that the purchase of Cardiff Airport will be value for money and beneficial for the Welsh taxpayer. Everyone in this Chamber wants the Airport to succeed; it is an important lever in the Welsh economy, and nobody doubts that. It is not unreasonable, however, for us to want to see evidence, let alone be provided with the clear initial due diligence test that this Government undertook prior to the announcement.

Mae'n amlwg o'n cynnig nad ydym yn cefnogi cynnig y Llywodraeth Lafur hon i wladoli maes awyr rhyngwladol Caerdydd. Fodd bynnag, byddaf yn fwy na pharod i syrthio ar fy mai os yw'r Prif Weinidog yn rhoi tystiolaeth glir y bydd prynu Maes Awyr Caerdydd yn rhoi gwerth am arian a budd i drethdalwyr Cymru. Mae pawb yn y Siambr hon am i'r Maes Awyr lwyddo; mae'n sbardun pwysig yn economi Cymru, ac nid oes neb yn amau hynny. Nid yw'n afresymol, fodd bynnag, inni ofyn am gael gweld tystiolaeth, heb sôn am weld y prawf cychwynnol clir ar ddiwydrwydd dyladwy a gynhaliodd y Llywodraeth hon cyn y

cyhoeddiad.

I share the concerns of aviation experts and business leaders across Wales who echo our calls for evidence, but I also wonder why this Government does not focus on its own remit of improving infrastructure to and around the airport, or why it does not finally start to create the conditions for economic growth in Wales to drive airport use, rather than nationalise.

Rhannaf bryderon arbenigwyr hedfan ac arweinwyr busnes ledled Cymru sy'n adleisio ein galwadau am dystiolaeth, ond rwyf hefyd yn meddwl tybed pam nad yw'r Llywodraeth hon yn canolbwyntio ar ei chylch gwaith ei hun, sef gwella'r seilwaith i'r maes awyr ac o'i amgylch, neu pam nad yw o'r diwedd yn bwrw ati i greu'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru i ysgogi defnydd o'r maes awyr, yn hytrach na'i wladoli.

I welcome your announcement that you would seek an independent operator to run the airport on your behalf, for the moment. I am, however, in absolute disbelief that you think that this is achievable without any subsidy and feel sure that this will be monitored closely by competitors. I am also even more curious to look at the 2012 accounts for the airport, given your belief that airport should make a return to the Welsh taxpayer as well as to the private operator.

Croesawaf eich cyhoeddiad y byddech yn chwilio am weithredwr annibynnol i redeg y maes awyr ar eich rhan, am y tro. Fodd bynnag, rwy'n methu â chredu eich bod yn meddwl bod modd cyflawni hyn heb unrhyw gymhorthdal ac rwy'n siŵr y bydd hyn yn cael ei fonitro'n fanwl gan gystadleuwyr. Rwyf hefyd hyd yn oed yn fwy chwilfrydig i weld cyfrifon 2012 y maes awyr, o ystyried eich cred y dylai maes awyr wneud elw i drethdalwyr Cymru yn ogystal ag i'r gweithredwr preifat.

Let us return to reality for a second: this is an airport that is currently in debt to the tune of £20 million. It made an operating loss of £319,000 last year. The passenger numbers for this financial year make for even more grim reading. From January to the end of June, 440,000 passengers used the airport, compared with 558,000 in the same period in 2011.

Gadewch inni ddychwelyd i'r byd go iawn am eiliad: mae hwn yn faes awyr sydd eisoes mewn dyled o £20 miliwn. Gwnaeth golled weithredol o £319,000 y llynedd. Roedd niferoedd teithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn fwy arswydus fyth. O fis Ionawr hyd at ddiwedd Mehefin, defnyddiwyd y maes awyr gan 440,000 o deithwyr, o gymharu â 558,000 yn ystod yr un cyfnod yn 2011.

The First Minister must share his business model where there is a return to the taxpayer and, of course, a profit for a commercial operator. Simply put, we find that difficult to accept, as does the industry. But of course, his business acumen may exceed that of the current owners.

Rhaid i'r Prif Weinidog rannu ei fodel busnes lle y bydd elw i'r trethdalwr ac, wrth gwrs, i weithredwr masnachol. Yn syml, mae'n anodd gennym ni, fel y diwydiant, dderbyn hynny. Ond wrth gwrs, efallai ei fod yn ddyn busnes mwy craff na'r perchenogion presennol.

As one who has had a bit of experience of the aviation industry of the past 30 years, there is a great saying, and it remains true today: if you want to make a small fortune in aviation, you start off with a large one. I caution the First Minister that fantasy business models may be enough for his Cabinet meetings, but the Welsh people will not wear it, and neither should this Chamber. Airport ownership is perhaps a romantic notion, but you do not

Fel un sydd wedi cael ychydig o brofiad o'r diwydiant hedfan yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, ceir dywediad craff, ac mae'n dal yn wir heddiw: i wneud ffortiwn fach ym myd hedfan, rhaid wrth ffortiwn fawr i ddechrau. Rhybuddiaf y Prif Weinidog efallai y bydd modelau busnes ffantasi yn ddigon da i gyfarfodydd ei Gabinet, ond ni fydd pobl Cymru yn llyncu hynny, ac ni ddylai'r Siambr hon ychwaith. Mae bod yn berchen ar

have to look beyond south Wales's shores for evidence of aviation failure and lost fortunes in recent years.

faes awyr yn syniad rhamantus o bosibl, ond nid oes angen ichi edrych y tu hwnt i lannau de Cymru i weld tystiolaeth o fethiant cwmnïau hedfan a cholli arian yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

I am extremely worried about how this decision has come to fruition and why there is a complete lack of transparency. We on this side have submitted numerous written questions and FOI requests but have been continually denied information. An FOI request was submitted to the Welsh Government in August requesting the publication of Cardiff Airport taskforce meeting minutes, but the information was considered to be exempt from disclosure. Why are Assembly Members being kept in the dark? We are all the custodians of the public purse here, and it is not unreasonable for us to expect transparency and demand accountability. No Member should be happy that Ministers are hiding behind a wall of commercial secrecy.

Rwy'n bryderus iawn ynghylch sut y cafodd y penderfyniad hwn ei wneud a pham nad oes unrhyw dryloywder. Rydym ni ar yr ochr hon wedi cyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond wedi methu'n deg â chael gwybodaeth. Cyflwynwyd cais Rhyddid Gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ym mis Awst yn gofyn am i gofnodion cyfarfodydd tasglu Maes Awyr Caerdydd gael eu cofnodi, ond ystyriwyd bod y wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu. Pam mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu cadw yn y tywyllwch? Rydym i gyd yn gyfrifol am warchod pwrs y wlad yma, ac nid yw'n afresymol inni ddisgwyl tryloywder a mynnu atebolrwydd. Ni ddylai unrhyw Aelod fod yn fodlon bod Gweinidogion yn cuddio y tu ôl i fur cyfrinachedd masnachol.

Purchasing the airport will cost tens of millions of pounds. There is no doubt about it. This is hardly a sensible option at a time when key investment is vitally needed across the NHS, education and housing sectors. Our health services are being cut and health boards are facing a dire financial situation. Purchasing an airport at the current time demonstrates a complete lack of foresight and a waste of public money, and it is a prime example of lazy Labour once again failing to put the people of Wales first. The Welsh Government—

Bydd yn costio degau o filiynau o bunnoedd i brynu'r maes awyr. Nid oes amheuaeth am hynny. Prin fod hyn yn ddewis synhwyrol ar adeg pan fo mawr angen buddsoddiad allweddol yn y GIG ac ym meysydd addysg a thai. Mae ein gwasanaethau iechyd yn cael eu torri ac mae byrddau iechyd yn wynebu sefyllfa ariannol enbyd. Mae prynu maes awyr ar hyn o bryd yn dangos diffyg rhagweledigaeth ac yn wastraff arian cyhoeddus, ac mae'n enghraifft wych o Lafur diog unwaith eto yn methu â rhoi pobl Cymru yn gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru—

**The Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention from Simon Thomas?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad gan Simon Thomas?

**Byron Davies:** I will.

**Byron Davies:** Gwnaf.

**The Presiding Officer:** Byron Thomas—[*Laughter.*] No, it is Simon Thomas.

**Y Llywydd:** Byron Thomas—*[Chwerthin.]* Na, Simon Thomas ydyw.

**Simon Thomas:** Please do not confuse us. [*Laughter*.]

**Simon Thomas:** Peidiwch â chymysgu rhwng y ddau ohonom, da chi. [*Chwerthin*.]

**The Presiding Officer:** I would know who you are if you went back to your old seats.

**Y Llywydd:** Byddwn yn gwybod pwy ydych pe baech yn mynd yn ôl i'ch hen seddi.

**Simon Thomas:** I thank the Member for

**Simon Thomas:** Diolch i'r Aelod am ildio.

giving way. On that point, I understand why he wants to scrutinise the intentions of the Welsh Government, and that is fair enough. However, is he going to tell us what his proposals are for reviving this essential airport, which is central to our economy? He says 'lazy Labour', but I have not heard alternatives put forward by his party yet, and we have put forward ours.

Ar y pwynt hwnnw, deallaf pam ei fod am graffu ar fwriadau Llywodraeth Cymru, ac mae hynny'n ddigon teg. Fodd bynnag, a fydd yn dweud wrthym beth yw ei gynigion yntau i adfywio'r maes awyr hanfodol hwn, sy'n ganolog i'n heconomi? Mae'n dweud 'Llafur diog', ond nid wyf eto wedi clywed dewisiadau amgen gan ei blaid yntau, a ninnau wedi cyflwyno ein rhai ni.

**Byron Davies:** Simon Thomas would have done well to have listened to what we have been saying about Cardiff Airport during this last year.

**Byron Davies:** Trueni nad yw Simon Thomas wedi gwrando ar yr hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud am Faes Awyr Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Simon Thomas:** Tell us now, then.

**Simon Thomas:** Dywedwch wrthym yn awr.

**The Presiding Officer:** Order. We do not want any cross-Chamber chat.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid ydym am gael sgwrsio ar draws y Siambr.

**Byron Davies:** Purchasing the airport will cost tens of millions of pounds and is hardly a sensible option, as I said. The Welsh Government has clearly been considering the purchase of the airport for some time, yet it has done nothing over recent years to improve road access to the airport or public transport links. In fact, it looks like any transport improvements are being taken out of the local development plan in the Vale of Glamorgan by your Labour comrades; such is the joined up thinking of Labour in Wales.

**Byron Davies:** Bydd yn costio degau o filiynau o bunnoedd i brynu'r maes awyr a phrin ei fod yn ddewis synhwyrol, fel y dywedais. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried prynu'r maes awyr ers peth amser, ac eto nid yw wedi gwneud dim dros y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad ar y ffordd i'r maes awyr na chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Yn wir, mae'n debyg bod unrhyw welliannau trafnidiaeth yn cael eu dileu o'r cynllun datblygu lleol ym Mro Morgannwg gan eich cyd-Lafurwyr; dyma beth yw meddwl cydgysylltiedig y Blaid Lafur yng Nghymru.

Despite Cardiff Airport's potential to become an international gateway for business and tourism, the number of passengers travelling through Cardiff Airport has decreased by 42% between 2007 and 2011. My key question is that if a well-experienced and able company that also runs Belfast International Airport and London Luton Airport cannot make Cardiff work, how do you think public ownership by your Government will help? Any company employed to run it would obviously need a large slice of the cake.

Er gwaethaf potensial Maes Awyr Caerdydd i ddod yn borth rhyngwladol ar gyfer busnes a thwristiaeth, mae nifer y teithwyr sy'n teithio drwy Faes Awyr Caerdydd wedi gostwng 42% rhwng 2007 a 2011. Fy nghwestiwn allweddol yw, os na all cwmni profiadol a galluog sydd hefyd yn rhedeg Maes Awyr Rhyngwladol Belfast a Maes Awyr Luton Llundain lwyddo yng Nghaerdydd, sut y credwch y bydd perchenogaeth gyhoeddus gan eich Llywodraeth o fudd? Mae'n amlwg y byddai unrhyw gwmni a benodir i'w redeg am gael cyfran fawr o'r refeniw.

Prior to this off-the-wall decision to purchase the airport, your Government has shirked from the sidelines and done little to help support the airport in meaningful terms. I want to quote Martin Evans, a visiting fellow at the University Of Glamorgan business

Cyn y penderfyniad hurt hwn i brynu'r maes awyr, mae eich Llywodraeth wedi llaesu dwylo a heb wneud fawr ddim i helpu i gefnogi'r maes awyr mewn ffordd ystyrlon. Rwyf am ddyfynnu Martin Evans, cymrawd gwadd yn ysgol fusnes Prifysgol

school, who eloquently stated that

‘public criticism of the airport doesn’t help to attract new airlines or reassure existing airlines serving the airport. It is also a curious strategy to attract international investment. Other international companies will view the criticism of our only major international airport in our country and may well reconsider whether Wales offers a good environment to do business.’

Your language, lack of action and ambition, and, even worse, your laziness as a Government doomed the airport into an age of decline, and I cannot support any revision of history that blames the operator solely. True, it has not helped itself, but as our only international gateway it should not have been left to the last hour with a mad, last-ditch, knee-jerk reaction to intervene.

I will take your intervention, Mick.

**Mick Antoniw:** Thank you for taking this intervention. I understand that we may disagree on aspects of this, but do you accept that privatisation in the 1980s has turned out to be an absolute disaster for the airport?

**Byron Davies:** No, I do not; certainly not. There are plenty of good, positive examples in the UK.

Equally, I could not put my confusion in terms of your decision any better than airport planning consultant Laurie Price of Mott McDonald did when he stated that it would make far more sense to invest in the improvement of access routes to the airport. The Welsh Government has continually failed to improve access to the airport. When the reprioritised national transport plan was published in 2011, projects such as an express bus service between Cardiff Airport and Cardiff city centre and safety improvements to A4226 Five Mile Lane were postponed, to be delivered beyond 2015. This is outside the scope of the current national transport plan. You only have to look at the transport arrangements at Bristol Airport to

Morgannwg, a nododd yn huawdl

nid yw beirniadaeth gyhoeddus o’r maes awyr yn helpu i ddenu cwmnïau hedfan newydd na rhoi sicrwydd i’r cwmnïau hedfan sy’n gwasanaethu’r maes awyr ar hyn o bryd. Mae hefyd yn strategaeth ryfedd i geisio denu buddsoddiad rhyngwladol. Bydd cwmnïau rhyngwladol eraill yn clywed am y feirniadaeth o’n hunig faes awyr rhyngwladol mawr yn ein gwlad ac mae’n ddigon posibl y byddant yn ailystyried a yw Cymru yn cynnig amgylchedd da i wneud busnes.

Mae eich iaith, eich diffyg gweithredu a’ch diffyg uchelgais, a, hyd yn oed yn waeth, eich diogi fel Llywodraeth wedi tyngedfennu’r maes awyr i oes o ddirywiad, ac ni allaf gefnogi unrhyw ymgais i ailysgrifennu hanes sy’n beio’r gweithredwr yn unig. Gwir dweud nad yw wedi helpu ei hun, ond fel ein hunig borth rhyngwladol ni ddylid bod wedi oedi tan y funud olaf cyn ymyrryd gydag ymateb gwyllt a difeddwl.

Derbyniaf eich ymyriad, Mick.

**Mick Antoniw:** Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad hwn. Sylweddolaf y byddwn yn anghytuno o bosibl ar agweddau ar hyn, ond a ydych yn derbyn bod preifateiddio’r maes awyr yn y 1980au wedi bod yn drychineb llwyr?

**Byron Davies:** Nac ydwyf, ni dderbyniaf hynny; yn sicr. Mae digon o enghreifftiau da, cadarnhaol yn y DU.

Yn yr un modd, ni allwn fynegi fy nryswch o ran eich penderfyniad yn well na Laurie Price o Mott McDonald, sef cynghorydd cynllunio meysydd awyr pan ddywedodd y byddai’n gwneud llawer mwy o synnwyr i fuddsoddi er mwyn gwella mynediad i’r maes awyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi methu o hyd â gwella mynediad i’r maes awyr. Pan gyhoeddwyd y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol wedi’i ailflaenoriaethu yn 2011, gohiriwyd prosiectau fel gwasanaeth bws cyflym rhwng Maes Awyr Caerdydd a chanol dinas Caerdydd a gwelliannau diogelwch i’r A4226 yn Five Mile Lane, i’w cyflwyno ar ôl 2015. Mae hyn y tu hwnt i gwmpas y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol cyfredol. Dim ond edrych ar y trefniadau cludiant ym Maes

see why it is succeeding. The Bristol Flyer airport express link operates 24 hours a day, with buses running every 10 minutes. This is in stark contrast to the X91 service that serves Cardiff Airport, which stops at the terminal only every two hours. If you were considering the purchase of the airport, surely improving access should have been a transport infrastructure priority. This emphasises your typical, ill-thought-out strategic plans for Wales.

Awyr Bryste sydd angen ei wneud er mwyn gweld pam ei fod yn llwyddo. Mae'r Bristol Flyer, y cyswllt cyflym â'r maes awyr, yn gweithredu 24 awr y dydd, gyda bysiau yn rhedeg bob 10 munud. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r gwasanaeth X91 sy'n gwasanaethu Maes Awyr Caerdydd, sy'n rhedeg yno bob dwy awr yn unig. Pe baech yn ystyried prynu'r maes awyr, oni ddylai gwell mynediad fod wedi bod yn flaenoriaeth trafnidiaeth seilwaith? Mae hyn yn pwysleisio'r diffyg meddwl a welir fel arfer y tu ôl i'ch cynlluniau strategol i Gymru.

I want to close my opening statement by asking this Government for some honest answers to a few simple questions, which taxpayers in Wales have a right to know. When did you decide to purchase the airport? What research or due diligence tests have been carried out so far? Will you publish your business model for buying the airport? Will you publish the minutes of the Cardiff Airport taskforce? If not, why not? Will you commit that Welsh taxpayers will not be liable for the £20 million debt the airport currently has on its books? Will you bring forward infrastructure improvements to improve accessibility to the airport?

Hoffwn gloi fy natganiad agoriadol drwy ofyn i'r Llywodraeth hon am rai atebion gonest i ychydig gwestiynau syml, y mae gan drethdalwyr yng Nghymru yr hawl i'w gwybod. Pryd y penderfynwyd prynu'r maes awyr? Pa ymchwil neu brofion diwydrwydd dyladwy wedi cael eu cynnal hyd yn hyn? A wnewch chi gyhoeddi'ch model busnes ar gyfer prynu'r maes awyr? A wnewch chi gyhoeddi cofnodion tasglu Maes Awyr Caerdydd? Os na wnewch, pam? A wnewch chi addo na fydd trethdalwyr Cymru yn atebol am yr £20 miliwn o ddyled sydd gan y maes awyr ar hyn o bryd? A wnewch chi gyflwyno gwelliannau seilwaith i wella mynediad i'r maes awyr?

The Welsh Government should be looking at using money to create conditions for success, such as investing in infrastructure, rather than just buying the airport outright, based on ideological motivations. That is putting the cart before the horse. This decision, if it goes ahead, will be bad for Welsh taxpayers. In the long run, it will be even worse for our only international gateway, and it will be a financial liability that we do not need in this age of austerity.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio arian i greu amodau ar gyfer llwyddiant, megis buddsoddi mewn seilwaith, yn hytrach na phrynu'r maes awyr yn ei gyfanrwydd, a hynny ar sail cymhellion ideolegol. Rydych yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Bydd y penderfyniad hwn, os aiff yn ei flaen, yn un gwael i drethdalwyr Cymru. Yn y pen draw, bydd hyd yn oed yn waeth i'n hunig borth rhyngwladol, a bydd yn rhwymedigaeth ariannol nad oes ei hangen arnom yn yr oes hon o galedi.

I urge you to support this motion and prevent a catastrophic liability being placed on the public purse. This Government is fundamentally ill-equipped to deal with the strategic direction of Wales, let alone an airport.

Fe'ch anogaf i gefnogi'r cynnig hwn ac atal rhwymedigaeth drychinebus ar bwrs y wlad. Mae'r Llywodraeth hon yn anghymwys yn ei hanfod i bennu cyfeiriad strategol Cymru, heb sôn am faes awyr.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol*

*Insert as new point 2 and re-number*

*â hynny:*

*accordingly:*

*Yn nodi nad yw prynu maes awyr yn flaenoriaeth fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn nodi ymhellach nad yw'n flaenoriaeth yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.*

*Notes that the purchase of an airport is not a priority as laid out in the Programme for Government and further notes that it is not a priority in the National Transport Plan.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cyfres glir o amcanion mesuradwy ar gyfer prynu Maes Awyr Caerdydd a chyflwyno rhaglen ddatblygu gredadwy ar gyfer sicrhau busnes llwyddiannus yno.*

*Calls on the Welsh Government to publish a clear set of measurable objectives for the purchase of Cardiff Airport and present a credible development programme for ensuring a successful business there.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

I thank the Welsh Conservative group for bringing this timely and interesting debate today. I would like to focus attention on these amendments. I particularly want to say that it is a matter of frustration that so many answers to questions in this Chamber are, 'My priorities are outlined in the programme for government', or, alternatively, 'The priorities for this portfolio in transport are outlined in the national transport plan'. I want to point out that this rather major decision is not a priority in the programme for government, nor is it a priority in the national transport plan, yet there are things that could be done to assist the airport. For example, the express bus routes, which are in those documents, have been outlined as priorities but have not been delivered. They are late for delivery.

Diolchaf i grŵp y Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl amserol a diddorol hon heddiw. Hoffwn ganolbwyntio ar y gwelliannau hyn. Yn arbennig, hoffwn nodi ei fod yn destun rhwystredigaeth bod cymaint o gwestiynau yn y Siambr hon yn cael yr ateb, 'Mae fy mlaenoriaethau wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu', neu, fel arall, 'Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y portffolio hwn mewn trafnidiaeth wedi'u hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol'. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith nad yw'r penderfyniad eithaf mawr hwn yn flaenoriaeth yn y rhaglen lywodraethu, nac yn flaenoriaeth yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, ac eto mae pethau y gellid eu gwneud i gynorthwyo'r maes awyr. Er enghraifft, mae'r llwybrau bws cyflym, sydd yn y dogfennau hynny, wedi eu nodi'n flaenoriaethau ond nid ydynt wedi cael eu cyflawni. Maent yn hwyr cyn cael eu cyflawni.

The motion today is strongly worded in seeking that we 'regret' the nationalisation of Cardiff Airport. 'Regret' is a strong word and 'nationalisation' suggests a dogmatic position that I cannot share. I have no philosophical objections to an airport being in state ownership per se. There are plenty of examples of it working well elsewhere, alongside plenty of examples of private ownership also being effective. There are

Mae'r cynnig heddiw wedi ei eirio'n gryf o ran nodi ein bod yn 'gresynu' at wladoli Maes Awyr Caerdydd. Mae 'gresynu' yn air cryf ac mae 'gwladoli' yn awgrymu safbwynt dogmatig na allaf gyd-fynd ag ef. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad athronyddol i faes awyr o dan berchenogaeth y wladwriaeth fel y cyfryw. Mae digon o enghreifftiau o hynny'n gweithio'n dda mewn mannau eraill, ynghyd â digon o enghreifftiau o

fewer examples of public sector organisations or Governments purchasing a private sector airport with the hope of saving it from decline. What matters to me is not the dogma, not the philosophical positioning, but the impact of the decisions that we take on the world outside of this bubble, on the real world itself.

berchenogaeth breifat sydd hefyd yn effeithiol. Mae llai o enghreifftiau o sefydliadau yn y sector cyhoeddus neu'r Llywodraeth yn prynu maes awyr yn y sector preifat gyda'r gobaith o'i achub rhag dirywio. Nid y dogma na'r safbwynt athronyddol sy'n bwysig i mi, ond effaith y penderfyniadau a wnawn ar y byd y tu allan i'r swigen hon, ar y byd go iawn ei hun.

The three main tests for me on this occasion are: Can passengers expect a greater range of flights and a better quality of service as a result of this decision—do we really believe that the Welsh Government is better placed to do that than Abertis? Will it have a positive impact on the economy of southern Wales? Does it represent good value for money for Welsh taxpayers—the comment that the Welsh Conservatives seem to be most wholly focused on? At this moment in time, there is no evidence to satisfy me on any of those points. That is the key issue for me. The lack of information means that this decision also lacks credibility not just in the Chamber, but in the outside world.

Y tri phrif brawf i mi ar yr achlysur hwn yw: A all teithwyr ddisgwyl cael mwy o ddewis o deithiau hedfan a gwasanaeth o ansawdd gwell o ganlyniad i'r penderfyniad hwn—a ydym o ddifrif yn credu bod Llywodraeth Cymru mewn gwell sefyllfa i wneud hynny nag Abertis? A fydd yn cael effaith gadarnhaol ar economi de Cymru? A yw'n werth da am arian i drethdalwyr Cymru—yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn canolbwyntio arno'n bennaf? Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth i'm bodloni ar unrhyw un o'r pwyntiau hynny. Dyna'r mater allweddol i mi. Mae'r diffyg gwybodaeth yn golygu nad oes hygrededd i'r penderfyniad hwn nid yn unig yn y Siambr, ond yn y byd y tu allan.

It may well be that the business case will convince me. I travel hopefully rather than expectably on that. There may be other issues that we are not aware of, but you need to tell us what they are. The problem here is one of process and, as Byron Davies rightly said, of putting the cart before the horse. A strategic approach is: identifying a problem, setting targets, setting objectives, assessing options and then acting. You do not buy first and then develop a business case to prove that you were right if you want credibility. You only do that if you have been backed into a corner and are being forced to justify the decisions that you have taken.

Mae'n ddigon posibl y bydd yr achos busnes yn fy argyhoeddi. Dyna fy ngobaith ond nid fy nisgwyliad. Efallai fod materion eraill wedi codi nad ydym yn ymwybodol ohonynt, ond mae angen ichi ddweud wrthym beth ydynt. Y broses yw'r broblem yn hyn o beth ac, fel y nododd Byron Davies yn gwbl briodol, mater o roi'r cart o flaen y ceffyl. Mae dull gweithredu strategol yn golygu: nodi problem, pennu targedau, pennu amcanion, asesu opsiynau ac yna weithredu. Nid ydych yn prynu'n gyntaf ac yna'n datblygu achos busnes i brofi eich bod yn iawn os ydych am gael hygrededd. Dim ond os yw wedi mynd yn gyfyng arnoch a'ch bod yn gorfod cyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaethoch y gwnewch hynny.

The question for me is how the Welsh Government got into that corner in the first place. Over the past year, we have seen the First Minister use every opportunity to run down the airport and its management. While he may have felt that that was a clever move—driving down the potential price of an airport that he had an eye to purchase, although he has denied it in the past—it also

Y cwestiwn i mi yw sut yr aeth yn gyfyng ar Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld y Prif Weinidog yn manteisio ar bob cyfle i ladd ar y maes awyr a'i reolwyr. Efallai ei fod yn teimlo bod hynny'n beth clyfar—gostwng pris posibl maes awyr yr oedd yn ystyried ei brynu, er iddo wadu hynny yn y gorffennol—ond mae hefyd yn golygu ei fod

means that he has acted to scare away any airlines that may have been interested in running flights from Cardiff. After all, who would want to run a flight from an airport that even the local politicians are running down in the press on a weekly basis? This will have acted to scare off any potential private investors, because, frankly, what inward investor would want to buy an airport that is humiliated in public and in the press and is subject to so much political interference?

wedi gweithredu er mwyn codi ofn ar unrhyw gwmnïau hedfan a allai fod wedi bod â diddordeb mewn cynnal teithiau hedfan o Gaerdydd. Wedi'r cyfan, pwy fyddai'n dymuno cynnal teithiau hedfan o faes awyr y mae hyd yn oed y gwleidyddion lleol yn lladd arno yn y wasg yn wythnosol? Bydd hyn wedi codi ofn ar unrhyw ddarpar fuddsoddwyr preifat, oherwydd, a dweud y gwir, pa fewnfuddsoddwr a fyddai am brynu maes awyr sy'n cael ei fychanu'n gyhoeddus ac yn y wasg ac yn destun cymaint o ymyrraeth wleidyddol?

3.15 p.m.

3.15 p.m.

The First Minister's immoderate rhetoric over the past year has led to only two possible options being viable—Abertis pulling out without an alternative buyer, thereby shutting the airport, or forcing Carwyn into a position where it is 'buy it or lose it'. As Abertis really only bought Cardiff Airport as part of a deal including the far more lucrative Luton airport, I think that it is fair to say that there are going to be precious few tears over this deal in Barcelona. We might view it as Abertis having washed its hands of a business in which, in the apparent opinion of the First Minister, it did not have a lot of interest. It now has the First Minister of Wales over a barrel with regards the price, having promised to buy it before he agreed on the price. Until I see evidence to the contrary, I would say that that is game, set and match to Abertis.

Mae rhethreg ormodol y Prif Weinidog dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at ddau opsiwn ymarferol yn unig—mae Abertis yn rhoi'r gorau i fod yn berchen ar y maes awyr heb brynwr arall, a thrwy hynny'n cau'r maes awyr, neu mae'n rhoi Carwyn mewn sefyllfa lle mae'n wynebu'r dewis "ei brynu neu ei golli'. Gan fod Abertis ond wedi prynu Maes Awyr Caerdydd fel rhan o gytundeb a oedd yn cynnwys maes awyr Luton a oedd yn llawer mwy proffidiol, credaf mai teg dweud na fydd dagrau mawr dros y cytundeb hwn yn Barcelona. Gallem ystyried bod Abertis wedi golchi ei ddwylo o fusnes nad oedd ganddo lawer o ddiddordeb ynddo, ym marn y Prif Weinidog i bob golwg. Erbyn hyn mae Prif Weinidog Cymru ar ei drugaredd o ran y pris, ar ôl addo ei brynu cyn iddo gytuno ar y pris. Hyd nes y gwelaf dystiolaeth i'r gwrthwyneb, Abertis sydd wedi ennill.

**Nick Ramsay:** I, too, am pleased to be able to contribute to this interesting and, as Eluned Parrott said, timely debate. It is interesting not least because, before the new year, we would not have dreamt that we would be having it such a short time into this Assembly session; things have moved quickly. I do not think that it is surprising—I am sure that the Minister does not think so either—that there has been such controversy in certain quarters surrounding this announcement of the Welsh Government's intention to buy Cardiff Airport. Let us face it, buying an airport is not exactly a picnic.

**Nick Ramsay:** Rwyf innau hefyd yn falch o gael cyfrannu at y ddadl ddiddorol hon, sy'n amserol, fel y dywedodd Eluned Parrott. Mae'n ddiddorol yn anad dim oherwydd, cyn y flwyddyn newydd, ni fyddem wedi breuddwydio y byddem yn ei chynnal cyn lleied o amser ar ôl dechrau'r sesiwn Cynulliad hon; mae pethau wedi symud yn gyflym. Nid yw'n syndod i mi—nac i'r Gweinidog ychwaith mae'n siŵr gennyf—fod y cyhoeddiad hwn bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu prynu Maes Awyr Caerdydd wedi bod yn gymaint o bwnc llosg i rai pobl. Gadewch inni wynebu'r gwir, nid ar chware bach y mae rhywun yn prynu maes awyr.

As the Enterprise and Business Committee

Fel y darganfu'r Pwyllgor Menter a Busnes

found only a few months ago, when we undertook a piece of work on ports and airports, which included taking a look at Cardiff Airport and ways in which services there could be improved, the airport that we are talking about has major problems. They have been historic problems that have not been addressed over a long period of time—before the time of the current Government—and the problems have become worse now and they definitely need to be addressed. However, the move to announce that there is going to be a purchase of the airport—lock, stock and barrel—has caused an element of surprise, concern, shock and hilarity. It would be funny if it were not such a serious problem, because we are talking about an airport. It almost seems as if the Government is trying to pick it up on eBay. I am trying to think of a comparison, but I cannot. Local authorities have owned airports in the past—I think that the Scottish Government has a stake in an airport on Skye. However, those airports are at a different scale to an airport that is primarily there to serve international links, or which would do so if it was working properly.

dim ond ychydig fisoedd yn ôl, ar ôl ymgymryd â darn o waith ar borthladdoedd a meysydd awyr, a oedd yn cynnwys edrych ar Faes Awyr Caerdydd a sut y gellid gwella gwasanaethau yno, mae'r maes awyr dan sylw yn wynebu problemau mawr. Problemau hanesyddol ydynt, nad ydynt wedi cael sylw dros gyfnod hir o amser—cyn cyfnod y Llywodraeth gyfredol—ac mae'r problemau wedi gwaethygu erbyn hyn ac yn bendant mae angen rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad ei bod yn bwriadu prynu'r maes awyr—yn ei gyfanrwydd—wedi achosi rhywfaint o syndod, pryder, sioc a chwerthin. Byddai'n ddoniol pe na bai'n broblem mor ddifrifol, oherwydd sôn am faes awyr yr ydym. Mae bron fel petai'r Llywodraeth yn ceisio ei brynu ar eBay. Rwy'n ceisio meddwl am gymhariaeth, ond yn methu. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn berchen ar feysydd awyr yn y gorffennol—credaf fod gan Lywodraeth yr Alban fuddran mewn maes awyr ar yr Ynys Hir. Fodd bynnag, mae'r meysydd awyr hynny ar raddfa wahanol i faes awyr sy'n gwasanaethu cysylltiadau rhyngwladol yn bennaf, neu a fyddai'n gwneud hynny pe bai'n gweithio'n iawn.

**Mick Antoniw:** Thank you for taking an intervention. Manchester Airport is publicly owned—it is owned by local authorities—and carries 19 million people a year. Would you not say that it is a bit more than a small local airport?

**Mick Antoniw:** Diolch am dderbyn ymyriad. Mae Maes Awyr Manceinion o dan berchenogaeth gyhoeddus—o dan berchenogaeth awdurdodau lleol—ac yn derbyn 19 miliwn o deithwyr bob blwyddyn. Oni fyddech yn dweud ei fod ychydig yn fwy na maes awyr bach lleol?

**Nick Ramsay:** There is a big difference between owning an airport and purchasing an airport to deal with a particular problem that that airport has at a particular time. I listened closely to your previous intervention, Mick, and you were going on about nationalisation. We have heard the usual dogmatic nationalisation-versus-privatisation argument. I am one of those people who firmly believe that a lot of things are better off in the private sector. If you take British Telecom, for instance, I rarely hear people saying that it should be in the public sector. I rarely hear people saying that our mobile phones should be owned by the Government—perhaps you do believe that. Certain things are good when under national control, but the point here is that this should not be about nationalisation

**Nick Ramsay:** Mae gwahaniaeth mawr rhwng bod yn berchen ar faes awyr a phrynu maes awyr er mwyn delio â phroblem benodol sydd gan y maes awyr hwnnw ar adeg benodol. Gwrandewais yn ofalus ar eich ymyriad blaenorol, Mick, ac roeddech yn sôn o hyd am wladoli. Rydym wedi clywed y ddadl ddogmatig arferol am wladoli yn erbyn preifateiddio. Rwy'n un o'r bobl hynny sy'n credu'n gryf bod llawer o bethau yn cael eu rhedeg yn well yn y sector preifat. Meddyliwch am British Telecom, er enghraifft, anaml y clywaf bobl yn dweud y dylai fod yn y sector cyhoeddus. Anaml y clywaf bobl yn dweud y dylai ein ffonau symudol gael eu gweithredu gan y Llywodraeth—efallai eich bod yn credu hynny. Mae rhai pethau'n dda o dan reolaeth

versus privatisation. Do people not go to Cardiff Airport because it is not nationalised? No; they do not go to the airport because there are no planes going anywhere to which they want to go at the times at which they want to go there—[*Interruption*.]

y wlad, ond y pwynt i'w wneud yw na ddylai hyn fod am ddadl am wladoli yn erbyn preifateiddio. A yw pobl yn gwrthod mynd i Faes Awyr Caerdydd am nad yw wedi'i wladoli? Nac ydynt, nid ydynt yn mynd i'r maes awyr am nad oes unrhyw awyrennau yn mynd i unrhyw le y maent am fynd iddo ar yr adeg y maent am fynd yno—*[Torri ar draws.]*

No, that is exactly the problem—

Na, dyna'n union y broblem—

**The Presiding Officer:** Order. Rhodri Glyn Thomas was not intervening; he was just shouting from his seat. Please ignore what he said.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oedd Rhodri Glyn Thomas yn ymyrryd; gweiddi o'i sedd a wnaeth. Anwybyddwch yr hyn a ddywedodd.

**Nick Ramsay:** He is getting very excited.

**Nick Ramsay:** Mae wedi cyffroi'n lân.

**The Presiding Officer:** Yes, he is, this afternoon.

**Y Llywydd:** Ydyw, mae wedi cyffroi, y prynhawn yma.

**Nick Ramsay:** I do not blame him for getting excited because this is probably diametrically opposed to his view of half the world.

**Nick Ramsay:** Nid wyf yn ei feio am gyffroi am fod hyn yn debygol o fod yn gwbl groes i'w farn ef am hanner y byd.

**The Presiding Officer:** Are you taking an intervention?

**Y Llywydd:** A ydych yn derbyn ymyriad?

**Nick Ramsay:** You do not solve the world's problems by allowing the Government to buy everything. I give way to Byron Davies.

**Nick Ramsay:** Nid ydych yn datrys problemau'r byd drwy ganiatáu i'r Llywodraeth brynu popeth. Ildiaf i Byron Davies.

**Byron Davies:** We hear about public ownership over and over again in this Chamber. Would you not agree that these public ownerships, particularly of Manchester Airport, were created in far more friendly economic times rather than in today's austere times?

**Byron Davies:** Rydym yn clywed sôn am berchenogaeth gyhoeddus dro ar ôl tro yn y Siambr hon. Oni fyddech yn cytuno i'r enghreifftiau hyn o berchenogaeth gyhoeddus, yn enwedig Maes Awyr Manceinion, gael eu creu mewn cyfnod economaidd llawer mwy ffafriol na'r sefyllfa o galedi sydd ohoni?

**Nick Ramsay:** Yes; that was the point that I made before. There is no doubt that the airport has major problems, Byron. I would like to hear from the Minister on the issue of freight as well, because that has not often been raised in this debate. There is no doubt that the problem of the 90% fall-off in the freight that goes from that airport is just as significant for the economy as passenger transport—in fact, it is probably more significant. Passengers can go to Bristol, Manchester, London or other airports, but the

**Nick Ramsay:** Cytunaf; dyna oedd y pwynt a wneuthum o'r blaen. Yn ddi-au mae'r maes awyr yn wynebu problemau mawr, Byron. Hoffwn glywed gan y Gweinidog ynglŷn â chludo nwyddau hefyd, gan nad yw hynny wedi cael ei godi'n aml yn y ddadl hon. Nid oes amheuaeth nad yw'r gostyngiad o 90% yn y nwyddau a gludir o'r maes awyr yn gymaint o broblem i'r economi â'r gostyngiad yn nifer y teithwyr—yn wir, mae'n fwy o broblem fwy na thebyg. Gall teithwyr fynd i Fryste, Manceinion, Llundain

freight issue is key to improving the export situation from Wales.

neu feysydd awyr eraill, ond mae'r broblem o ran cludo nwyddau yn allweddol i wella'r sefyllfa allforio o Gymru.

I would like to hear the Minister's business case for this. There is a lot of doubt out there as to whether that business case stands up. It has certainly been a fast decision. I would like to hear what the strategy is going to be. I have heard nothing so far from the Government or the backbenches as to what the strategy is. The accusation of lazy Labour is often targeted at this Welsh Government. In this case, the Government has moved with great haste, but it has probably gone in exactly the wrong direction. That is the problem: in this case, it would have been better to have stopped, thought a bit and developed a strategy with all stakeholders involved that would not simply have appeased certain dogmatic elements within the Labour Party, but that would have dealt with the problems that the airport faces and which it will continue to face in the future under different ownership.

Hoffwn glywed achos busnes y Gweinidog ar gyfer hyn. Mae cryn amheuaeth ynghylch a yw'r achos busnes yn un dilys. Yn sicr, mae wedi bod yn benderfyniad brysiog. Hoffwn glywed beth fydd y strategaeth. Nid wyf wedi clywed dim byd hyd yn hyn gan y Llywodraeth na'r meinciau cefn am y strategaeth. Mae'r Llywodraeth hon yng Nghymru yn cael ei chyhuddo o fod yn Llafur diog yn aml. Yn yr achos hwn, mae'r Llywodraeth wedi gweithredu ar frys mawr, ond y tebyg yw ei bod wedi dilyn y trywydd anghywir. Dyna'r broblem: yn yr achos hwn, byddai wedi bod yn well pe bai wedi petruso, wedi meddwl am ychydig ac wedi datblygu strategaeth gyda'r holl randdeiliaid dan sylw na fyddai ond wedi boddio rhai yn y Blaid Lafur am resymau dogmatig, ond a fyddai wedi ymdrin â'r problemau y mae'r maes awyr yn eu hwynebu ac y bydd yn parhau i'w hwynebu yn y dyfodol o dan berchenogaeth wahanol.

**Mike Hedges:** I would like to address three points: does south Wales need an international airport, where should it be and who should run it. To answer the first question: with a population of about 2 million, south Wales certainly needs an airport. According to the Office for National Statistics, Cardiff urban area ranks 21 and Swansea urban area ranks 25 in terms of population. Surely, this is an argument for two of the biggest cities in the UK to have at least one major international airport. Population is also on the rise in places like Cardiff and Swansea. Luton urban area, ranked 32 in terms of population, has a major international airport.

**Mike Hedges:** Hoffwn drafod tri phwynt: a oes angen maes awyr rhyngwladol yn y de, ble y dylai fod wedi'i leoli a phwy ddylai ei redeg. I ateb y cwestiwn cyntaf: gyda phoblogaeth o tua 2 filiwn, mae angen maes awyr yn y de yn bendant. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae ardal drefol Caerdydd yn safle 21 ac mae ardal drefol Abertawe yn safle 25 o ran poblogaeth. Onid yw hynny'n ddadl o blaid cael o leiaf un prif faes awyr rhyngwladol i ddwy o'r dinasoedd mwyaf yn y DU. Mae'r boblogaeth yn cynyddu mewn lleoedd fel Caerdydd ac Abertawe hefyd. Mae ardal drefol Luton yn safle 32 o ran poblogaeth ac mae maes awyr rhyngwladol mawr yno.

What do we need it for? We need it for the convenience of south Wales's travellers. I must admit that, when I go out and about, lots of people tell me that they are pleased that something is being done. They keep on asking, 'Why do we have to go to Bristol?' It is even more difficult to get to than Cardiff, if you talk about road links. We need it as an aid to economic development, to allow both inward investors and exporters easy access to and from the rest of the world. Nick Ramsay

I beth y mae ei angen? Mae ei angen er hwylustod teithwyr yn y de. Rhaid imi gyfaddef, pan fyddaf yn cyfarfod â phobl, mae llawer yn dweud wrthyf eu bod yn falch bod rhywbeth yn cael ei wneud. Maent yn gofyn o hyd, 'Pam bod rhaid inni fynd i Fryste?' Mae hyd yn oed yn fwy anodd ei chyrraedd na Chaerdydd, os ydych yn sôn am gysylltiadau ffyrdd. Mae ei angen er mwyn helpu datblygu economaidd, er mwyn i fewnfuddsoddwyr ac allforwyr fel ei gilydd

talked about freight; we need the airport to be able to get exports out easily from here. We look at Wales as a nation. What other nations do you know of that do not have their own international airport? Airports also generate employment, directly and indirectly.

gael mynediad hawdd o weddill y byd ac i weddill y byd. Soniodd Nick Ramsay am gludo nwyddau; mae angen maes awyr sy'n gallu allforio nwyddau'n hawdd o Gymru. Rydym yn ystyried Cymru'n wlad. A ydych yn gwybod am unrhyw wlad arall nad oes ganddi ei maes awyr rhyngwladol ei hun? Mae meysydd awyr hefyd yn creu cyflogaeth, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

The second question is where it should be. Do we really want Bristol to be developed as our local south Wales airport? Are there possibilities to develop Swansea airport in Fairwood or one of the airports in west and mid Wales? While I wish that the answer was to develop Fairwood airport in Swansea, unfortunately, due to its location, a lack of previous investment and difficulties with access, the opportunity for it to be south Wales's major airport is not feasible. As part of a Wales airport strategy, I believe that it and several other airports in Wales have a role, which I would like to see developed. That leaves Cardiff Airport—or Rhoose airport as many of us used to know it—as the only viable Wales-based option.

Yr ail gwestiwn yw ble y dylai fod wedi'i leoli. A ydym o ddifrif am i Faes Awyr Bryste gael ei ddatblygu fel ein maes awyr lleol yn y de? A oes posibiliadau i ddatblygu maes awyr Abertawe yn Fairwood neu un o'r meysydd awyr yn y gorllewin a'r canolbarth? Er mai'r ateb y byddwn yn ei ddymuno fyddai datblygu maes awyr Fairwood yn Abertawe, yn anffodus, oherwydd ei leoliad, diffyg buddsoddiad blaenorol ac anawsterau o ran mynediad, nid yw'n ddichonadwy iddo fod yn brif faes awyr de Cymru. Fel rhan o strategaeth meysydd awyr i Gymru, credaf fod ganddo ef a sawl maes awyr arall yng Nghymru rôl i'w chwarae, a rôl yr hoffwn ei gweld yn cael ei datblygu. Golyga hynny mai Maes Awyr Caerdydd—neu faes awyr y Rhws fel y byddai llawer ohonom yn arfer ei alw—yw'r unig opsiwn hyfyw yng Nghymru.

The third question is who should run it.

Y trydydd cwestiwn yw pwy a ddylai ei redeg.

**The Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Mike Hedges:** Yes, certainly.

**Mike Hedges:** Gwnaf, wrth gwrs.

**Nick Ramsay:** You have just mentioned Bristol Airport and talked about issues of access. How will the Welsh Government owning that airport in Rhoose, as you said that it was once called, deal with the access problems? Would it not have been better to put investment into access to the airport rather than buying it without a strategy?

**Nick Ramsay:** Rydych newydd grybwyll Maes Awyr Bryste ac wedi sôn am broblemau mynediad. Sut y bydd Llywodraeth Cymru fel perchennog y maes awyr yn y Rhws, a defnyddio ei hen enw fel y nodwyd gennych, yn ymdrin â phroblemau mynediad? Oni fyddai wedi bod yn well buddsoddi mewn mynediad i'r maes awyr yn hytrach na'i brynu heb strategaeth?

**Mike Hedges:** Again, it seems that my point has been lost. What I was saying was that Bristol has even worse access problems than Cardiff, yet it has not stopped it developing. As I am sure that everyone knows, the airport used to be run successfully by a consortium

**Mike Hedges:** Unwaith eto, mae'n debyg ichi golli fy mhwynt. Yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud oedd bod problemau mynediad Maes Awyr Bryste hyd yn oed yn waeth na rhai Caerdydd, ond nid yw hynny wedi ei atal rhag datblygu. Fel y gŵyr pawb mae'n siŵr,

of three county councils: south, mid and west Glamorgan. These councils were so successful in running it, and were making so much money—with each council taking £1 million a year in profit—that it proved too much for John Redwood, who told the county councils to sell it or he would sell it for them. It raised approximately £30 million, which was a price-to-earnings ratio of 10. Conservatives, then and now, are behaving like characters out of *Animal Farm*: private sector, good; public sector, bad. Manchester Airport is another airport that is jointly owned by local authorities, including a Conservative local authority, and it has been run successfully.

arferai'r maes awyr gael ei redeg yn llwyddiannus gan gonsortiwm o dri chyngor sir: de Morgannwg, Morgannwg ganol a gorllewin Morgannwg. Roedd y cynghorau hyn mor llwyddiannus, ac yn gwneud cymaint o elw—gyda phob cyngor yn cael £1 filiwn y flwyddyn o elw—nes ei bod yn ormod i John Redwood, a ddywedodd wrth y cynghorau sir am ei werthu neu y byddai'n ei werthu drostynt. Cododd tua £30 miliwn, sef cymhareb o 10 rhwng pris ac enillion. Mae Ceidwadwyr, ddoe a heddiw, yn ymddwyn fel cymeriadau yn *Animal Farm:* y sector preifat, da; y sector cyhoeddus, drwg. Mae Maes Awyr Manceinion yn un arall sy'n eiddo ar y cyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdod lleol Ceidwadol, ac mae wedi cael ei redeg yn llwyddiannus.

We need to have an airport that is managed well and that provides sufficient carrier capacity to develop the infrastructure. There is no reason whatsoever why Cardiff Airport cannot, under public ownership or control, be as successful as Manchester and others under public control. All we want to see is an airport that is suitable. We cannot continue with Cardiff Airport in the state that is has been in in recent years. Turning to the idea that the private sector is wonderful: it was run exceptionally well by the three county councils. The Conservatives at that time on the county council objected to investing in it. However, the investment came through and the airport was bringing in £1 million a year. That would help us.

Mae angen maes awyr arnom sy'n cael ei reoli'n dda ac sy'n gallu cludo digon o bobl i ddatblygu'r seilwaith. Nid oes unrhyw reswm o gwbl pam na all Maes Awyr Caerdydd, o dan berchenogaeth neu reolaeth gyhoeddus, fod yr un mor llwyddiannus â Manceinion ac eraill sydd o dan reolaeth gyhoeddus. Y cyfan yr ydym am ei weld yw maes awyr sy'n addas. Ni all y sefyllfa o ran Maes Awyr Caerdydd a'r cyflwr y mae wedi bod ynddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf barhau. Gan droi at y syniad bod y sector preifat yn wych: cafodd ei redeg yn eithriadol o dda gan y tri chyngor sir. Roedd y Ceidwadwyr ar y cyngor sir ar y pryd yn gwrthwynebu buddsoddi ynddo. Fodd bynnag, cafwyd buddsoddiad ac roedd y maes awyr yn cynhyrchu £1 filiwn y flwyddyn. Byddai hynny'n ein helpu.

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the Member for giving way. The key to this argument is that there are successful models in the public and private sectors for running airports, but it is the support that the local economic development authority—in this case, the Welsh Government—has offered Cardiff Airport, historically, that has been lamentable. That is the fundamental problem. Do we need to spend tens of millions of pounds acquiring the airport or should we use a fraction of that money to support it?

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Yr allwedd i'r ddadl hon yw bod modelau llwyddiannus o redeg meysydd awyr i'w cael yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond mae'r cymorth a gynigiwyd gan yr awdurdod datblygu economaidd lleol— Llywodraeth Cymru, yn yr achos hwn—i Faes Awyr Caerdydd wedi bod yn druenus yn y gorffennol. Dyna'r broblem sylfaenol. A oes angen gwario degau o filiynau o bunnoedd i brynu'r maes awyr neu a ddylem ddefnyddio ffracsiwn o'r arian hwnnw i'w gefnogi?

**Mike Hedges:** There are a couple of points that I would like to address—

**Mike Hedges:** Hoffwn fynd i'r afael ag un neu ddau o bwyntiau i fynd i'r afael—

**The Presiding Officer:** Order. Could you move away from the microphone please? Thank you. Carry on.

**Y Llywydd:** Trefn. A allech symud i ffwrdd oddi wrth y meicroffon os gwelwch yn dda? Diolch. Ewch ymlaen.

**Mike Hedges:** That is what giving way does for me. There are two points that I would like to answer that with. The key to an airport is not necessarily its ease of access: Bristol has proved that and Gatwick also. I went to Bristol, along with Oscar, who is one of the people who welcomed taking Cardiff Airport into public ownership initially. We went down lots of complicated lanes on the way there and we came back through the centre of Bristol. What we need is a successful airport and I hope that the Government can achieve it.

**Mike Hedges:** Dyna beth mae ildio yn ei wneud imi. Mae dau bwynt yr hoffwn eu gwneud i ateb hynny. Nid mynediad hawdd yw'r allwedd i faes awyr o reidrwydd: mae Bryste wedi profi hynny a Gatwick hefyd. Euthum i Fryste, ynghyd ag Oscar, sy'n un o'r bobl a groesawodd y cynnig o gael Maes Awyr Caerdydd o dan berchenogaeth gyhoeddus i ddechrau. Aethom ar hyd llu o lonydd cymhleth ar y ffordd yno, a daethom yn ôl drwy ganol Bryste. Yr hyn sydd ei angen yw maes awyr llwyddiannus, a gobeithiaf y gall y Llywodraeth gyflawni hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn ceisio dychwelyd yr holl ddadl hon at realiti'r sefyllfa sydd yn ein hwynebu. Mae gennym faes awyr cenedlaethol sydd i lawer o bobl yn fynedfa i Gymru ac y mae'n methu yn llwyr. Mae unrhyw un sydd wedi bod ym Maes Awyr Caerdydd ac wedi cael y profiad o geisio hedfan oddi yno yn y blynyddoedd diwethaf yn mynd i gydnabod bod y profiad hwnnw'n annigonol iawn o ran y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Felly, mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud rhywbeth am y sefyllfa. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu camu i'r adwy. Mae gennyf ryw gymaint o gydymdeimlad â'r hyn a ddywedodd Eluned Parrott. Mae'n ymddangos bod y Prif Weinidog wedi bod yn gwneud datganiadau ynglŷn â Maes Awyr Caerdydd am nifer o fisoedd a'i fod wedi cael ei orfodi i sefyllfa lle'r oedd yn rhaid iddo weithredu. Y weithred mae wedi'i gwneud yw dweud bod Llywodraeth Cymru'n mynd i brynu'r maes awyr. Mae gennym y model diddorol wnaeth Nick Ramsay ei gynnig, sef, bod modd bod yn berchen ar faes awyr heb ei brynu ef. Nid wyf yn siŵr sut mae gwneud hynny yng nghyd-destun Manceinion, ond mae'n amlwg bod gan Nick, fel llefarydd y Ceidwadwyr ar yr economi, rhyw fath o bolisi ar bryniant sy'n wahanol i'r hyn sy'n arferol yn y byd hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** I think that it is important that we should try to bring this debate back to the reality of the situation that is facing us. We have a national airport that, to many people, is a gateway to Wales and it is failing entirely. Anyone who has been at Cardiff Airport and had the experience of trying to fly from there over the past few years would acknowledge that that experience is most inadequate in terms of the service that is provided. Therefore, it is clear that something has to be done about that situation. At present, the Government has decided to step in. I have some sympathy with what Eluned Parrott was saying. It appears that the First Minister has been making statements about Cardiff Airport for a number of months now and that he has been forced into a position where he had to take action. The course on which he decided was to state that the Welsh Government is to purchase the airport. We have the interesting model that Nick Ramsay proposed, that it is possible to be an owner of an airport without actually purchasing it. I do not quite understand how that is possible in the context of Manchester, but clearly Nick, as the Conservative spokesperson on the economy, has some sort of policy on acquisition that is different to what is commonplace in the real world.

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way. I certainly did not say that you can own something without owning it. That would be plainly ridiculous. I am sure that even you would not credit me with that. [*Laughter.*] If you read the committee report that a lot of Members fed into before Christmas, you can give guidance to the management company that has ownership without purchasing it. That money could have been better spent on structural problems around the airport such as the access road.

**Nick Ramsay:** Diolch ichi am ildio. Ni ddywedais o gwbl eich bod yn gallu bod yn berchen ar rywbeth heb fod yn berchen arno. Byddai hynny'n amlwg yn hurt. Rwy'n siŵr na fyddech chi hyd yn oed yn meddwl mai dyna beth a ddywedais. [*Chwerthin*.] Os ydych yn darllen adroddiad y pwyllgor y cyfrannodd llawer o Aelodau ato cyn y Nadolig, gallwch roi arweiniad i'r cwmni rheoli sy'n berchen arno, a hynny heb ei brynu. Gellid bod wedi gwario'r arian hwnnw yn well ar broblemau strwythurol o amgylch y maes awyr fel y ffordd fynediad.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae hynny'n fater gwahanol. Y ffaith amdani, yng nghyd-destun y maes awyr ym Manceinion, yw ei fod wedi cael ei brynu gan y sector cyhoeddus. Rwy'n credu mai'r hyn a ddywedoch oedd bod modd bod yn berchen ar faes awyr heb ei brynu ef, sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydych yn ceisio ei ddweud.

**Rhodri Glyn Thomas:** That is a different issue. The fact is, in the context of Manchester Airport, is that it has been purchased by the public sector. I think that what you said was that it was possible to own an airport without purchasing it, which is very different to what you are attempting to say.

3.30 p.m.

3.30 p.m.

Fodd bynnag, y cwestiwn sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw: beth yn union mae'n mynd i'w wneud wedi prynu Maes Awyr Caerdydd? Rydym yn cydnabod fod y model sy'n bodoli ar hyn o bryd yn fethiant. Nid dadl ynghylch y sector breifat a chenedlaetholi yw hwn. Mae Plaid Cymru yn ddigon hapus i weld gwasanaethau sylfaenol yn cael eu cenedlaetholi, ond nid dyna'r cwestiwn. Y cwestiwn yw sut y gallwn sicrhau bod maes awyr cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n effeithiol a'i fod yn caniatáu i bobl i ddod i mewn i Gymru ac i hedfan allan o Gymru.

However, the question facing the Welsh Government at present is: what exactly is it going to do after buying Cardiff Airport? We acknowledge that the model that exists at present has failed. This is not an argument about the private sector and nationalisation. Plaid Cymru is quite happy to see fundamental services nationalised, but that is not the issue. The issue is how we can ensure that Wales's national airport operates effectively and allows people to travel into Wales and to fly out of Wales.

Felly, yn syml ddigon, ein safbwynt ni yw nad ydym yn mynd i gondemnio'r Llywodraeth ar hyn o bryd. Mae gennym gwestiynau ynghylch y broses a wnaeth ein harwain at y sefyllfa hon, ond rydym yn disgwyl glywed yr hyn sydd gan Lywodraeth Cymru i'w ddweud ynghylch sut yn union mae'n mynd i sicrhau bod maes awyr cenedlaethol Cymru yn mynd i weithredu'n effeithiol. Mae'r math o gwestiynau a wnaeth Nick Ramsay godi gyda mi—

Therefore, quite simply, our view is that we are not going to condemn the Government at present. We have questions about the process that has led us to this position, but we are waiting to hear what the Government has to say about how exactly it will ensure that the national airport of Wales will operate effectively. The kinds of questions that Nick Ramsay raised with me—

**Antoinette Sandbach:** Will you give way?

**Antoinette Sandbach:** A wnewch chi ildio?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mewn munud;

**Rhodri Glyn Thomas:** In a minute; let me

gadewch i mi orffen gyda Nick Ramsay yn gyntaf. Yng nghyd-destun yr hyn a ddywedodd Nick Ramsay, ni wnaeth codi'r cwestiynau hynny yn ei gyfraniad. Cododd y cwestiynau wrth ymyrryd arnaf i.

finish with Nick Ramsay first. In the context of what Nick Ramsay said, he did not raise those questions in his contribution. He raised the questions in intervening on me.

**Antoinette Sandbach:** I am very grateful to Rhodri Glyn Thomas for allowing me to intervene. You describe Cardiff Airport as a national airport for Wales, but in fact, it will not serve north Wales or west Wales or even parts of mid Wales. The reality is that the train connections are too bad. Surely you are not suggesting that someone will make a four-and-a-half hour journey by train down from north Wales to south Wales to catch a flight from Cardiff Airport when they can get to Manchester in an hour and 15 minutes.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar i Rhodri Glyn Thomas am ganiatáu imi ymyrryd. Rydych yn cyfeirio at Faes Awyr Caerdydd fel maes awyr cenedlaethol i Gymru, ond mewn gwirionedd, ni fydd yn gwasanaethu'r gogledd na'r gorllewin na hyd yn oed rhannau o'r canolbarth.Y gwir yw bod y cysylltiadau trên yn rhy wael. Siawns nad ydych yn awgrymu y bydd rhywun yn gwneud taith bedair awr a hanner ar y trên i lawr o'r gogledd i'r de i ddal awyren o Faes Awyr Caerdydd er y gellir cyrraedd Manceinion mewn awr a 15 munud.

**Rhodri Glyn Thomas:** Unfortunately, you have just highlighted a problem that perhaps you as a party have—you do not recognise Wales as a nation. If Wales is a nation, then it has to have a national airport. So, you tell me where the national airport should be other than in Cardiff. We have to have a national airport; every other nation has a national airport.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn anffodus, rydych wedi tynnu sylw at broblem sydd gennych fel plaid o bosibl—nid ydych yn cydnabod bod Cymru yn genedl. Os yw Cymru yn genedl, yna rhaid bod ganddi faes awyr cenedlaethol. Felly, dywedwch wrthyf ble y dylai'r maes awyr cenedlaethol fod wedi'i leoli ar wahân i Gaerdydd. Rhaid wrth faes awyr cenedlaethol; mae maes awyr cenedlaethol gan bob gwlad arall.

In terms of the transport infrastructure between south and north Wales and between east and west Wales, that is something that we have to develop. However, we have to have a national airport. If you are saying that you do not want to see a national airport for Wales, then I would like that argument to be placed within the economic argument about the development of Wales. The One Wales Government prior to 2011 ensured that there was a plane service from Anglesey to Cardiff, which ensured that people could fly out of Cardiff Airport and be in north Wales within an hour. If that is not an infrastructure that allows for a national network, I do not know what is—[*Interruption*.] I say to you, Minister, that at this moment we will accept what you have done, but we wait to see your decisions on making that airport effective and something that allows the economy of Wales to grow.

O ran y seilwaith trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd a rhwng y dwyrain a'r gorllewin, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ddatblygu. Fodd bynnag, rhaid wrth faes awyr cenedlaethol. Os ydych yn dweud nad ydych yn dymuno gweld maes awyr cenedlaethol i Gymru, yna hoffwn weld y ddadl honno yn cael ei gosod yng nghyd-destun y ddadl economaidd am ddatblygu Cymru. Sicrhaodd Llywodraeth Cymru'n Un cyn 2011 fod gwasanaeth awyren o Ynys Môn i Gaerdydd, a oedd yn sicrhau y gallai pobl hedfan o Faes Awyr Caerdydd a bod yn y gogledd o fewn awr. Onid yw hynny'n seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith cenedlaethol?—*[Torri ar draws.]* Rwy'n dweud wrthych, Weinidog, ar hyn o bryd, y derbyniwn yr hyn yr ydych wedi ei wneud, ond rydym yn aros i weld eich penderfyniadau ar wneud y maes awyr yn effeithiol ac yn rhywbeth sy'n galluogi economi Cymru i dyfu.

**Darren Millar:** This debate has certainly got

**Darren Millar:** Mae'r ddadl hon yn sicr

the Assembly off to a flying start for this year. [*Laughter.*] One thing that we all have in common in this Assembly is that we want Cardiff Airport, as our national airport—we accept that—to succeed. Every single person in this Assembly wants Cardiff Airport to succeed. What we find astonishing is that, certainly for the past 18 months or so, the First Minister, in running down the airport to the extent that he has, has appeared to give the impression that the current owners, who could become the previous owners, have not had the Government's support. That is extremely regrettable.

wedi rhoi dechrau da i'r Cynulliad eleni. [*Chwerthin*.] Un peth y mae pawb yn y Cynulliad hwn yn cytuno yn ei gylch yw ein bod am i Faes Awyr Caerdydd, fel ein maes awyr cenedlaethol—derbyniwn hynny—lwyddo. Mae pob un yn y Cynulliad hwn am i Faes Awyr Caerdydd lwyddo. Yr hyn sy'n syfrdanol i ni yw bod y Prif Weinidog, yn sicr ers tua 18 mis, wrth ladd ar y maes awyr i'r graddau a wnaeth, wedi rhoi'r argraff nad yw'r perchenogion presennol, a allai fynd yn gyn-berchnogion, wedi cael cefnogaeth y Llywodraeth. Mae hynny'n anffodus iawn.

We welcomed the establishment of the airport taskforce by the Government last year. However, it is shameful that that taskforce has met only twice. It does not show any action on your part. It seems to suggest a lazy attitude towards the airport by the Government. At the same time, while there have been only two meetings of the taskforce, the First Minister has been running down the airport every time the issue has been raised in the Senedd.

Croesawyd penderfyniad y Llywodraeth i sefydlu tasglu ar y maes awyr y llynedd. Fodd bynnag, mae'n gywilyddus mai dim ond ddwywaith y mae'r tasglu hwnnw wedi cyfarfod. Nid yw'n dangos unrhyw weithredu ar eich rhan. Mae'n awgrymu agwedd ddiog i bob golwg tuag at y maes awyr o du'r Llywodraeth. Ar yr un pryd, er mai dim ond ddwywaith y mae'r tasglu wedi cyfarfod, mae'r Prif Weinidog wedi bod yn lladd ar y maes awyr bob tro y mae'r mater wedi cael ei godi yn y Senedd.

I think that it was Simon Thomas who asked earlier what our plans for Cardiff Airport would be. We have been calling, for many years now, for an airport and aviation strategy for Wales. We do not have one at present. We need one desperately as a nation, if we are ever to see this national gateway being developed. We have been calling for the Welsh Government to step in and give support to the current owners to establish flights to North America from the airport—direct flights to and from North America, which is a lucrative part of the world. We need those flights directly into Cardiff Airport so that those North Americans can bring their deep pockets with them.

Credaf mai Simon Thomas a ofynnodd yn gynharach beth fyddai ein cynlluniau ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Ers sawl blwyddyn bellach rydym wedi bod yn galw am strategaeth maes awyr a hedfan i Gymru. Nid oes gennym un ar hyn o bryd. Mae angen un yn ddybryd arnom fel cenedl, os ydym byth yn mynd i weld y porth cenedlaethol hwn yn cael ei ddatblygu. Rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gamu i'r adwy a helpu'r perchnogion presennol i sefydlu teithiau hedfan i Ogledd America o'r maes awyr—teithiau uniongyrchol i Ogledd America ac o Ogledd America, sy'n rhan broffidiol o'r byd. Mae angen y teithiau hedfan hynny'n uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd er mwyn i'r bobl hynny o Ogledd America ddod â'u pocedi dyfnion gyda hwy.

**Simon Thomas:** You have at least put a little more flesh on the very crumbly bones of your policy on Cardiff Airport. However, why are you so keen to use public money to subsidise flights from North America, when you are not prepared to use public money to subsidise flights from north Wales?

**Simon Thomas:** Rydych o leiaf wedi rhoi ychydig mwy o gnawd ar esgyrn brau iawn eich polisi ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Fodd bynnag, pam eich bod mor awyddus i ddefnyddio arian cyhoeddus i roi cymorthdal i deithiau hedfan o Ogledd America, er nad ydych yn barod i ddefnyddio arian cyhoeddus i roi cymhorthdal i deithiau hedfan o ogledd

Cymru?

**Darren Millar:** What we are asking, very simply, is: why has the Government not come up with a strategy to allow for growth at Cardiff Airport in another way? Why has it gone for the silver bullet that it thinks that purchasing the airport might be? That seems to be a nuclear option, not something that you try upfront. You need to have an option of last resort—and it might well be appropriate that it is purchasing the airport—but why is the Government not trying other solutions first? We have raised the issue of the connectivity of the airport to the public transport system, and we have raised the issue of the connectivity of Rhoose to the rest of south Wales. These are issues that could be resolved outside of an airport purchase all of which could have a huge impact on passenger numbers.

**Darren Millar:** Yr hyn yr ydym yn ei ofyn, yn syml iawn, yw: pam nad yw'r Llywodraeth wedi cynnig strategaeth i alluogi Maes Awyr Caerdydd i dyfu mewn ffordd arall? Pam mae wedi dewis yr ateb syml y cred y gall prynu'r maes awyr fod? Ateb yn niffyg popeth arall yw hwnnw i bob golwg, nid rhywbeth y byddwch yn rhoi cynnig arni o'r cychwyn cyntaf. Mae angen ateb yn niffyg popeth arall—ac mae'n ddigon posibl mai prynu'r maes awyr yw'r ateb priodol—ond pam nad yw'r Llywodraeth yn rhoi cynnig ar atebion eraill yn gyntaf? Rydym wedi codi mater cysylltedd y maes awyr â'r system trafnidiaeth gyhoeddus, ac rydym wedi codi mater cysylltedd y Rhws â gweddill de Cymru. Mae'r rhain yn broblemau y gellid eu datrys heb brynu'r maes awyr a gallai pob un ohonynt gael effaith enfawr ar nifer y teithwyr.

I would like to talk for a few moments about the opportunity cost of purchasing this airport. Let us face it, it will cost tens of millions of pounds—perhaps between £50 million and £70 million; those are some of the estimates out there. I do not know what the arrangement is, Minister, so you will have to forgive me—I am going in a little blind. However, that sort of money could achieve a huge amount in other parts of Wales, not least in north Wales, as has already been alluded to. What is happening, for example, with our sea ports, which could also do with some investment in order to encourage a cruise market in Wales? What is happening in terms of investment on the A55 to deal with the horrendous congestion problems that we face, particularly during the summer months? We know that we have had flooding events on the A55, which is in drastic need of improvement. We do not have a hard shoulder on the A55—the main arterial route through north Wales. What about access to Valley airport in north Wales? We know that its car parking arrangements are closed at the weekend, for example. How pathetic is that? These are simple things that could be resolved with a fraction of the investment that is going into this single airport down in south Wales. Someone else has just referred to the Newtown bypass. Yes, absolutely—if we want to sort out north-south connectivity

Hoffwn sôn am ychydig funudau am gost y cyfle i brynu'r maes awyr hwn. Gadewch inni wynebu'r gwir, bydd yn costio degau o filiynau o bunnoedd—efallai rhwng £50 miliwn a £70 miliwn; dyna rai o'r amcangyfrifon a gynigiwyd. Ni wn beth yw'r trefniant, Weinidog, felly bydd yn rhaid ichi faddau imi—rwyf yn y tywyllwch braidd. Fodd bynnag, gallai swm o'r fath hwnnw gyflawni cryn dipyn mewn rhannau eraill o Gymru, yn enwedig yn y gogledd, fel y crybwyllwyd eisoes. Beth sy'n digwydd, er enghraifft, o ran ein porthladdoedd môr, y mae angen buddsoddiad ynddynt hefyd er mwyn annog marchnad mewn llongau mordeithio yng Nghymru? Beth sy'n digwydd o ran buddsoddi yn yr A55 i ymdrin â phroblemau'r tagfeydd erchyll a wynebwn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf? Gwyddom am achosion o lifogydd ar yr A55, y mae angen ei gwella'n ddirfawr. Nid oes llain galed ar yr A55—y llwybr prifwythiennol drwy'r gogledd. Beth am fynediad i faes awyr y Fali yn y gogledd? Gwyddom fod ei drefniadau parcio ar gau ar y penwythnos, er enghraifft. Pa mor druenus yw hynny? Mae'r rhain yn bethau syml y gellid eu datrys gyda chyfran fach iawn o'r buddsoddiad y bwriedir ei wneud mewn un maes awyr yn y de. Mae rhywun arall newydd gyfeirio at ffordd osgoi'r Drenewydd. Ie, yn hollol—os ydym am

in Wales, let us get the Newtown situation resolved.

ddatrys problem cysylltedd rhwng y gogledd a'r de yng Nghymru, gadewch inni ddatrys y sefyllfa o ran y Drenewydd.

I wish to mention one other thing that I think is really important. If we want to improve the ability of all Welsh residents to access—

Hoffwn sôn am un peth arall sy'n wirioneddol bwysig, yn fy marn i. Os ydym am ei gwneud yn haws i holl drigolion Cymru gael mynediad—

**Rhodri Glyn Thomas:** Will you give way?

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnewch chi ildio?

**Darren Millar:** I will come to you in a second.

**Darren Millar:** Byddaf yn dod atoch mewn eiliad.

**The Presiding Officer:** Order. You may not have time to take an intervention.

**Y Llywydd:** Trefn. Efallai na fydd gennych amser i dderbyn ymyriad.

**Darren Millar:** You allowed him sufficient time to respond to an intervention. May I just make this point—

**Darren Millar:** Rhoddwyd digon o amser iddo ymateb i ymyriad. A gaf wneud y pwynt hwn—

**The Presiding Officer:** Order. Excuse me; I am saying that you may not have time.

**Y Llywydd:** Trefn. Esgusodwch fi; dweud yr wyf na fydd amser gennych o bosibl.

**Darren Millar:** If we want to improve the ability of all the people in Wales to access their most appropriate airport, then why not improve links to Manchester Airport for those people in north Wales who currently do not have a direct rail link? Why not ensure that there is a direct rail link into Liverpool airport, which would also give people a significant advantage? I will take the intervention.

**Darren Millar:** Os ydym am ei gwneud yn haws i holl bobl Cymru gael mynediad i'w maes awyr mwyaf priodol, yna beth am wella'r cysylltiadau â Maes Awyr Manceinion i'r bobl hynny yn y gogledd nad oes ganddynt gyswllt rheilffordd uniongyrchol ar hyn o bryd? Pam na wnewch chi sicrhau bod cyswllt rheilffordd uniongyrchol â maes awyr Lerpwl, a fyddai hefyd o fantais sylweddol? Derbyniaf yr ymyriad.

**The Presiding Officer:** You are just within time.

**Y Llywydd:** Mae gennych ychydig o amser yn weddill.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am grateful, Darren. All the things that you refer to are to do with infrastructure, which needs investment. However, your Government in Westminster has cut that investment by 20%. You are talking about all this investment that needs to happen, but your Government in London has cut that by 20%.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n ddiolchgar, Darren. Mae'r holl bethau yr ydych yn cyfeirio atynt yn ymwneud â seilwaith, y mae angen buddsoddi ynddo. Fodd bynnag, mae eich Llywodraeth yn San Steffan wedi torri'r buddsoddiad hwnnw 20%. Rydych yn sôn am yr holl fuddsoddi y mae angen ei wneud, ond mae eich Llywodraeth yn Llundain wedi torri hynny 20%.

**Darren Millar:** The Government in London, in the autumn statement, made available over £200 million extra to go into investment in Wales, so I am surprised that you are not welcoming that.

**Darren Millar:** Yn natganiad yr hydref darparodd y Llywodraeth yn Llundain dros £200 miliwn yn ychwanegol i'w fuddsoddi yng Nghymru, felly synnaf nad ydych yn croesawu hynny.

I accept that something might need to be done as an ultimate solution for Cardiff Airport, and that may well involve public ownership. However, what I am saying is that you have to measure this up against the opportunity costs of not investing in the transport network elsewhere in Wales, and that you should be looking at other solutions before you immediately jump the gun and go to a state purchase.

Derbyniaf y gallai fod angen gwneud rhywbeth fel ateb yn y pen draw i Faes Awyr Caerdydd, ac mae'n bosibl y gall hynny gynnwys perchenogaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw bod yn rhaid ichi fesur hyn yn erbyn costau peidio â buddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth mewn mannau eraill yng Nghymru, ac y dylech fod yn edrych ar atebion eraill cyn ichi frysio i brynu'r maes awyr i'r wlad.

**Julie Morgan:** I am grateful to be called to speak in this important debate, Presiding Officer. I am extremely surprised at the line that the opposition has taken today. It seems to me that now is the time that we should all be rallying around on a cross-party basis to support the initiative that has been taken by the Government. It is obvious that things at the airport were at a crisis point. It is obvious that something had to be done and the Government took the practical solution that it did. I am sorry that the opposition party has responded with ideology—certainly that is what has come across in the motion that it has tabled and in some of the speeches that have been made. I was also surprised to hear Byron Davies talk about an academic who had said that public criticism was not helping, because what have we heard today? Surely, what we have heard from the opposition today is not going to give confidence to the business community, and, were Cardiff Airport to close, what message would that give to the business community in Wales? It is absolutely right that the Government stepped in and it is a great shame that all the opposition parties are not supporting this initiative.

**Julie Morgan:** Rwy'n ddiolchgar am gael fy ngalw i siarad yn y ddadl bwysig hon, Lywydd. Synnaf yn fawr iawn at safbwynt yr wrthblaid heddiw. Ymddengys i mi mai dyma'r amser inni ddod ynghyd i gefnogi'r fenter gan y Llywodraeth a hynny ar sail drawsbleidiol. Mae'n amlwg bod pethau yn y maes awyr wedi mynd yn argyfwng. Mae'n amlwg bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud a dewisodd y Llywodraeth yr ateb ymarferol a wnaeth. Rwy'n gresynu bod yr wrthblaid wedi ymateb gydag ideoleg—yn sicr dyna naws y cynnig a gyflwynwyd a naws rhai o'r areithiau a wnaed. Roeddwn yn synnu hefyd i glywed Byron Davies yn sôn am academydd a oedd wedi dweud nad oedd y feirniadaeth gyhoeddus yn fuddiol, oherwydd yr hyn yr ydym wedi'i glywed heddiw? Yn sicr, nid yw'r hyn rydym wedi'i glywed gan yr wrthblaid heddiw yn mynd i roi hyder i'r gymuned fusnes, a, phe bai Maes Awyr Caerdydd yn cau, pa neges y byddai hynny yn ei rhoi i'r gymuned fusnes yng Nghymru? Mae'n hollol briodol bod y Llywodraeth wedi camu i'r adwy ac mae'n drueni mawr nad yw'r holl wrthbleidiau yn cefnogi'r fenter hon.

**Andrew R.T. Davies:** The question that we are asking is: is it prudent for tens of millions of pounds, as the Government has said, to be spent acquiring the airport, or could the best result for the taxpayer, the travelling public and the image of Wales be achieved by a partnership to promote route development? That is the nub of this argument. Also, if there are tens of millions of pounds to be spent on this, where is that money coming from?

**Andrew R.T. Davies:** Y cwestiwn yr ydym yn ei ofyn yw: a yw'n ddoeth gwario degau o filiynau o bunnoedd, fel y dywedodd y Llywodraeth, ar brynu'r maes awyr, neu a ellid sicrhau'r canlyniad gorau i'r trethdalwr, y cyhoedd sy'n teithio a delwedd Cymru drwy bartneriaeth i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu llwybrau? Dyna hanfod y ddadl hon. Hefyd, os bwriedir gwario degau o filiynau o bunnoedd ar hyn, o ble y daw'r arian?

**Julie Morgan:** The First Minister made it quite clear that there is going to be a due diligence exercise. Your debate is too early.

**Julie Morgan:** Fe'i gwnaed yn gwbl glir gan y Prif Weinidog y bydd ymarfer diwydrwydd dyladwy. Mae eich dadl yn rhy gynnar. Pam

Why do you not wait to see what exactly will come forward from the Government? It is not just going forward and buying something willy-nilly, in the way that some of your speakers have suggested, and suddenly buying an airport. There is a due diligence exercise and that exercise will look at what is important for the taxpayer. The opposition obviously has every right to query and question, but to stand ideologically against nationalisation at this point, and, at the same time, query the financial elements, is completely out of kilter. There is a due diligence exercise that will be done before any purchase takes place.

nad arhoswch i weld beth yn union a gynigia'r Llywodraeth? Nid yw'n brysio i brynu rhywbeth yn ddifeddwl, fel y mae rhai o'ch siaradwyr wedi awgrymu, ac yn ddisymwth yn prynu maes awyr. Bydd ymarfer diwydrwydd dyladwy a bydd yr ymarfer hwnnw yn ystyried yr hyn sy'n bwysig i drethdalwyr. Mae gan y gwrthbleidiau berffaith hawl i holi, ond mae gwrthwynebu gwladoli am resymau ideolegol yn awr, ac, ar yr un pryd, cwestiynu'r elfennau ariannol, yn hollol afresymol. Bydd ymarfer diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal cyn unrhyw bryniant.

**Nick Ramsay:** However, there is no idea yet as to what that due diligence involves, is there? So, at this point in time, with that announcement made, the Government does not really know what it is getting into.

**Nick Ramsay:** Fodd bynnag, nid oes unrhyw awgrym eto beth mae'r ymarfer diwydrwydd dyladwy hwnnw yn ei olygu, nac oes? Felly, ar hyn o bryd, a'r cyhoeddiad hwnnw wedi'i wneud, nid yw'r Llywodraeth yn gwybod mewn gwirionedd beth sydd o'i blaen.

**Julie Morgan:** It was made quite clear by the First Minister that there would be due diligence work. That will be done and, if the Welsh Government is satisfied that this represents a sound investment, then it may proceed towards a purchase. That is what was said, and your time to question is after that due diligence has happened. A lot of the opposition here today is ideological. It has already been mentioned how successful Manchester Airport is under public ownership, with one of the local authorities involved being Conservative-controlled. I was a member of South Glamorgan council, along with other colleagues here, but in particular the Member for Pontypridd, who was on the board of the airport, I believe, when the ideology of John Redwood forced the councils to sell off the airport, which was doing very well, to TBI. It is quite wrong for the Conservatives to use 'nationalisation' in this way, as if it is a dirty word, because it is a practical way of going forward to ensure that we do not lose this valued airport.

**Julie Morgan:** Fe'i gwnaed yn gwbl glir gan y Prif Weinidog y byddai gwaith diwydrwydd dyladwy. Bydd hwnnw'n cael ei wneud ac, os yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod hwn yn fuddsoddiad cadarn, yna gall fynd ati i brynu'r maes awyr. Dyna beth a ddywedwyd, a daw eich amser i holi ar ôl i'r gwaith hwnnw ar ddiwydrwydd dyladwy gael ei wneud. Mae llawer o'r gwrthwynebiad yma heddiw yn ideolegol. Soniwyd eisoes am ba mor llwyddiannus yw Maes Awyr Manceinion o dan berchenogaeth gyhoeddus, gydag un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan o dan reolaeth Geidwadol. Roeddwn yn aelod o gyngor De Morgannwg, ynghyd â chyd-aelodau eraill yma, ond yn arbennig yr Aelod dros Bontypridd, a oedd ar fwrdd y maes awyr, fe gredaf, pan orfododd ideoleg John Redwood y cynghorau i werthu'r maes awyr, a oedd yn ffynnu, i TBI. Mae'n hollol amhriodol i'r Ceidwadwyr ddefnyddio'r gair 'gwladoli' yn y modd hwn, fel pe bai'n air brwnt, oherwydd ei bod yn ffordd ymarferol o fynd ati i sicrhau nad ydym yn colli'r maes awyr gwerthfawr hwn.

Even your speakers today have acknowledged that you have used nationalisation successfully. I am thinking in particular of Rolls Royce—you used nationalisation and public ownership very successfully to save Rolls Royce. As I say,

Mae hyd yn oed eich siaradwyr heddiw wedi cydnabod eich bod wedi defnyddio gwladoli yn llwyddiannus. Rwy'n meddwl yn benodol am Rolls Royce—lle y defnyddiwyd gwladoli a pherchnogaeth gyhoeddus yn llwyddiannus iawn gennych i achub Rolls

this sale will only go ahead after the due diligence is carried out. The other point that I want to make is that we want the business community to have confidence and I think that the First Minister moving in the way in which he did has given confidence to the business community that something is going to happen to preserve the airport. It is obviously key to get the right airport operating company in—there is no intention that the Government would run the airport; we need the private sector in to run it.

Royce. Fel y dywedais, dim ond ar ôl i'r ymarfer diwydrwydd dyladwy gael ei gynnal y bydd y gwerthiant hwn yn mynd rhagddo. Y pwynt arall yr wyf am ei wneud yw ein bod am i'r gymuned fusnes fod yn hyderus a chredaf fod y ffordd y mae'r Prif Weinidog wedi cymryd y camau a wnaeth wedi rhoi hyder i'r gymuned fusnes y bydd rhywbeth yn digwydd i ddiogelu'r maes awyr. Mae'n amlwg yn allweddol ein bod yn dod o hyd i'r cwmni gweithredu maes awyr cywir—nid oes unrhyw fwriad y byddai'r Llywodraeth yn rhedeg y maes awyr; mae angen i'r sector preifat ei redeg.

My final point is that you also have to consider the fact that the airport site is home to the British Airways maintenance centre, with about 950 highly-skilled jobs there, some of which are held by people from my constituency. British Airways would be very unlikely to invest further if the spiral of decline were to continue under the current ownership. So, we are not just talking about jobs at the airport, businesses and confidence in Wales; we are talking about existing, highly skilled jobs on the site, so I fully support the Government's move.

Fy mhwynt olaf yw bod yn rhaid ichi hefyd ystyried y ffaith bod safle'r maes awyr yn gartref i ganolfan cynnal a chadw British Airways, gyda thua 950 o swyddi hyfedr yno, y delir rhai ohonynt gan bobl yn fy etholaeth. Byddai British Airways yn annhebygol iawn o fuddsoddi ymhellach pe bai'r dirywiad marwol yn parhau o dan y perchenogion presennol. Felly, nid sôn am swyddi yn y maes awyr, busnesau a hyder yng Nghymru yn unig yr ydym; yr ydym yn sôn am swyddi hyfedr sydd eisoes ar y safle, felly llwyr gefnogaf gamau gweithredu'r Llywodraeth.

3.45 p.m.

3.45 p.m.

**Mick Antoniw:** Thank you for the opportunity to participate in this debate. I was a member of the airport committee when the airport was publicly owned, and we invested a lot of public money in putting in new runways and so on. As I said earlier, it was a great tragedy that the airport was privatised, and it has gone more or less downhill ever since. If you want to look at examples of publicly-owned airports around the UK, let us start with Manchester Airport, which is owned by Manchester City Council and 10 borough councils, and which also owns Bournemouth and East Midlands airports. It generates £3.3 billion for the UK economy and directly and indirectly supports an estimated 130,000 jobs. For those who queried whether they were good times or bad times, it saw a 6.4% increase—

**Mick Antoniw:** Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Roeddwn yn aelod o bwyllgor y maes awyr pan oedd y maes awyr yn eiddo cyhoeddus, a buddsoddwyd llawer o arian cyhoeddus mewn adeiladu rhedfeydd newydd ac yn y blaen gennym. Fel y dywedais yn gynharach, bu'n drueni mawr i'r maes awyr gael ei breifateiddio, ac mae fwy neu lai wedi dirywio byth oddi ar hynny. Os ydych am edrych ar enghreifftiau o feysydd awyr o dan berchnogaeth gyhoeddus o amgylch y DU, gadewch inni ddechrau gyda Maes Awyr Manceinion, sy'n eiddo i Gyngor Dinas Manceinion a 10 o gynghorau bwrdeistref sirol, ac sydd hefyd yn berchen ar Faes Awyr Bournemouth a Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr. Mae'n creu £3.3 biliwn i economi'r DU ac yn cynnal 130,000 o swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. I'r rhai a ofynnodd a oeddent yn amseroedd da neu ddrwg, gwelodd gynnydd o 6.4%—

**Mark Isherwood:** There has been a lot of

**Mark Isherwood:** Bu llawer o sylwadau am

comment about ideology, nationalisation and non-nationalisation; what matters is what works. Do you recognise that although Manchester Airport was formerly owned by Manchester Corporation—it was the first publicly-owned airport in 1929—in 1986 it became a public company, Manchester Airport plc, with shareholdings by councils but operated as a private company, and has grown phenomenally since then with a catchment area of 20 million people?

ideoleg, gwladoli a dim gwladoli; yr hyn sy'n bwysig yw beth sy'n llwyddo. A ydych yn cydnabod, er i Faes Awyr Manceinion fod yn eiddo i Gorfforaeth Manceinion gynt—dyma'r maes awyr cyntaf i fod yn eiddo cyhoeddus yn 1929—yn 1986 daeth yn gwmni cyhoeddus, sef Manchester Airport plc, gyda'r cynghorau yn dal cyfranddaliadau, ond gweithredodd fel cwmni preifat, ac mae wedi tyfu'n wyrthiol ers hynny gyda dalgylch o 20 miliwn o bobl?

**Mick Antoniw:** There are two points about Manchester Airport. First, it is publicly owned, and, secondly, it plays an integral role within the local transport system. The investment in the local community is precisely because it has that role—a role which Cardiff Airport did not have because of the owners' lack of interest, who saw it solely as an individual privatised asset. If you look at the annual report of Manchester Airport, you will see that it says that its aim is to be an integral part of its regions, with its airports contributing to the creation of vibrant regional economies. It does not say that in Cardiff Airport's annual report, and has never done so.

**Mick Antoniw:** Mae dau bwynt ynglŷn â Maes Awyr Manceinion. Yn gyntaf, mae o dan berchenogaeth gyhoeddus, ac, yn ail, mae'n chwarae rôl hanfodol o fewn y system drafnidiaeth leol. Ceir y buddsoddiad yn y gymuned leol yn union am ei fod yn chwarae'r rôl honno—rôl nad oedd gan Faes Awyr Caerdydd oherwydd diffyg diddordeb y perchenogion, a'i ystyriodd yn ased wedi'i breifateiddio unigol yn unig. Os edrychwch ar adroddiad blynyddol Maes Awyr Manceinion, fe welwch ei fod yn dweud mai ei nod yw bod yn rhan annatod o'i ranbarthau, gyda'i feysydd awyr yn cyfrannu at greu economïau rhanbarthol bywiog. Nid yw'n dweud hynny yn adroddiad blynyddol Maes Awyr Caerdydd, ac nid yw erioed wedi dweud hynny.

Newcastle Airport, which is owned by seven local authorities, has invested £17 million in the regional transport infrastructure, because it understands the public interest locally in terms of access and its role within the community.

Mae Maes Awyr Newcastle, sy'n eiddo i saith awdurdod lleol, wedi buddsoddi £17 miliwn yn y seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol, am ei fod yn deall budd y cyhoedd yn lleol o ran mynediad a'i rôl o fewn y gymuned.

All 10 Highland and Island Airports are wholly owned by the Scottish Government. You do not necessarily have to stay in Britain—Paris-Charles De Gaulle International Airport has 60 million passengers, making it the fifth largest airport in the world, and it has been enshrined in law that it has to be majority publicly owned. That is the case around the world, where the majority of airports are within that context.

Mae pob un o'r 10 Maes Awyr yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban yn eiddo yn gyfan gwbl i Lywodraeth yr Alban. Nid oes rhaid aros ym Mhrydain o anghenraid—mae 60 miliwn o deithwyr yn defnyddio Maes Awyr Rhyngwladol Paris-Charles De Gaulle, sef y pumed maes awyr mwyaf yn y byd, ac mae wedi cael ei ymgorffori yn y gyfraith bod yn rhaid i fwyafrif ohono fod yn eiddo cyhoeddus. Mae hynny'n wir ledled y byd, lle mae'r rhan fwyaf o feysydd awyr o fewn y cyd-destun hwnnw.

The problem with your position is that it is being led—

Y broblem gyda'ch safbwynt chi yw ei fod yn cael ei arwain—

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r

Member for giving way. I agree with everything that he has just said about those airports, particularly about Newcastle. However, Newcastle Airport has enjoyed significant backing from its local development corporation, such as attracting Emirates to the north-east in 2007-08, which Cardiff Airport has not enjoyed. That has been the fundamental flaw for Cardiff Airport for the last seven years—the Welsh Government has not stood behind route development.

Aelod am ildio. Cytunaf â phopeth y mae newydd ei ddweud am y meysydd awyr hynny, yn enwedig am Newcastle. Fodd bynnag, mae Maes Awyr Newcastle wedi cael cryn gefnogaeth gan ei gorfforaeth ddatblygu leol, megis denu Emirates i ogledd-ddwyrain Lloegr yn 2007-08, sef rhywbeth na chafodd Maes Awyr Caerdydd. Dyna fu'r diffyg sylfaenol i Faes Awyr Caerdydd ers saith mlynedd—nid yw Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau.

**Mick Antoniw:** The reason that Newcastle Airport has been able to do that is because it has been part of a regional economic plan, given the public interest in the interests of the local authorities. That is why there is an opportunity with Cardiff Airport.

**Mick Antoniw:** Y rheswm pam bod Maes Awyr Newcastle wedi gallu gwneud hynny yw ei fod wedi bod yn rhan o gynllun economaidd rhanbarthol, o ystyried budd y cyhoedd er budd yr awdurdodau lleol. Dyna pam mae cyfle gyda Maes Awyr Caerdydd.

The problem with the Conservatives' position is that it is being led by ideology. It is being led in such a way predominantly because the words 'nationalisation' and 'public ownership' were mentioned, and that one of your Members stood up and supported what was happening and was ordered to remove his tweet at the time because it somehow did not fit in with Tory ideology. That is what is dictating your position. You have become the Victor Meldrews of economic policy in Wales—you stand there saying 'I don't believe it'—and that is what has led you.

Y broblem gyda safbwynt y Ceidwadwyr yw ei fod yn cael ei arwain gan ideoleg. Mae'n cael ei arwain yn y fath fodd yn bennaf am i'r geiriau 'gwladoli' a 'pherchenogaeth gyhoeddus' gael eu crybwyll, a bod un o'ch Aelodau wedi sefyll i fyny ac wedi cefnogi'r hyn a oedd yn digwydd a gorchmynnwyd iddo ddileu ei neges drydar ar y pryd am nad oedd yn cyd-fynd rhywsut â'r ideoleg Dorïaidd. Dyna beth sy'n dylanwadu ar eich safbwynt. Chi yw Victor Meldrew polisi economaidd yng Nghymru—rydych yn sefyll yno gan ddweud 'Rwy'n methu credu'r peth'—a dyna sydd wedi'ch arwain.

As Julie Morgan mentioned—

Fel y soniodd Julie Morgan—

**Nick Ramsay** *rose*—

**Nick Ramsay** *a gododd*—

**Mick Antoniw:** No, I will not give way; I have only a little time left. As Julie Morgan mentioned, equally important is the vital role that we are playing in giving security and a degree of certainty to the future of the airport that it will play an integral role. We will protect those particular jobs in the airport, and also the many thousands of highly skilled jobs that are dependent on the airport and its future. Minister, one of the things that the Government might wish to consider is the model of ownership, because there is a role for a more progressive and innovative governance and ownership model that would involve some of the people who work within the airport, so that it is an airport that truly

**Mick Antoniw:** Na, nid ildiaf; dim ond ychydig o amser sy'n weddill gennyf. Fel y soniodd Julie Morgan, mae'r rôl hanfodol yr ydym yn ei chwarae i roi rhywfaint o sicrwydd y bydd y maes awyr yn chwarae rôl hollbwysig yn y dyfodol yr un mor bwysig. Byddwn yn diogelu'r swyddi penodol hynny yn y maes awyr, a hefyd y miloedd lawer o swyddi hyfedr sy'n ddibynnol ar y maes awyr a'i ddyfodol. Weinidog, un o'r pethau y gallai'r Llywodraeth ei ystyried o bosibl yw'r model o berchnogaeth, oherwydd mae lle i drefn lywodraethu a model perchenogaeth mwy blaengar ac arloesol a fyddai'n cynnwys rhai o'r bobl sy'n gweithio yn y maes awyr, fel ei fod yn faes awyr sy'n wirioneddol yn

serves the people of Wales.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I will start with the last contributor, who was involved in the management of the airport, and respond to the last suggestion about the model of ownership. One would have hoped that a debate on the airport and what may or may not happen would have been about the issues around models of ownership, what would happen to the workers and all the key points as we go through the due diligence process. However, that has not been the case today, and I have been disappointed by the way that ideology has run through this debate. I absolutely agree with Rhodri Glyn Thomas and Mike Hedges's contributions on this: it is not about nationalisation or privatisation, but about the gateway to Wales and the importance of economic prosperity. It is about us as a nation having an airport. Both contributions looked historically at issues as well as to the future, which is part of the reason why we are looking at some of these issues around the airport.

We have to go back to the statement that the First Minister made on 18 December, as Julie Morgan did, when he announced that the Welsh Government has developed an agreement with TBI, the owner of Cardiff Airport, facilitating a comprehensive financial and legal due diligence exercise between the two parties. Members will understand that this due diligence exercise is a matter of strict commercial confidentiality—heaven help us if you do not understand the issues around commercial confidentiality. Anybody who has been in the world of business understands the importance of that. I will make no comment on the details, nor can I give a running commentary on progress in this area. The due diligence process must run its course. If, after the exercise has been completed, the Welsh Government believes that the airport represents a sound investment for Wales, we may proceed towards a purchase.

A dynamic airport in Wales is crucial to the wider Welsh economy, and that came out from the report on airports and ports, Nick Ramsay, and there was an understanding in

gwasanaethu pobl Cymru.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Dechreuaf gyda'r cyfrannwr olaf, a oedd yn ymwneud â rheolaeth y maes awyr, ac ymateb i'r awgrym olaf ynghylch y model o berchnogaeth. Byddai rhywun wedi gobeithio y byddai dadl ar y maes awyr a'r hyn a allai neu na allai ddigwydd wedi codi materion sy'n ymwneud â modelau o berchnogaeth, beth fyddai'n digwydd i'r gweithwyr a'r holl bwyntiau allweddol wrth inni fynd drwy'r broses diwydrwydd dyladwy. Fodd bynnag, nid yw hynny wedi digwydd heddiw, ac rwyf wedi cael fy siomi gan y ffordd y bu ideoleg yn rhan amlwg o'r ddadl hon. Cytunaf yn llwyr â chyfraniadau Rhodri Glyn Thomas a Mike Hedges yn hyn o beth: nid oes a wnelo hyn â gwladoli na phreifateiddio, ond â'r porth i Gymru a phwysigrwydd ffyniant economaidd. Mae a wnelo â ni fel gwlad ac iddi faes awyr. Edrychodd y ddau gyfraniad ar faterion yn hanesyddol yn ogystal ag edrych i'r dyfodol, sy'n rhan o'r rheswm pam yr ydym yn ystyried rhai o'r materion hyn ynglŷn â'r maes awyr.

Rhaid inni fynd yn ôl at y datganiad a wnaeth y Prif Weinidog ar 18 Rhagfyr, fel y gwnaeth Julie Morgan, pan gyhoeddodd fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu cytundeb gyda TBI, perchennog Maes Awyr Caerdydd, i hwyluso ymarfer diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol cynhwysfawr rhwng y ddau barti. Bydd Aelodau yn deall bod yr ymarfer diwydrwydd dyladwy hwn yn destun cyfrinachedd masnachol llwyr—duw a'n helpo os nad ydych yn deall y materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd masnachol. Mae unrhyw un sydd wedi bod ym myd busnes yn deall pwysigrwydd hynny. Ni wnaf unrhyw sylw ar y manylion, ac ni allaf amlinellu'r cynnydd a wneir yn y maes hwn. Rhaid i'r broses diwydrwydd dyladwy ddilyn ei chwrs. Os cred Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r ymarfer gael ei gwblhau, fod y maes awyr yn fuddsoddiad cadarn i Gymru, efallai y byddwn yn bwrw ati i'w brynu.

Mae maes awyr dynamig yng Nghymru yn hanfodol i economi ehangach Cymru, ac mae'r adroddiad ar feysydd awyr a phorthladdoedd wedi nodi hynny, Nick

the committee about the importance of the airport. I did not necessarily agree with the majority of your contribution, but you picked up on a very important issue, namely freight—where it is and what needs to be done for its growth. These are important considerations, as we move forward in the debate.

Ramsay, a bu dealltwriaeth ymhlith y pwyllgor am bwysigrwydd y maes awyr. Nid oeddwn yn cytuno o reidrwydd â'r rhan fwyaf o'ch cyfraniad, ond nodwyd un mater pwysig iawn gennych, sef cludo nwyddau—beth yw'r sefyllfa sydd ohoni a beth mae angen ei wneud er mwyn i hyn dyfu. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig, wrth inni ddatblygu'r ddadl.

The airport is key for us in terms of freight and tourism—both in and out of Wales—and we have received this message loudly and clearly from businesses and investors in Wales and from many ordinary Welsh citizens. I was asked earlier, during questions to me, to publish. We all receive individual e-mails, we all hear comments and we all have discussions on the streets, and the majority of people have said that they think that it is a good idea for us to look at this proposition.

Mae'r maes awyr yn allweddol inni o ran cludo nwyddau a thwristiaeth—i mewn i Gymru ac allan o Gymru—ac mae busnesau a buddsoddwyr yng Nghymru a llawer o ddinasyddion cyffredin wedi pwysleisio hynny inni. Gofynnwyd imi'n gynharach, yn ystod y sesiwn gwestiynau, gyhoeddi gwybodaeth. Rydym i gyd yn derbyn negeseuon e-bost unigol, rydym i gyd yn clywed sylwadau ac rydym i gyd yn cael trafodaethau ar y stryd, ac mae'r rhan fwyaf o bobl wedi dweud eu bod o'r farn ei fod yn syniad da inni edrych ar y cynnig hwn.

May I also debunk some of the issues around relationships? We have worked closely with TBI over many months and we have developed a constructive relationship with it as a company. The Welsh Government's overriding objective has been to secure a vibrant future for the airport. I can assure you that nobody is being pushed into any corners, and there has been any haste in reaching any agreement in our discussions with TBI. We are there on the basis of mutual respect. In fact, we have seconded a member of staff, a civil servant, to the airport to help and assist.

A gaf hefyd daflu ychydig o oleuni ar rai o'r materion sy'n ymwneud â chydberthnasau? Rydym wedi gweithio'n agos gyda TBI dros fisoedd lawer ac rydym wedi datblygu perthynas adeiladol ag ef fel cwmni. Prif amcan y Llywodraeth Cymru fu sicrhau dyfodol llewyrchus i'r maes awyr. Gallaf eich sicrhau nad yw'n mynd yn gyfyng ar neb, ac na fu unrhyw frys i ddod i unrhyw gytundeb yn ein trafodaethau gyda TBI. Rydym yn trafod ar sail cyd-barch. Yn wir, rydym wedi secondio aelod o staff, gwas sifil, i'r maes awyr i helpu a chynorthwyo.

**Eluned Parrott** *rose—*

**Eluned Parrott** *a gododd—*

**Edwina Hart:** On some of the issues around the development of routes, what was required has been centre stage in all the discussions that we have had within the Government, currently and previously, as well as what help and assistance we could give and what we could do—

**Edwina Hart:** O ran rhai o'r materion sy'n ymwneud â datblygu llwybrau, mae'r hyn a oedd ei angen wedi bod yn ganolog i'r holl drafodaethau yr ydym wedi'u cael yn y Llywodraeth, ar hyn o bryd a chyn hynny, yn ogystal â pha gymorth y gallem ei roi a beth y gallem ei wneud—

**The Presiding Officer:** Order. Are you taking an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn derbyn ymyriad?

**Edwina Hart:** No, not at this moment in time because I want to finish this strand. What I found absolutely astounding, when I heard some of the comments, particularly

**Edwina Hart:** Nac ydwyf, ddim ar hyn o bryd am fy mod am orffen sôn am yr agwedd hon. Yr hyn a oedd yn gwbl syfrdanol imi, pan glywais rai o'r sylwadau, yn enwedig gan

from the opposition benches on my left, was that nobody mentioned the magic words ‘state aid’. I do not know whether there is a lack of understanding about what state aid rules mean that you can and cannot do. It is an extremely difficult area, in which you have to be careful. Perhaps I am lucky, because I understand state aid rules and regulations, but it is important that you recognise what you can and cannot do with an airport. The Scottish Government wholly owns the Highlands and Islands Airports, but that is exempted for social reasons. However, it is a complex area and we have to be aware that every move that we make as a Government is looked at and somebody across the border could say ‘State aid. You’re not compliant’ and make a referral. We have to be particularly careful on that agenda.

feinciau’r wrthblaid ar y chwith, oedd nad oedd neb wedi cyfeirio at ‘gymorth gwladwriaethol’. Ni wn a oes diffyg dealltwriaeth am yr hyn y mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn golygu y gallwch ac na allwch ei wneud. Mae’n faes hynod anodd, lle mae’n rhaid ichi fod yn ofalus. Efallai fy mod yn ffodus, am fy mod yn deall rheolau a rheoliadau cymorth gwladwriaethol, ond mae’n bwysig eich bod yn cydnabod yr hyn y gallwch ac na allwch ei wneud â maes awyr. Mae Llywodraeth yr Alban yn berchen yn gyfan gwbl ar Feysydd Awyr Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, ond mae hyn wedi’i eithrio am resymau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae’n faes cymhleth ac mae’n rhaid inni fod yn ymwybodol bod pobl yn edrych ar bob cam a gymerwn fel Llywodraeth ac y gallai rhywun dros y ffin ddweud ‘cymorth gwladwriaethol. Nid ydych chi’n cydymffurfio’ ‘a chyfeirio’r achos. Rhaid inni fod yn arbennig o ofalus o ran yr agenda honno.

There are many successful examples of publicly owned airports operating and it is important that we recognise that, in the country as a whole—Mike outlined the position with Welsh local authorities—it would not be our intention for the Welsh Government to directly operate the airport. We have to go back once again to the First Minister’s statement. Our intention would be for a qualified specialist operator to operate the airport on our behalf, and the airport would operate on a commercial basis. If it operates on a commercial basis, there could be a possibility of money coming into the system; what has happened in Manchester in terms of infrastructure has been outlined. This is a positive development in that regard. Other Members have commented in the debate—

Mae llawer o enghreifftiau llwyddiannus o feysydd awyr sy’n eiddo i’r cyhoedd ac mae’n bwysig inni gydnabod, yn y wlad yn gyffredinol—amlinellodd Mike y sefyllfa o ran awdurdodau lleol yng Nghymru—na fyddai’n fwriad gennym i Lywodraeth Cymru weithredu’r maes awyr yn uniongyrchol. Rhaid inni fynd yn ôl unwaith eto at ddatganiad y Prif Weinidog. Ein bwriad yw y byddai gweithredwr arbenigol cymwysedig yn gweithredu’r maes awyr ar ein rhan, ac y byddai’r maes awyr yn gweithredu ar sail fasnachol. Os yw’n gweithredu ar sail fasnachol, gallai fod posibilrwydd o wneud elw; mae’r hyn sydd wedi digwydd ym Manceinion o ran seilwaith wedi cael ei amlinellu. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol yn hynny o beth. Mae aelodau eraill wedi gwneud sylwadau yn y ddadl—

**Rhodri Glyn Thomas:** I am grateful to the Minister for giving way. Are you suggesting that the complexities of state aid procedures have not registered with the leader of the opposition party?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy’n ddiolchgar i’r Gweinidog am ildio. A ydych yn awgrymu nad oedd cymhlethdodau gweithdrefnau cymorth gwladwriaethol wedi taro arweinydd yr wrthblaid?

**Edwina Hart:** If the cap fits. All those who have been in Government—and our parties have been in Government—understand the complex issues surrounding state aid in Wales.

**Edwina Hart:** Os yw’r cap yn ffitio. Dylai pawb sydd wedi bod mewn grym—ac mae ein pleidiau wedi bod mewn grym—ddeall y materion cymhleth sy’n gysylltiedig â chymorth gwladwriaethol yng Nghymru.

Some of the other contributions that I found to be particularly offensive were those making reference to 'lazy Labour'. I do not have a lazy bone in my body, nor do the Government or the party on these benches. There is certainly no laziness in this. We are trying to do what is best for the people and economy of Wales. Darren Millar discussed why we have not moved on things like seaports and so forth. If he is now suggesting that I might wish to make a bid for the Associated British Ports or the ports owned by Stena, I would be more than happy to debate the issue.

Ymhlith rhai o'r cyfraniadau eraill a oedd yn arbennig o wrthun i mi yr oedd y rhai a gyfeiriodd at 'Lafur diog'. Nid oes gennyf asgwrn diog yn fy nghorff, na'r Llywodraeth na'r blaid ar y meinciau hyn. Yn sicr, nid oes unrhyw beth diog am hyn. Rydym yn ceisio gwneud yr hyn sydd orau i bobl ac economi Cymru. Trafododd Darren Millar pam nad ydym wedi symud ymlaen ar bethau fel porthladdoedd môr ac ati. Os yw'n awgrymu bellach y dylwn wneud cais am yr Associated British Ports neu'r porthladdoedd sy'n eiddo i Stena, byddwn yn fwy na pharod i drafod y mater.

People have been caught off the hop; they did not like the announcement being made before Christmas. That announcement was made in good part because we wanted to advise you of the direction of travel. It would have been all too easy to carry on with the discussions and to say nothing about the direction of travel and to have had no openness and transparency. Therefore, I am pleased that we have had a discussion today.

Nid oedd pobl yn digwyl hyn; nid oeddent yn hoffi'r ffaith i'r cyhoeddiad gael ei wneud cyn y Nadolig. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad hwnnw mewn ewyllys da am ein bod am roi gwybod ichi i ba gyfeiriad yr ydym yn mynd. Byddai wedi bod yn llawer rhy hawdd bwrw ymlaen gyda'r trafodaethau a dweud dim am yr hyn a oedd yn yr arfaeth a heb fod yn agored na thryloyw. Felly, rwy'n falch ein bod wedi cael trafodaeth heddiw.

As a Government, we are committed to do all that we can to develop the Welsh economy in a serious and credible way, which is part and parcel of this, and I would have hoped that we could have counted on the support of Members across the parties for that. I noted that Eluned, in moving her party's amendments, stated that she did not take a dogmatic approach on issues relating to the public and private sectors, which I appreciated, and that it was about passengers and what we needed to do for the economy. At the end of the day, if this would all become apparent in some of the issues that you have raised, particularly, I think, in your amendment 2, then we understand that. However, at this stage, the motion tabled by the Conservatives was so adversarial in terms of saying, 'You are doing this and taking it over', and turning it into that type of political debate. It was not very easy for us to look for an amendment that could have brought more of a compromise to the Chamber. However, when today is over, if Members, particularly the opposition party spokespersons, wish to make any comments about issues around the airport, I would be delighted to take those on board. In that spirit I respond to the debate, in

Fel Llywodraeth, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i ddatblygu economi Cymru mewn ffordd ddifrifol a chredadwy, sy'n rhan hanfodol o hyn, a byddwn wedi gobeithio y gallem fod wedi cael cefnogaeth Aelodau o bob plaid i hynny. Nodais fod Eluned, wrth gynnig gwelliannau ei phlaid, wedi dweud nad oedd yn mabwysiadu ymagwedd ddogmatig tuag at faterion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gwerthfawrogais hynny, ac mai'r peth pwysig oedd y teithwyr a'r hyn yr oedd angen ei wneud ar gyfer yr economi. Yn y pen draw, pe bai hyn i gyd yn dod yn amlwg yn rhai o'r materion a godwyd gennych, yn enwedig, fe gredaf, yn eich gwelliant 2, yna rydym yn deall hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, roedd y cynnig a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr mor wrthwynebus o ran dweud, 'Rydych yn gwneud hyn ac yn ei feddiannu', a throi'r cyfan yn ddadl wleidyddol o'r fath. Nid oedd yn hawdd iawn inni chwilio am welliant a allai fod wedi dod â mwy o gyfaddawd i'r Siambr. Fodd bynnag, pan fydd heddiw ar ben, os oes Aelodau, yn enwedig llefarwyr y gwrthbleidiau, yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau am faterion ynglŷn â'r maes awyr,

a rather more gracious manner, compared with some of the attacks that have been made on the Government and the First Minister.

byddwn yn falch iawn o'u hystyried. Yn yr ysbryd hwnnw ymatebaf i'r ddadl, mewn modd ychydig yn fwy graslon, o gymharu â rhai o'r ymosodiadau a wnaed ar y Llywodraeth a'r Prif Weinidog.

**Andrew R.T. Davies:** I thank everyone who has contributed in today's debate, which was a particularly feisty debate to start off the new year with a bang, as it were. The issue is quite clear: we fully support the retention of an international airport for Wales. We believe that it is a critical component of the transport network and our offer to international companies. The issue is the method that the Government is using to promote the airport and the money that it is proposing to spend in partnership or in taking over the airport. The Ministers themselves have identified that they are liable to be spending tens of millions of pounds acquiring the airport—not to bring new routes to the airport or to upgrade the terminal building, but just to acquire the freehold interest of Cardiff Airport. I would suggest that the legitimate question from anyone in this Chamber is: why can we not achieve a successful international operation at Cardiff Airport in a successful partnership with a private operator?

**Andrew R.T. Davies:** Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw, a fu'n ddadl hynod fywiog i ddechrau'r flwyddyn newydd yn ffrwydrol, fel petai. Mae'r mater yn eithaf clir: rydym yn llwyr gefnogi cadw maes awyr rhyngwladol i Gymru. Credwn ei bod yn elfen hanfodol o'r rhwydwaith trafnidiaeth a'r hyn a gynigiwn i gwmnïau rhyngwladol. Y broblem yw'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithredu i hyrwyddo'r maes awyr a'r arian y mae'n bwriadu ei wario mewn partneriaeth neu i feddiannu'r maes awyr. Mae'r Gweinidogion eu hunain wedi nodi eu bod yn debygol o wario degau o filiynau o bunnoedd ar brynu'r maes awyr—nid i ddenu llwybrau newydd i'r maes awyr nac uwchraddio adeilad y derfynell, ond i gaffael buddiant rhydd-ddaliadol Maes Awyr Caerdydd. Awgrymwn mai'r cwestiwn dilys gan unrhyw un yn y Siambr hon yw: pam na allwn sicrhau gweithrediad rhyngwladol llwyddiannus ym Maes Awyr Caerdydd mewn partneriaeth lwyddiannus â gweithredwr preifat?

Rhodri Glyn Thomas touched on how the Conservatives did not understand business and, in particular, the support that his party gave to aviation when it was in Government. It is particularly relevant to point out to Rhodri Glyn Thomas that, at the time that his party was head of the enterprise department in the One Wales Government, Emirates was looking to locate its wide-bodied jets from London either to Cardiff or Newcastle. Newcastle succeeded in its bid because it had development support.

Soniodd Rhodri Glyn Thomas nad oedd y Ceidwadwyr yn deall busnes ac, yn benodol, cyfeiriodd at y cymorth a roddwyd gan ei blaid yntau i'r diwydiant hedfan pan oedd mewn grym. Mae'n arbennig o berthnasol tynnu sylw Rhodri Glyn Thomas at y ffaith, pan oedd ei blaid yn bennaeth ar yr adran fenter yn Llywodraeth Cymru'n Un, fod Emirates yn ystyried lleoli ei awyrennau corff llydan o Lundain naill ai i Gaerdydd neu Newcastle. Maes Awyr Newcastle a lwyddodd yn ei gais am ei fod wedi cael cymorth datblygu.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am grateful to you for taking my intervention, Andrew. I am not sure which speech you were listening to—certainly was not my speech; it may have been someone else's speech. I questioned whether you understood the state aid regime because you were arguing that the Government of Wales could pour finances into Cardiff Airport without actually owning it. In terms of state aid, that would be totally

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn fy ymyriad, Andrew. Nid wyf yn siŵr pa araith yr oeddech yn gwrando arni—yn sicr nid fy araith innau ydoedd; efallai mai araith rhywun arall ydoedd. Holais a ydych yn deall cyfundrefn cymorth gwladwriaethol oherwydd eich bod yn dadlau y gallai Llywodraeth Cymru wario arian mawr ar Faes Awyr Caerdydd heb fod yn berchen arno. O ran cymorth gwladwriaethol,

unacceptable.

byddai hynny'n gwbl annerbyniol.

**Andrew R.T. Davies:** No; the point that was coming from these benches was quite clear: you can support infrastructure development in terms of transport around the airport and, as other airports that are in public and private ownership in the rest of the UK, such as Bristol, Newcastle and Manchester airports, you can receive regional development support to attract airlines. If you look at the business plans of those development corporations, you will find that they have worked hand in glove with their respective airports to create vibrant gateways for businesses and the travelling public. That is why you have seen such expansion.

**Andrew R.T. Davies:** Na; roedd y pwynt a oedd yn cael ei wneud gan y meinciau hyn yn eithaf clir: gallwch gefnogi datblygu seilwaith o ran trafnidiaeth o gwmpas y maes awyr ac, fel meysydd awyr eraill sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus a phreifat yng ngweddill y DU, megis meysydd awyr Bryste, Newcastle a Manceinion, gallwch dderbyn cymorth datblygu rhanbarthol i ddenu cwmnïau hedfan. Os edrychwch ar gynlluniau busnes y corfforaethau datblygu hynny, fe welwch eu bod wedi bod yn gweithio law yn llaw â'u priod feysydd awyr i greu pyrth bywiog i fusnesau a'r cyhoedd sy'n teithio. Dyna pam eich bod wedi gweld ehangu o'r fath.

4.00 p.m.

4.00 p.m.

Up until 2005, Cardiff Airport's projection for passenger numbers was on an upward trajectory to several million a year. It is from 2005 onwards that the footfall going through Cardiff Airport has diminished, and that coincides, actually, with the winding up the Welsh Development Agency.

Hyd at 2005, rhagamcanwyd y byddai niferoedd teithwyr Maes Awyr Caerdydd yn cynyddu hyd at sawl miliwn y flwyddyn. O 2005 ymlaen y bu nifer yr ymwelwyr â Maes Awyr Caerdydd yn lleihau, ac mae hynny'n cyd-daro â dirwyn Awdurdod Datblygu Cymru i ben, mewn gwirionedd.

There is also the point made by the Member for Cardiff North. She said that this debate was premature. Look at the First Minister's words from yesterday, when he actually said:

Rhaid nodi'r pwynt a wnaed gan yr Aelod dros Ogledd Caerdydd hefyd. Dywedodd fod y ddadl hon yn gynamserol. Edrychwch ar eiriau y Prif Weinidog ddoe, pan ddywedodd:

'We are proud of the fact that we have secured the future of Cardiff Airport'.

'Rydym yn falch o'r ffaith ein bod wedi sicrhau dyfodol Maes Awyr Caerdydd.'

The deal is done, I presume, if the First Minister is saying that, and that there is no need for due diligence. I presume that the purchase has been completed. Those were his words, so, as an opposition party, is it not legitimate for us to ask the question: where are these tens of millions of pounds coming from, and from which budget? Why could not some other model be considered, or is one being considered, to support the airport? We all accept that something needs to be done for Cardiff international airport.

Mae'r fargen wedi'i tharo, fe dybiaf, os yw'r Prif Weinidog yn dweud hynny, ac nad oes angen diwydrwydd dyladwy. Tybiaf fod y pryniant wedi'i gwblhau. Dyna oedd ei eiriau, felly, fel gwrthblaid, onid yw'n ddilys inni ofyn y cwestiwn: o ble y daw'r degau o filiynau o bunnoedd, ac o ba gyllideb? Pam na ellid bod wedi ystyried rhyw fodel arall, neu a yw un yn cael ei ystyried, i gefnogi'r maes awyr? Rydym i gyd yn derbyn bod angen i rywbeth gael ei wneud ar gyfer maes awyr rhyngwladol Caerdydd.

Ministers say that when they do their shopping or have gone to community groups, everyone they speak to is supportive. Actually, how many times have you told people out there that this is not something for

Mae'r Gweinidogion yn dweud pan fyddant yn gwneud eu siopa, neu wedi mynd i grwpiau cymunedol, fod pawb y maent yn siarad â hwy yn gefnogol. Mewn gwirionedd, sawl gwaith yr ydych chi wedi dweud wrth

nothing, but that it will cost the Welsh taxpayer, in the first instance, tens of millions of pounds? Do that, and when people realise the cost, I suggest that you will get a completely different answer to the question that you put. I believe that there is a different model, a partnership model, and that could put infrastructure support in place and develop the route development grant. Emirates and Delta Air Lines are two substantial international carriers that wish to work out of Cardiff—perhaps not in the case of Emirates, because it has relocated, but Delta certainly does.

bobl nad rhywbeth am ddim yw hyn, ond y bydd yn costio degau o filiynau o bunnoedd yn y lle cyntaf i drethdalwyr Cymru? Gwnewch hynny, a phan fydd pobl yn sylweddoli beth yw'r gost, awgrymaf y cewch ateb hollol wahanol i'r cwestiwn a ofynasoch. Credaf fod model gwahanol, a model partneriaeth, a gallai hwnnw roi cymorth seilwaith ar waith a datblygu'r grant datblygu llwybrau. Mae Emirates a Delta Air Lines yn ddau gwmni hedfan rhyngwladol mawr sy'n dymuno gweithredu o Gaerdydd—efallai nid yn achos Emirates, gan ei fod wedi adleoli, ond yn sicr mae Delta yn awyddus.

I find it distasteful that the Government has chosen to cast aspersions on the future viability of the British Airways maintenance facility. That is complete rot and it should not be brought into this debate.

Rwy'n ei chael hi'n annymunol bod y Llywodraeth wedi dewis bwrw amheuon ar hyfywedd cyfleuster cynnal a chadw British Airways yn y dyfodol. Dwli llwyr yw hynny ac ni ddylid bod wedi'i godi yn y ddadl hon.

**Edwina Hart:** I have not cast anything of the sort. All I said in my response was what a wonderful visit I had to celebrate GE's very successful years and its arrangements for BAMC, along with something about the excellent relationship we have with the company. I have never done anything like that at all, and I certainly have not raised any matters such as that in today's debate.

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi bwrw amheuon o'r fath. Y cyfan a ddywedais yn fy ymateb oedd pa mor wych oedd fy ymweliad i ddathlu blynyddoedd llwyddiannus iawn GE a'i drefniadau ar gyfer BAMC, ynghyd â rhywbeth am y berthynas ragorol sydd gennym â'r cwmni. Nid wyf erioed wedi gwneud unrhyw beth o'r fath, ac yn sicr nid wyf wedi codi unrhyw faterion o'r fath yn y ddadl heddiw.

**Andrew R.T. Davies:** I agree entirely with you, Minister, but in First Minister's questions yesterday, doubt was raised over the future viability of the British Airways maintenance facility. I refer you to the Record for First Minister's questions yesterday.

**Andrew R.T. Davies:** Cytunaf yn llwyr â chi, Weinidog, ond mewn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, mynegwyd amheuaeth ynghylch hyfywedd cyfleuster cynnal a chadw British Airways yn y dyfodol. Fe'ch cyfeiriaf at y Cofnod ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe.

I am grateful to the Presiding Officer for allowing me a bit of leeway on the time

Rwy'n ddiolchgar i'r Llywydd am roi ychydig o hyblygrwydd imi o ran amser.

What we have here is a simple choice: is it right that tens of millions of pounds should be spent acquiring the airport, or is there a better model that should be considered and offered up, such as a partnership model? Those tens of millions of pounds could be spent on other projects, but we have had no explanation. I believe that this motion should be carried because nationalisation is not the way to solve the problems of Cardiff Airport. I urge support for the motion.

Yr hyn sydd gennym yw dewis syml: a yw'n briodol gwario degau o filiynau o bunnoedd ar brynu'r maes awyr, neu a oes gwell model y dylid ei ystyried a'i gynnig, megis model partneriaeth? Gallai'r degau o filiynau o bunnoedd hynny gael eu gwario ar brosiectau eraill, ond nid ydym wedi cael unrhyw esboniad. Credaf y dylai'r cynnig hwn gael ei dderbyn gan nad drwy wladoli y mae datrys problemau Maes Awyr Caerdydd. Fe'ch anogaf i gefnogi'r cynnig.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed without amendment. Does any Member object? I see that there is objection and, therefore, defer all voting on this item until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.03 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.03 p.m.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Yr Iaith Gymraeg
### The Welsh Language

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 6 a 7 yn enw Aled Roberts, gwelliant 5 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham. Os derbynnir gwelliant 4, caiff gwelliannau 5 a 6 eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliannau 4 neu 5, caiff welliant 6 ei ddad-ddethol.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2, 6 and 7 in the name of Aled Roberts, amendment 5 in the name of Jane Hutt and amendments 3 and 4 in the name of William Graham. If amendment 4 is agreed, amendments 5 and 6 will be deselected. If amendment 4 or 5 is agreed, amendment 6 will be deselected.

*Cynnig NDM5129 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

*1. Yn dathlu bod y Gymraeg yn rhan annatod a hanfodol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac yn croesawu bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi codi mewn nifer o ardaloedd nad ydynt yn rhai traddodiadol;*

*2. Yn gresynu'n arw wrth y gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011;*

*3. Yn nodi bod angen gweithredu ar unwaith i wneud iawn am y gostyngiad a sicrhau dyfodol Cymru fel cenedl ddwyieithog;*

*4. Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth y DU i dorri rhagor ar gyllideb S4C dros y ddwy flynedd nesaf a hithau'n adeg pan ddylai pawb fod yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer yr iaith; a*

*Motion NDM5129 Jocelyn Davies*

*To propose that the National Assembly:*

*1. Celebrates that the Welsh language is an integral and essential part of the culture and heritage of Wales and welcomes that the number of Welsh speakers in several non-traditional areas has increased;*

*2. Regrets deeply the decline in the number and percentage of Welsh speakers noted in the 2011 Census;*

*3. Notes that action must urgently be taken to redress the decline and secure the future of Wales as a bilingual nation;*

*4. Regrets the decision by the UK Government to cut further the budget for S4C in the next two years at a time when everyone should be prioritising support for the language; and*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r canlynol, er mwyn cefnogi'r chwe ardal strategol ar gyfer gweithredu a nodir yn 'Iaith fyw: iaith byw':*

*5. Calls on the Welsh Government, in support of the six strategic areas for action set out in 'A living language: a language for living', to prioritise the following:*

*a) hybu a chefnogi mentergarwch gan siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith yn dal i gael ei siarad yn eang;*

*a) promoting and supporting enterpreneurship by Welsh speakers, particularly in those areas where the language is still widely spoken;*

*b) buddsoddi mewn seilwaith, yn enwedig band eang, i gefnogi cymunedau a diwydiannau creadigol sy'n siarad Cymraeg;*

*b) investing in infrastructure, particularly broadband, in support of Welsh speaking creative industries and communities;*

*c) rhoi'r safonau Cymraeg arfaethedig ar sail gyfreithiol;*

*c) placing the proposed Welsh language standards on a legal basis;*

*d) hybu twf a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan ddechrau gydag awdurdodau cyhoeddus a gweithio gyda'r sector preifat;*

*d) encouraging the growth and use of Welsh within the workplace, beginning with public authorities and working with the private sector;*

*e) sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel ail iaith i oedolion ac i blant;*

*e) ensuring better outcomes for the teaching of Welsh as a second language to both adults and children;*

*f) cynllunio a hybu'r achos dros ddatganoli darlledu a datganoli swyddi darlledu yn fewnol;*

*f) planning and promoting the case for the devolution of broadcasting and the internal devolution of broadcasting jobs;*

*g) diwygio'r system gynllunio er mwyn i awdurdodau lleol allu osod cap ar nifer yr ail gartrefi mewn lleoliadau penodol; a*

*g) reforming the planning system to enable local authorities to place a cap on the number of second homes in specified localities; and*

*h) ymchwilio i sut y gall polisïau caffael gefnogi'r gweithlu a'r gymuned leol i ddefnyddio'r Gymraeg a hybu defnyddio polisïau o'r fath.*

*h) investigating how procurement policies can support both the use of Welsh by the workforce and by the local community and encourage the take-up of such policies.*

**Leanne Wood:** Cynigiaf y cynnig.

**Leanne Wood:** I move the motion.

Wrth agor dadl Plaid Cymru y prynhawn yma, rwyf am siarad am ddyfodol yr iaith Gymraeg a sut y mae Plaid Cymru am ei diogelu.

In opening the Plaid Cymru debate this afternoon, I want to discuss the future of the Welsh language and how Plaid Cymru wants to safeguard it.

Mae'r cyfrifiad wedi rhoi newyddion drwg i ni, ac mae'n rhaid i ni ymateb i'r her. I Blaid Cymru, mae materion iaith yn bwysig iawn. Nid oes ots a ydych yn siarad Cymraeg ai peidio; mae'n iaith i bawb yng Nghymru. Mae mwyafrif o bobl yn ei gwerthfawrogi, ac mae llawer wedi brwydro'n galed a gwneud llawer o waith i dyfu'r iaith dros y

The census has given us some bad news, and we do have to respond to the challenge. For Plaid Cymru, language issues are very important. It does not matter whether you are a Welsh speaker or not; the language is a language for everyone in Wales. The majority of people appreciate the language, and many people have fought hard and have

blynyddoedd. Rwyf am ddiolch iddynt am eu gwaith. Pobl sydd wedi rhoi eu plant drwy addysg Gymraeg ydynt, a grwpiau fel Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, y mentrau iaith a'r ysgolion meithrin.

done a great deal of work to develop the language over the years. I want to thank those people for their efforts. These are people who have put their children through Welsh-medium education, and they include groups such as Celebrating Our Language, the Welsh Language Society, the *mentrau iaith* and the Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae llawer o ymdrech wedi mynd i mewn i achub yr iaith, ond mae'r ffigurau'n dangos bod nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn mynd i lawr. Rydym yn colli tua 2,000 o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn. Yng Nghaerdydd, mae'r nifer a'r ganran wedi codi, ac yn sir Fynwy hefyd. Yn y Cymoedd, mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg wedi aros rhywbeth yn debyg. Ein her yw ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio'r iaith bob dydd heb fod angen brwydro. Ond rydym wedi gweld newid mawr yn y gorllewin a'r gogledd. Mae nifer y siaradwyr wedi mynd lawr yn gyflym, yn enwedig yn sir Gâr a Cheredigion. Rydym yn methu fforddio colli cymunedau Cymraeg fel hyn.

A great deal of effort has gone into saving the Welsh language, but the figures demonstrate that the number of people able to speak Welsh is declining. We are losing around 2,000 Welsh speakers every year. In Cardiff, the number and percentage have increased, as is the case in Monmouthshire. In the Valleys, the number of Welsh speakers has remained relatively static. The challenge for us is to make it possible for people to use the Welsh language on a daily basis without having to fight for that right. However, we have seen a significant change in west and north Wales. The number of speakers has declined swiftly, particularly in Carmarthenshire and Ceredigion. We cannot afford to lose Welsh-speaking communities of this sort.

Wrth gwrs, mae cysylltiad rhwng problemau'r economi a phroblemau'r iaith, ac mae'r problemau economaidd yn parhau. Drwy'r Deyrnas Unedig mae'r *gap* rhwng y tlawd a'r cyfoethog yno o hyd. Mae canol Llundain 10 gwaith yn fwy cyfoethog na rhannau o Gymru; deng gwaith—gwarthus. Os nad oes gwaith yn eu cymunedau, mae pobl yn symud; maent yn gadael. Mae gwaith, felly, yn bwysig iawn i ddyfodol yr iaith. Tai, hefyd; tai fforddiadwy ar gyfer yr angen lleol. Hefyd, mae'n rhaid inni gael mesurau arbennig ym maes addysg; mesurau fel dysgu pob plentyn trwy'r Gymraeg o dair oed ymlaen, fel y cyhoeddais yn yr Eisteddfod yr haf diwethaf.

Of course, there is a link between the problems facing the economy and those facing the language, and the economic problems are continuing. Throughout the United Kingdom, the gap between rich and poor remains. Central London is 10 times more prosperous than some parts of Wales; ten times—that is disgraceful. If there is no work in our communities, people move; they are forced to leave. Employment, therefore, is extremely important to the future of the language. The same is true of housing. We need affordable housing to meet local demand. Also, we must have special measures in place in education, such as teaching every child through the medium of Welsh from the age of three onwards, as I announced in the Eisteddfod last summer.

Beth am roi pwerau i fentrau busnes, a thargedu busnesau newydd, y *start-ups*? Beth am fwy o gyrff cyhoeddus yn y gogledd a'r gorllewin yn gweithio'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg, fel Cyngor Gwynedd? Hefyd, mae mater codi lefel y dreth ar dai haf. Mae'n rhaid inni greu cynlluniau lleol ar gyfer cymunedau cynaliadwy, ac mae'n rhaid i'r system gynllunio helpu gyda hyn.

What about empowering business enterprises and targeting new businesses, the start-ups? What about more public bodies in north and west Wales working internally through the medium of Welsh, as is the case in Cyngor Gwynedd? Furthermore, there is the issue of increasing the level of council tax on holiday homes. We need to create local plans for sustainable communities, and the planning

system has to assist in that regard.

Cyn gorffen, rwyf eisiau rhoi'r neges hon i bawb yng Nghymru: gwerthfawrogwch ein hiaith. Os ydych yn gallu siarad Cymraeg, defnyddiwch hi. Os nad ydych, plîs cefnogwch yr iaith a'i hamddiffyn. Mae'r iaith Gymraeg yn rhy bwysig i wneud dim amdani.

Before concluding, I want to give this message to everyone in Wales: appreciate our language. If you are able to speak Welsh, then do so, and, if not, then please support the language and protect it. The Welsh language is too important to be left without anyone doing anything about it.

**Y Dirprwy Lywydd:** Llongyfarchiadau, Leanne. Rydych yn ysbrydoliaeth i ni ddysgwyr. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1, 2, 6 a 7 a gyflwynwyd yn ei enw.

**The Deputy Presiding Officer:** Congratulations, Leanne. You are an inspiration to us all as Welsh learners. I call on Aled Roberts to move amendments 1, 2, 6 and 7 tabled in his name.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert a new point after point 3 and re-number accordingly:*

*Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 newydd er i'r ymgynghoriad ar y nodyn technegol newydd ddod i ben ym mis Mehefin 2011.*

*Regrets that the Welsh Government has not published a new Technical Advice Note (TAN) 20 even though the consultation on the new technical advice note was completed in June 2011.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert new point after point 3 and re-number accordingly:*

*Yn llongyfarch Comisiynydd y Gymraeg ar yr ymgynghoriad trylwyr a chynhwysfawr a gynhaliodd parthed y safonau Cymraeg arfaethedig ac yn cefnogi'r safonau fel y'u cyhoeddwyd ganddi ym mis Tachwedd 2012.*

*Congratulates the Welsh Language Commissioner on the thorough and comprehensive consultation that she undertook on the proposed Welsh standards and supports the standards announced by her in November 2012.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 5 g):*

*Insert at the end of point 5 g):*

*'a gosod asesiadau iaith annibynnol ar sail statudol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.'*

*'and place independent language assessment on a statutory basis through primary legislation.'*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add a new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Weinidogion Cymru i weithredu ar eu haddewid i brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws holl weithgareddau Llywodraeth*

*Calls on Welsh Ministers to act on their commitment to mainstream the Welsh language across all of the Welsh*

*Cymru drwy:*

*(a) mynnu bod corff annibynnol yn cynnal adolygiad cyflawn o holl wariant y Llywodraeth ac i asesu'r berthynas rhwng y gwariant hwnnw a'r Gymraeg—sef mesur ôl-troed ieithyddol y gwariant—ac, o hyn ymlaen, cynnal asesiad effaith iaith cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru bob blwyddyn;*

*(b) cynnwys lles y Gymraeg fel rhan o'r diffiniad statudol o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig; ac*

*(c) sefydlu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg a fydd yn cynnwys monitro'r angen am weithlu cyfrwng Cymraeg mewn sectorau a lleoliadau ledled Cymru a chynllunio i ateb y galw am weithlu â sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys sicrhau cynllun hyfforddiant uchelgeisiol Cymraeg yn y gweithle.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 1, 2, 6 a 7 a gyflwynwyd yn fy enw.

Rwy'n falch o gael cyfrannu at y ddadl prynhawn yma. Mae'n debyg bod pob un ohonom yn siomedig wrth inni ystyried canlyniadau'r cyfrifiad. Ymatebodd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, drwy ddweud:

'mae'n wir dweud bod yr ystadegau a gyhoeddwyd heddiw yn ysgytwad. Efallai bod yna berygl wedi bod i bawb fynd i ryw gyfforddusrwydd artiffisial 10 mlynedd yn ôl…ac mae yna heriau pendant i'w hateb'.

Dywedodd hefyd fod angen gwneud hynny ar fyrder.

Er hynny, dylem gydnabod y gwaith sydd wedi ei wneud ymysg pobl ifanc, lle bu cynnydd yng nghanran a nifer y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg o 11.3% ym 1971 i 23.3% eleni. Yr hyn sy'n siomedig yw bod y ffigurau hefyd yn dangos bod nifer helaeth o'r plant hynny sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn eu haddysg yn colli'r iaith erbyn diwedd eu harddegau.

*Government's activities by:*

*(a) requiring an independent body to conduct a comprehensive review of all Government expenditure and to assess the relationship between the expenditure and the Welsh language—that is to measure the language impact of the expenditure—and, from then on, to assess the language impact of the Welsh Government's annual budget every year;*

*(b) including the welfare of the Welsh language as part of the statutory definition of sustainable development in the proposed Sustainable Development Bill; and*

*(c) establishing a Welsh medium labour market that will include monitoring the need for a Welsh-medium workforce in sectors and locations throughout Wales and planning to meet the demand for a workforce that has Welsh-language skills, including an ambitious Welsh in the workplace training scheme.*

**Aled Roberts:** I move amendments 1, 2, 6 and 7 in my name.

I am pleased to have an opportunity to contribute to this afternoon's debate. It would seem that all of us would be disappointed in considering the results of the census. Meri Huws, the Welsh Language Commissioner, responded by saying that

'the findings came as a shock. Perhaps there has been a danger for everyone to be lulled into a false sense of security 10 years ago…and there are very definite challenges to be faced here'.

She also said that this needs to be tackled with urgency.

However, we should acknowledge the work that has been done among the young generation, where there has been an increase in the number and percentage of children aged three and four who speak Welsh, from 11.3% in 1971 to 23.3% this year. What is disappointing is that the figures also demonstrate that very many of those children who go through Welsh-medium education lose the ability to use the language by the end

of their teens.

Mae'n debyg mai prif neges y ddadl heddiw yw gofyn cwestiynau ynghylch parodrwydd y Llywodraeth i weithredu ar fyrder, fel y soniodd Meri Huws.

It would seem that the main message of today's debate is to ask questions about the Government's willingness to take action as a matter of urgency, as highlighted by Meri Huws.

Yng ngwelliant 1 rydym yn nodi bod y nodyn cyngor technegol presennol, sef TAN 20, bellach yn 12 mlwydd oed. TAN 20 yw'r unig ganllawiau y mae'r awdurdodau cynllunio yn eu derbyn, ond rydym wedi bod yn aros dros 18 mis am y TAN 20 newydd. Faint o flaenoriaeth mae'r Llywodraeth gyfan, yn hytrach na Gweinidog unigol, yn ei rhoi i'r Gymraeg?

We note in amendment 1 that technical advice note 20, as it currently stands, is now 12 years old. TAN 20 provides the only guidance for planning authorities, but we have been waiting over 18 months for the newly drafted TAN 20. How much priority, therefore, does the Government as a whole, rather than the Minister as an individual, give to the Welsh language?

Yn ôl ym mis Mawrth 2011, pwysleisiodd Jane Davidson, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynllunio ar y pryd, bwysigrwydd yr ymgynghoriad. Meddai:

Back in March 2011, Jane Davidson, the Minister for Environment and Planning at the time, emphasised the importance of the consultation. She said:

'Bydd lles yr iaith Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o bethau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn'—

'The future well being of the Welsh language will depend on a wide range of factors, particularly education, demographic change, community activities and a sound economic base'—

fel y dywedodd Leanne—

as Leanne said—

'i gynnal cymunedau ffyniannus a chynaliadwy.'

'to maintain thriving and sustainable communities.'

Yng ngwelliant 2 rydym yn llongyfarch Comisiynydd y Gymraeg ar yr ymgynghoriad trylwyr a chynhwysfawr a gynhaliwyd ar y safonau Cymraeg arfaethedig. Eto, nid oes datganiad am y safonau wedi'i wneud ers y cyhoeddiad ym mis Tachwedd. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog ddweud pa bryd y mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a beth yw'r amserlen. Rhaid cofio mai ym mis Rhagfyr 2010 y cafodd y Mesur iaith ei basio—dros ddwy flynedd yn ôl.

In amendment 2, we congratulate the Welsh Language Commissioner on the thorough and comprehensive consultation that was undertaken on the proposed Welsh language standards. Again, no statement has been made on the standards since they were published in November. Therefore, I ask the Minister to tell us when he intends to bring forward legislation and what the timetable is. We must bear in mind that the Welsh language Measure was passed in December 2010—more than two years ago.

Symudaf yn gyflym at welliannau 6 a 7. O ran gosod asesiadau iaith annibynnol ar sail statudol, mae llai nag un ym mhob 3,000 o geisiadau cynllunio yn cael eu hasesu am eu heffaith ar yr iaith Gymraeg yn ôl cais rhyddid gwybodaeth gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Tri awdurdod cynllunio lleol yn unig, allan o'r 25 yng Nghymru, sydd wedi

I will move swiftly to amendments 6 and 7. In terms of placing independent language assessments on a statutory basis, fewer than one in 3,000 planning applications are assessed for their impact on the Welsh language, according to the response to a freedom of information request submitted by the Welsh Language Society. Only three

cynnal asesiadau ar y Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd ariannol diwethaf.

planning authorities, of the 25 in Wales, have conducted impact assessments on the Welsh language during the last two financial years.

Mae gwelliant 7 wedi'i anelu at weithgareddau'r Llywodraeth. Wrth ystyried yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddoe ynglŷn â'r diffyg cyfleodd i bobl ifanc fyw drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen adolygu holl strategaethau a gweithgareddau'r Llywodraeth, gan gynnwys y mentrau iaith ac ati.

Amendment 7 is aimed at Government activities. In light of what the First Minister said yesterday about the lack of opportunities for young people to live their lives through the medium of Welsh, we need to review all Government strategies and activities, including the *mentrau iaith* et cetera.

Dylid sicrhau bod gwariant presennol y Llywodraeth yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol. Cafwyd addewid gan y Llywodraeth yn ei strategaeth iaith newydd y byddai'n prif ffrydio'r Gymraeg yn ei holl weithgareddau. Ble mae'r dystiolaeth? Un enghraifft o hynny yw'r Bil datblygu cynaliadwy pwysig, nad oes ynddo lawer o sôn am yr iaith Gymraeg.

We should ensure that current Government expenditure should have the most positive impact possible on the language. The Government made a pledge in its new Welsh language strategy to mainstream the Welsh language in all its activities. Where is the evidence of this? One example is the important sustainable development Bill, which makes little mention of the Welsh language.

Yn olaf, o ran sefydlu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg, nid oes digon o gyswllt rhwng y system addysg a'r byd gwaith ar hyn o bryd. Fel y dywedais, yn y cyfrifiad hwn, mae patrwm clir sy'n dangos bod nifer y bobl ifanc sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn dair, pedair, 10 a 15 oed yn dirywio.

Finally, in terms of establishing a Welsh language labour market, there is not enough linkage between the education system and the workplace. As I have said, the census shows a clear pattern where we can see the number of young people who speak Welsh at the ages of three, four, 10 and 15 subsequently declining as they get older.

Mae angen gweithredu. Fel y dywedodd Leanne, rhaid llongyfarch y mudiadau hynny sy'n ceisio achub y Gymraeg, gan gynnwys y mentrau iaith a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Ond, rhaid hefyd cael gweithredu ar fyrder o ran y Llywodraeth.

We need action. As Leanne said, we should congratulate those organisations that are striving to save the Welsh language, including the *mentrau iaith* and Mudiad Ysgolion Meithrin. However, we also need urgent action from Government.

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4 and replace with:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd S4C modern ac effeithlon ac yn croesawu cefnogaeth barhaus Llywodraeth y DU i'r darlledwr ar adeg pan fo penderfyniadau gwariant anodd yn gorfod cael eu gwneud.*

*Acknowledges the importance of an efficient and modern S4C and welcomes the UK Government's continued support for the broadcaster at a time when difficult spending decisions have to be made.*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 5 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos y*

*Calls on the Welsh Government to*

*camau gweithredu y mae'n eu cymryd er mwyn cefnogi'r chwe ardal strategol ar gyfer gweithredu a nodir yn 'Iaith Fyw: Iaith Byw' ac yn benodol i:*

*demonstrate the action it is taking in support of the six strategic areas for action set out in 'A Living Language: A Language for Living' and, in particular to:*

*(a) hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth ymysg Cymry Cymraeg;*

*(a) promote and support entrepreneurship by Welsh speakers;*

*(b) annog twf y Gymraeg a'r defnydd ohoni yn y gweithle a hyrwyddo defnydd Nod Siarter Cymraeg i gydnabod gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel;*

*(b) encourage the growth and use of Welsh within the workplace and promote the use of a Welsh Charter Mark to recognise high quality Welsh-medium services;*

*(c) hyrwyddo manteision economaidd sgiliau dwyieithog mewn ardaloedd economaidd difreintiedig;*

*(c) promote the economic benefits of bilingual skills in areas of economic deprivation;*

*(d) ymchwilio i sut gall polisïau caffael gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg;*

*(d) investigate how procurement policies can support the use of Welsh;*

*(e) ystyried rhinweddau gosod y safonau Cymraeg arfaethedig, ar ôl eu cytuno, ar sail statudol;*

*(e) consider the merits of placing the proposed Welsh Language standards, when agreed, on a statutory basis;*

*(f) buddsoddi mewn seilwaith, yn enwedig band eang, i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y diwydiannau creadigol ac mewn bywyd bod dydd mewn cymunedau;*

*(f) invest in infrastructure, particularly broadband, in support of the use of Welsh in creative industries and daily life in communities;*

*(g) archwilio pam nad oes rhagor o bobl ifanc yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar ôl degawd o ddysgu Cymraeg yn orfodol mewn ysgolion, ac i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dysgu Cymraeg fel ail iaith;*

*(g) examine why more young people do not consider themselves able to speak Welsh after over a decade of compulsory teaching of Welsh in schools, and to ensure better outcomes for the teaching of Welsh as a second language;*

*(h) adrodd ar lefel y pwys a roddir gan bob awdurdod lleol ar dwf a chynaliadwyedd y defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn eu hardaloedd;*

*(h) report on the level of regard each local authority gives to the growth and sustainability of the use of the Welsh language when making planning decisions for its area;*

*(i) archwilio pa feysydd o'r diwydiant darlledu yng Nghymru a allai fod yn atebol i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth y DU ac yna dadlau'r achos dros rannu cyfrifoldeb.*

*(i) examine which areas of the broadcasting industry in Wales could be accountable to both the Welsh and UK governments and then pursue the case for sharing responsibility.*

**Paul Davies:** Rwy'n cynnig gwelliannau 3 and 4 yn enw William Graham.

**Paul Davies:** I move amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae dogfen y Llywodraeth 'Iaith Fyw: Iaith Byw' yn cadarnhau cyfrifoldebau'r comisiynydd. Nid yw ein

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. The 'A living language: A language for living' document confirms the responsibilities of the commissioner. Our

gwelliant ni o ran safonau'r comisiynydd yn wahanol iawn i gynnig gwreiddiol Plaid Cymru. Efallai byddai'n well gweld y safonau'n cael eu gosod ar sail statudol yn hytrach na mewn rheolau, ond rydym o'r farn y byddai'n synhwyrol inni weld sut maent yn gweithio'n ymarferol yn gyntaf, cyn eu rhoi ar sail gyfreithiol.

amendment on the commissioner's standards is not that different to Plaid Cymru's original motion. Perhaps it would be an improvement if the standards were set on a statutory basis, instead of in guidance, but we are of the opinion that it would be sensible if we were to see how they work in practice, before placing them on a statutory basis.

Mae amcanion y strategaeth ei hun, ynghyd â'r pwyslais ar gynghrair yr anghonfensiynol, yn awgrymu lefel o feddwl annibynnol a rhyddid wrth weithredu polisïau. Rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Fodd bynnag, 10 mis yn ddiweddarach, nid ydym ddim doethach ynghylch sut mae cynghrair yr anghonfensiynol yn edrych, beth mae disgwyl iddi ei wneud a sut y bydd y lleisiau newydd y mae'r strategaeth yn sôn amdanynt yn cael eu hariannu.

The objectives of the strategy itself, as well as the emphasis on the coalition of the unconventional, suggests a level of independent thought and freedom in the operation of policies. I welcome that very much. However, 10 months later, we are none the wiser about what the coalition of the unconventional will look like, what it is expected to do and how the new voices that the strategy mentions will be funded.

4.15 p.m.

4.15 p.m.

Fel rydym yn gwybod, mae consensws gwleidyddol sylweddol yn y Siambr ar yr iaith Gymraeg, felly pam yr oedi? Rwy'n gobeithio bod brwdfrydedd y Gweinidog yn gyfatebol â brwdfrydedd ei gyd-Aelodau yn y Cabinet. Beth bynnag yw'r rheswm, mae canlyniadau'r cyfrifiad wedi dod â'r strategaeth i frig yr agenda unwaith eto. Mae'r comisiynydd wedi dweud nad yw hyn yn argyfwng. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni drin y sefyllfa o ddifrif.

As we know, there is political consensus in the Chamber on the Welsh language and, therefore, why the delay? I hope that the Minister's enthusiasm is matched by the enthusiasm of his colleagues in the Cabinet. Whatever the reason, the results of the census have brought the strategy to the top of the agenda once again. The commissioner has said that this is not a crisis. However, we must treat this situation seriously.

Os edrychwn ar y genhedlaeth o bobl sydd o gefndiroedd di-Gymraeg a gafodd eu geni yn ystod yr 1960au, er enghraifft, yn yr adeg cyn i'r Gymraeg gael ei hybu yn ein system addysg, ni ddylem synnu'n ormodol, efallai, at ffigurau'r cyfrifiad diweddar. Efallai y bydd ffigurau fel hyn yn parhau yn y degawd nesaf, nes ein bod yn gweld effeithiau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar y genhedlaeth nesaf. Yn anffodus, mi fydd yn her i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith y genhedlaeth o bobl a gafodd eu geni yn yr 1960au cynnar oherwydd nad oeddent wedi elwa o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd eu presenoldeb ar y ffurflenni cyfrifiad yn cadw ffigurau'r siaradwyr Cymraeg yn isel am beth amser eto. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid eu hanwybyddu. Mae angen inni wneud pob peth o fewn ein gallu i hybu a pherswadio'r genhedlaeth hon o

If we look at the generation born during the 1960s to a non-Welsh-speaking background, in the period before the Welsh language was promoted in our education system, we should not be too surprised, perhaps, by the recent census figures. Perhaps such figures will continue in the next decade, until we see the impact of Welsh-medium education on the next generation. Unfortunately, it will be a challenge to increase the use of the Welsh language among the generation of people who were born in the early 1960s because they did not benefit from Welsh-medium education. Their presence on census forms will keep the numbers of Welsh speakers low for some time to come. However, this does not mean that they should be ignored. We need to do everything that we can to encourage and persuade this generation of people from non-Welsh-speaking

gefndiroedd di-Gymraeg i ddysgu'r iaith.

Mae'n amlwg fod heriau enfawr yn wynebu'r iaith Gymraeg yn y cadarnleoedd. Dyna pam ei bod yn hollbwysig ein bod yn gweld ac yn clywed y Gymraeg o'n cwmpas, a bod hynny'n dod yn brofiad bob dydd i ni oll. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd y bobl di-Gymraeg yn gofyn beth yw diben yr iaith iddynt yn bersonol.

Hoffwn awgrymu tri syniad y gallai'r Llywodraeth eu hystyried wrth fynd ar drywydd ei strategaeth yn y maes hwn. Yn gyntaf, ni fydd yn syndod fy mod unwaith eto'n hyrwyddo'r syniad o sefydlu siarter Cymraeg ar gyfer busnesau a fydd, yn y bôn, yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Gall hyn hefyd fod yn arbennig o werthfawr o ran annog dysgwyr i ddefnyddio'r iaith ar y stryd fawr. Byddai hyn yn gyfle i gwsmeriaid a staff ymarfer eu Cymraeg, ac yn help iddynt wella eu hyder. Mae defnyddio'r iaith mewn cyfarfod cyntaf yn aml iawn yn arwain at yr iaith yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd eraill yn y dyfodol. Drwy wneud hyn, mae gobaith y bydd siarad Cymraeg yn dod yn rhywbeth naturiol, ac y bydd yr iaith yn cael ei defnyddio yn ein gweithgareddau bob dydd. Efallai y byddai cael profiad positif fel hyn drwy fynd i siopa, er enghraifft, yn annog oedolion i roi cynnig ar ychydig o Gymraeg gyda'u plant gartref.

Yn ail, mae bodolaeth S4C heb os wedi chwarae rhan enfawr yng nghynaliadwyedd, safon a thwf y Gymraeg. Er llwyddiant enfawr S4C, yr eironi yn awr yw ei bod yn llai tebygol i bobl ddod ar draws y Gymraeg ar y teledu oherwydd bod cymaint o sianeli a llwyfannau eraill. Fodd bynnag, rwy'n hyderus y bydd y sianel yn parhau i fod yn hollbwysig i ddyfodol yr iaith Gymraeg. Wrth gwrs, dylai llywodraethau ddim ymyrryd mewn penderfyniadau golygyddol, ond efallai y dylwn ystyried rhannu atebolrwydd ar gyfer darlledu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Rydym oll yn disgwyl i S4C symud gyda'r oes, ac mae gennym bob ffydd ei bod yn gwneud hynny.

Yn olaf, mae'r gallu i ddysgu iaith newydd yn bendant yn gwella sgiliau plant a phobl

backgrounds to learn the language.

Clearly there are huge challenges facing the Welsh language in its heartlands. That is why it is crucial that we see and hear the Welsh language around us, and that that should become a daily experience for us all. If that does not happen, non-Welsh speakers will ask what the point is of the language for them personally.

I would like to propose three ideas that the Government may consider in implementing its strategy in this area. First, it will be no shock to you that I am once again promoting the idea of establishing a Welsh language charter for businesses that would, in essence, encourage greater use of the Welsh language and the use of the language in the workplace. This could be particularly valuable in terms of encouraging Welsh learners to use the language on the high street. This would be an opportunity for customers and staff to practise their Welsh, and help them to increase their confidence. Using the language at a first meeting will very often lead to the language being used again in future meetings. By doing this, there is hope that speaking Welsh will become a natural thing, and that the language will be used in daily activities. Perhaps having a positive experience of speaking Welsh when shopping, for example, would encourage adults to try a little Welsh with their children at home.

Secondly, the existence of S4C has, without a doubt, played an important part in the sustainability, standard and growth of the Welsh language. Despite the incredible success of S4C, the irony now is that people are less likely to come across the Welsh language on television because there are so many channels and other platforms. However, I am confident that the channel will continue to be crucial to the future of the language. Of course, governments should not interfere in editorial decisions, but perhaps we should consider sharing responsibility for broadcasting between the UK Government and the Welsh Government. We all expect S4C to move with the times, and we have every confidence that it is doing so.

Finally, the ability to learn a new language definitely improves the skills of children and

ifanc. Mae gwneud hynny yn cynnig cyfleoedd gwell iddynt yn y dyfodol. Mae dysgu Cymraeg, felly, yn helpu i wella sgiliau, a bydd yn help i wella sgiliau eraill yn y dyfodol. Bydd hyn o fudd yn economaidd yn ogystal ag yn ddiwylliannol yn y pen draw. Rwy'n cytuno ag arweinydd Plaid Cymru ei bod yn bwysig cael economi cryf er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn enwedig yn cael cyfle i aros yn eu hardaloedd. Rwyf wedi gweld nifer o bobl ifanc yn gadael yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith.

young people and certainly provides enhanced opportunities for them in future. Learning Welsh, therefore, helps to improve skills, and it will help to improve other skills in future. Ultimately, this will be of benefit economically as well as culturally. I agree with the leader of Plaid Cymru that it is important to have a strong economy in order to ensure that young people particularly have an opportunity to remain in their own areas. I have seen a number of young people leaving the area that I represent because of the lack of employment opportunities.

Mae heriau aruthrol o'n blaenau, ond rwy'n croesawu'r consensws ar yr iaith Gymraeg. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau dyfodol disglair iddi.

There are huge challenges facing us, but I welcome the consensus on the Welsh language. It is crucially important that we work together to ensure a bright future for it.

*Gwelliant 5—Jane Hutt*

*Amendment 5—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 5 and replace with:*

*Yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu, ynghyd â'r chwe maes gweithredu a amlinellir yn Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Iaith Fyw: Iaith Byw, sef:*

*5. Notes the Welsh Government's vision of seeing the Welsh language thrive and the six areas of action set out in its Welsh Language Strategy 2012-17, A living language: a language for living, which are:*

*a) annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd;*

*a) to encourage and support the use of the Welsh language within families;*

*b) cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;*

*b) to increase the provision of Welsh-medium activities for children and young people and to increase their awareness of the value of the language;*

*c) cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned;*

*c) to strengthen the position of the Welsh language in the community;*

*d) cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;*

*d) to increase opportunities for people to use Welsh in the workplace;*

*e) gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion; ac*

*e) to improve Welsh language services to citizens; and*

*f) cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.*

*f) to strengthen the infrastructure for the language, including digital technology.*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf welliant 5 yn enw Jane Hutt.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move amendments 5 in the name of Jane Hutt.

**Lindsay Whittle:** I am a proud and

**Lindsay Whittle:** Rwy'n Gymro balch ac

passionate Welshman, but is it not sad that I am the first person in this debate to contribute to it in English and not in my own language? I take some solace from the fact that my language is in my heart but not yet in my head. I take real pride in the fact that my daughter, Aerfen, speaks Welsh, and that my new granddaughter and first grandchild, Nonna Margred, will also speak the Welsh language.

angerddol, ond onid yw'n drist mai fi yw'r person cyntaf yn y ddadl hon i gyfrannu yn Saesneg ac nid yn fy iaith fy hun? Caf beth cysur o'r ffaith bod fy iaith yn fy nghalon, os nad yw eto yn fy mhen. Ymfalchïaf yn fawr yn y ffaith fod fy merch, Aerfen, yn siarad Cymraeg, ac y bydd fy wyres newydd, Nonna Margred, sydd wedi fy ngwneud yn dad-cu am y tro cyntaf, hefyd yn siarad Cymraeg.

As far as the Welsh language is concerned, I consider myself to be one of the unlucky generations. When I was growing up, there were no such things as Welsh-medium schools in the Valleys areas. Now, we have a plethora of them; there has been a revival of Welsh-medium schools. In my opinion, it is equal to that of the religious revival of 1904. I firmly believe that it was the growing political influence of a certain party that led to a flourishing Welsh-medium education system in south Wales. I am not saying that all members of all the other political parties were against Welsh-medium education, but I can tell you—and I hate saying this—that, when I was campaigning during the 1960s and 1970s, there were some who were against the Welsh language, full stop. In fact, the venom was quite frightening. I well remember a political opponent calling Gwynfor Evans a foolish old man when he threatened to starve himself to death if the UK Government refused to establish a Welsh-medium television channel. Gwynfor Evans—do not forget—had learned Welsh. We certainly need men and women of his calibre today: people who are not just prepared to speak the language, but prepared to stand up for it as well.

O ran y Gymraeg, ystyriaf fy hun yn un o'r cenedlaethau anffodus. Pan oeddwn yn tyfu i fyny, nid oedd y fath beth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Cymoedd. Erbyn hyn, mae llu ohonynt; bu adfywiad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn fy marn i, mae mor arwyddocaol â diwygiad crefyddol 1904. Credaf yn gryf mai dylanwad gwleidyddol cynyddol plaid benodol a arweiniodd at system addysg cyfrwng Cymraeg lewyrchus yn y de. Nid dweud ydwyf bod pob aelod o'r pleidiau gwleidyddol eraill yn gwrthwynebu addysg cyfrwng Cymraeg, ond gallaf ddweud wrthych—ac mae'n gas gennyf ddweud hyn—pan oeddwn yn ymgyrchu yn ystod y 1960au a'r 1970au, fod rhai yn hollol wrthwynebus i'r Gymraeg. Yn wir, roedd y gwenwyn yn eithaf brawychus. Cofiaf yn dda wrthwynebydd gwleidyddol yn galw Gwynfor Evans yn hen ŵr ffôl pan wnaeth fygwth ymprydio i farwolaeth pe bai Llywodraeth y DU yn gwrthod sefydlu sianel deledu Gymraeg. Roedd Gwynfor Evans—peidied neb ag anghofio—wedi dysgu Cymraeg. Yn sicr, mae angen dynion a merched o'i galibr ef heddiw: pobl sydd nid yn unig yn barod i siarad yr iaith, ond sy'n barod i'w hamddiffyn hefyd.

The census figures, as mentioned this week, show a decline in the traditional Welsh-speaking areas, in particular in west Wales. I do not think that the situation is at total crisis level, but the trend is disturbing. I mentioned in my questions to the First Minister only yesterday that we need to find out the reasons for this trend. I was extremely satisfied with his answer, I must say.

Mae ffigurau'r cyfrifiad, fel y crybwyllwyd yr wythnos hon, yn dangos gostyngiad yn y fro Gymraeg draddodiadol, yn enwedig yn y gorllewin. Ni chredaf fod y sefyllfa yn argyfwng eto, ond mae'r duedd yn peri pryder. Soniais yn fy nghwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe fod angen i ni ddarganfod y rhesymau dros y duedd hon. Roeddwn yn fodlon iawn ar ei ateb, rhaid dweud.

I heard from a constituent this week from Caerphilly, who, unfortunately, had travelled a little bit over the speed limit of 30 mph, and so has to attend a speed awareness course. At

Clywais gan etholwraig o Gaerffili yr wythnos hon, a oedd, yn anffodus, wedi gyrru ychydig dros y terfyn cyflymder o 30 mya, ac felly'n gorfod dilyn cwrs ymwybyddiaeth o

the time that she is available, she cannot attend a course in her own language of Welsh in her own country. It has to be through the medium of English. She is not happy, and I fully agree with her.

gyflymder. Ar yr adeg pan fydd ar gael, ni all fynychu cwrs yn ei hiaith ei hun yn ei gwlad ei hun. Rhaid gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw'n fodlon ar hynny, a chytunaf yn llwyr â hi.

A letter to the *Western Mail* last weekend from a Welsh speaker pointed out that some fluent Welsh speakers lack confidence about the standard of their Welsh and that they are embarrassed about speaking in Welsh. One point here that might be relevant is the use of English words when there is, or there certainly should be, a perfectly good Welsh equivalent. I hear 'enjoio' and 'stopio', but I do not think that they are acceptable. Perhaps we should follow the more assertive French model where they resist the influx of English words and phrases in order to keep their language French and not Frenglish. In Wales, we have books on Wenglish; I do not actually mind those, actually.

Nododd llythyr yn y *Western Mail* y penwythnos diwethaf gan siaradwr Cymraeg fod rhai siaradwyr rhugl yn ddihyder ynglŷn â safon eu Cymraeg a'u bod yn teimlo embaras i siarad yn Gymraeg. Un pwynt yma a allai fod yn berthnasol yw'r defnydd o eiriau Saesneg pan fo gair da yn Gymraeg, neu dylai fod gair. Clywaf 'enjoio' a 'stopio', ond ni chredaf eu bod yn dderbyniol. Efallai y dylem ddilyn y model Ffrengig mwy pendant lle maent yn gwrthsefyll y defnydd o eiriau ac ymadroddion Saesneg er mwyn cadw eu hiaith yn Ffrangeg ac nid Frenglish. Yng Nghymru, mae gennym lyfrau ar Wenglish; mae'n rheini'n ddigon derbyniol, yn fy marn i.

I know that we have a Welsh Language Commissioner, but it is up to the Welsh Government to take the lead in finding out how best to halt the decline in the use of Welsh, particularly in the Welsh-speaking heartlands. The case of a school in Wales hit the headlines in England recently because it insisted on the pupils speaking Welsh to each other when they were in school. What on earth is wrong with that? You could call this the English Not, but, if it takes positive action like that to ensure that the Welsh language not only survives, but flourishes, it is up to the Welsh Government to take that kind of action. The message should go out loud and clear from this debate to all Welsh people: the Welsh language belongs to us all.

Gwn fod gennym Gomisiynydd y Gymraeg, ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw arwain y gwaith o ddod o hyd i'r ffordd orau o atal y dirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y bröydd Cymraeg. Cafodd ysgol yng Nghymru sylw yn y papurau newydd yn Lloegr yn ddiweddar am ei bod yn mynnu bod y disgyblion yn siarad Cymraeg â'i gilydd pan oeddent yn yr ysgol. Beth ar y ddaear sy'n bod ar hynny? Gallech alw hyn yn English Not, ond, os bydd angen cymryd camau cadarnhaol fel hynny i sicrhau bod yr iaith Gymraeg, nid yn unig yn goroesi, ond yn ffynnu, mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu o'r fath. Dylai'r neges gael ei lledu'n glir ac yn groch o'r ddadl hon i holl bobl Cymru: mae'r Gymraeg yn eiddo i ni i gyd.

**Nick Ramsay** *rose*—

**Nick Ramsay** *a gododd*—

**Lindsay Whittle:** I was about to finish, but I will certainly take an intervention if the Dirprwy Lywydd will allow it.

**Lindsay Whittle:** Roeddwn ar fin gorffen, ond derbyniaf ymyriad os bydd y Dirprwy Lywydd yn caniatáu hynny.

**Nick Ramsay:** As the second non-Welsh-speaker to contribute to this debate and a fellow Wenglishman, or however you described yourself, Lindsay, would you not agree with me that the steps taken in the past, such as the Welsh Language Act 1993—

**Nick Ramsay:** Fel yr ail siaradwr di-Gymraeg i gyfrannu at y ddadl hon a chyd-Gymro di-Gymraeg, neu sut bynnag y byddech yn eich disgrifio eich hun, Lindsay, oni fyddech yn cytuno â mi nad yw'r camau a gymerwyd yn y gorffennol, megis Deddf yr

which was passed by my party in Westminster—have clearly not had the effect that we desired? Would you agree with me that we have to think outside the box in the future for ways to improve the use of the Welsh language, which has declined substantially?

Iaith Gymraeg 1993—a basiwyd gan fy mhlaid yn San Steffan—yn amlwg wedi cael yr effaith a ddymunwyd gennym? A fyddech yn cytuno â mi bod yn rhaid inni feddwl o’r newydd yn y dyfodol am sut i wella’r defnydd o’r Gymraeg, sydd wedi gostwng yn sylweddol?

**Lindsay Whittle:** I would certainly agree with Nick Ramsay, the Member for Monmouth. Let us think outside the box and take any avenue that we can to protect the Welsh language. It is a language worth saving.

**Lindsay Whittle:** Cytunaf â Nick Ramsay, yr Aelod dros Fynwy, yn sicr. Gadewch inni feddwl o’r newydd a chymryd pob cam y gallwn i ddiogelu’r Gymraeg. Mae’n iaith sy’n werth ei chadw.

**Mark Drakeford:** Mae dadleuon ar yr iaith Gymraeg yn y Cynulliad yn tueddu i ddilyn yr un patrwm. I ddechrau, rydym yn cytuno ar bwysigrwydd yr iaith, ac yna rydym yn symud yn gyflym i ganolbwyntio ar y problemau niferus sy’n ei hwynebu. Rwy’n cytuno bod canlyniadau’r cyfrifiad diweddar yn parhau i lunio darlun o iaith mewn perygl ers canrif a bod angen deialog dwys ac agored, fel yr un a glywsom yma yn y Cynulliad y prynhawn yma, sy’n croesawu pob syniad i gryfhau sefyllfa’r iaith.

**Mark Drakeford:** Debates on the Welsh language in the Assembly tend to follow a standard pattern. We briefly agree on importance of the language, and swiftly move to lament, at length, the many problems it faces. I agree that the recent census results continue to paint a century-long picture of a language in danger, and that it demands a concentrated and open dialogue, as we have heard this afternoon in the Assembly, in which all ideas for strengthening the position of the language are welcome

Fodd bynnag, rwyf yn parhau i gredu mai un o’r ffyrdd pwysig y gall hynny ddigwydd yw drwy ddysgu o’n llwyddiant, yn ogystal â’n methiannau. Mewn llawer o ffyrdd, mae’r iaith Gymraeg yn llwyddiant ysgubol. Mae’r ffaith ei bod yn goroesi mewn byd lle mae Saesneg yn dominyddu, a lle mae ieithoedd lleiafrifol yn diflannu drwy’r amser, yn stori ryfeddol ynddi ei hun. Yn sicr, un o’r pethau a fyddai’n syfrdanu fy mam-gu a’m tad-cu, pe baen nhw’n dod yn ôl i Gymru heddiw, yw’r newid mawr ym mhresenoldeb cyhoeddus yr iaith. Wrth reswm, rydym yn bryderus am y lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny lle mae’r Gymraeg wedi bod ar ei chryfaf. Er hynny, pan roeddwn yn tyfu lan yn sir Gâr—un o’r ardaloedd Cymraeg ei hiaith—hanner canrif yn ôl, nid oedd presenoldeb cyhoeddus i’r iaith Gymraeg o gwbl mewn archfarchnadoedd a mannau cyhoeddus ac fel rhan normal o fywyd bob dydd.

However, I also continue to believe that one of the important ways in which that can happen is to learn from our success as well as our failures. In so many ways, the Welsh language is an outstanding success. Its very survival, in a world dominated by English, and where minority languages are disappearing all the time, is a remarkable story in itself. Certainly, one of the sights that would astonish my grandparents, were they to revisit Wales today, would be the transformation in the public presence of the language. Naturally, we are concerned at the erosion of the number of Welsh speakers in those areas where the Welsh language has been strongest. However, when I was growing up in Carmarthenshire—one of the Welsh-speaking areas—half a century ago, the Welsh language did not have a public presence at all in supermarkets and public places, or as a normal part of everyday life.

Llwyddiant mawr arall yw’r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn fy etholaeth i, yma yn y brifddinas, mae nifer y plant sy’n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn

Another great success is the growth in Welsh medium education. In my own constituency, here in our capital city, the number of children who receive Welsh-medium

parhau i godi ym mhob cymuned, o'r wardiau mwyaf amlddiwylliannol yng Nghymru, yng Nglan yr Afon a Threganna, drwy ystadau Treláі a Chaerau ar gyrion y ddinas lle mae'r ysgol gynradd Gymraeg diweddaraf, Ysgol Nant Caerau, yn orlawn yn barod, i bentrefi mwy gwledig Gwaelod y Garth a Phentyrch. Ym mha bynnag amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu, mae'r galw'n codi i fanteisio arni. Ar ei ben ei hun, nid yw hyn ddigon, ond mae llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg yn ein galluogi i feddwl heddiw am ffyrdd newydd i ddatblygu'r gallu i siarad Cymraeg, a ddysgwyd yn yr ysgol, mewn agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.

education continues to rise in every community, from the most multicultural wards in Wales, in Riverside and Canton, through the outlying estates of Ely and Caerau, where the latest Welsh-medium primary school, Ysgol Nant Caerau, already has more pupils than it can accommodate, to the more rural villages of Gwaelod y Garth and Pentyrch. In whatever set of social and economic circumstances Welsh-medium education is provided, the demand rises strongly to take advantage of it. By itself, it is not enough, but the success story of Welsh-medium education allows us to think, today, about new ways in which we can build on the ability to speak Welsh, acquired in school, in other aspects of young people's lives.

Yn olaf, drwy ddarparu gwasanaethau, rydym yn awr yn meddwl am wasanaethau yn yr iaith Gymraeg fel rhan arferol o'r hyn sydd angen ei ddarparu. Yn ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wasanaethau gofal preswyl i bobl hŷn, er enghraifft, roedd hyn yn elfen gyson yn ein trafodaethau â thystion a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn y maes. Nid wyf yn dadlau, wrth gwrs, bod popeth ar gael ym mhob man yn y ffordd y byddem yn dymuno iddo fod. Yn ôl yn yr 1980au, roeddwn i yn rhan o'r grŵp, o dan arweiniad Hywel Williams—sydd yn awr yn Aelod Seneddol dros Gaernarfon—a oedd yn hybu argaeledd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein gwasanaethau cymdeithasol. Ar y pryd, y cwestiwn yr oedd pobl yn ei godi gyda ni oedd nid a oedd gwasanaethau o'r fath ar gael ond pam y dylent fod ar gael o gwbl.

Finally, in service delivery, we now think of services available in the Welsh language as a routine part of what has to be provided. In the recent inquiry by the Health and Social Care Committee into residential care services for older people, for example, this formed a regular strand in our discussions with witnesses and with those who provide services in the field. I am not arguing, of course, that everything is available everywhere, in the way that we would want it to be. Back in the 1980s, I was part of a group, led by Hywel Williams—now the MP for Caernarfon—that promoted the availability of services through the Welsh language in our social services. At that time, the question that people raised with us was not whether such services were available, but why they should be made available at all.

Mae byd gwahanol iawn i'w weld yn y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a lansiwyd ym mis Chwefror y llynedd gan y Gweinidog, Lesley Griffiths. Mae'r fframwaith yn rhoi cyfrifoldeb clir ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau i ymateb i anghenion neu ddymuniad pobl o ran cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

What a different world is to be found in the strategic framework for Welsh-language services in health, social services and social care, launched in February last year by the Minister, Lesley Griffiths. The framework places a clear responsibility on those who provide services to respond to people's needs or wishes to be cared for through the medium of Welsh.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn y lle cyntaf, hoffwn ddweud y byddai tad-cu a mam-gu Mark Drakeford o Fancyfelin yn sir Gaerfyrddin yn falch i glywed ei gyfraniad y prynhawn yma ac yn falch iawn ei fod yn

**Rhodri Glyn Thomas:** In the first place, I would like to say that Mark Drakeford's grandparents from Bancyfelin in Carmarthenshire would be very proud to hear his contribution here this afternoon, and very

cadeirio'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny ynddi'i hun yn weithred eithriadol o bwysig o ran y Gymraeg.

proud of the fact that he chairs the Health and Social Care Committee through the medium of Welsh. That in itself is an exceptionally important act in terms of the Welsh language.

4.30 p.m.

4.30 p.m.

Roedd yr holl gyfraniadau a glywsom y prynhawn yma yn hynod o gadarnhaol. Mae'n hyfryd clywed acen Cwm Nedd yn dod o'r gadair pan fo'r Dirprwy Lywydd yn siarad Cymraeg—a'r acen honno yn fwy amlwg yn y Gymraeg nag ydyw yn y Saesneg, os caf ddweud, Ddirprwy Lywydd. Yn yr un modd, mae acen y Rhondda i'w chlywed yn amlwg iawn gan arweinydd Plaid Cymru. Rwyf wedi joio'n fawr iawn gyfraniad Lindsay Whittle—mae 'joio' yn air digon derbyniol yn y Gymraeg yn sir Gaerfyrddin, gallaf ddweud wrthoch.

All the contributions that we have heard this afternoon were exceptionally positive. It is lovely to hear the Neath Valley accent coming from the chair when the Deputy Presiding Officer speaks Welsh—and that accent is more apparent in Welsh than in English, if I may say so, Deputy Presiding Officer. Similarly, the Rhondda accent is heard very prominently from the leader of Plaid Cymru. I very much enjoyed the contribution of Lindsay Whittle—'joio' is a perfectly acceptable word in Welsh in Carmarthenshire, I can assure you.

Y peth pwysig yw ein bod yn gadarnhaol. Fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg yn y lle hwn, rwy'n gwneud apêl. Dyma'r fforwm drafodaeth genedlaethol. Os ydych yn medru'r Gymraeg yn y lle hwn, defnyddiwch hi. Os ydych yn dysgu'r Gymraeg, mentrwch yn y Gymraeg. Rwyf yn canmol y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, am nid yn unig wneud ei gyfraniadau ffurfiol yn y Gymraeg, ond hefyd ymateb i gwestiynau atodol gennyf i a phobl eraill yn y Gymraeg, sydd yn rhywbeth nad yw'n hawdd i ddysgwr. Mae angen cydnabod y ffaith ei fod yn barod i fentro i wneud hynny, ac yn gwneud hynny'n abl iawn. Mae hynny hefyd yn rhoi arweiniad.

The important thing is that we should be positive. As the Assembly Commissioner with responsibility for the Welsh language in this place, I make an appeal. This is the national forum for debate. If you are able to speak Welsh in this place, use it. If you are learning Welsh, venture to use it. I praise the Minister with responsibility for the Welsh language for not only making his formal contributions in Welsh, but also responding to supplementary questions from myself and others in Welsh, which is no easy task for a learner. We need to recognise the fact that he is willing to venture to do that, and does so very ably indeed. That also sets an example.

O ran ystadegau'r cyfrifiad, mae rhybudd clir iawn yn y fan honno. Mae Mark Drakeford yn gwbl gywir: mae'r rhybudd wedi bod yno ers dechrau'r ganrif ddiwethaf. Roedd cyfrifiad 1901 yn dweud mai ychydig dros 50% o boblogaeth Cymru oedd yn siarad y Gymraeg. Dyna'r rhybudd cyntaf a gawsom, ond rydym wedi cael rhybudd arall yn awr oherwydd mae'r ganran o bobl sy'n honni eu bod yn medru'r Gymraeg, ar ôl ymchwydd ymddangosiadol yn y cyfrifiad diwethaf, bellach wedi mynd yn ôl o dan 20%. Mae'n rhybudd i ni ynglŷn â'r sefyllfa sydd yn ein wynebu, ac mae'n bwysig ein bod yn y fan hyn yn uno gyda'n gilydd i wneud yr hyn sydd ei angen er mwyn ymateb i hynny.

In terms of the census statistics, there is a clear warning there. Mark Drakeford is quite right: the warning has been in place since the beginning of the last century. The 1901 census stated that a little over 50% of the population of Wales spoke Welsh. That was the first warning we received, but we have now received another warning because the percentage of people who claim that they can speak Welsh, after an apparent upsurge in the last census, has now gone back to below 20%. It is a warning to us with regard to the situation that faces us, and it is important that we in this place should unite to do what needs to be done to respond to that.

Yr hyn fyddwn yn ei ddwued yw: ydy, mae'r ystadegau yn dweud rhywbeth wrthym, ond mae'n bwysig nad ydym yn ateb yn rhy fyrbwyll i'r ystadegau; nid ydynt yn dweud yr holl stori. Mae pethau'n digwydd yng Nghymru sy'n golygu bod cynnydd mewn rhai adrannau o ran yr iaith Gymraeg a bod gostyngiad mewn mannau eraill. Mae'n rhaid inni edrych yn fanwl iawn ar yr hyn sydd yn digwydd.

What I would say is: yes, the statistics tell us something, but it is important that we do not have a knee-jerk reaction to the statistics; they do not tell the whole story. There are things happening in Wales that mean that there is an increase in some sections in terms of the Welsh language and a decline in other areas. We need to look in great detail at what is happening.

Rwyf yn dod o sir Gaerfyrddin, a byddwn yn dweud bod angen i ni edrych ar sir Gaerfyrddin, Ceredigion a gogledd Penfro yn arbennig. O ran yr ardal honno, er y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr, mae canran sylweddol iawn o'r boblogaeth yn siarad y Gymraeg. Mae'n rhaid inni edrych yn fanwl ar yr hyn y gallwn ei wneud yn y fan honno.

I come from Carmarthenshire, and I would say that we need to look at Carmarthenshire, Ceredigion and north Pembrokeshire in particular. In terms of that area, although there has been a decline in the number of speakers, a significant percentage of the population speaks Welsh. We need to look in detail at what we can do there.

Gan edrych ar y meysydd arferol, mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol yn eithriaol o bwysig. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni edrych hefyd ar y cysylltiad rhwng y Gymraeg â menter, yr economi a diwydiant, a sut rydym yn galluogi pobl sydd yn Gymry Cymraeg i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i hybu diwydiannau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr economi yn yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg yn dal i fod yn iaith naturiol yn cael ei hybu. Pe bawn am grynhoi'r sefyllfa, pe byddem yn gallu dweud ein bod fel Cynulliad yn gallu sicrhau yng Nghymru bod tai, gwaith a chyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg i bobl yng Nghymru, dyna'r ateb cynhwysfawr. Wrth gwrs, mae'n llawer iawn anoddach na hynny, ond ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y cyfleoedd hynny yn bodoli.

Looking at the usual areas, education through the medium of Welsh and promoting the use of the Welsh language in the community are exceptionally important. However, we also have to look at the link between the Welsh language and enterprise, the economy and industry, and at how we enable people who are Welsh speakers to live their lives through the medium of Welsh and to promote industries that work through the medium of Welsh in order to ensure that the economy in those areas where the Welsh language is still the day-to-day language of the community is promoted. If I were to sum up the situation, if we could say that we as an Assembly can ensure that, in Wales, there is housing, employment and opportunities to use the Welsh language for people in Wales, that is the comprehensive solution. Of course, it is much more difficult than that, but our responsibility to ensure that those opportunities exist.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwyf am ddechrau drwy longyfarch arweinydd Plaid Cymru am ei haraith yn Gymraeg. Dyma'r cyfle cyntaf i'r Cynulliad drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg ers i ganlyniadau cyfrifiad 2011 gael eu cyhoeddi.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I will begin by congratulating the leader of Plaid Cymru on her speech in Welsh. This is the first opportunity for the Assembly to debate issues surrounding the Welsh language since the publication of the 2011 census results.

O'n rhan ni, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad cryf tuag at y Gymraeg dros y blynyddoedd diweddar drwy

For its part, the Welsh Government has demonstrated its strong commitment to the Welsh language over recent years through a

wneud nifer o bethau. Yn fwyaf nodedig oedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Llywodraeth Cymru'n Un a phenodiad cyflym y Llywodraeth hon o Meri Huws fel Comisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg 'Iaith fyw: iaith byw' ym mis Mawrth 2012, ac rydym yn parhau i roi ein strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar waith.

number of actions. The most notable were the One Wales Government's Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the swift appointment by this Government of Meri Huws as Welsh Language Commissioner. The Government also published its new Welsh language strategy, 'A living language: a language for living' in March 2012, and we continue to implement our Welsh-medium education strategy.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymuno â'r rheini sy'n dathlu'r ffaith fod yr iaith dal i fod yn iaith fyw ym mhob rhan o Gymru. Gan hynny, rydym yn cefnogi pwynt cyntaf y cynnig yn llwyr. Mae nifer o resymau dros ddathlu. Mae'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â gwaith grwpiau fel Mudiad Meithrin, wedi galluogi miloedd o blant a phobl ifanc i ddysgu Cymraeg. Rydym hefyd yn cefnogi defnydd cymdeithasol a chymunedol o'r Gymraeg. Rydym yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd drwy gynllun Twf, sy'n ceisio annog a helpu teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn fuan, byddwn yn lansio cynllun gweithredu a chronfa ariannu i gefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn technoleg ac yn y cyfryngau digidol, gyda ffocws penodol ar gyfryngau cymdeithasol. Mae gennym sianel deledu gryf sydd yn darparu gwasanaeth o safon yn Gymraeg, a hynny er gwaethaf toriadau ariannol parhaol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i diffyg ymrwymiad ar ôl 2015 i'r £7 miliwn y mae DCMS yn ei dalu i S4C. Bydd y Llywodraeth yn gwrthod gwelliant 3 William Graham, wrth gwrs. Rydym hefyd eisiau gweld rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a fydd yn cynyddu ei statws yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg gwell ar gael i'r cyhoedd.

The Welsh Government joins those who celebrate the fact that the language is still a living language in all parts of Wales. As such, we fully support the first point of the motion. There are many reasons to celebrate. The growth in Welsh-medium education, together with the work of groups such as Mudiad Meithrin, has enabled many thousands of children and young people to learn Welsh. We are also supporting the social and community use of Welsh. We are supporting the use of Welsh in families through the Twf initiative, which aims to encourage and help families to transfer the language to their children. We will soon be launching an action plan and funding mechanism to support greater use of Welsh in technology and digital media, with a particular focus on social media. We have a strong television channel that provides a quality service in Welsh, despite the UK Government's ongoing funding cuts and its lack of commitment beyond 2015 to the £7 million that the DCMS pays to S4C. The Government will, of course, reject William Graham's amendment 3. We also want to see greater opportunities to use Welsh in the workplace, which will increase its status while also ensuring that better Welsh-language services are available to the public.

Yn y dyfodol agos, bydd safonau iaith a gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn cynyddu'r gefnogaeth honno ymhellach.

In the near future, the language standards and work of the Welsh Language Commissioner will increase that support further.

Rwy'n cydnabod bod y cyfrifiad wedi dod â newyddion siomedig i'r rheini ohonom sydd am weld y Gymraeg yn ffynnu, yn arbennig y prif benawdau o ran y ffigurau. Nid wyf yn dweud nad oes problem, ond rhaid i ni edrych ar y ffigurau yng nghyd-destun y newidiadau mewn demograffeg sydd wedi digwydd yng

I readily acknowledge that the census results did bring disappointing news to those of us who want to see the Welsh language thrive, especially with regard to the headline figures. I am not saying that there is not a problem, but we must view the figures in the context of the demographic changes that we have seen

Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf.

**Alun Ffred Jones:** A gaf i gytuno gyda chi a dathlu llwyddiant, mewn gwirionedd, addysg Gymraeg ledled Cymru, ac yn arbennig, efallai, yn yr ardaloedd Saesneg? Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr ym mherfformiad gwahanol ysgolion. A oes lle i chi edrych eto ar osod targedau neu safonau er mwyn lledu'r arferion gorau sydd yn bodoli mewn rhai ysgolion i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd ei nod o gynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl erbyn bod plant yn cyrraedd 11 oed?

**Leighton Andrews:** Rwy'n hapus i edrych ar awgrym yr Aelod. Wythnos nesaf, byddwn yn trafod y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), a bydd yn bosibl trafod y sefyllfa bryd hynny.

Arhosodd y ganran o blant tair i 15 oed a oedd yn siarad Cymraeg yn eithaf tebyg, er bod y nifer o siaradwyr wedi gostwng. Fodd bynnag, mae newidiadau sylweddol mewn demograffeg sy'n effeithio ar y grŵp oedran hwn. O ystyried bod dros 40,000 yn llai o blant tair i 15 oed yn byw yng Nghymru yn 2011, o gymharu â 2001, roedd hi'n anochel y byddai'r nifer yn y grŵp oedran hwnnw sy'n siarad Cymraeg hefyd yn llai.

Dangosodd y cyfrifiad hefyd dwf yn nifer y bobl 20 i 44 oed a oedd yn siarad Cymraeg, sy'n awgrymu bod plant a ddysgodd Cymraeg yn yr ysgol yn parhau i siarad yr iaith wrth iddynt ddod yn oedolion. Dangosodd y canlyniadau hefyd bod mwy o siaradwyr Cymraeg ifanc iawn yn 2011 nag yn 2001, sydd, efallai, yn awgrymu bod mentrau megis Twf yn gwneud gwahaniaeth. Rhaid inni edrych ar hyn ymhellach, ond mae'n tanlinellu, unwaith eto, pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.

Mae'r dirywiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg, yn draddodiadol, wedi bod yn gryf yn achos pryder. Mae sir Gâr yn haeddu sylw penodol. Mae'n ymddangos bod gostyngiad yn y graddfeydd trosglwyddo genhedlaeth yn ôl bellach yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol. Fodd bynnag, ni ddylai canlyniad y cyfrifiad wedi bod yn sioc.

in Wales over the past decade.

**Alun Ffred Jones:** May I agree with you and celebrate the success, in reality, of Welsh-medium education throughout Wales, and in particular, perhaps, in the more anglicised areas? However, there is great variation in the performance of different schools. Is there room for you to look again at setting targets or standards in order to roll out the best practice that exists in some schools to ensure that Welsh-medium education achieves its goal of producing fluent Welsh speakers by the time that children reach the age of 11?

**Leighton Andrews:** I am happy to look at the Member's suggestion. Next week, we will be discussing the School Standards and Organisation (Wales) Bill, and it will be possible to discuss the situation at that time.

The percentage of three to 15-year-olds speaking Welsh has held fairly steady, even though the number of speakers has fallen. There are, however, significant demographic forces at work with regard to this age group. Given that there were over 40,000 fewer three to 15-year-olds living in Wales in 2011, compared with 2001, it was inevitable that the Welsh speakers in that age group would also be fewer.

The census also shows a growth in the number of those aged 20 to 44 who speak Welsh, which suggests that children who learned Welsh at school continue to speak the language as they enter adulthood. The results also show that there were more very young Welsh speakers in 2011 than in 2001, which might suggest that initiatives such as Twf are making a difference. We need to explore this further, but it underlines, once again, the importance of continuing to invest in our children and young people to secure the future of the language.

The decline in the percentage of Welsh speakers in communities where Welsh has traditionally been strong is a concern. Carmarthenshire merits particular attention. It seems that a decline in language transmission rates a generation ago is now having an impact on the use of the language in the community. However, the result of the census should not have come as a shock. The result

Mae'r canlyniad yn gyson â'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg—cyn ein strategaeth ni—sy'n dangos bod poblogaeth y siaradwyr Cymraeg wedi dirywio o ryw 2,300 y flwyddyn dros y ddegawd ddiwethaf.

is consistent with the figures published by the Welsh Language Board—before our strategy—showing that the Welsh-speaking population had declined by about 2,300 a year over the past decade.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi sefydlu dau grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y materion hyn yn fanwl. Y cyntaf yw'r grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ffyrdd o gynyddu nifer y cymunedau lle y mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, ac fe'i sefydlwyd o ganlyniad i'r ddadl hon yn y Cynulliad ar y strategaeth pan y'i lansiwyd ym mis Mawrth. Bydd yr ail grŵp, a sefydlwyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ac sy'n cael ei gadeirio gan Elin Rhys, yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi.

The Government has also established two task and finish groups to look at these issues in detail. The first is a task and finish group to look at ways of increasing the number of communities where Welsh is the main language. The group is chaired by Dr Rhodri Llwyd Morgan, and was established as a result of the Assembly's debate on the strategy when it was launched in March. The second group, established by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, and chaired by Elin Rhys, will be looking at the links between the Welsh language and the economy.

O safbwynt gwelliannau 1 a 3 yn enw Aled Roberts, gadewch inni fod yn glir: mae ymrwymiad yng nghynllun gweithredu'r strategaeth iaith ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i orffen yr adolygiad o'r polisi cynllunio a nodyn cyngor technegol 20 ar y Gymraeg. Mae'r gwaith bron wedi'i gwblhau. Dylai Aelodau wrthod y gwelliannau hynny, felly.

With regard to amendments 1 and 6 in the name of Aled Roberts, let us be clear: there is a commitment in the Welsh-language strategy action plan for this financial year to finalise the review of planning policy and technical advice note 20 on the Welsh language. This work has almost been completed. Members should therefore reject those amendments.

Caf ar ddeall hefyd fod swyddogion Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar hyn o bryd yn paratoi nodyn cyngor technegol drafft ar gynllunio a'r economi, ac maent yn anelu at ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

I also understand that the Minister for Environment and Sustainable Development's officials are currently preparing a new draft TAN on planning and the economy, which they aim to publish in the spring.

Er bod dyfodol cymunedau Cymraeg eu hiaith yn bwysig, rhaid inni beidio â cholli golwg ar yr angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Rhaid inni ffocysu ar sicrhau bod mwyfwy o siaradwyr Cymraeg yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd hynny fel bod defnyddio'r Gymraeg yn dod yn fwyfwy normal ar draws ystod ehangach o beuoedd. Ni chredaf fod un ateb mawr i'r heriau hyn; dyna pam y mae ein strategaeth mor amrywiol. Mae angen syniadau ar draws ystod eang o feysydd. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn glir: mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ein strategaeth iaith, ac rydym yn awr yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 2013-

Although the future of Welsh-speaking communities is important, we must not lose sight of the need to increase opportunities for people to use the language in their daily lives. We need to focus on ensuring that more and more Welsh speakers make the most of those opportunities so that the use of Welsh becomes more and more normal across a wider range of domains. I do not think that there is one big solution to the challenges; that is why our strategy is so diverse. We need ideas across a wide range of areas. However, let us be clear: the Welsh Government is taking action to implement our language strategy, and we are now developing an action plan for 2013-14. That

14. Dyna pam rwyf yn annog Aelodau i wrthod gwelliant 4 William Graham ac i bleidleisio dros welliant 5 y Llywodraeth.

is why I urge Members to vote against William Graham's amendment 4 and vote for the Government's amendment 5.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer technoleg a'r cyfryngau digidol, ynghyd â chronfa ariannu; byddwn yn gwneud safonau iaith Gymraeg maes o law, ond ni fyddai'n briodol i'r Cynulliad gymeradwyo safonau'r comisiynydd heddiw, fel sydd yn cael ei awgrymu yn welliant 2 Aled Roberts. Mae'n rhaid dilyn y broses gywir, lle bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau y bydd angen cymeradwyaeth y Cynulliad ar eu cyfer.

We will also publish a technology and digital media action plan, along with a funding mechanism; we will make Welsh-language standards in due course, but it would be inappropriate for the Assembly to rubber-stamp the commissioner's standards at this stage, as is suggested in Aled Roberts's amendment 2. We need to follow the correct process, whereby Welsh Ministers will make regulations that will be subject to the Assembly's approval.

4.45 p.m.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio yn fwy trwyadl ar draws mwy o bolisïau a gweithgareddau'r Llywodraeth. Nid oes arnom angen corff annibynnol arall i adolygu'r modd y mae'r Llywodraeth yn prif-ffrydio'r iaith, fel sy'n cael ei awgrymu gan welliant 7 Aled Roberts—mae gennym eisoes gomisiynydd sy'n gallu adolygu perfformiad y Llywodraeth ynghylch prif-ffrydio'r iaith.

We will continue to ensure the language is mainstreamed more thoroughly and across more Welsh Government policies and activities. We do not need another independent body to review how the Government is mainstreaming the language, as is suggested in Aled Roberts' amendment 7—we already have a commissioner who is able to review the Welsh Government's performance with regard to mainstreaming the language.

I gloi, rôl y Llywodraeth yw creu'r amgylchiadau i'r Gymraeg ffynnu. Dyna yw ein nod, a dyna'r hyn y mae ein strategaeth newydd yn cynllunio i'w wneud. Rydym yn anelu ein hymdrechion at gyflawni.

To conclude, the role of Government is to create the circumstance for the language to thrive. That is our goal, and that is what our new strategy is geared towards achieving. We are focused on delivery.

**Simon Thomas:** Diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl. Mae wedi bod yn batrwm o ddadl, a dweud y gwir, ac, yn benodol, rwyf wedi bod yn eithriadol o falch o weld pobl yn defnyddio'r Gymraeg y maent wedi'i dysgu. Gwn o brofiad pa mor anodd yw hynny, a diolchaf i bawb am wneud yr ymdrech honno ac am ddangos bod y Gymraeg yn iaith gwaith yn y fan hon.

**Simon Thomas:** I thank everyone who has contributed to the debate. It has been an exemplar debate, quite frankly, and, specifically, I have been exceptionally proud to see people taking the opportunity to use the Welsh that they have learned. I know from experience how difficult that can be, and I thank everyone for their efforts and for demonstrating that the Welsh language is the language of work in this place.

Mae wedi bod yn ddadl gadarnhaol, ac rwy'n falch o hynny. Er efallai y byddwn yn anghytuno am ambell welliant neu'i gilydd pan ddeuwn i bleidleisio, nid ydym yn anghytuno yn sylfaenol. Rydym yn cytuno bod yr iaith, fel y dywedodd Mark Drakeford, wedi bod mewn argyfwng am tua chanrif, ond mae'n rhyfeddod ei bod hi wedi goroesi,

It has been a positive debate, and I am pleased about that. Although we may disagree when we come to vote on a few amendments here and there, we do not fundamentally disagree. We are agreed that the language, as Mark Drakeford said, has been in crisis for around a century, but that it is incredible that the language has survived,

yn enwedig o'i chymharu ag ieithoedd lleiafrifol eraill, ac nid yn unig hynny, ond ei bod mor fywiog, a bod ganddi ddiwylliant poblogaidd ym mydoedd cyhoeddi, miwsig—neu gerddoriaeth [*Chwerthin.*]—a phob dim arall sydd ar gael yn Gymraeg erbyn hyn. Mae hefyd yn rhyfeddod bod yr iaith wedi ffynnu cymaint fel ei bod yn un o'r prif ieithoedd sy'n cael eu defnyddio ar 'Trydar'. Er ei bod yn iaith leiafrifol, mae'r Gymraeg yn fyw ar 'Trydar', ac rwy'n siŵr, wrth imi siarad yn awr, mae rhywun yn trydar am y ddadl hon. Mae'n hynod bwysig ein bod ni'n gweld y llwyddiannau yn ogystal â'r her sy'n wynebu parhad yr iaith yn y cymunedau hynny y mae nifer o siaradwyr wedi cyfeirio atynt.

particularly if you compare it with other minority languages, and not only that, but the fact that it is prospering so well, and that it has popular culture in publishing, music—or I should say '*cerddoriaeth*' [*Laughter.*]—and everything else that is available in Welsh by now. It is astonishing that the language has prospered to such an extent that it is one of the main languages used on Twitter. Although it is a minority language, it is a very lively language on Twitter, and I am sure, as I speak, someone is tweeting about this debate. It is important that we identify the successes as well as the challenge facing the continuation of the language in a number of the communities that many speakers have referred to.

Pwrpas y ddadl hon i Blaid Cymru oedd dechrau sôn am weithredoedd penodol posibl i hybu'r iaith, ei hehangu ac, yn y pen draw, i'w gweld yn fwy hyfyw byth yng Nghymru.

The purpose of this debate for Plaid Cymru was to start to discuss some of the specific actions that could be taken to promote and enhance the language, and eventually to see it as a more viable language in Wales.

Deuaf at rai syniadau yn y man, ond cyn hynny, rwyf am fanteisio ar y cyfle i ymateb yn benodol i rai o'r siaradwyr heddiw. Dechreuaf gyda'm harweinydd, wrth gwrs, sef Leanne. Diolch iddi hi am wneud ei haraith yn Gymraeg, gan osod y cynsail ar gyfer heddiw. Tanlinellodd bwysigrwydd economi ffyniannus. Deil yr hen ddywediad: heb waith, heb iaith. Rhaid wrth economi ffyniannus os ydym am weld cymunedau cryf y mae'r Gymraeg yn gallu ffynnu ynddynt.

I will come to some of those ideas in a while, but before that, I want to take the opportunity to respond specifically to some of the speakers this afternoon. I will start with my leader, Leanne, of course. I thank her for making her contribution in Welsh, setting a precedent for today's debate. She highlighted the importance of a prosperous economy. There is that old saying that there is no language without work. You need a prosperous economy if we want to see strong communities where the Welsh language can prosper.

Pwysleisiodd y ffaith bod cyfle i'w ystyried o ddifrif yn gyffredinol, sef y dylid dechrau cyflwyno'r Gymraeg i bob plentyn unwaith y maent yn y cyfnod sylfaen o dair oed ymlaen. Mae angen dirfawr am hynny yn yr ardaloedd hynny sy'n ffinio â'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg—lle'r ydym wedi gweld dirywiad—ac mae angen i'r patrwm hwnnw gael ei ehangu dros Gymru. Yn sicr, bydd Plaid Cymru yn edrych yn bositif iawn ar y ffordd y gallwn ddatblygu'r syniad hwnnw.

She emphasised the fact that there is an opportunity to be considered seriously across Wales in general, which is that the Welsh language should be introduced to all children once they enter the foundation phase from the age of three onwards. That is particularly necessary in those areas that border on the traditional Welsh-speaking areas—where we have seen a decline—and that patterns needs to be rolled out across Wales. Plaid Cymru will certainly look positively at how that idea can be developed.

O ran cyfraniad Aled Roberts, rwy'n cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Fel gyda phob gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol, nid wyf yn deall pob un

In relation to Aled Roberts's contribution, I support the Liberal Democrat amendments. As with all Liberal Democrat amendments, I do not understand them all, but I understand

ohonynt, ond rwy'n deall yr ysbryd y'u cynigir ynddo. [*Chwerthin.*] Felly, byddwn yn derbyn y gwelliannau hynny, gan fy mod yn credu iddynt gael eu cynnig yn yr ysbryd iawn. Hefyd, yn bwysig iawn, maent yn ychwanegu at yr hyn sydd gerbron, yn hytrach na'i ddisodli.

the spirit in which they are tabled. [*Laughter.*] Therefore, we will accept those amendments, given that I think that they have been tabled in the proper spirit. In addition, more importantly, they seek to enhance the motion, rather than to delete sections of it.

Ynghylch pwynt Aled—rwyf wedi gweld ffigurau Cymdeithas yr Iaith fy hunan—am gyn lleied y mae'r awdurdodau lleol yn manteisio ar yr hawliau sydd ganddynt i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn y system gynllunio; rydym ninnau am weld gwelliant yn hynny beth.

As regards Aled's point—I have seen the Cymdeithas yr Iaith figures—regarding how little local authorities are taking advantage of the rights that they currently have in ensuring that the Welsh language is considered in the planning system; we want to see improvements there.

O ran cyfraniad Paul Davies, ni fyddaf yn gallu derbyn gwelliannau'r Torïaid, yn anffodus, ond rwyf yn derbyn nifer o'u syniadau. Y rheswm nad ydym fel plaid yn gallu eu derbyn fel y maent yw bod disodli rhannau o'n prif gynnig. Beth bynnag am hynny, rwy'n cydnabod bod gennych syniad o ran y siartr. Rwyf am bwysleisio nad wyf yn gweld siartr yn disodli hawliau. Mae'n bwysig i Blaid Cymru ein bod yn cydnabod hawliau siaradwyr y Gymraeg, ond mae gwerth mewn codi statws a bri'r iaith, ac mae siarter yn ffordd o wneud hynny.

In relation to Paul Davies, I will not be able to accept the Tory amendments, unfortunately, but I accept many of their ideas. The reason why we as a party cannot accept them as they stand is because they delete sections of our main motion. Despite that, I acknowledge that you have an idea on a charter. I want to emphasise that I do not see a charter replacing rights. It is important for Plaid Cymru that we recognise the rights of Welsh speakers, but there is some value in increasing the status of the language, and a charter is one way of achieving that.

Mae'n hynod ddiddorol eich bod heddiw wedi awgrymu rhannu cyfrifoldeb darlledu. Yn bersonol, nid wyf yn gweld hynny fel ateb a fyddai'n gweithio, ond rwy'n cydnabod fod yr hyn a gynigiwch yn ffres ac yn newydd, ac sy'n wahanol i'r hyn sydd wedi'i gynnig gan y Torïaid yn y gorffennol. Felly, ar sail hynny, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni nodi eich bod yn cydnabod y gwendidau sydd yn bodoli yn awr.

It is interesting that you suggested today sharing the responsibility for broadcasting. Personally, I do not see that as a solution that can work, but I acknowledge that what you propose is fresh and new, and different to what has been proposed by the Tories in the past. Therefore, on that basis, I think that it is important that we note that you recognise that it is important for us that you acknowledge the deficiencies that exist.

O edrych ar y peth yn fwy positif, mae S4C a'r holl ddarlledu yn Gymraeg yn bwysig i ffyniant yr iaith, ond mae'r ffaith y caiff hynny ei redeg gan Lywodraeth San Steffan yn unig yn broblem. Mae'r ffaith y caiff hynny ei redeg gan un gorfforaeth yn unig erbyn hyn—y BBC—hefyd yn dechrau ymddangos yn dipyn bach o broblem, fel rydym wedi'i weld gyda phroblem y taliadau hawlfraint a'r anghytuno rhwng corff Eos a'r BBC ar hyn o bryd. Problem Llundain yw honno, yn hytrach na phroblem yng Nghaerdydd, ac yn sicr rydym ni ym Mhlaid Cymru eisiau gweld y Llywodraeth yn rhoi

In looking at it in a more positive way, S4C and all broadcasting in the Welsh language is important to the prosperity of the language, but the fact that that is dealt with only by the Westminster Government is a problem. The fact that it is dealt with by a single corporation—the BBC—also seems to be developing into something of a problem, as we have seen with the problem of copyright payments and the disagreement between Eos and the BBC at present. That is a problem for London, rather than a problem for Cardiff, and we in Plaid Cymru certainly want to see the Government placing the proper pressure

pwysau dyledus ar y gorfforaeth ac ar Ymddiriedolaeth y BBC, sy'n annibynnol, i geisio dod â'r hanes arbennig hwnnw i ben.

on the corporation and on the BBC Trust, which is independent, to try to bring that particular tale to a conclusion.

Lindsay, diolch am eich cyfraniad. Bydd pob un ohonom yn pryderu ynghylch ein treigladau a'n defnydd o'r iaith o hyn ymlaen, gan wybod eich bod yn 'watsio'—sori, 'gwylio' [*Chwerthin.*]—yr hyn rydym yn ei ddweud yn Gymraeg. Credaf fod y *franglais* yn bwysig, fel rydych wedi'i ddweud, ond mae pwynt pwysig yma: wrth ddysgu'r iaith, ac wrth ymarfer a lledaenu'r iaith, mae'n bwysig cydnabod bod y Gymraeg a Saesneg wedi cyd-fyw a rhannu dros ganrifoedd. Bydd perthynas o'r fath ond yn mynd yn sur pan fydd un iaith yn gormesu'r llall. Rydym wedi dod mas o'r dyddiau du hynny a ddisgrifiwyd gennych, a da o beth yw hynny.

Lindsay, I thank you for your contribution. Each and every one of us will be worried about our mutations and use of the Welsh language from now on, knowing that you are watching—sorry, '*gwylio*' [*Laughter.*]—what we are saying in Welsh. I think that the franglais is important, as you mentioned, but there is an important point here: in learning the Welsh language, and in practising and using the language, it is important to recognise that the Welsh and English languages have lived side by side over a period of centuries. Such a relationship will only sour when one language oppresses the other. We have emerged from those dark days that you described, and that is a very positive thing.

Adlewyrchwyd y dyddiau hynny yng nghyfraniad Mark, a diolch iddo ef am hynny, yn enwedig am dynnu sylw penodol at Orllewin Caerdydd, lle cafwyd twf aruthrol a phwysig yn nefnydd yr iaith Gymraeg. Pwy fyddai wedi meddwl chwarter canrif yn ôl y byddai'r Gymraeg yn cynyddu yn ein prif ddinas fel sydd wedi digwydd, a'i bod bellach i'w chlywed yr un mor aml ar strydoedd Pontcanna ag ar strydoedd Llandysul? Efallai fod hynny'n beth trist i'w glywed ar un lefel, ond mae'n bwysig i gydnabod hynny. Mae'r newid mewn agwedd o ran darpariaeth gofal yn y Gymraeg yn arbennig o bwysig, a'n bod yn cydnabod pwysigrwydd hawl pobl i dderbyn gofal, yn enwedig tua diwedd eu hoes, yn eu mamiaith.

Those days were also reflected in Mark's contribution, for which I would like to thank him, especially for referring specifically to Cardiff West, where there is huge and important growth in the use of the Welsh language. Who would have thought 25 years ago that the use of Welsh would increase in our capital city as it has done, with it being heard as often on the streets of Pontcanna as the streets of Llandysul? That might be sad to hear on one level, but it is also important to acknowledge that. The change of attitude in terms of care provision through the medium of Welsh is exceptionally important, and that we recognise the importance of people's right to receive care, particularly as they reach the end of their lives, in their mother tongue.

Manteisiodd Rhodri Glyn ar y cyfle i'n hatgoffa i ddefnyddio'r iaith yn y Siambr hon, a gwnaeth hynny yn ei rôl fel y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg. Rhoddodd sylw penodol i'r ardal honno sy'n ymestyn o sir Gâr i ddyffryn Teifi, draw tuag at Aberteifi a gorllewin sir Benfro, lle mae'r Gymraeg yn parhau'n bwysig a'n bendant yn iaith fyw yn feunyddiol i nifer fawr o bobl. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos bod gwendid yn dechrau dod i'r amlwg yno, ac felly mae'n rhaid cael gweithredu penodol yn yr ardaloedd hynny.

Rhodri Glyn took the opportunity to remind us to use the language in this Chamber, and he did so as the Commissioner with responsibility for the language. He also highlighted that area that stretches from Carmarthenshire to the Teifi valley, down towards Cardigan and west Pembrokeshire, where the Welsh language remains important and is certainly a language that is used on a day-to-day basis. However, the figures show that a problem is emerging there, and therefore we need specific action in those areas.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei araith, a oedd yn cynnwys cryn dipyn o ansawdd ac ôl meddwl-cymaint o ôl meddwl fel y dechreuais feddwl ei fod yn aelod rhanbarthol am eiliad. [*Chwerthin.*] Roedd rhaid aros ychydig i'r jôc honno eich cyrraedd. Roedd cymaint yn ei araith ond roeddwn yn siomedig iawn gyda gwelliant y Llywodraeth. Y cyfan a wna yw diddymu'r hyn oedd gennym ni i'w ddweud a chyfeirio yn ôl at 'Iaith Fyw: Iaith Byw'. Mae'n welliant sy'n edrych fel pe bai wedi'i lunio am 4.55 p.m. ar brynhawn Iau; nid oes amheuaeth gennyf am hynny. Fodd bynnag, roedd araith y Gweinidog yn llawer iawn mwy cynhwysfawr a phositif, ac rwy'n cydnabod hynny. Un peth yn unig a achosodd bryder i mi yn araith y Gweinidog: soniodd yn benodol am weithredu rheoliadau er mwyn sicrhau bod safonau iaith yn cael eu gweithredu ar lefel statudol. Dywedodd fod yn rhaid i hynny ddilyn y drefn arferol, ac ofnaf fod hynny'n swnio fel ymgynghoriad arall ar y safonau. Nid oes angen ymgynghoriad arall; cynhaliwyd ymgynghoriad trwyadl gan y comisiynydd a gobeithio y gall y Gweinidog fanteisio ar hwnnw.

I thank the Minister for his contribution, which included a great deal of substance and thought—so much thought that I imagined he was a regional Member for a second. [*Laughter.*] It took a little time for that joke to get through. There was so much contained in that speech that I was disappointed with the Government amendment. All that it did was delete our motion and refer back to 'A Living Language: A Language for Living'. It was like an amendment drawn up at 4.55 p.m. on a Thursday; I have no doubt about that. However, the Minister's speech was far more comprehensive and positive, and I recognise that. There was just one thing that concerned me about the Minister's address: he mentioned implementing regulations to ensure that language standards should be on a statutory basis. He said that we needed to follow the usual practices, and I fear that that sounds like another consultation. We do not need another one of those; the commissioner conducted a thorough consultation, and I hope that the Minister can take advantage of that.

Wrth gloi, mae'n bwysig imi gydnabod bod ein cynnig heddiw wedi amlinellu nifer o bethau positif iawn a fydd yn cefnogi'r iaith dros y ddegawd nesaf, i ddiogelu, hybu ac ehangu defnydd yr iaith. Rwy'n falch iawn bod y ddadl wedi bod mor bositif, a bod pobl wedi cael y cyfle i fynegi eu barn. Rwyf hefyd yn falch ein bod yn cytuno bod angen gweithredu pellach i ddiogelu'r iaith, ac yn hynny o beth, edrychaf ymlaen at weld mwy o atebion positif gan y Llywodraeth.

In conclusion, it is important to recognise that our motion outlines many positive things that will support the Welsh language over the next decade, to safeguard, promote and expand the use of the language. I am pleased that the debate has been so positive, and that people had an opportunity to express their views. I am also pleased that we are agreed that further action is required to safeguard the language, and in that sense, I look forward to seeing more positive solutions from the Government.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
## Welsh Liberal Democrats Debate

### Trydaneiddio Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru
### The Electrification of the North Wales Coast Line

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5130 Aled Roberts*

*Motion NDM5130 Aled Roberts*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn cefnogi trydaneiddio Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru.*

*Supports the electrification of the North Wales Coast Line.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf y cynnig.

**Aled Roberts:** I move the motion.

Mae'n bleser gennyf gynnig ac agor y ddadl hon ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, er mwyn i ni fel Cynulliad Cenedlaethol ddangos ein cefnogaeth dros yr ymgyrch i drydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd. Wrth wneud hynny, dylem gydnabod llwyddiant yr ymgyrch drawsbleidiol dros drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe.

It is my pleasure to open this debate on behalf of the Welsh Liberal Democrats, so that we as a National Assembly can demonstrate our support for the campaign for the electrification of the north Wales coast line. In doing so, we should acknowledge the success of the cross-party campaign for the electrification of the rail line to Swansea.

Rydym yn derbyn gwelliant y Ceidwadwyr. Mae'r ddadl hon yn amserol iawn wrth i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol symud ymlaen gyda phrosiect high speed 2. Yn wir, yr wythnos hon, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei bod wedi dynodi Crewe fel canolfan y prosiect.

We will accept the Conservative amendment. This debate is very timely as the UK Government progresses with the high speed 2 project. Indeed, just this week, the Westminster Government announced that it has decided to designate Crewe as a centre for that project.

Mae pob Aelod yn ymwybodol, wrth inni gymharu perfformiad economaidd y gogledd, bod y sefyllfa ar hyn o bryd yn achosi cryn bryder.

Every Member will be aware, as we compare the economic performance of north Wales, that the situation at present is a cause for some concern.

Discussions in north Wales over recent months, in which the Minister with responsibility for transport has played a part, show that the feeling in north Wales is that the electrification of the north Wales coast line would provide an economic boost for the region. It is worth noting that since the creation of the National Assembly for Wales in 1999, the Welsh economy has grown by 54%. However, while the economy in north-east Wales has, at times, been referred to as the engine house of the Welsh economy, over

Dengys trafodaethau yn y gogledd dros y misoedd diwethaf, y mae'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth wedi bod yn rhan ohonynt, mai'r farn gyffredinol yn y gogledd yw y byddai trydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd yn rhoi hwb economaidd i'r rhanbarth. Mae'n werth nodi, ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, fod economi Cymru wedi tyfu 54%. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith y cyfeiriwyd at yr economi yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ar adegau, fel peiriandy economi Cymru, dros y

the last 12 years, the economy of north Wales as a whole has only had a growth rate of 51%. There are concerns about the competitiveness of the region's economy.

12 mlynedd diwethaf, dim ond cyfradd twf o 51% a welwyd yn economi gogledd Cymru gyfan. Mae pryderon ynghylch natur gystadleuol economi'r rhanbarth.

The gap in growth could be exacerbated. The electrification of the south Wales line, which we all welcome, along with the associated infrastructure boost if a regional metro is developed, will help improve the economy of south Wales by growing connectivity. The same could be said of the north-west of England as far as the development of the HS2 project is concerned.

Gallai'r bwlch mewn twf waethygu. Bydd trydaneiddio'r rheilffordd yn y de, y mae pob un ohonom yn ei groesawu, ynghyd â'r hwb cysylltiedig i'r seilwaith os caiff metro rhanbarthol ei ddatblygu, yn helpu i wella economi'r de drwy wella cysylltedd. Gallai'r un peth fod yn wir yng ngogledd-orllewin Lloegr o ran y gwaith o ddatblygu prosiect HS2.

North Wales needs similar investment to ensure that it is able to contribute to our economic recovery in Wales. An electrified north Wales line would reduce journey times not only within north Wales but also to major economic centres outside of Wales, such as Liverpool, Birmingham and Manchester. That would encourage investment across our region and strengthen the region's economy. It is worth noting that a recent Taith report stated that of the 190,000 passenger journeys from Wrexham station, for example, 160,000 were to regional centres at Liverpool, Manchester, Chester and London. That is in no way an attempt to undermine our integrity as a Welsh nation, but we must face economic reality.

Mae angen gwneud buddsoddiad tebyg yng ngogledd Cymru er mwyn sicrhau y gall helpu i adfer yr economi yng Nghymru. Byddai rheilffordd drydanol yn y gogledd yn lleihau amseroedd teithio nid yn unig yn y gogledd ond hefyd i'r prif ganolfannau economaidd y tu allan i Gymru, megis Lerpwl, Birmingham a Manceinion. Byddai hynny'n annog buddsoddiad ar draws ein rhanbarth ac yn cryfhau economi'r rhanbarth. Mae'n werth nodi bod adroddiad diweddar gan Taith wedi datgan, o blith y 190,000 o deithiau a wnaed o orsaf Wrecsam, er enghraifft, fod 160,000 ohonynt i ganolfannau rhanbarthol yn Lerpwl, Manceinion, Caer a Llundain. Nid yw hynny mewn unrhyw ffordd yn ymgais i danseilio ein hundod fel cenedl, ond rhaid inni wynebu realiti economaidd.

Currently, Llandudno to London is roughly a three-and-a-half-hour journey. It is important that, with our linkages to Crewe, if we are able to take advantage of the high speed 2 link, which is already a magnet for investment for the areas near the network, we must have an efficient rail infrastructure that links north Wales to that high-tech rail system.

Ar hyn o bryd, mae'r daith o Landudno i Lundain yn cymryd tua thair awr a hanner. Mae'n bwysig, o ystyried ein cysylltiadau â Crewe, er mwyn inni allu manteisio ar gyswllt high speed 2, sydd eisoes yn denu llawer o fuddsoddiad i'r ardaloedd gerllaw'r rhwydwaith, fod gennym seilwaith rheilffyrdd effeithlon sy'n cysylltu gogledd Cymru â'r system reilffyrdd uwch-dechnoleg honno.

Many Members have previously referred to the economic weaknesses of north-west Wales in particular. The infrastructure investment that we hope will be forthcoming for Anglesey would be helped by that infrastructure in north Wales. It is worth noting that in the 1970s, before a decision was taken by the then UK Government to concentrate Irish container traffic at

Mae llawer o Aelodau wedi cyfeirio'n flaenorol at wendidau economaidd y gogledd-orllewin Cymru yn benodol. Byddai'r seilwaith hwnnw yn y gogledd yn helpu'r buddsoddiad yn y seilwaith yr ydym yn gobeithio ei weld yn Ynys Môn. Mae'n werth nodi yn y 1970au, cyn i Lywodraeth y DU ar y pryd benderfynu gwneud Lerpwl yn ganolbwynt i draffig amlwyth o Iwerddon,

Liverpool, 20 freight trains a day operated on the north Wales coastline. That figure currently stands at just one a week.

fod 20 o drenau nwyddau yn rhedeg ar hyd arfordir y gogledd bob dydd. Dim ond un tren nwyddau yr wythnos sy'n rhedeg ar hyn o bryd.

Our purpose for north Wales in bringing forward this debate is to give the Assembly and the Minister for transport the chance to emulate the successful campaign for electrification fought in south Wales. That campaign was delivered as a result of concerted effort by all of the political parties in the Assembly, by civic society and by academics to ensure that there was a robust business case. The campaign was cross-institutional and cross-party. As a result, a compelling case was created for electrification and its economic impact. Strong cross-party support in the Chamber would help boost our case.

Ein nod ar gyfer y gogledd wrth gyflwyno'r ddadl hon yw rhoi'r cyfle i'r Cynulliad a'r Gweinidog trafnidiaeth efelychu'r ymgyrch lwyddiannus dros drydaneiddio a welwyd yn y de. Llwyddodd yr ymgyrch honno yn sgil ymdrech ar y cyd gan yr holl bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad, y gymdeithas ddinesig ac academyddion i sicrhau bod achos busnes cadarn. Roedd yr ymgyrch yn un draws-sefydliadol a thrawsbleidiol. O ganlyniad, crëwyd achos cryf dros drydaneiddio a'i effaith economaidd. Byddai cefnogaeth drawsbleidiol gref yn y Siambr yn helpu i roi hwb i'n hachos.

5.00 p.m.

5.00 p.m.

There is also a need to ensure that a message is given that the Assembly's purpose is concern for the whole of Wales. There will be major infrastructure investment in the south of the country over the next 10 or 15 years. If we are to maintain the integrity of this institution, there is a need for us also to show that we fight for infrastructure improvement in north Wales as well. The case will not be an easy one. It will be difsficult to reach the level of robustness that would need to be satisfied in the business case for the investment in infrastructure that we have set out to achieve. However, our hope in bringing this motion forward is that the Welsh Minister, in concert with UK Ministers, can ensure that this project is delivered for the benefit of north Wales, and that the work to put forward that case is started as soon as possible.

Mae hefyd angen cyfleu neges bod y Cynulliad yn gweithredu dros Gymru gyfan. Bydd buddsoddi helaeth yn seilwaith y de dros y 10 neu 15 mlynedd nesaf. Er mwyn inni sicrhau uniondeb y sefydliad hwn, mae angen inni hefyd ddangos ein bod yn brwydro dros wella seilwaith y gogledd yn ogystal. Ni fydd yr achos yn un hawdd. Bydd yn anodd sicrhau'r lefel o gadernid y byddai ei hangen yn yr achos busnes i sicrhau'r buddsoddiad mewn seilwaith yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Fodd bynnag, ein gobaith wrth gyflwyno'r cynnig hwn yw y gall Gweinidog Cymru, ar y cyd â Gweinidogion y DU, sicrhau y caiff y prosiect ei gyflwyno er budd y gogledd, ac y caiff y gwaith o gyflwyno'r achos hwnnw ei ddechrau cyn gynted â phosibl.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert at the end of motion:*

*'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda'r bwriad o gyflawni hynny.'*

*'and calls on the Welsh Government to work with the Secretary of State for Wales with a view to achieving that end.'*

**Byron Davies:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

We welcome this debate and thank the Welsh Liberal Democrats for tabling it. Much like the south Wales electrification campaign, it is extremely important that we work across party divides, across borders and across the tiers of our democracy. With this partnership in mind, we table the amendment before you to emphasise the importance of collaboration between the Welsh Government and the Wales Office if we are to produce a sound business case and organise enough support to lobby in London for the finance. This worked for electrification in south Wales to Swansea, and I am sure that it can be done in this instance.

Croesawn y ddadl hon a diolchaf i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am ei chyflwyno. Yn debyg iawn i'r ymgyrch dros drydaneiddio yn y de, mae'n hynod bwysig ein bod yn gweithio ar draws rhaniadau pleidiol, ar draws ffiniau ac ar draws haenau ein democratiaeth. O ystyried y bartneriaeth hon, cyflwynwn y gwelliant er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru os ydym am lunio achos busnes cadarn a threfnu digon o gefnogaeth i lobïo yn Llundain dros gyllid. Gweithiodd hyn yn achos trydaneiddio yn y de i Abertawe, ac rwy'n siŵr y gall weithio yn yr achos hwn.

We support this motion wholeheartedly, and hope that you will accept our amendment. It is worth noting that there is already a significant buy-in, as you would expect, in north Wales and across the border, especially among the Cheshire councils. The Secretary of State for Wales has already held meetings with local authorities, Network Rail and other stakeholders to jump-start the initiative and start the campaign to electrify the 105 miles of line. I believe that we stand an excellent chance of securing this investment if we work across government tiers with a cross-party effort, which has proved so successful in the past.

Cefmogwn y cynnig hwn yn llwyr, a gobeithiwn y byddwch yn derbyn ein gwelliant. Mae'n werth nodi, fel y byddech yn disgwyl, fod ymrwymiad sylweddol eisoes wedi'i weld yn y gogledd a thros y ffin, yn enwedig ymhlith cynghorau Swydd Gaer. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru eisoes wedi cynnal cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol, Network Rail a rhanddeiliaid eraill er mwyn rhoi'r fenter ar ben ffordd a dechrau'r ymgyrch i drydaneiddio'r 105 o filltiroedd o reilffordd. Credaf ein bod mewn sefyllfa ardderchog i sicrhau'r buddsoddiad hwn os byddwn yn gweithio ar draws haenau llywodraethol mewn ymdrech drawsbleidiol, a fu mor llwyddiannus yn y gorffennol.

To put the bid in context, the line services the two enterprise zones of Birkenhead and Deeside. Holyhead is an extremely important transport hub not only for Wales and Ireland, but for the UK and the European Union. With regard to future jobs, employment and migration, the island of Anglesey now has a much sounder footing for continuing its nuclear energy programme. This will support growth across north Wales.

Er mwyn rhoi'r cynnig hwn yn ei gyd-destun, mae'r rheilffordd yn gwasanaethu dwy arfal fenter, sef Penbedw a Glannau Dyfrdwy. Mae Caergybi yn ganolfan drafnidiaeth hynod bwysig nid yn unig i Gymru ac Iwerddon, ond i'r DU a'r Undeb Ewropeaidd. O ran swyddi, cyflogaeth a mudo yn y dyfodol, mae Ynys Môn bellach mewn sefyllfa gadarnach o lawer o ran parhau â'i rhaglen ynni niwclear. Bydd hyn yn cefnogi twf ar draws y gogledd.

It is also worth noting, in the context of this debate, that the timetable for signalling improvements on the north Wales line is an extremely important first step towards electrification. Yesterday's detailed announcement by Network Rail will see significant investment over coming years in rail improvements and a modern and far more efficient signalling system, which are both

Mae hefyd yn werth nodi, yng nghyd-destun y ddadl hon, fod yr amserlen ar gyfer gwella signalau ar reilffordd y gogledd yn gam cyntaf hynod bwysig tuag at drydaneiddio. Bydd y cyhoeddiad manwl a wnaed gan Network Rail ddoe yn arwain at fuddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd nesaf i wella'r rheilffyrdd a chreu system signalau fodern a mwy effeithlon o lawer, sydd ill dau yn

essential first steps towards electrification.

gamau cyntaf hanfodol tuag at drydaneiddio.

Following this motion, we, as a legislature, need to get behind the bid in words and action. More importantly, I suggest that the Welsh Government needs to start putting together a business case with the Wales Office and other partners. As an Assembly Member who represents the Swansea area, I recall only too well the numerous meetings, the lobbying and the cross-party support that went into lobbying for the extension of electrification to Swansea. We have secured the investment in south Wales, and I see no reason why, with the same commitment, energy and determination, we cannot do the same in the north. It is time to start getting our ducks in a row for the next high-level output specification. It may be some time away, but the sooner we start lobbying, the greater the weight in the end.

Yn dilyn y cynnig hwn, mae angen i ni, fel deddfwrfa, gefnogi'r cynnig mewn gair a gweithred. Yn bwysicach na dim, awgrymaf y dylai Llywodraeth Cymru ddechrau llunio achos busnes ar y cyd â Swyddfa Cymru a phartneriaid eraill. Fel Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli ardal Abertawe, cofiaf yn rhy dda y cyfarfodydd lu, y lobïo a'r gefnogaeth drawsbleidiol a fu'n rhan o'r lobïo dros ymestyn trydaneiddio i Abertawe. Rydym wedi sicrhau buddsoddiad yn y de, ac ni welaf unrhyw reswm pam, gyda'r un ymrwymiad, brwdfrydedd a phenderfyniad, na allwn wneud yr un peth yn y gogledd. Mae'n bryd inni roi trefn ar bethau yn barod ar gyfer y fanyleb allbwn lefel uchel nesaf. Gall fod yn beth amser i ffwrdd, ond gorau po gyntaf y dechreuwn lobïo.

The people of north Wales need faster and more comfortable trains than the existing diesel trains, of that there is no doubt. This motion, and the electrification of the north Wales line, has the strongest support of the Welsh Conservatives. Let us make it happen. I look forward to an energetic consensus in the Chamber.

Mae angen trenau cyflymach a mwy cyfforddus ar bobl y gogledd na'r rhai diesel presennol, nid oes dwywaith am hynny. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r cynnig hwn i'r carn, felly hefyd drydaneiddio rheilffordd y gogledd. Gadewch inni wireddu hynny. Edrychaf ymlaen at gonsensws egnïol yn y Siambr.

**Eluned Parrott:** The case for electrification of the north Wales line is, to me, compelling for all of the reasons that we discussed when we successfully lobbied for the south Wales and Valleys lines to be electrified. The day we won was one of the proudest moments of my very short career to date; when we all stood together as a group and put forward a united front, we won, and this is an opportunity for us to do the same again. In so many ways, the case for north Wales is even more compelling than it is for south Wales and the Valleys. The travel distances and travel times are often greater in the north, the road network is less developed in places and is under at least as much pressure for freight and passenger use, and there are many economically and socially isolated rural communities in north Wales. This is an opportunity to support a project that will support many of the Welsh Government's priorities in terms of its objectives for transport in Wales, as well as those of every other party here. The objective we have is to

**Eluned Parrott:** Mae'r achos dros drydaneiddio rheilffordd y gogledd yn un diwrthdro, yn fy marn i, a hynny am y rhesymau a drafodwyd gennym pan wnaethom lobïo'n llwyddiannus dros drydaneiddio rheilffyrdd y de a'r Cymoedd. Y diwrnod hwnnw, pan enillwyd y frwydr, oedd un o adegau balchaf fy ngyrfa fer hyd yma; pan ddaeth pob un ohonom ynghyd i sefyll fel un, ac ennill, ac mae hwn yn gyfle inni wneud yr un peth eto. Mae'r achos dros y gogledd hyd yn oed yn fwy grymus na'r achos dros y de a'r Cymoedd, a hynny mewn cymaint o ffyrdd. Mae'r pellteroedd teithio a'r amseroedd teithio yn aml yn fwy yn y gogledd, mae'r rhwydwaith ffyrdd yn llai datblygedig mewn mannau ac yn wynebu'r un pwysau os nad mwy o ran cludo nwyddau a defnydd gan deithwyr, ac mae sawl cymuned wledig economaidd a chymdeithasol ynysig yn y gogledd. Dyma gyfle i gefnogi prosiect a fydd yn cefnogi nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran ei hamcanion ar gyfer trafnidiaeth yng

use transport to make us an economically stronger country.

Nghymru, yn ogystal â rhai pob plaid arall yma. Ein nod yw defnyddio trafnidiaeth i sicrhau ein bod yn wlad gryfach yn economaidd.

Once the initial investment has taken place, electrification will save money. The running costs of modern electric trains are much lower than those of the old diesel ones; they have lower maintenance and fuel costs, and it even applies to wear and tear. However, the point that is really important to me is that carbon dioxide emissions are more than 25% lower for electric trains than they are for diesel trains. That is crucially important when we are seeing increased usage of our rail network, particularly with passenger numbers growing and projected to grow even further.

Unwaith y gwneir y buddsoddiad cychwynnol, bydd trydaneiddio yn arbed arian. Mae costau rhedeg trenau trydan modern yn llawer is na'r hen rai diesel hynny; mae ganddynt gostau cynnal a chadw a thanwydd is, ac mae hyd yn oed yn berthnasol i draul. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig imi mewn gwironedd yw bod trenau trydan yn cynhyrchu fwy na 25% yn llai o allyriadau carbon deuocsid na threnau diesel. Mae hynny'n hanfodol bwysig wrth inni weld mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'n rhwydwaith rheilffyrdd, ac wrth i nifer y teithwyr yn enwedig gynyddu, a pharhau i wneud hynny yn ôl pob tebyg.

I have mentioned the development of the strongest possible business case. That is absolutely critical, because we will have to fight against other regions and nations of this country to get what we need. Any business case for north Wales electrification will be bolstered by the development of a strategic freight network and by thinking carefully about how we can expand and improve the network, and not just electrify it. It is telling that the freight network in north Wales is now reduced to one freight train per week; that is truly shocking on a route that ought to be a strategic network that takes us to one of Wales's most important ports, and what ought to be one of the UK's most important ports, and across to Dublin.

Rwyf wedi sôn am ddatblygu'r achos busnes cryfaf posibl. Mae hynny'n hollbwysig, oherwydd bydd yn rhaid inni frwydro yn erbyn rhanbarthau a gwledydd eraill Prydain er mwyn cael yr hyn sydd ei angen arnom. Caiff unrhyw achos busnes dros drydaneiddio'r gogledd ei ategu drwy ddatblygu rhwydwaith cludo nwyddau strategol a thrwy feddwl yn ofalus am sut y gallwn ehangu a gwella'r rhwydwaith, ac nid dim ond ei drydaneiddio. Mae'n arwyddocaol bod y rhwydwaith cludo nwyddau yn y gogledd bellach wedi'i gyfyngu i un trên nwyddau yr wythnos; mae hynny'n wirioneddol syfrdanol ar lwybr a ddylai fod yn rhwydwaith strategol sy'n mynd â ni o un o borthladdoedd pwysicaf Cymru, a'r hyn a ddylai fod yn un o borthladdoedd pwysicaf y DU, dros y môr i Ddulyn.

Electrification makes this a more viable option, but there are basic infrastructure things that need to be done, and the business case will have to take into account that one of the things that makes freight difficult is the existing bottlenecks, which will need to be tackled. We have done that in south Wales, where bottlenecks and signalling issues are being tackled. We need to work proactively with Network Rail, the Wales Office and colleagues elsewhere to make sure that it is not just about the electrification of a single passenger line, but that we are looking at how that line is going to interact with things like

Mae trydaneiddio yn golygu bod hyn yn opsiwn mwy ymarferol, ond mae pethau sylfaenol y mae angen eu gwneud o ran seilwaith, a bydd yn rhaid i'r achos busnes ystyried y ffaith mai un o'r pethau sy'n gwneud cludo nwyddau yn anodd yw'r tagfeydd presennol, y bydd angen mynd i'r afael â hwy. Rydym wedi gwneud hynny yn y de, lle eir i'r afael â thagfeydd a materion yn ymwneud signalau. Mae angen inni weithio'n rhagweithiol gyda Network Rail, Swyddfa Cymru a chyd-aelodau mewn mannau eraill er mwyn sicrhau nad trydaneiddio un rheilffordd i deithwyr a

HS2 at Crewe and freight networks in the north of England.

wneir yn unig, ond ein bod yn ystyried sut y bydd y rheilffordd honno'n rhyngweithio â phethau fel HS2 yn Crewe a rhwydweithiau cludo nwyddau yng ngogledd Lloegr.

One of the issues that needs to be raised is how we can create a strong case for European funding through the trans-European transport network programme. This is an opportunity that we need to investigate. The current route through the south is the preferred one, but clearly this is a strategic route that we need to investigate in terms of TEN-T as well. The links within the UK and the links from the UK to Europe, through Dublin and back, and through the Channel Tunnel onto the mainland, are important.

Un o'r materion y mae angen ei godi yw sut y gallwn greu achos cryf dros gael arian Ewropeaidd drwy raglen rhwydwaith trafnidiaeth draws-Ewropeaidd. Mae hwn yn gyfle y mae angen inni ymchwilio iddo. Y llwybr presennol drwy'r de yw'r un a ffefrir, ond yn amlwg mae hwn yn llwybr strategol y mae angen inni ymchwilio iddo yn nhermau TEN-T yn ogystal. Mae'r cysylltiadau o fewn y DU a'r cysylltiadau o'r DU i Ewrop, drwy Ddulyn ac yn ôl, a thrwy Dwnnel y Sianel ar y tir mawr, yn bwysig.

This is an incredibly exciting time to be a transport geek in Wales. I cast no aspersions elsewhere. I am outing myself, but feel free to join me. The south Wales electrification, as I have said, was one of the proudest things that we have achieved in this Assembly term. Imagine the transformative effect of getting the same agreement for the north Wales coast. Imagine using this electrification as an opportunity to drive economic improvement and social integration across the north Wales coast, to reach out to parts of north-west Wales that feel that they have been forgotten. We have not forgotten you; now is the time to show that.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i unrhyw un sy'n gwirioni ar drin a thrafod trafnidiaeth yng Nghymru. Nid wyf yn bwrw sen ar neb arall. Rwy'n cyfaddef fy mod yn un o'r wirion hynny, ond mae croeso ichi ymuno â mi. Trydaneiddio'r de, fel y dywedais, oedd un o'r pethau balchaf yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Dychmygwch effaith drawsnewidiol sicrhau'r un cytundeb ar gyfer arfordir y gogledd. Dychmygwch ddefnyddio'r gwaith trydaneiddio hwn fel cyfle i sbarduno gwelliant economaidd ac integreiddio cymdeithasol ledled arfordir y gogledd, i ymestyn i rannau o'r gogledd-orllewin sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hanghofio. Nid ydym wedi anghofio amdanoch; nawr yw'r amser i ddangos hynny.

**Kenneth Skates:** The case for electrification of the north Wales main line between Crewe, Chester and Holyhead and the need for a viable interface with the new high speed 2 line represent some of the most vital strategic infrastructure projects for our future. These are projects that could help significantly boost, if not transform, the economic landscape of north Wales in the twenty-first century just as the original north Wales main line did in the mid nineteenth century. Indeed, much has been said already about the significance and historical importance of the north Wales main line, and this is true. So important was it a hundred years ago to passenger, mail and freight traffic between Britain and Ireland, that the world's very first

**Kenneth Skates:** Mae'r achos dros drydaneiddio prif reilffordd y gogledd rhwng Crewe, Caer a Chaergybi a'r angen am ryngwyneb hyfyw â'r rheilffordd cyflym newydd ymhlith rhai o'r prosiectau seilwaith mwyaf hanfodol ar gyfer ein dyfodol. Mae'r rhain yn brosiectau a allai helpu i roi hwb sylweddol i dirlun economaidd y gogledd yn yr unfed ganrif ar hugain, os nad ei drawsnewid, yn union fel y gwnaeth prif reilffordd wreiddiol y gogledd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, mae llawer wedi'i ddweud eisoes am arwyddocâd a phwysigrwydd hanesyddol prif reilffordd y gogledd, ac mae hyn yn wir. Cymaint oedd ei bwysigrwydd ganrif yn ôl i deithwyr, y post a chludwyr nwyddau rhwng Prydain ac

experimental and operational water troughs were installed between Colwyn Bay and Llandudno Junction to enable trains carrying mail to continue without stopping for water.

Iwerddon, fel bod cafnau dŵr arbrofol a gweithredol cyntaf y byd wedi'u gosod rhwng Bae Colwyn a Chyffordd Llandudno er mwyn i drenau a oedd yn cludo'r post gael parhau heb stopio am ddŵr.

Of course, right now across the UK the face of rail is changing rapidly. When completed, high speed 2 will allow passengers to travel from London to Birmingham in just 49 minutes. Electrification of the south Wales main line will cut the average journey time from Paddington to Swansea by 20 minutes. When completed, the new fleet of electric trains servicing the electrified Valleys lines will facilitate a 20% improvement on timetabled journeys between the Valleys and Cardiff. The new £500 million investment into the western link to Heathrow will provide a new international gateway to south Wales and transform the perception of the area as a place to invest. All these developments mean that improvements to the road and rail network in north Wales are vital to ensuring that the region is not left behind.

Wrth gwrs, ar hyn o bryd ledled y DU mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn newid yn gyflym. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y gwasanaeth cyflym newydd yn galluogi teithwyr i deithio o Lundain i Birmingham mewn cyn lleied â 49 munud. Bydd trydaneiddio prif reilffordd y de yn lleihau'r amser teithio cyfartalog o Paddington i Abertawe 20 munud. Pan fyddant wedi chwblhau, bydd y fflyd newydd o drenau trydan sy'n gwasanaethu rheilffyrdd wedi'u trydaneiddio y Cymoedd yn helpu i wella teithiau a amserlenwyd rhwng y Cymoedd a Chaerdydd 20%. Bydd y buddsoddiad £500 miliwn newydd yn y cyswllt gorllewinol â Heathrow yn cynnig porth rhyngwladol newydd i dde Cymru ac yn trawsnewid y canfyddiad o'r ardal fel lle i fuddsoddi ynddo. Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn golygu bod gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd yn y gogledd yn hanfodol i sicrhau na chaiff y rhanbarth ei adael ar ei hôl hi.

Right now, businesses are making strategic decisions and laying the important groundwork about where to invest in the medium to long term in the event of an economic upturn. With ambitious—

Ar hyn o bryd, mae busnesau yn gwneud penderfyniadau strategol ac yn gosod sylfeini pwysig o ran ble i fuddsoddi yn y tymor canolig a'r tymor hir pan fu adferiad economaidd. Gyda chynllunio uchelgeisiol—

**Nick Ramsay:** I agree completely with everything you have just said. Do you welcome the role of the UK coalition Government in helping to facilitate all these technological advances that leap into the new world?

**Nick Ramsay:** Cytunaf yn llwyr â phopeth yr ydych newydd ei ddweud. A ydych yn croesawu rôl Llywodraeth glymblaid y DU o ran helpu i hwyluso'r holl ddatblygiadau technolegol hyn sy'n torri tir newydd?

**Kenneth Skates:** I am delighted that it was Labour's Andrew Adonis who made the announcement regarding electrification of the Great Western main line. I am shocked that the coalition Government has decided to allow increases of 5.9% on average in rail fares. However, we are trying to get a cross-party consensus on electrification of the north Wales main line. I think that is essential.

**Kenneth Skates:** Rwy'n falch mai'r Aelod Llafur Andrew Adonis a wnaeth y cyhoeddiad ynghylch trydaneiddio prif reilffordd Great Western. Synnaf fod y Llywodraeth glymblaid wedi penderfynu caniatáu cynnydd cyfartalog o 5.9% mewn tocynnau trên. Fodd bynnag, rydym yn ceisio cael consensws trawsbleidiol ynghylch trydaneiddio prif reilffordd y gogledd. Credaf fod hynny'n hanfodol.

With ambitious plans to extend high-speed rail to areas such as Birmingham, Leeds,

Gyda chynlluniau uchelgeisiol i ymestyn rheilffyrdd cyflym i ardaloedd megis

Manchester and south Wales, it is inevitable that investment and jobs will migrate to those more accessible areas should north Wales not be in a position to develop an electrified line. This is something already acknowledged by the Secretary of State and, as Aled Roberts has outlined, the stakes are very big. This is why welcome today the statement from the Minister, Carl Sargeant, that states a commitment to the robust development of a business case. In his statement, the Minister rightly recognises a need for effective cross-border links between north Wales and the rest of the UK. As mentioned by Aled Roberts already, the Mersey Dee region of north Wales, Cheshire and the Wirral is crucial. It is a linked-in economy comprising of some 380,000 jobs, and 27,000 registered companies, 700 of which have a turnover of more than £1 million, and, together, they contribute £15 billion to the wider economy. The prospect of putting this at risk if north Wales has, in perception or reality, fallen behind its south Wales or midlands partners in terms of economic competitiveness, is a concerning one, not just for those who live in north Wales, but elsewhere and beyond.

Birmingham, Leeds, Manceinion a de Cymru, mae'n anochel y bydd buddsoddiad a swyddi yn symud i'r ardaloedd hynny sy'n fwy hygyrch os na fydd gogledd Cymru mewn sefyllfa i ddatblygu rheilffordd wedi'i thrydaneiddio. Mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes wedi'i gydnabod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, fel yr amlinellodd Aled Roberts, mae llawer yn y fantol. Dyna pam ein bod yn croesawu heddiw y datganiad gan y Gweinidog, Carl Sargeant, sy'n datgan ymrwymiad i ddatblygu achos busnes cadarn. Yn ei ddatganiad, mae'r Gweinidog yn cydnabod, a hynny'n gwbl gywir, bod angen cysylltiadau trawsffiniol effeithiol rhwng gogledd Cymru a gweddill y DU. Fel y crybwyllwyd eisoes gan Aled Roberts, mae rhanbarth Mersi Dyfrdwy o ogledd Cymru, Swydd Gaer a Chilgwri yn hollbwysig. Mae'n economi gysylltiedig sy'n cynnwys tua 380,000 o swyddi a 27,000 o gwmnïau cofrestredig, y mae gan 700 ohonynt drosiant o fwy na £1 filiwn, a, chyda'i gilydd, maent yn cyfrannu £15 biliwn at yr economi ehangach. Mae'r posibilrwydd o beryglu hyn os canfyddir neu os gwelir bod y gogledd ar ei hôl hi o ran cystadleurwydd economaidd o'i chymharu â'i phartneriaid yn y de a chanolbarth Lloegr, yn un sy'n peri pryder, nid yn unig i'r rheini sy'n byw yn y gogledd, ond mewn mannau eraill a thu hwnt.

Of course, I recognise that there is only a limited amount of money to go around. The Welsh Government alone has seen its capital infrastructure budget cut by 40%. I was, therefore, pleased to learn that Network Rail has allocated significant investment to the upgrading of signalling along the north Wales main line. It is fair that Mark Langman, route managing director for Network Rail in Wales, deserves praise for this and his additional efforts to improve the line. Likewise, Iwan Prys-Jones, executive officer for Taith, along with Councillors Mike Priestley and Dilwyn Roberts also deserve recognition for their hard work. However, there is only a small window of opportunity if other areas get a head start on us with regard to electrification and city regions. Recently published data highlights the vital need for ambitious projects such as these in north Wales. We need more high-value, better-paid jobs in the region, as well as a good mix of this employment across the region. North

Wrth gwrs, cydnabyddaf mai dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn unig wedi gweld ei chyllideb seilwaith cyfalaf yn cael ei thorri 40%. Felly, roeddwn yn falch o ddeall bod Network Rail wedi neilltuo buddsoddiad sylweddol i uwchraddio signalau ar hyd prif reilffordd y gogledd. Teg yw dweud bod Mark Langman, rheolwr gyfarwyddwr llwybrau Network Rail yng Nghymru, yn haeddu clod am hyn a'i ymdrechion ychwanegol i wella'r rheilffordd. Yn yr un modd, mae Iwan Prys-Jones, swyddog gweithredol Taith, ynghyd â'r Cynghorwyr Mike Priestley a Dilwyn Roberts hefyd yn haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith caled. Fodd bynnag, dim ond cyfle prin sydd gennym os bydd ardaloedd eraill yn achub y blaen arnom o ran trydaneiddio a dinas-ranbarthau. Mae data a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn tynnu sylw at yr angen hanfodol am brosiectau uchelgeisiol fel y rhain yn y gogledd. Mae angen mwy o swyddi gwerth uchel sy'n cynnig cyflog

Wales's future economic success will rest squarely on our ability to be commercially competitive in the twenty-first century and that depends heavily on having the transport infrastructure we need to compete in the twenty-first century.

gwell yn y rhanbarth, yn ogystal â chymysgedd da o'r gyflogaeth hon ar draws y rhanbarth. Bydd llwyddiant economaidd y gogledd yn y dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar ein gallu i fod yn fasnachol gystadleuol yn yr unfed ganrif ar hugain ac mae hynny'n dibynnu'n fawr ar gael y seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen arnom i gystadlu yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am gael cyfle i gyfrannu heddiw. Mae Plaid Cymru wedi dadlau yn gyson o blaid trydaneiddio rheilffordd y gogledd ers blynyddoedd.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the opportunity to contribute today. Plaid Cymru has argued consistently for the electrification of the north Wales main line for many years.

5.15 p.m.

5.15 p.m.

Byddai trydaneiddio yn golygu gwasanaeth glannach, mwy cynaliadwy, ac, yn y pen draw, gwasanaeth rhatach. Byddai'n dod â'r gwasanaeth yn y gogledd i'r unfed ganrif ar hugain, ac mae hynny'n bwysig, fel y dywedodd Ken Skates, o ran creu delwedd hefyd. Os mai'r ddelwedd yw hen drenau yn rhedeg ar hen drac, nid yw hynny'n rhoi hyder i ddiwydianwyr sy'n chwilio am le i sefydlu busnesau.

Electrification would mean a cleaner, more sustainable service and, ultimately, a cheaper service. It would bring the service in north Wales into the twenty-first century, and that is important, as Ken Skates said, in terms of image creation too. If the image is of old trains, running on old track, that is not going to give confidence to industrialists who are looking for a place to establish businesses.

Wrth groesawu'r cyhoeddiad am drydaneiddio'r lein i Abertawe ac ar hyd rheilffyrdd y Cymoedd, sy'n eithriadol o bwysig i ranbarth y de, galwodd Plaid Cymru yn haf 2012 am drydaneiddio'r gwasanaeth mewn ardaloedd eraill yng Nghymru am y rhesymau sydd wedi cael eu nodi gan bawb y prynhawn yma, ac mae'n dda gweld bod cytundeb.

In welcoming the announcement about the electrification of the line to Swansea and the Valleys lines, which is extremely important to the south Wales region, Plaid Cymru called in the summer of 2012 for electrification in other areas of Wales, for the reasons that have been noted by everyone this afternoon, and it is good to see that there is agreement.

Mae gwariant Network Rail am flynyddoedd 2014-19 bron yn £40 biliwn, ac o hynny mae rhyw £1 biliwn yn dod i Gymru. Mae hynny i'w groesawu, ond nid yw'n fwy na'r hyn y dylem fod yn ei dderbyn o gofio nad oes modfedd o lein wedi cael ei thrydaneiddio yng Nghymru hyd yn hyn. Mae'n rhaid inni godi statws lein y gogledd fel ei bod yn rhan o raglen welliannau y cyfnod nesaf. Mae Ken Skates yn iawn eto i ddweud bod yn rhaid i ni wneud yr achos yn gyflym ac effeithiol, neu byddwn wedi colli'r cwch os nad y trên. Mae'n rhaid inni gofio hefyd y dylem ninnau hefyd gael rhan o'r degau o filiynau hynny o arian sy'n mynd i gael ei wario ar greu cyswllt cyflym rhwng canolbarth Lloegr a

The expenditure of Network Rail for 2014-19 is almost £40 billion, and of that about £1 billion is coming to Wales. That is to be welcomed, but it is not more than what we should be receiving, given that not an inch of line has been electrified in Wales so far. We have to raise the status of the north Wales line so that it is part of the improvement programme for the next period. Ken Skates is again right to say that we must make the case quickly and effectively, or we will have missed the boat if not the train. We must also remember that we should also have a portion of the tens of millions of pounds that are to be spent on creating a high-speed connection between the midlands and London.

Llundain.

Plaid Cymru MEP Jill Evans has called for the potential of European funds to be investigated to see whether they could help to fund the electrification of the north Wales coast line. In particular, the European Union TEN-T fund exists to help finance the trans-European transport network. The north Wales corridor is a key part of that network as it facilitates connection between the UK, Wales and Ireland, but, crucially, the north Wales rail link is not designated as part of the network. That is barely credible, but that is the position as it stands, and it is also a weakness that has to be rectified.

Mae ASE Plaid Cymru Jill Evans wedi galw am ymchwilio i botensial cronfeydd Ewropeaidd er mwyn gweld a allent helpu i ariannu'r gwaith o drydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd. Yn benodol, mae cronfa TEN-T yr Undeb Ewropeaidd yn bodoli er mwyn helpu i ariannu rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd. Mae coridor gogledd Cymru yn rhan allweddol o'r rhwydwaith gan ei fod yn hwyluso cysylltiad rhwng y DU, Cymru ac Iwerddon, ond, yn hollbwysig, nid yw cyswllt rheilffordd gogledd Cymru wedi'i ddynodi'n rhan o'r rhwydwaith. Mae'n anodd credu hynny, ond dyna'r sefyllfa fel y mae, ac mae hefyd yn wendid y mae'n rhaid ei unioni.

Plaid Cymru has asked the Secretary of State for Wales to work with his colleagues in the Department for Transport to access these European funds for the north Wales line. Beyond February, the Connecting Europe Facility could offer long-term finance opportunities for electrification, especially if we emphasise the importance of those trade links to Ireland. It is important to Ireland to have those trade links with the rest of the UK and Europe.

Mae Plaid Cymru wedi gofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru weithio gyda'i gyd-Weinidogion yn yr Adran Drafnidiaeth er mwyn cael gafael ar y cronfeydd Ewropeaidd hyn ar gyfer rheilffordd y gogledd. Ar ôl mis Chwefror, gallai Cyfleuster Cysylltu Ewrop gynnig cyfleoedd cyllid hirdymor ar gyfer trydaneiddio, yn enwedig os byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd y cysylltiadau masnachu hynny ag Iwerddon. Mae'n bwysig i Iwerddon feithrin y cysylltiadau masnach hynny â gweddill y DU ac Ewrop.

Accessing European funds for transport is the responsibility of the UK Government, but it is also something that the National Assembly for Wales and the Welsh Government should be calling for. It is very welcome news that the Welsh Government has committed to preparing a robust business case for the north Wales line, and I look forward to seeing it being produced in due course. We support the motion and the amendment for the two Governments to agree that north Wales electrification is a priority, and to secure a commitment as soon as possible that it will go ahead.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gwneud cais am gronfeydd Ewropeaidd ar gyfer trafnidiaeth, ond mae hefyd yn rhywbeth y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru fod yn galw amdano. Mae'n galonogol iawn clywed bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i baratoi achos busnes cadarn ar gyfer rheilffordd y gogledd, ac edrychaf ymlaen at ei weld yn cael ei lunio maes o law. Cefnogwn y cynnig a'r gwelliant y dylai'r ddwy Lywodraeth gytuno bod trydaneiddio'r gogledd yn flaenoriaeth, a sicrhau ymrwymiad i gyflawni hynny cyn gynted â phosibl.

**Mark Isherwood:** Speaking in the Senedd last May, Cheryl Gillan MP, then Secretary of State for Wales, stated,

**Mark Isherwood:** Wrth siarad yn y Senedd fis Mai diwethaf, dywedodd Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru,

'I fought for electrification of the railway line to Cardiff, and I can assure you that I am fighting very hard to ensure that the Prime Minister's statement that we intend to

Brwydrais dros drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd, a rhoddaf sicrwydd ichi fy mod yn brwydro'n galed iawn i sicrhau y bydd datganiad y Prif Weinidog o'n bwriad i

electrify the Valleys lines comes to fruition.'

drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd yn dwyn ffrwyth.

Electrification of the rail network in south Wales was confirmed on 16 July as part of a £9.4 billion package of investments in the railways in England and Wales. Electrification to Swansea and across the Valleys lines contrasts with the failure of the previous UK Labour Government to electrify a single centimetre of track in Wales. Across the UK, the former UK Government only electrified nine miles of track in 13 years.

Cadarnhawyd y caiff rhwydwaith rheilffyrdd y de ei drydaneiddio ar 16 Gorffennaf fel rhan o becyn gwerth £9.4 biliwn o fuddsoddiadau yng Nghymru a Lloegr. Mae trydaneiddio'r rheilffyrdd i Abertawe a llinellau'r Cymoedd yn cyferbynnu â methiant Llywodraeth Lafur flaenorol y DU i drydaneiddio unrhyw ran o'r rheilffordd yng yng Nghymru. Ledled y DU, dim ond naw milltir o reilffordd a gafodd ei thrydaneiddio gan Lywodraeth flaenorol y DU mewn 13 mlynedd.

By contrast, the UK coalition Government has delivered the biggest investment in public transport in Wales since Victorian times. Once completed, two-thirds of people in Wales will be served by an electrified train service from their local station in south Wales, but concern was expressed by council leaders in north Wales that electrification missed out our region. However, as Cheryl Gillan said after the announcement,

I'r gwrthwyneb, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi buddsoddi'r swm mwyaf mewn trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ers oes Fictoria. Pan gaiff ei gwblhau, bydd gwasanaeth trên wedi'i drydaneiddio yn gwasanaethu dwy ran o dair o bobl yng Nghymru o'u gorsaf leol yn y de, ond mynegwyd pryder gan arweinwyr cynghorau yn y gogledd nad yw eu rhanbarth wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, fel y dywedodd Cheryl Gillan ar ôl y cyhoeddiad,

'Having achieved record levels of investment in the South Wales rail network my attention is turning to key routes in the north...improved services between Holyhead and London...and improvements to routes between north east Wales, Liverpool and Manchester are critical in connecting businesses and individuals to markets and job opportunities.'

Ar ôl cyflawni'r buddsoddiad mwyaf erioed yn rhwydwaith rheilffyrdd y de, trof fy sylw at lwybrau allweddol yn y gogledd...gwasanaethau gwell rhwng Caergybi a Llundain...ac mae gwelliannau i lwybrau rhwng y gogledd-ddwyrain, Lerpwl a Manceinion yn hanfodol o ran cysylltu busnesau ac unigolion â marchnadoedd a swyddi.

New Secretary of State David Jones agreed that the electrification of the north Wales coast line will help businesses and create jobs, but he politely pointed out that the case first needs to be made for this by politicians, councils and business groups. As he said,

Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol newydd David Jones y bydd trydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd yn helpu busnesau ac yn creu swyddi, ond nododd yn gwrtais fod angen i wleidyddion, cynghorau a grwpiau busnes gyflwyno'r achos dros hyn yn gyntaf. Fel y dywedodd,

'That's why we need to build that business case sooner because we've got to convince Network Rail, we've got to convince the Department of Transport that that is a good investment—which is why we want to start that sooner rather than later.'

Dyna pam mae angen inni lunio'r achos busnes hwnnw yn gynt oherwydd mae'n rhaid inni argyhoeddi Network Rail, mae'n rhaid inni argyhoeddi'r Adran Drafnidiaeth fod hynny'n fuddsoddiad da—felly gorau po gyntaf y byddwn yn dechrau arni.

He emphasised that the decision to extend the upgrade of the south Wales line to Swansea

Pwysleisiodd fod y penderfyniad i ymestyn y gwaith o uwchraddio rheilffordd y de i

and the Valleys was,

'the consequence of a lot of work by various people including the Wales Office, but also crucially Swansea council who put in a very good business case.'

He went on to say that,
'Swansea Council lobbying was vital in securing UK Government backing'

and that a north Wales business case had to be ready in advance of the UK Government's next round of long-term plans for the rail network, called a high-level output specification. He stated that,

'Obviously it's going to be a lengthy process, but we are talking about 105 miles of track from Crewe to Holyhead. The sooner we can start working up a business case, the better. The upgrade would mean faster and more comfortable trains than the existing diesel trains, and could help attract investors to North Wales.'

Speaking ahead of his 23 November meeting with local authority and business leaders in Llandudno, he said,

'There is no doubt in my mind that the benefits electrification would bring to North Wales are considerable. I have already met and had positive discussions with the Secretary of State for Transport and Welsh Government Ministers, National Rail and Local Authority leaders and businesses, and I hope that today's meeting will be the start of a process that will lead to a successful outcome.'

Following that meeting, it was announced that the north Wales economic ambition board would form the nucleus of a group tasked with putting together a business case for the electrification of the north Wales main line, working closely with the Mersey Dee Alliance, Cheshire councils and Taith, the joint committee of the six north Wales county authorities.

As David Jones said,

'We have now started the process which, I

Abertawe a'r Cymoedd,

yn deillio o lawer o waith gan bobl amrywiol, yn cynnwys Swyddfa Cymru, ond hefyd yn hollbwysig gyngor Abertawe a gyflwynodd achos busnes da iawn.

Aeth yn ei flaen i ddweud,
roedd y lobïo gan Gyngor Abertawe yn hanfodol o ran sicrhau cefnogaeth Llywodraeth y DU

ac y byddai'n rhaid i achos busnes ar gyfer y gogledd fod yn barod cyn cylch nesaf Llywodraeth y DU o gynlluniau hirdymor ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd, a elwir yn fanyleb allbwn lefel uchel. Dywedodd,

Yn amlwg bydd yn broses hir, ond rydym yn sôn am tua 105 milltir o reilffordd o Crewe i Gaergybi. Gorau po gyntaf y gallwn ddechrau llunio achos busnes. Byddai'r gwaith uwchraddio yn golygu trenau cyflymach a mwy cyfforddus na'r rhai diesel presennol, a gallai helpu i ddenu buddsoddwyr i Ogledd Cymru.

Wrth siarad cyn ei gyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol a busnes yn Llandudno ar 23 Tachwedd, dywedodd,

Nid oes amheuaeth gennyf y byddai trydaneiddio yn esgor ar fanteision sylweddol i'r gogledd. Rwyf eisoes wedi cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, National Rail ac arweinwyr Awdurdodau Lleol a busnesau ac wedi cael trafodaethau cadarnhaol â hwy, a gobeithiaf y bydd cyfarfod heddiw yn fan cychwyn proses a fydd yn arwain at ganlyniad llwyddiannus.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cyhoeddwyd y byddai bwrdd uchelgais economaidd y gogledd yn ffurfio craidd grŵp â'r dasg o lunio achos busnes dros drydaneiddio prif reilffordd y gogledd, gan weithio'n agos gyda Chynghrair Mersi Dyfrdwy, cynghorau Sir Gaer a Taith, sef cydbwyllgor chwe awdurdod sirol y gogledd.

Fel y dywedodd David Jones,

Rydym bellach wedi dechrau'r broses a fydd,

hope, will result in a strong and robust business case for the electrification of the line from Holyhead to Crewe. This will not be a short process. Nevertheless, this is an important first step and a clear demonstration of the commitment of the business sector and all levels of government in Wales'.

gobeithio, yn arwain at achos busnes cryf a chadarn dros drydaneiddio'r rheilffordd o Gaergybi i Crewe. Ni fydd hon yn broses fer. Serch hynny, mae hwn yn gam cyntaf pwysig ac yn arwydd clir o ymrwymiad y sector busnes a phob lefel o lywodraeth yng Nghymru.

As he stated in his new year message,

Fel y dywedodd yn ei neges flwyddyn newydd,

'With Wales set to benefit directly and indirectly from almost £2 billion from the programme to modernise the rail network it is the most significant infrastructure announcement for Wales for decades.'

O ystyried y ffaith bod Cymru yn debygol o gael budd uniongyrchol ac anuniongyrchol o bron £2 filiwn o'r rhaglen i foderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd, dyma'r cyhoeddiad seilwaith mwyaf arwyddocaol i Gymru ers degawdau.

We must ensure that north Wales is able to put forward the economic advantages that such an investment would undoubtedly bring.

Rhaid inni sicrhau bod y gogledd yn gallu cyflwyno'r manteision economaidd y byddai buddsoddiad o'r fath yn sicr yn eu cynnig.

**Sandy Mewies:** Is this not nice? We seem to be moving forward in the spirit of some sort of consensus, but I would like to remind people that we were talking about the electrification of the north Wales coast line in the Assembly a long time ago. It came up at the enterprise committee; Kirsty Williams will perhaps remember it. South Wales was mentioned and some of us brought up the case for north Wales. This seems to be an opportune time, does it not? We have heard about the announcement from the Minister Carl Sergeant, along with Taith, that the business case will be developed and, rightly, this will build on the previous work, which included the north-east Wales area board transport study, because an integrated system is how to make this a real success for the future.

**Sandy Mewies:** Onid yw hyn yn braf? Ymddengys ein bod yn symud ymlaen mewn rhyw fath o gonsensws, ond hoffwn atgoffa pobl ein bod yn sôn am drydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd yn y Cynulliad amser maith yn ôl. Codwyd y mater yn y pwyllgor menter; efallai y bydd Kirsty Williams yn cofio hynny. Crybwyllwyd y de a chyflwynodd rhai ohonom yr achos dros y gogledd. Onid yw hyn yn amser da? Clywsom am y cyhoeddiad gan y Gweinidog Carl Sergeant, ynghyd â Taith, y caiff yr achos busnes ei ddatblygu ac, yn hollol briodol, bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith blaenorol, a oedd yn cynnwys astudiaeth drafnidiaeth bwrdd ardal y gogledd-ddwyrain, gan fod system integredig yn allweddol i sicrhau bod hyn yn llwyddiant gwirioneddol ar gyfer y dyfodol.

I was also glad to see that, in his statement, the Minister talked about improvements to the north Wales coast main line, but also gave consideration to the rail network in north-east Wales, including the Wrexham to Bidston line, the line from Wrexham to Chester and the line from Chester to Warrington Bank Quay, in order to maximise the social, economic and environmental benefits to the region that will, no doubt, result from modernisation.

Roeddwn hefyd yn falch o weld bod y Gweinidog, yn ei ddatganiad, yn sôn am welliannau i brif reilffordd arfordir y gogledd, ond hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r rhwydwaith rheilffyrdd yn y gogledd-ddwyrain, gan gynnwys y rheilffordd o Wrecsam i Bidston, y rheilffordd o Wrecsam i Gaer a'r rheilffordd o Gaer i Warrington Bank Quay, er mwyn gwneud y gorau o'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r rhanbarth a fydd, heb os, yn deillio o foderneiddio.

The reason that this can move ahead is that the UK Government has agreed that it has the levers to push this forward, and we can work together to see that this is a success. The Welsh Minister and the Welsh Government have made it clear that they are committed to this process and that they are prepared to work with those others who can make it happen.

Y rheswm pam y gellir datblygu hyn yw bod Llywodraeth y DU wedi cytuno bod ganddi'r arfau i ddatblygu hyn, a gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod hyn yn llwyddiant. Mae Gweinidog Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir eu bod yn ymrwymedig i'r broses hon a'u bod yn barod i weithio gydag eraill a all ei gyflawni.

I do not want to look backwards now. We had the announcement yesterday from Network Rail about the re-signalling from Flint to Llandudno. We know that not just business, but the traveller and the taxpayer will benefit from this. Therefore, what I am saying now is that we have looked at the past—Mark Isherwood gave us a good aide memoir, in detail, as to what happened in the past, and to what David Jones is saying—but let us look to the future. I am therefore asking the Minister here to continue to press that. Get on with the business case; do it properly, but get on with it. However, will you make sure that everyone else who is talking about it now does what they can to see that it happens?

Nid wyf am edrych yn ôl yn awr. Clywsom y cyhoeddiad ddoe gan Network Rail am y gwaith o osod signalau newydd o'r Fflint i Landudno. Gwyddom y bydd busnesau, yn ogystal â theithwyr a threthdalwyr yn cael budd o hyn. Felly, yr hyn yr wyf yn ei ddweud yn awr yw ein bod wedi edrych ar y gorffennol—rhoddodd Mark Isherwood grynodeb da a manwl inni o'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol, ac o ran yr hyn y mae David Jones yn ei ddweud—ond gadewch inni edrych i'r dyfodol. Gofynnaf i'r Gweinidog felly barhau i bwyso am hynny. Dylid bwrw ati gyda'r achos busnes; ei wneud yn iawn, ond bwrw ati. Fodd bynnag, a wnewch yn siŵr bod pawb arall sy'n sôn amdano nawr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau y caiff ei gyflawni?

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank the Deputy Presiding Officer and Members for their contributions today. I start by thanking Aled Roberts and the Liberal Democrats for tabling this motion, and I also wish to thank Members for their interesting contributions. I continue to welcome the opportunity to develop the debate on the future of rail in Wales. As a Government, we are increasing our influence over the future of rail in Wales, and we are working to secure direct involvement in the planning and delivery of the modern railway network. Members will be aware from previous debates that the key rail decision-making powers and the responsibility for the funding of the investment lie with the UK Government; however, we are seeking to increase our influence over the rail network and services in Wales, and discussions are under way with Westminster.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolchaf i'r Dirprwy Lywydd a'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Aled Roberts a'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig hwn, a hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelodau am eu cyfraniadau diddorol. Rwy'n parhau i groesawu'r cyfle i ddatblygu'r ddadl ar ddyfodol rheilffyrdd yng Nghymru. Fel Llywodraeth, mae gennym ddylanwad cynyddol dros ddyfodol rheilffyrdd yng Nghymru, ac rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r rhwydwaith rheilffyrdd modern. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol yn sgil dadleuon blaenorol mai Llywodraeth y DU sydd â'r prif bwerau o ran gwneud penderfyniadau ynghylch rheilffyrdd a'r cyfrifoldeb am ariannu'r buddsoddiad, fodd bynnag, rydym yn ceisio cynyddu ein dylanwad dros y rhwydwaith rheilffyrdd a gwasanaethau yng Nghymru, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda San Steffan.

I have already stated my vision for a modern and more effective railway system in Wales. I want to see a modernisation of the north Wales main line, along with improved connectivity to the economic hubs in north-west England. I have already commenced discussions with the Secretary of State for Transport on the importance of the modernisation of the rail network and its key routes. This includes the north Wales main line between Holyhead, Chester and Crewe, the north-south routes to and from Wrexham and Manchester, and direct connections between north Wales and Liverpool.

Rwyf eisoes wedi nodi fy ngweledigaeth ar gyfer system reilffordd fodern a mwy effeithiol yng Nghymru. Rwyf am weld prif reilffordd y gogledd yn cael ei moderneiddio, ynghyd â chysylltiadau gwell â'r canolfannau economaidd yng ngogledd-orllewin Lloegr. Rwyf eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar bwysigrwydd y broses o foderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd, a'i lwybrau allweddol. Mae hyn yn cynnwys prif reilffordd y gogledd rhwng Caergybi, Caer a Crewe, y llwybrau o'r gogledd i'r de ac o Wrecsam a Manceinion, a chysylltiadau uniongyrchol rhwng gogledd Cymru a Lerpwl.

My officials, working directly with the UK Government, are leading the business case appraisal to make the case for these improvements, supported by the wider local government and business communities in north Wales championing the economic case for that investment.

Mae fy swyddogion, gan weithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth y DU, yn arwain y gwaith o werthuso'r achos busnes i gyflwyno'r achos dros y gwelliannau hyn, gyda chefnogaeth y cymunedau llywodraeth leol a busnes ehangach yn y gogledd sy'n hyrwyddo'r achos economaidd dros y buddsoddiad hwnnw.

Amendment 1 calls upon the Welsh Government to work with the Secretary of State for Wales. Of course, I am happy to work with anyone who wants to support our case. However, I must be clear that the Secretary of State for Transport is the Minister responsible for making the investment decision regarding our railways, and our focus must be on making sure that we work together for that modernisation to support our objectives. I am clear that this work should be funded through the UK high-level output specification programme, which makes specific provision to support the development of projects for the next spending period. Unlike the Valleys lines and the Cardiff to Swansea main line, there is plenty of time to draw down funding and complete a successful business case in advance of decisions on investment priorities for the next control period.

Mae gwelliant 1 yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Wrth gwrs, rwy'n barod i weithio gydag unrhyw un sydd am gefnogi ein hachos. Fodd bynnag, rhaid imi fod yn glir mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y penderfyniad ynghylch buddsoddi yn ein rheilffyrdd, a rhaid inni sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn i'r gwaith moderneiddio hwnnw gefnogi ein hamcanion. Rwy'n glir fy meddwl y dylai'r gwaith hwn gael ei ariannu drwy raglen manyleb allbwn lefel uchel y DU, sy'n gwneud darpariaeth benodol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ar gyfer y cyfnod gwario nesaf. Yn wahanol i reilffyrdd y Cymoedd a'r brif reilffordd o Gaerdydd i Abertawe, mae digon o amser i sicrhau cyllid a chwblhau achos busnes llwyddiannus cyn penderfynu ar flaenoriaethau o ran buddsoddi ar gyfer y cyfnod rheoli nesaf.

The Welsh Government has already demonstrated a commitment to rail modernisation in north Wales, and we have invested in our stations to provide interchanges at Bangor, Flint and Rhyl, and the Wales station improvement programme

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos ymrwymiad i foderneiddio rheilffyrdd yn y gogledd, ac rydym wedi buddsoddi yn ein gorsafoedd er mwyn darparu cyfnewidfeydd ym Mangor, y Fflint a'r Rhyl, ac mae cynllun rhaglen gwella gorsafoedd Cymru ar gyfer

scheme for Llandudno is under way. I was recently able to announce funding for a major station improvement at Rhyl, in the constituency of Ann Jones.

Llandudno ar waith. Cefais y cyfle yn ddiweddar i gyhoeddi cyllid ar gyfer gwaith gwella mawr i'r prif orsaf yn y Rhyl, yn etholaeth Ann Jones.

In September 2012, we introduced an enhanced service from Holyhead to Cardiff, which now calls at Wrexham in both directions; and I am delivering on the north-south rail enhancement project, which includes re-doubling the majority of the single track between Wrexham and Saltney, which Members have mentioned today. The construction phase of this project will commence this year. I give way to the Member.

Ym mis Medi 2012, cyflwynwyd gwasanaeth gwell o Gaergybi i Gaerdydd, sydd bellach yn galw yn Wrecsam i'r ddau gyfeiriad; ac rwy'n cyflawni'r prosiect i wella'r rheilffordd o'r gogledd i'r de, sy'n cynnwys ailddyblu'r rhan fwyaf o'r trac sengl rhwng Wrecsam a Saltney, y mae Aelodau wedi sôn amdano heddiw. Bydd cyfnod adeiladu'r prosiect hwn yn dechrau eleni. Ildiaf i'r Aelod.

**Antoinette Sandbach:** I am grateful to the Minister for taking this intervention. One of the key points raised in this debate was the importance of the designation of that rail network in north Wales on the European transport routes. Obviously, the Welsh Government has a role to play in lobbying in respect of that in Europe. Perhaps you could tell us what steps you have taken in that regard.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn yr ymyriad hwn. Un o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y ddadl hon oedd pwysigrwydd cynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd hwnnw yn y gogledd ar y llwybrau trafnidiaeth Ewropeaidd. Yn amlwg, mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae o ran lobïo am hynny yn Ewrop. Efallai y gallech ddweud wrthym pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i'r perwyl hwnnw.

**Carl Sargeant:** That was exactly the right moment to intervene. [*Laughter.*] Modernisation of the north Wales railway will continue the process of improving cross-border links, but we also need to consider the links to the European markets and beyond.

**Carl Sargeant:** Dyna'r union adeg gywir i ymyrryd. *[Chwerthin.]* Bydd moderneiddio rheilffordd y gogledd yn parhau â'r broses o wella cysylltiadau trawsffiniol, ond mae angen inni hefyd ystyried y cysylltiadau â'r marchnadoedd Ewropeaidd a thu hwnt.

5.30 p.m.

5.30 p.m.

The trans-European network corridor in Wales is important, and we need to ensure that we have the infrastructure in place to support improved connectivity and growth. The important point that the Member raised, which many other Members have raised, is something that many officials are aware of, and we are taking that forward.

Mae coridor y rhwydwaith traws-Ewropeaidd yng Nghymru yn bwysig, ac mae angen inni sicrhau bod gennym y seilwaith i gefnogi gwell cysylltedd a thwf. Mae'r pwynt pwysig a godwyd gan yr Aelod, y mae sawl Aelod arall wedi ei godi, yn rhywbeth y mae llawer o swyddogion yn ymwybodol ohono, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny.

**Darren Millar:** I have just a brief intervention. You mentioned the cross-border links, and they are, of course, vital. I would just ask you for an update on discussions that you have had about upgrading the Halton curve, which would enable the re-establishment of a direct link between Liverpool and the north Wales main line, after many years of people not to be able to use that line. You will know that it is a very

**Darren Millar:** Hoffwn wneud ymyriad byr. Soniasoch am y cysylltiadau trawsffiniol ac maent, wrth gwrs, yn hanfodol. Hoffwn ofyn ichi am y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch uwchraddio llinell Halton curve, a fyddai'n golygu y gellid ailsefydlu cyswllt uniongyrchol rhwng Lerpwl a phrif reilffordd y gogledd, ar ôl blynyddoedd lawer lle nad oedd pobl yn gallu defnyddio'r rheilffordd

important link for north Wales that people want to see.

honno. Byddwch yn gwybod ei bod yn gyswllt pwysig iawn i'r gogledd y mae pobl am ei weld.

**The Deputy Presiding Officer:** That was not so brief.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oedd hynny'n fyr.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his intervention. I recognise the importance of the Halton curve. That work is ongoing in my department with the transport team, and I would be happy to update Members regularly on the process of working through the procedure to create the right business environment for the investment.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei ymyriad. Cydnabyddaf bwysigrwydd llinell Halton curve. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo yn fy adran gyda'r tîm trafnidiaeth, a byddwn yn barod i roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau yn rheolaidd am y broses o weithio drwy'r weithdrefn er mwyn creu'r amgylchedd busnes cywir ar gyfer y buddsoddiad.

Along with the work in south-east Wales to electrify the Great Western main line and the Valleys network, a modernised railway in north Wales could form the spine of an integrated transport system. Transport also has a key role to play in the enterprise zones, working across Wales.

Ynghyd â'r gwaith yn ne-ddwyrain Cymru i drydaneiddio prif reilffordd Great Western a rhwydwaith y Cymoedd, gallai rheilffordd wedi'i moderneiddio yn y gogledd ffurfio asgwrn cefn system drafnidiaeth integredig. Mae gan drafnidiaeth hefyd rôl allweddol i'w chwarae yn yr ardaloedd menter, gan weithio ledled Cymru.

In north-east Wales, the priority is to ensure that infrastructure investment supports the important cross-border economic hub of Deeside, Wrexham and Cheshire. This is an important part of the business case too. I want to ensure that we take advantage of the opportunities in north-east Wales, building on the multimodal opportunity highlighted in our recently published north-east Wales area-based transport study. I am therefore setting up a north-east Wales taskforce that will look at the development of integrated transport systems in north-east Wales and across the border, much like the taskforce that I have established in south-east Wales.

Yn y gogledd-ddwyrain, y flaenoriaeth yw sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad mewn seilwaith yn cefnogi canolbwynt economaidd trawsffiniol pwysig Glannau Dyfrdwy, Wrecsam a Sir Gaer. Mae hyn yn rhan bwysig o'r achos busnes hefyd. Rwyf am sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd yn y gogledd-ddwyrain, gan adeiladu ar y cyfle amlfodd a amlygwyd yn ein hastudiaeth drafnidiaeth ddiweddar sy'n seiliedig ar y gogledd-ddwyrain. Rwyf felly yn sefydlu tasglu ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru a fydd yn edrych ar ddatblygiad systemau trafnidiaeth integredig yn y gogledd-ddwyrain ac ar draws y ffin, yn debyg iawn i'r tasglu yr wyf wedi'i sefydlu yn ne-ddwyrain Cymru.

Investment in our rail network has a profound impact on the ways in which we tackle poverty and assist economic growth. I have been very clear about the results that I want for north Wales, and delivering this will require a collaborative effort from Assembly Members, regional consortia, local businesses and all tiers of government. We have shown that, together, we can achieve success. It is now time to do that again.

Mae buddsoddi yn ein rhwydwaith rheilffyrdd wedi cael effaith ddwys ar y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â thlodi ac yn cefnogi twf economaidd. Rwyf wedi bod yn glir iawn ynghylch y canlyniadau yr wyf am eu gweld i'r gogledd, a bydd angen ymdrech ar y cyd gan Aelodau'r Cynulliad, consortia rhanbarthol, busnesau lleol a phob haen o lywodraeth i'w cyflawni. Rydym wedi dangos y gallwn, gyda'n gilydd, gyflawni llwyddiant. Mae bellach yn bryd inni wneud

hynny eto.

**Kirsty Williams:** I thank colleagues for their contributions to this afternoon's important debate and for the tone of those contributions, along with the collective will that I believe exists here in the Assembly to speak with one voice in support of this project and its desirability.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl bwysig y prynhawn yma ac am natur y cyfraniadau hynny, ynghyd â'r ewyllys gyfunol sy'n bodoli yma yn y Cynulliad i siarad fel un llais o blaid y prosiect hwn a'i ddymunoldeb.

I will run briefly through the contributions, and start with that of my colleague, Aled Roberts. Aled was, I believe, following in the honourable tradition of Liberal Democrat Members from North Wales who have a very keen interest in the railway system. [*Laughter.*] I am particularly grateful to him for his ability to demonstrate that commitment and interest without referring to toilets on trains or denigrating the Welsh railway system in comparison to those of Germany and Japan.

Soniaf yn fras am y cyfraniadau, gan ddechrau gyda chyfraniad fy nghyd-Aelod, Aled Roberts. Roedd Aled, rwy'n credu, yn dilyn traddodiad anrhydeddus Aelodau Democratiaid Rhyddfrydol o Ogledd Cymru sydd â diddordeb brwd iawn yn y system reilffyrdd. *[Chwerthin.]* Rwy'n arbennig o ddiolchgar iddo am ei allu i ddangos yr ymrwymiad a'r diddordeb hwnnw heb gyfeirio at doiledau ar drenau na bychanu system reilffyrdd Cymru o'i chymharu â rhai'r Almaen a Japan.

In his contribution, Aled outlined the pressing economic reasons as to why we need electrification to go ahead. Electrification would provide a huge boost to the economy of north Wales, securing the future of the important businesses that we already have in north-east Wales and helping to develop the economy of north-west Wales, which for too long has been underperforming and has not had the infrastructure it needs to compete.

Yn ei gyfraniad, amlinellodd Aled y rhesymau economaidd dybryd pam mae angen trydaneiddio. Byddai trydaneiddio yn rhoi hwb enfawr i economi gogledd Cymru, gan sicrhau dyfodol y busnesau pwysig sydd gennym eisoes yn y gogledd-ddwyrain a helpu i ddatblygu economi'r gogledd-orllewin, sydd wedi bod yn tanberfformio am gyfnod rhy hir ac nad yw wedi cael y seilwaith sydd ei angen arni i gystadlu.

Byron, we will be supporting amendment 1 this afternoon, and I thank you for your supportive comments and for reiterating the support of the Secretary of State for Wales in driving this project forward.

Byron, cefnogwn welliant 1 y prynhawn yma, a diolchaf ichi am eich sylwadau cefnogol ac am ailadrodd cefnogaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru o ran datblygu'r prosiect hwn.

Eluned made mention of the fact that we are at our best as an institution when we can speak with one voice. When we can do that, we can deliver for the whole of Wales, as the electrification of the line all the way to Swansea and in the Valleys has demonstrated. She went on to outline how this project would be well aligned with the priorities of the current Welsh Government, and she also outlined the benefits of electrification in taking pressure off the A55, as well the environmental benefits that such a project would bring in lowering emissions. There is also the potential not only to maintain current levels of service, but to use

Soniodd Eluned am y ffaith ein bod yn gweithredu orau fel sefydliad pan siaradwn ag un llais. Pan allwn wneud hynny, gallwn gyflawni dros Gymru gyfan, fel y mae trydaneiddio'r rheilffordd yr holl ffordd i Abertawe ac yn y Cymoedd wedi dangos. Aeth yn ei blaen i amlinellu sut y byddai'r prosiect hwn yn cyfateb yn dda i flaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru ac amlinellodd hefyd fanteision trydaneiddio o ran lleihau'r pwysau ar yr A55, yn ogystal â'r manteision amgylcheddol y byddai prosiect o'r fath yn eu cynnig o ran lleihau allyriadau. Mae potensial hefyd nid yn unig i gynnal y lefelau presennol o wasanaeth, ond i

electrification as an opportunity to drive up service on the railways, especially with regard to freight. A number of speakers, including Eluned, talked about the TEN-T programme, and the important European dimension to this. That demonstrates that this not only involves councils and businesses in the area, and this Chamber and the Westminster Government—there is also a very important European dimension. Antoinette went on to ask the Minister what he is doing to lobby the European Commissioner about the importance of the designation of this route.

ddefnyddio trydaneiddio fel cyfle i wella gwasanaeth ar y rheilffyrdd, yn enwedig o ran cludo nwyddau. Soniodd nifer o siaradwyr, gan gynnwys Eluned, am y rhaglen TEN-T, a'r dimensiwn Ewropeaidd pwysig i hyn. Mae hynny'n dangos bod hyn nid yn unig yn cynnwys cynghorau a busnesau yn yr ardal, a'r Siambr hon a'r Llywodraeth yn San Steffan—ceir hefyd ddimensiwn Ewropeaidd pwysig iawn. Aeth Antoinette aeth yn ei blaen i ofyn i'r Gweinidog beth y mae'n ei wneud i lobïo'r Comisiynydd Ewropeaidd am bwysigrwydd dynodi'r llwybr hwn.

I thank Ken Skates for his positive contribution. He was right to highlight the real dangers that the high-speed rail announcement potentially brings to this part of the world. The high-speed rail investment is welcome, but it brings an even greater need to get this project right for north Wales. We could find that the investment in high-speed rail disadvantages this part of the world if we do not put this business case forward now. The original Taith rail strategy did not consider electrification in detail, but the world has moved on since then, the rules of the game have changed, and we need to catch up. I am very glad the Minister has announced that he will be taking advantage of the resources within the HLOS programme to work up the business case as strongly as possible in order to convince the UK Government of the need to invest.

Diolch i Ken Skates am ei gyfraniad cadarnhaol. Roedd yn llygad ei le i dynnu sylw at y peryglon gwirioneddol y gall cyswllt rheilffordd cyflym eu peri i'r rhanbarth hwn. Croesewir y buddsoddiad mewn rheilffyrdd cyflym, ond cyfyd mwy o angen byth i sicrhau y cyflawnir y prosiect hwn i'r gogledd. Gallem weld bod buddsoddi mewn cyswllt rheilffordd cyflyml yn gosod y rhanbarth hwn dan anfantais os na fyddwn yn cyflwyno'r achos busnes hwn yn awr. Nid yw strategaeth rheilffyrdd wreiddiol Taith yn ystyried trydaneiddio yn fanwl, ond mae'r byd wedi symud ymlaen ers hynny, mae rheolau'r gêm wedi newid, ac mae angen inni ddal i fyny. Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd yn manteisio ar yr adnoddau o fewn rhaglen HLOS i ddatblygu achos busnes mor gryf â phosibl er mwyn argyhoeddi Llywodraeth y DU o'r angen i fuddsoddi.

Alun Ffred talked about the importance of the European dimension, and this route as a strategic link into the Irish economy. Mark—bless you, Mark, you almost upset the tone of the debate with your history lesson, but in name-checking the previous Secretary of State you reminded me of a phrase she often used to me in our meetings. Whenever she thought I was getting a bit uppity she would tell me that such an attitude would butter no parsnips. Whatever that actually meant, I understood it to mean that sometimes, in an argument, it is better to forget the past, tone down the uppitiness and take the opportunities to work together. That way, we will achieve more.

Soniodd Alun Ffred am bwysigrwydd y dimensiwn Ewropeaidd, ac mae'r llwybr hwn yn gyswllt strategol ag economi Iwerddon. Bendith arnoch Mark, bu bron ichi gynhyrfu'r dyfroedd gyda'ch gwers hanes, ond wrth gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol, gwnaethoch fy atgoffa o ymadrodd a ddefnyddiwyd yn aml ganddi yn ein cyfarfodydd. Pa bryd bynnag y byddai'n teimlo fy mod yn dechrau meddwl fy hun yn rhywun, byddai'n dweud wrthyf na wna geiriau teg hau'r tir. Beth bynnag roedd hynny'n ei olygu mewn gwirionedd, yr hyn a ddeallais wrtho oedd ei bod, weithiau, mewn dadl, yn well anghofio am y gorffennol, bod yn llai croch a manteisio ar y cyfleoedd i gydweithio. Drwy wneud hynny, byddwn yn cyflawni mwy.

Carl, I am grateful to you for your confirmation this afternoon, on top of your statement, of your desire for the Welsh Government to play its part in taking this forward and developing the business case. I am also glad to hear that you are prepared to give this Chamber updates on the Halton curve. It is something that Aled Roberts talks to me about a lot. I understand that it is very important, and I am sure that he would like to avail himself of the opportunity to discuss it at every moment possible.

Carl, rwy'n ddiolchgar ichi am eich cadarnhad y prynhawn yma, yn ogystal â'ch datganiad, o'ch awydd i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan yn y gwaith o hyrwyddo hyn a datblygu'r achos busnes. Rwyf hefyd yn falch o glywed eich bod yn barod i roi'r newyddion diweddaraf i'r Siambr hon am linell Halton curve. Mae'n rhywbeth y mae Aled Roberts yn siarad â mi yn ei gylch yn aml. Deallaf ei fod yn bwysig iawn, ac rwy'n siŵr y byddai'n hoffi manteisio ar y cyfle i'w drafod ar bob cyfle posibl.

I am glad that, although we started this afternoon's opposition debates in an atmosphere of argument and fractiousness, we have been able to end with an issue that has brought consensus to the Chamber. I am sure that we all look forward to playing our part in securing the electrification of the north Wales line, and, once we have achieved that, we can start our work on the Heart of Wales line.

Rwy'n falch, er inni ddechrau dadleuon y gwrthbleidiau y prynhawn yma mewn awyrgylch dadleuol a blin, ein bod wedi gallu dod â'r cyfan i ben gyda mater sydd wedi dod â chytundeb i'r Siambr. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan i sicrhau y caiff rheilffordd y gogledd ei thrydaneiddio, ac, unwaith y byddwn wedi cyflawni hynny, gallwn ddechrau ein gwaith ar reilffordd Calon Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is no objection. The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.
*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff y cynnig heb ei ddiwygio ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are. Clerk, please ring the bell.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn inni symud i'r cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf fod. Glerc, canwch y gloch.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5131: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Motion NDM5131: For 12, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn

Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5131: O blaid 17, Ymatal 9, Yn erbyn 27.*
*Amendment 1 to NDM5131: For 17, Abstain 9, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.

Rathbone, Jenny
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5131: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 2 to NDM5131: For 26, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM5129: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 44.*
*Motion NDM5129: For 9, Abstain 0, Against 44.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5129: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 1 to NDM5129: For 26, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John

Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5129: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 2 to NDM5129: For 26, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5129: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 36.*
*Amendment 3 to NDM5129: For 17, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton

| | |
|---|---|
| Black, Peter | Antoniw, Mick |
| Burns, Angela | Chapman, Christine |
| Davies, Andrew R.T. | Cuthbert, Jeff |
| Davies, Byron | Davies, Alun |
| Davies, Paul | Davies, Jocelyn |
| Finch-Saunders, Janet | Davies, Keith |
| George, Russell | Drakeford, Mark |
| Graham, William | Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord |
| Isherwood, Mark | Evans, Rebecca |
| Millar, Darren | Gething, Vaughan |
| Parrott, Eluned | Gregory, Janice |
| Powell, William | Griffiths, John |
| Ramsay, Nick | Griffiths, Lesley |
| Roberts, Aled | Hart, Edwina |
| Sandbach, Antoinette | Hedges, Mike |
| Williams, Kirsty | Hutt, Jane |
| | Jenkins, Bethan |
| | Jones, Alun Ffred |
| | Jones, Ann |
| | Jones, Carwyn |
| | Jones, Elin |
| | Lewis, Huw |
| | Mewies, Sandy |
| | Morgan, Julie |
| | Neagle, Lynne |
| | Price, Gwyn R. |
| | Rathbone, Jenny |
| | Sargeant, Carl |
| | Skates, Kenneth |
| | Thomas, Gwenda |
| | Thomas, Rhodri Glyn |
| | Thomas, Simon |
| | Watson, Joyce |
| | Whittle, Lindsay |
| | Wood, Leanne |

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5129: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Amendment 4 to NDM5129: For 12, Abstain 0, Against 41.*

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: The following Members voted for: | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn: The following Members voted against: |
|---|---|
| Asghar, Mohammad | Andrews, Leighton |
| Burns, Angela | Antoniw, Mick |
| Davies, Andrew R.T. | Black, Peter |
| Davies, Byron | Chapman, Christine |
| Davies, Paul | Cuthbert, Jeff |
| Finch-Saunders, Janet | Davies, Alun |
| George, Russell | Davies, Jocelyn |
| Graham, William | Davies, Keith |
| Isherwood, Mark | Drakeford, Mark |
| Millar, Darren | Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord |
| Ramsay, Nick | Evans, Rebecca |
| Sandbach, Antoinette | Gething, Vaughan |
| | Gregory, Janice |
| | Griffiths, John |
| | Griffiths, Lesley |
| | Hart, Edwina |
| | Hedges, Mike |
| | Hutt, Jane |
| | Jenkins, Bethan |
| | Jones, Alun Ffred |
| | Jones, Ann |

Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

5.45 p.m.

5.45 p.m.

*Gwelliant 5 i NDM5129: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 14.*
*Amendment 5 to NDM5129: For 39, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Rathbone, Jenny
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 6 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 6 deselected.*

*Gwelliant 7 i NDM5129: O blaid 25, Ymatal 1, Yn erbyn 27.*
*Amendment 7 to NDM5129: For 25, Abstain 1, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Finch-Saunders, Janet

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

Cynnig NDM5129 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

*1. Yn dathlu bod y Gymraeg yn rhan annatod a hanfodol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac yn croesawu bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi codi mewn nifer o ardaloedd*

Motion NDM5129 as amended:

*To propose that the National Assembly:*

*1. Celebrates that the Welsh language is an integral and essential part of the culture and heritage of Wales and welcomes that the number of Welsh speakers in several non-*

*nad ydynt yn rhai traddodiadol;*

*traditional areas has increased;*

*2. Yn gresynu'n arw wrth y gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011;*

*2. Regrets deeply the decline in the number and percentage of Welsh speakers noted in the 2011 Census;*

*3. Yn nodi bod angen gweithredu ar unwaith i wneud iawn am y gostyngiad a sicrhau dyfodol Cymru fel cenedl ddwyieithog;*

*3. Notes that action must urgently be taken to redress the decline and secure the future of Wales as a bilingual nation;*

*4. Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth y DU i dorri rhagor ar gyllideb S4C dros y ddwy flynedd nesaf a hithau'n adeg pan ddylai pawb fod yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer yr iaith; a*

*4. Regrets the decision by the UK Government to cut further the budget for S4C in the next two years at a time when everyone should be prioritising support for the language; and*

*5. Yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu, ynghyd â'r chwe maes gweithredu a amlinellir yn Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Iaith Fyw: Iaith Byw, sef:*

*5. Notes the Welsh Government's vision of seeing the Welsh language thrive and the six areas of action set out in its Welsh Language Strategy 2012-17, A living language: a language for living, which are:*

*a) annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd;*

*a) to encourage and support the use of the Welsh language within families;*

*b) cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;*

*b) to increase the provision of Welsh-medium activities for children and young people and to increase their awareness of the value of the language;*

*c) cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned;*

*c) to strengthen the position of the Welsh language in the community;*

*d) cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;*

*d) to increase opportunities for people to use Welsh in the workplace;*

*e) gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion; ac*

*e) to improve Welsh language services to citizens; and*

*f) cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.*

*f) to strengthen the infrastructure for the language, including digital technology.*

*Cynnig NDM5129 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Ymatal 17, Yn erbyn 9.*
*Motion NDM5129 as amended: For 27, Abstain 17, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Sargeant, Carl
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Hart, Edwina
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Griffiths, John

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Thomas, Gwenda
Davies, Alun
Cuthbert, Jeff
Mewies, Sandy
Hedges, Mike
Chapman, Christine
Davies, Keith
Morgan, Julie
Skates, Kenneth
Antoniw, Mick
Gething, Vaughan
Watson, Joyce
Jones, Ann
Evans, Rebecca
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Drakeford, Mark
Price, Gwyn R.

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM5129 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5129 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Sut y Mae Mynd â Busnes Cymru yn Rhyngwladol
### How to take Welsh Business International

**Mohammad Asghar:** I have agreed that Eluned Parrott may contribute after my speech.

**Mohammad Asghar:** Rwyf wedi cytuno y gall Eluned Parrott gyfrannu ar ôl fy araith.

Last year, I sought leave from the National Assembly to introduce an enterprise Bill. The intention of the Bill was to benefit not just one constituency or one group of stakeholders, but the whole of Wales. It would do this by setting clear, concise and

Y llynedd, gofynnais am ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno Bil menter. Bwriadwyd i'r Bil fod o fudd i Gymru gyfan, nid un etholaeth neu grŵp o randdeiliaid yn unig. Byddai'n gwneud hyn drwy osod targedau clir, cryno a gweladwy ar

visible targets for Wales's economic development. These would include measures to boost economic growth, employment, procurement and skills. These are the things that we are striving to bring to Wales in the hope that they will lead to greater economic prosperity and community cohesion.

gyfer datblygiad economaidd Cymru. Byddai'r rhain yn cynnwys mesurau i hybu twf economaidd, cyflogaeth, caffael a sgiliau. Mae'r rhain yn bethau rydym yn ymdrechu i'w cyflwyno i Gymru yn y gobaith y byddant yn arwain at fwy o ffyniant economaidd a chydlyniant cymunedol.

Sadly, I was unsuccessful in my attempt to bring an enterprise Bill before this Assembly. However, I believe that events since then have reinforced the argument that a new approach is required to promote enterprise in Wales, and that is why we need a Wales enterprise council. As I said last year, we need such an enterprise council to provide clear-cut guidelines and support for enterprise births, business start-ups and foreign investment in Wales. We need an authority in place, under independent leadership, to eradicate inequalities and to make the entrepreneurial gender gaps that exist all over Wales much smaller.

Yn anffodus, bûm yn aflwyddiannus yn fy ymgais i ddod â Bil menter gerbron y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, credaf fod pethau wedi digwydd ers hynny i atgyfnerthu'r ddadl bod angen dull newydd o hyrwyddo menter yng Nghymru, a dyna pam bod arnom angen cyngor menter ar gyfer Cymru. Fel y dywedais y llynedd, mae angen cyngor menter o'r fath arnom i ddarparu canllawiau clir a chymorth i egin-fentrau, busnesau newydd a buddsoddiad tramor yng Nghymru. Mae arnom angen awdurdod, o dan arweinyddiaeth annibynnol, i ddileu anghydraddoldebau a gwneud y bylchau rhwng y rhywiau ym myd entrepreneuriaeth ledled Cymru yn llawer llai.

Let us consider for a moment the scale of the problem. Sadly, Wales remains the poorest part of the United Kingdom. The key macro-economic indicators all illustrate that Wales is falling behind the rest of the United Kingdom. The unemployment rate and claimant count remain higher than the UK average, and figures for gross domestic product and gross value added continue to be lower than the UK average. The economies of west Wales and the south Wales Valleys have fallen further behind the European average and are the poorest in the United Kingdom. This is in spite of the Welsh Government spending billions of pounds on economic development, including two rounds of European Union structural funding. The latest figures show that Wales has the second lowest business start-up rate in the UK. In his interview on the Andrew Marr show in February 2010, the First Minister said that our problem is that our private sector is too small, and that we have to do more to unleash the entrepreneurial spirit that exists in Wales. I agree with that. Government cannot create private sector jobs, but it can create the conditions for businesses to hire more people.

Gadewch inni ystyried am eiliad maint y broblem. Yn anffodus, Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig o hyd. Mae'r holl ddangosyddion macro-economaidd allweddol yn dangos bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae'r gyfradd diweithdra a'r niferoedd sy'n hawlio budd-dal yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y DU, ac mae'r ffigurau ar gyfer cynnyrch mewnwladol crynswth a gwerth ychwanegol crynswth yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU. Mae economïau gorllewin Cymru a Chymoedd y de wedi syrthio ymhellach y tu ôl i'r cyfartaledd Ewropeaidd a'r ardaloedd hyn yw'r rhai tlotaf yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwario biliynau o bunnoedd ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys dau gylch o arian strwythurol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai Cymru sydd â'r gyfradd isaf ond un yn y DU o ran busnesau newydd. Yn ei gyfweliad ar raglen Andrew Marr ym mis Chwefror 2010, dywedodd y Prif Weinidog mai'r broblem sy'n ein hwynebu ni yw bod ein sector preifat yn rhy fach, a bod yn rhaid inni wneud mwy i ysgogi'r ysbryd entrepreneuraidd sy'n bodoli yng Nghymru. Cytunaf â hynny. Ni all y Llywodraeth greu

swyddi yn y sector preifat, ond gall greu'r amodau i fusnesau recriwtio mwy o bobl.

I very much welcome the Westminster Government's commitment to completing the electrification of the main Swansea to London line in 2018 and starting work to do the same to the Valleys line in 2019. More must be done to improve rail links to major centres such as Newport, which is the gateway to Wales. The recent increases in tolls on the Severn bridge add to the costs facing Welsh businesses and I urge the Minister to initiate discussions with Westminster to see what can be done to reduce this burden.

Croesawaf yn fawr ymrwymiad Llywodraeth San Steffan i gwblhau'r gwaith o drydaneiddio'r brif linell rhwng Abertawe a Llundain yn 2018 a dechrau gwaith i wneud yr un peth ar linell y Cymoedd yn 2019. Rhaid gwneud mwy i wella cysylltiadau rheilffordd i ganolfannau pwysig fel Casnewydd, sef y porth i Gymru. Mae'r cynnydd diweddar mewn tollau ar bont Hafren yn ychwanegu at y costau sy'n wynebu busnesau yng Nghymru, ac anogaf y Gweinidog i gychwyn trafodaethau gyda San Steffan i weld beth y gellir ei wneud i leihau'r baich hwn.

Good air links remain essential, and we discussed this in a long debate this afternoon. I support having the best world-class international airport in Wales. However, airports not only need travellers, they need maintenance, freight and other facilities. We should be considering another alternative to Cardiff, which was on the cards not long ago, namely an airport on the banks of the Severn estuary. That would be closely linked to rail and road around Newport and would not only serve the purpose of Wales, but the purpose of south-west England. If that project would be considered, it would create 50,000 jobs and £5 billion in economic growth for Wales. That airport would be like Hong Kong and Tokyo. It is not a new venture; it already exists.

Mae cysylltiadau awyr da yn dal i fod yn hanfodol, a buom yn trafod hyn mewn dadl hir y prynhawn yma. Rwyf o blaid cael y maes awyr rhyngwladol gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen mwy na theithwyr ar feysydd awyr, mae angen cyfleusterau cynnal a chadw, cyfleusterau cludo nwyddau a chyfleusterau eraill arnynt. Dylem fod yn ystyried dewis arall ar wahân i Gaerdydd, a ddaeth i'r amlwg yn gymharol ddiweddar, sef maes awyr ar lannau aber afon Hafren. Byddai ganddo gysylltiadau agos â rheilffyrdd a ffyrdd o gwmpas Casnewydd a byddai'n cyflawni'r diben ar gyfer Cymru, yn ogystal â de-orllewin Lloegr. Pe byddai'r prosiect yn cael ei ystyried, byddai'n creu 50,000 o swyddi a £5 biliwn mewn twf economaidd i Gymru. Byddai'r maes awyr hwnnw fel Hong Kong a Tokyo. Nid yw'n fenter newydd; mae'n bodoli eisoes.

Creating the conditions for enterprise requires removing the barriers to enterprise. One of the barriers faced by companies trying to expand is access to credit. The Welsh Government has acknowledged that there is a problem with bank financing through its provision of the small and medium-sized and micro-business loan funds via Finance Wales. However, the Federation of Small Businesses in Wales has expressed concern that these funding packages are not being adequately promoted in Wales. In reply to a written question on 19 September 2012, the Minister said that the SME investment fund had invested only £1 million out of a possible £40 million in only three businesses. Clearly,

Er mwyn creu'r amodau ar gyfer menter rhaid cael gwared ar y rhwystrau i fenter. Un o'r rhwystrau a wynebir gan gwmnïau sy'n ceisio ehangu yw mynediad i gredyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod problem o ran arian banciau drwy ddarparu cronfeydd benthyciadau i fusnesau bach a chanolig a micro-fusnesau drwy Cyllid Cymru. Fodd bynnag, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru wedi mynegi pryder nad yw'r pecynnau ariannu hyn yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol yng Nghymru. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ar 19 Medi 2012, dywedodd y Gweinidog fod y gronfa buddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint ond wedi buddsoddi £1

more needs to be done to raise awareness of the funding packages that are available to businesses in Wales. I receive constant complaints from constituents that high street banks are charging over 14% interest for business development borrowing to local businesses. How can they create wealth by paying so much interest to the banks, which actually created the problems for this country? Now is the time for the banks to help the country to get back on its feet. You should do something, and you should ask the Secretary of State for Wales to do something. You may say that this is not a devolved area, but these banks are making a lot of money from this nation, and it is about time that they helped the country with its financial problems.

filiwn o £40 miliwn posibl a hynny mewn dim ond tri busnes. Yn amlwg, mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r pecynnau ariannu sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru. Rwy'n derbyn cwynion cyson gan etholwyr bod banciau'r stryd fawr yn codi dros 14% o log ar fenthyciadau datblygu busnes i fusnesau lleol. Sut y gallant greu cyfoeth drwy dalu cymaint o log i'r banciau, sef y rhai sy'n gyfrifol am broblemau'r wlad hon yn y lle cyntaf? Nawr yw'r amser i'r banciau helpu'r wlad i godi ar ei thraed unwaith eto. Dylech wneud rhywbeth, a dylech ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud rhywbeth. Efallai y byddwch yn dweud nad yw hwn yn faes datganoledig, ond mae'r banciau hyn yn gwneud llawer o arian drwy'r genedl hon, ac mae'n hen bryd eu bod yn helpu'r wlad â'i phroblemau ariannol.

We also need to encourage more businesses in Wales to export. The stark fact is that only just over 2% of Welsh companies engage in exporting. That is a very strange figure. We are a nation. There is no-one here from Plaid Cymru, so how can you develop a nation when so many people who say they love Wales are not here to listen to what we want to talk about, which is developing the Welsh economy? They say that they love Wales. If this nation voted Conservative we would create and build this nation as a world-class economic country and the most successful nation on earth. I would like to sell our pure Welsh water to Arabs—from whom we are buying oil—which is a more important commodity in the middle east; we are throwing that water into rivers. That is the vision that people have in so many places around here.

Mae angen inni hefyd annog mwy o fusnesau yng Nghymru i allforio. Y gwir plaen yw mai dim ond ychydig dros 2% o gwmnïau yng Nghymru sy'n allforio. Mae hwnnw'n ffigur rhyfedd iawn. Rydym yn genedl. Nid oes unrhyw un yma o Blaid Cymru, felly sut y gallwch chi ddatblygu cenedl pan fod cymaint o bobl sy'n dweud eu bod yn caru Cymru yn methu â bod yma i wrando ar yr hyn rydym am siarad amdano, sef datblygu economi Cymru? Maent yn dweud eu bod yn caru Cymru. Pe byddai'r genedl hon yn pleidleisio dros y Ceidwadwyr byddem yn creu ac yn adeiladu'r genedl hon fel gwlad economaidd o'r radd flaenaf a'r wlad fwyaf llwyddiannus ar y ddaear. Hoffwn werthu ein dŵr pur Cymreig i Arabiaid—y rhai rydym yn prynu olew oddi wrthynt—sy'n nwydd pwysicach yn y dwyrain canol; rydym yn taflu'r dŵr hwnnw i mewn i afonydd. Dyna'r weledigaeth sydd gan bobl mewn cymaint o leoedd ar hyd y lle.

Only 2% of Welsh companies engage in exporting. That is the lowest figure of any UK region and it is below the UK average. That is a shame. There are many commodities that we can export to the world. People do not have the vision. Sadly, your Government has been in power here for the last 13 years. Our First Minister has visited countries around the world—China, the USA and now he is talking about visiting Turkey. As a result of visiting all these countries,

Dim ond 2% o gwmnïau Cymru sy'n allforio. Dyna'r ffigur isaf o holl ranbarthau'r DU ac mae'n is na chyfartaledd y DU. Mae hynny'n drueni. Mae llawer o nwyddau y gallwn eu hallforio i'r byd. Nid oes gan bobl y weledigaeth. Yn anffodus, mae eich Llywodraeth wedi bod mewn grym yma ers y 13 blynedd diwethaf. Mae ein Prif Weinidog wedi ymweld â gwledydd ledled y byd—Tsieina, UDA ac yn awr mae'n siarad am ymweld â Thwrci. Beth a gyflawnwyd drwy

what has been achieved? Minister, sadly, results show that we are not improving our export levels. As a matter of fact, they are declining. Therefore, where is the success? I do not doubt the ability of the First Minister, but he needs to totally reconsider his approach. Also, recent statistics reveal that the value of Welsh exports has declined in the second and third quarters of 2012. Research by the European Commission has highlighted the benefits of internationalisation by small companies for the development of local economies. Their findings show that SMEs that export report stronger employment growth, as well as greater innovation in developing new products and services. Internationalisation brings enhanced productivity, increased sales, higher profit margins and the diversification of risk through accessing a wider customer base.

ymweld â'r holl wledydd hyn? Weinidog, yn anffodus, mae'r canlyniadau'n dangos nad ydym yn gwella ein lefelau allforio. Yn wir, maent yn dirywio. Felly, ble mae'r llwyddiant? Nid wyf yn amau gallu'r Prif Weinidog, ond mae angen iddo ailystyried yn llwyr ei ddull o weithredu. Hefyd, mae ystadegau diweddar yn dangos bod gwerth allforion o Gymru wedi gostwng yn ystod ail a thrydydd chwarter 2012. Mae ymchwil gan y Comisiwn Ewropeaidd wedi tynnu sylw at sut y gall rhyngwladoli ymhlith cwmnïau bach fod o fudd i ddatblygiad economïau lleol. Mae eu canfyddiadau yn dangos bod busnesau bach a chanolig eu maint sy'n allforio yn gweld twf cryfach mewn cyflogaeth, yn ogystal â mwy o arloesedd wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Mae rhyngwladoli yn arwain at fwy o gynhyrchiant, cynnydd mewn gwerthiannau, elw uwch ac arallgyfeirio risg drwy ddefnyddio sylfaen cwsmeriaid ehangach.

A House of Commons report entitled 'Exporting out of recession' stated:

Dywedodd adroddiad gan Dŷ'r Cyffredin o'r enw 'Exporting out of recession':

'For companies, investing and selling overseas tends to improve productivity, innovation and financial performance. Selling overseas helps businesses achieve economies of scale and levels of growth and revenue not otherwise possible; reduce their dependence on a single or small number of markets; and increase the commercial life span of their products or services, with raised returns on investment. These companies are more likely to have capital to invest in new innovation and product development in the UK, and to maintain or create jobs.'

Ar gyfer cwmnïau, mae buddsoddi a gwerthu dramor yn tueddu i wella cynhyrchiant, arloesedd a pherfformiad ariannol. Mae gwerthu dramor yn helpu busnesau i sicrhau arbedion maint a lefelau o dwf a refeniw nad ydynt yn bosibl fel arall; lleihau eu dibyniaeth ar un neu nifer fach o farchnadoedd; ac ymestyn oes fasnachol eu cynnyrch neu wasanaethau, gan wneud mwy o elw o fuddsoddi. Mae'r cwmnïau hyn yn fwy tebygol o gael cyfalaf i fuddsoddi mewn gwaith arloesi a datblygu cynnyrch newydd yn y DU, ac i gynnal neu greu swyddi.

It is a matter of concern, therefore, that Wales tends not to engage in international trade. When it does so, it trades overwhelmingly with the European Union, a market facing immense problems due to the crisis in the euro. I think, Minister, that we should be looking away from Europe and to the Commonwealth countries. I would be grateful if you could advise the First Minister to go to those countries where there are many possibilities for Welsh exports. The Scottish Government has recognised that internationalisation is critical in delivering its aim of increasing sustainable economic

Mae'n peri pryder, felly, fod Cymru yn tueddu i beidio â chymryd rhan mewn masnach ryngwladol. Pan fydd yn gwneud hynny, mae'n masnachu â'r Undeb Ewropeaidd gan amlaf, marchnad sy'n wynebu problemau aruthrol o ganlyniad i argyfwng yr ewro. Credaf, Weinidog, y dylem fod yn tynnu ein sylw oddi ar Ewrop a'i droi i gyfeiriad gwledydd y Gymanwlad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gynghori'r Prif Weinidog i fynd i'r gwledydd hynny lle mae llawer o bosibiliadau ar gyfer allforion o Gymru. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod bod rhyngwladoli yn hanfodol er

performance. Its economic strategy sets a target for export growth to exceed GDP growth. Internationalisation is critical in delivering the Scottish Government’s aim of increasing sustainable economic growth. It is crucial here in Wales, too.

mwyn cyflawni ei nod o berfformio mewn ffordd fwy cynaliadwy yn economaidd. Mae ei strategaeth economaidd yn gosod targed i allforion dyfu mwy na CMC. Mae rhyngwladoli yn hanfodol er mwyn cyflawni nod Llywodraeth yr Alban o gynyddu twf economaidd cynaliadwy. Mae’n hanfodol yma yng Nghymru, hefyd.

We must also do more to boost inward investment in Wales. Figures provided by UK Trade & Investment show that the number of active foreign direct investment projects in Wales fell to only 23 last year, compared with 36 the previous year. That is the sad scenario. This number is below the number of projects in any region or other devolved nation of the UK. It represents just 1.6% of the UK total, while Scotland attracted around 11%. It is clear that Welsh success in attracting foreign businesses has continued to deteriorate and that we need to raise our game.

Rhaid inni hefyd wneud mwy i hybu mewnfuddsoddi yng Nghymru. Mae ffigurau a ddarparwyd gan Masnach a Buddsoddi y DU yn dangos bod nifer y prosiectau buddsoddi uniongyrchol tramor sy’n weithredol yng Nghymru wedi gostwng i ddim ond 23 y llynedd, o gymharu â 36 y flwyddyn flaenorol. Mae hon yn sefyllfa drist. Mae’r rhif hwn yn is na nifer y prosiectau mewn unrhyw ranbarth arall neu unrhyw un o wledydd datganoledig eraill y DU. Mae’n cynrychioli dim ond 1.6% o gyfanswm y DU, tra bod yr Alban wedi denu tua 11%. Mae’n amlwg bod llwyddiant Cymru wrth ddenu busnesau tramor wedi parhau i ddirywio a bod angen inni berfformio’n well.

The Minister herself admitted in March that she did not think that she had got the brand of Wales right. It is vital that we get the brand right if we are to promote Wales abroad as a place that is open for business and to encourage tourism. We must do more to raise awareness of our historic and religious heritage to attract visitors to Wales from overseas countries.

Cyfaddefodd y Gweinidog ei hun ym mis Mawrth nad oedd yn meddwl ei bod wedi cael brand Cymru yn iawn. Mae’n hanfodol ein bod yn cael y brand yn iawn os ydym am hyrwyddo Cymru dramor fel lle sy’n agored i fusnes ac annog twristiaeth. Mae’n rhaid inni wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o’n treftadaeth hanesyddol a chrefyddol er mwyn denu ymwelwyr i Gymru o wledydd tramor.

6.00 p.m.

6.00 p.m.

Research suggests that the major barriers to internationalisation are a lack of financial resources, pressure on management time and a lack of knowledge of foreign markets. I believe that a Wales enterprise council would provide the capacity, ability and resources to tackle these problems. It would provide a one-stop shop giving clear advice on funding programmes and would facilitate access to overseas markets. It would support business start-ups by providing information and advice to new entrepreneurs.

Mae ymchwil yn awgrymu mai’r prif rwystrau i ryngwladoli yw diffyg adnoddau ariannol, pwysau ar amser rheolwyr a diffyg gwybodaeth am farchnadoedd tramor. Credaf y byddai cyngor menter ar gyfer Cymru yn darparu’r capasiti, y gallu a’r adnoddau i fynd i’r afael â’r problemau hyn. Byddai’n siop un stop i roi cyngor clir ar raglenni ariannu a byddai’n hwyluso mynediad i farchnadoedd tramor. Byddai’n helpu busnesau newydd drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor i entrepreneuriaid newydd.

The council would also boost foreign investment in Wales by encouraging international investors to visit and develop

Byddai’r cyngor hefyd yn rhoi hwb i fuddsoddiad tramor yng Nghymru drwy annog buddsoddwyr rhyngwladol i ymweld â

relationships with Welsh companies. It would work closely with UK Trade and Investment in supporting trade missions to ensure that Wales increases its profile abroad. In short, a Wales enterprise council would fill the gap and provide a brand that is recognised at home and abroad.

chwmnïau yng Nghymru a datblygu cydberthnasau â hwy. Byddai'n gweithio'n agos gyda Masnach a Buddsoddi y DU i gefnogi teithiau masnach er mwyn sicrhau bod Cymru yn codi ei phroffil dramor. Yn gryno, byddai cyngor menter ar gyfer Cymru yn llenwi'r bwlch ac yn darparu brand sy'n adnabyddus gartref a thramor.

The challenge we face is to encourage a more international approach to business. We need to make Wales a more attractive place for foreign investment and to support Welsh businesses to export, so that they take full advantage of the opportunities provided by the global economy. I believe that we need a Wales enterprise council and I ask for your support, Minister.

Yr her sy'n ein hwynebu yw annog dull mwy rhyngwladol o wneud busnes. Mae angen inni wneud Cymru yn lle mwy deniadol ar gyfer buddsoddiad tramor a helpu busnesau Cymru i allforio, fel eu bod yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan yr economi fyd-eang. Credaf fod angen cyngor menter arnom ar gyfer Cymru a gofynnaf am eich cefnogaeth, Weinidog.

**Eluned Parrott:** I thank you for bringing forward this debate today. In listening to you, no-one could doubt your commitment to the Welsh economy or your passion for the subject. When you outlined your vision of a Conservative Wales, you sent shivers down my spine, Oscar, but possibly not for the reasons you would wish for.

**Eluned Parrott:** Diolch ichi am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Wrth wrando arnoch, ni allai neb amau eich ymrwymiad i economi Cymru na'ch brwdfrydedd dros y pwnc. Pan wnaethoch amlinellu eich gweledigaeth o Gymru Geidwadol, fe wnaethoch anfon ias i lawr fy nghefn, Oscar, ond efallai nid am y rhesymau y byddech yn dymuno.

How to boost the entrepreneurial activity of Wales is a subject of critical importance to all of us in this Chamber. There are many opportunities that could be better pursued, and there are ways in which the universities, for example, could be encouraged to work more effectively with the Government and vice versa. There are also ways in which we could encourage the private sector to support and mentor small businesses and entrepreneurial activity.

Mae sut i roi hwb i weithgarwch entrepreneuraidd Cymru yn bwnc sydd o'r pwys mwyaf i bob un ohonom yn y Siambr hon. Mae llawer o gyfleoedd y gellid manteisio arnynt yn well, ac mae ffyrdd y gellid annog prifysgolion, er enghraifft, i weithio'n fwy effeithiol gyda'r Llywodraeth ac fel arall. Mae ffyrdd hefyd y gallem annog y sector preifat i gefnogi a mentora busnesau bach a gweithgarwch entrepreneuraidd.

With regard to a Newport airport, it was a good try, but I live in Rhoose so I cannot support that particular call. However, thank you for bringing forward this important debate today.

O ran maes awyr Casnewydd, roedd yn ymgais dda, ond rwy'n byw yn y Rhws felly ni allaf gefnogi'r alwad benodol honno. Fodd bynnag, diolch ichi am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I do not think that anyone doubts your passion for enterprise, export and the Welsh economy, Oscar, as you articulated back in February 2012 when you introduced a debate to introduce an enterprise (Wales) Bill and made points during that debate that you have made again today. As I indicated then, I was

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Ni chredaf fod neb yn amau eich brwdfrydedd dros fentergarwch, allforio ac economi Cymru, Oscar, fel y gwnaethoch egluro nôl ym mis Chwefror 2012 pan wnaethoch gyflwyno dadl i gyflwyno Bil menter (Cymru) a chodi pwyntiau yn ystod y ddadl honno yr ydych wedi eu codi unwaith eto heddiw. Fel y

concerned that most of the proposals that sat behind your proposed Bill were already largely in place, and I have not changed my position on that.

dywedais bryd hynny, roeddwn yn bryderus bod y rhan fwyaf o'r cynigion a oedd yn sail i'ch Bil arfaethedig eisoes yn eu lle i raddau helaeth, ac nid wyf wedi newid fy safbwynt ar hynny.

However, it is important that I address some of the issues that you have raised in the spirit that you raised them. In terms of inward investment, it has internationalised the economy of Wales and it has broadened the outlook for companies in Wales, which is very important. Supply chain opportunities presented at home by inward investment can lead to supply chain opportunities overseas if we are prepared to grasp the initiative. Welsh businesses working with inward investors in Wales provide an insight into the expectations of major international players and help to make companies here ready to trade internationally, which is an important issue.

Fodd bynnag, mae'n bwysig fy mod yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gennych yn yr ysbryd y gwnaethoch eu codi. Mae mewnfuddsoddi wedi rhyngwladoli economi Cymru ac wedi ehangu rhagolygon cwmnïau yng Nghymru, sy'n bwysig iawn. Gall y cyfleoedd a gyflwynir gan fewnfuddsoddiad i gadwyni cyflenwi domestig arwain at gyfleoedd i gadwyni cyflenwi tramor os ydym yn barod i fod yn flaengar. Mae busnesau o Gymru sy'n gweithio gyda mewnfuddsoddwyr yng Nghymru yn rhoi syniad inni o ddisgwyliadau chwaraewyr rhyngwladol o bwys ac yn helpu i wneud cwmnïau yma yn barod i fasnachu yn rhyngwladol, sy'n fater pwysig.

We have appointed trade and inward investment specialists to represent Wales in Brussels, which is a positive move, but I note your comments regarding trade with the European Union. We will seek opportunities for Wales and Welsh businesses in Belgium and beyond. We are also considering other critical geographic markets where we might also boost or establish Welsh representation. We are considering the trading opportunities presented particularly by emerging markets, but I will certainly take back the point that you made about countries within the commonwealth that we have historically traded with. One of the key points you made in this context was about the importance of the brand image of Wales, and how it must be a vibrant and live brand. That is something that I have taken on board, as I know Members across the Assembly Chamber have done.

Rydym wedi penodi arbenigwyr ym maes masnach a mewnfuddsoddi i gynrychioli Cymru ym Mrwsel, sy'n gam cadarnhaol, ond nodaf eich sylwadau o ran masnachu â'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i Gymru a busnesau Cymru yng Ngwlad Belg a thu hwnt. Rydym hefyd yn ystyried marchnadoedd daearyddol pwysig eraill lle y gallem hefyd roi hwb i bresenoldeb Cymru neu sefydlu presenoldeb Cymru. Rydym yn ystyried y cyfleoedd masnachu a gyflwynir yn arbennig gan farchnadoedd sy'n datblygu, ond byddaf yn sicr yn ystyried eich pwynt am wledydd o fewn y gymanwlad yr ydym wedi masnachu â hwy yn y gorffennol. Un o'r pwyntiau allweddol a wnaethoch yn y cyd-destun hwn oedd pwysigrwydd delwedd brand Cymru, a'r ffaith bod yn rhaid iddo fod yn frand trawiadol a byw. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi rhoi sylw iddo, a gwn fod Aelodau ar draws Siambr y Cynulliad wedi gwneud yr un peth.

You alluded to what is a great market for us, namely tourism, because when you spoke about the airports, it was not just about passengers wanting to go out of Wales, but about passengers whom we wish to attract into Wales, which is an important point. You made reference to our history, which is a

Gwnaethoch gyfeirio at farchnad sy'n dda inni, sef twristiaeth, oherwydd pan wnaethoch siarad am y meysydd awyr, nid dim ond teithwyr sydd am adael Cymru sydd o dan sylw, ond y teithwyr y dymunwn eu denu i Gymru, sy'n bwynt pwysig. Gwnaethoch gyfeirio at ein hanes, sy'n

brand image for Wales. I remember a conversation with the Deputy Presiding Officer, when he kindly addressed a group in my constituency, about Welsh castles being the finest in the world, even in comparison with the castles that were in Palestine. There are also issues around faith tourism, which the panel is working on now, and that entire market that we are able to use in Wales. That is an important point.

ddelwedd brand ar gyfer Cymru. Rwy'n cofio sgwrsio â'r Dirprwy Lywydd, pan fu'n ddigon caredig i annerch grŵp yn fy etholaeth, am y ffaith mai cestyll Cymru yw'r gorau yn y byd, hyd yn oed o'u cymharu â chestyll Palesteina. Mae materion hefyd yn ymwneud â thwristiaeth ffydd, y mae'r panel yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, a'r farchnad gyfan honno y gallwn ei defnyddio yng Nghymru. Mae hwnnw'n bwynt pwysig.

In terms of exports, one of the most important areas for us is still the United States of America. I was with a firm only today, which is very small but wants to expand in a highly specialised market and the majority of its trade is with the USA. I was told how easy it is to deal with USA, because you know where you are in terms of the regulations everywhere. There might be a lot of hoops, but you know where you are. It is important that we help companies like that, however small, to internationalise through their exports using four key platforms: raising awareness, improving knowledge and skills, finding opportunities and the whole issue of meeting the customer. A lot of business is done on the basis of your relationship with an individual, namely your customer, and the type of approach that you take.

O ran allforion, un o'r ardaloedd pwysicaf inni o hyd yw Unol Daleithiau America. Dim ond heddiw, roeddwn i gyda chwmni, sy'n fach iawn ond sydd eisiau ehangu yn farchnad hynod arbenigol ac sy'n masnachu ag UDA yn bennaf. Cefais wybod ei bod yn hawdd iawn delio ag UDA, gan eich bod yn gwybod ble rydych yn sefyll o ran y rheoliadau ym mhob man. Efallai bod llawer o reoliadau, ond gwyddoch beth mae'n rhaid ichi ei wneud. Mae'n bwysig ein bod yn helpu cwmnïau fel hyn, waeth pa mor fach ydynt, i ryngwladoli drwy eu hallforion gan ddefnyddio pedwar platfform allweddol: codi ymwybyddiaeth, gwella gwybodaeth a sgiliau, dod o hyd i gyfleoedd a'r mater o gwrdd â'r cwsmer. Caiff llawer o fusnes ei wneud ar sail eich cydberthynas ag unigolyn, sef eich cwsmer, a'r math o ddull gweithredu a ddefnyddiwch.

Therefore, raising awareness is important. We do business in Hong Kong and China, and in the USA—we have a relationship with Fairfax County Economic Development Authority and the US embassy, and the South Wales Chamber of Commerce is active in that area. We have also looked at opportunities in Libya, in partnership with the Libyan embassy, for Welsh companies, as that country grows, and at opportunities for Welsh companies to market themselves as part of the UK Trade and Investment's high-value opportunities programme. This is an important dimension, and we hold workshops across Wales.

Felly, mae codi ymwybyddiaeth yn bwysig. Rydym yn gwneud busnes yn Hong Kong a Tsieina, ac yn UDA—mae gennym gydberthynas ag Awdurdod Datblygu Economaidd Rhanbarth Fairfax a llysgenhadaeth yr UD, ac mae Siambr Fasnach De Cymru yn weithgar yn y maes hwnnw. Rydym hefyd wedi edrych ar gyfleoedd yn Libya, mewn partneriaeth â llysgenhadaeth Libya, i gwmnïau o Gymru, wrth i'r wlad honno dyfu, ac ar gyfleoedd i gwmnïau o Gymru farchnata eu hunain fel rhan o raglen cyfleoedd gwerth uchel Masnach a Buddsoddi y DU. Mae hwn yn ddimensiwn pwysig, ac rydym yn cynnal gweithdai ledled Cymru.

It is also about improving knowledge and skills. We do a free-of-charge programme to help people to plan for their export opportunities and, in addition, UKTI provides valuable services to companies in Wales. However, it is also about finding the

Mae a wnelo hefyd â gwella gwybodaeth a sgiliau. Mae gennym raglen am ddim i helpu pobl i gynllunio ar gyfer eu cyfleoedd allforio ac, yn ogystal, mae UKTI yn darparu gwasanaethau gwerthfawr i gwmnïau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae a wnelo hefyd â

opportunities, and we have the international trade opportunities programme that helps export-ready businesses to identify and capitalise on the markets and the overseas market introduction scheme, which is an UKTI service, provided by trade teams in the UK embassies, high commissions and consulates. It is important that, as a Government, we are engaging more with the UK embassies and consulates and with the people who are on the ground, because they are out there listening and articulating for the UK, and for us as we are part of the UK.

dod o hyd i'r cyfleoedd, ac mae gennym y rhaglen cyfleoedd masnach ryngwladol sy'n helpu busnesau sy'n barod i allforio i ddod o hyd i farchnadoedd a manteisio arnynt a'r cynllun cyflwyniad i farchnadoedd tramor, sef gwasanaeth gan UKTI a ddarperir gan dimau masnach yn llysgenadaethau, uchel gomisiynau a chonsyliaethau'r DU. Mae'n bwysig ein bod ni, fel Llywodraeth, yn ymgysylltu mwy â llysgenadaethau a chonsyliaethau'r DU a'r bobl ar lawr gwlad, oherwydd maent hwy allan yno yn gwrando ac yn trafod ar ran y DU, ac ar ein rhan ni gan ein bod yn perthyn i'r DU.

The part about meeting the customer is important in terms of the trade missions that we undertake. Some of them might not bring anything for a long time, but the fact is that you will have had the face-to-face dialogue and you will have to continue that engagement. We encourage Welsh businesses to go on the sector trade missions that UKTI organises. We have subsidised trade fairs, which are important, and they include Medica in Düsseldorf, which is an enormous trade fair, along with the Association for Unmanned Vehicles Systems International, which is another enormous trade fair, and Food and Hospitality China. We must make sure that everything we do links into giving opportunities for people to be part of these trade fairs. We have the tradeshow access programme, with eligibility grants for SMEs, which is funded by UKTI, and the overseas business development visit support, which we use to help companies as well. Therefore, quite a lot is going on there, but the issue for us is probably the packaging of this and the knowledge of companies out there of what is available from the Government. That is an important point.

Mae'r rhan am gwrdd â'r cwsmer yn bwysig o ran y teithiau masnach yr ydym yn eu cynnal. Efallai na fydd unrhyw beth yn deillio o rai ohonynt am amser hir, ond y ffaith yw y byddwch wedi cael y drafodaeth wyneb yn wyneb a bydd yn rhaid ichi barhau â'r cyswllt hwnnw. Rydym yn annog busnesau Cymru i fynd ar y teithiau masnach sector a drefnir gan UKTI. Rydym wedi rhoi cymhorthdal ar gyfer ffeiriau masnach, sy'n bwysig, ac yn eu plith mae Medica yn Düsseldorf, sy'n ffair fasnach enfawr, ynghyd â digwyddiad rhyngwladol y Gymdeithas Systemau Cerbydau Di-griw, sy'n ffair fasnach enfawr arall, a digwyddiad Bwyd a Lletygarwch Tsieina. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod popeth a wnawn yn cysylltu â rhoi cyfleoedd i bobl fod yn rhan o'r ffeiriau masnach hyn. Mae gennym y rhaglen mynediad i sioeau masnach a ariennir gan UKTI, gyda grantiau cymhwysedd i fusnesau bach a chanolig eu maint, a'r cymorth ar gyfer ymweliadau datblygu busnes tramor, yr ydym hefyd yn ei ddefnyddio i helpu cwmnïau. Felly, mae cryn dipyn yn mynd ymlaen, ond y broblem inni, yn ôl pob tebyg, yw sut y caiff y rhain i gyd eu pecynnu a gwybodaeth cwmnïau am beth sydd ar gael gan y Llywodraeth. Mae hwnnw'n bwynt pwysig.

The discussions that have come out of Oscar's short debate today have indicated what we are trying to do. We always hope that we can count on support for what we are, hopefully, doing well and encouragement in the areas where we are not doing well, perhaps by putting in more resources. I am always grateful for the opportunity, Deputy Presiding Officer, to reply to debates of this

Mae'r trafodaethau sydd wedi deillio o ddadl fer Oscar heddiw wedi dangos beth rydym yn ceisio ei wneud. Rydym bob amser yn gobeithio y gallwn ddibynnu ar gefnogaeth i'r hyn rydym, gobeithio, yn ei wneud yn dda ac anogaeth yn y meysydd hynny lle nad ydym yn gwneud yn dda, efallai drwy gynnig mwy o adnoddau. Rwyf bob amser yn ddiolchgar am y cyfle, Ddirprwy Lywydd, i

nature, which are always taken in good part in terms of a genuine discussion.

ymateb i ddadleuon fel hyn, sydd bob amser yn cael eu cynnal yn yr ysbryd iawn yn nhermau trafodaeth ddilys.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.08 p.m.*
*The meeting ended at 6.08 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)

Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank